



Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 15FED EBRILL, 2021**

***NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.15YB***

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

**\* NODER \***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**[https://gwynedd.public-i.tv/core//cy\\_GB/portal/home](https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home)**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**[eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 7 Ebrill 2021)

# **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

## **AELODAETH (18)**

### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Steve Collings  
E. Selwyn Griffiths  
Gareth Tudor Morris Jones  
Olaf Cai Larsen  
Mair Rowlands

Aled Ll. Evans  
Judith Mary Humphreys  
Huw Gruffydd Wyn Jones  
Rheinallt Puw  
Paul John Rowlinson

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Freya Bentham  
Beth Lawton  
Elfed Powell Roberts

Elwyn Jones  
Dewi Wyn Roberts

### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Alwyn Gruffydd

### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Dewi Owen

### **Y Blaid Genedlaethol (1)**

[sedd wag]

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## **AELODAU CYFETHOLEDIG:**

### **Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig**

Anest Gray Frazer	Eglwys yng Nghymru
Colette Owen	Yr Eglwys Gatholig
Ruth Roe	Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Meirionnydd
Karen Vaughan Jones	Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Dwyfor
Manon Williams	Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Arfon

### **Heb Bleidlais:**

Dilwyn Elis Hughes	UCAC
Dylan Huw Jones	NASUWT

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

5 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2021 fel rhai cywir.

## 5. CYFLAWNI FFRAMWAITH YMGYSYLLTU A DATBLYGU 16 - 306 IEUENCTID YNG NGWYNEDD

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams**

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

\*10.30yb – 11.30yb

## 6. ADOLYGU'R GWASANAETH TEITHIOL LLYFRGELLOEDD

307 - 312

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Gareth Thomas**

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

\*11.30yb – 12.30yp

\*amcangyfrif o'r amseroedd

---

## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 4 CHWEFROR 2021

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Steve Collings, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Judith Humphreys, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Rheinalt Puw, Dewi Roberts, Elfed Powell Roberts a Mair Rowlands.

**Aelod Ex-officio:** Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd), Karen Vaughan Jones (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor), Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon), Dilwyn Elis Hughes (UCAC) a Dylan Huw Jones (NASUWT).

**Swyddogion yn bresennol:**

Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5a:**

Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)  
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)  
Debbie Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)  
Ellen Rowlands (Rheolwr TRACC)  
Bethan Griffith (Rheolwr Gwasanaethau Ategol Addysg)  
Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor)  
Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Arfon)  
Rhian Parry Jones (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd)  
Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5b:**

Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE)  
Sharon Vaughan (Arweinydd Craidd – Uwchradd, GwE)  
Catrin Fflur Roberts (Ymgynghorydd Her – GwE)  
Claire Rowlands (Arweinydd Craidd – Uwchradd / Ymgynghorydd Her – GwE)  
Geraint Evans (Arweinydd Craidd – Cynradd, GwE)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**

Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)  
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)  
Debbie Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor)  
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Economi a Chymuned)  
Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant, Economi a Chymuned)  
Sian Pennant Jones (Rheolwr Twristiaeth Marchnata a Digwyddiadau)

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:-

- Y Cynghorydd Rheinallt Puw, oedd wedi cymryd drosodd sedd y Cynghorydd Elin Walker Jones ar y pwyllgor, a diolchwyd i'r Cynghorydd Elin Walker Jones am ei gwasanaeth
- Colette Owen, yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig
- Manon Williams, yn cynrychioli rhieni / llywodraethwyr Arfon
- Ruth Roe, yn cynrychioli rhieni / llywodraethwyr Meirionnydd
- Karen Vaughan Jones, yn cynrychioli rhieni / llywodraethwyr Dwyfor
- Dylan Huw Jones, yn cynrychioli NASUWT

Dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn dilyn anhwylder diweddar.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd ac Anest Gray Frazer (Eglwys yng Nghymru).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y canlynol fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Selwyn Griffiths oherwydd bod ei ferch-yng-nghyfraith yn arwain yr Adran TRACC.
- Karen Vaughan Jones oherwydd ei bod yn rhiant i blentyn yn Ysgol Edern.

Nid oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y canlynol fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Dewi Roberts oherwydd bod ei ferch yn gweithio i Grŵp Llandrillo Menai.
- Karen Vaughan Jones oherwydd ei bod yn gweithio i Grŵp Llandrillo Menai.

Nid oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd, 2020 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ADRAN ADDYSG 2018-19 A 2019-20; YMATEB YR ADRAN ADDYSG A GWE I'R PANDEMIG COVID-19, Y GAGENDOR LLES A CHYRHAEDDIAD A DYSGU CYFUNOL

Croesawyd yr Aelod Cabinet Addysg a swyddogion yr Adran Addysg a GwE i'r cyfarfod.

### (A) ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2018-19, 2019-20, YMATEB YR ADRAN ADDYSG I'R PANDEMIG COVID-19 A BLAENORIAETHAU'R ADRAN

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn:-

- Manylu ar berfformiad blynyddoedd addysgu 2018-19 a 2019-20;
- Crynhoi ymateb yr Adran Addysg i'r Pandemig Covid-19;
- Amlinellu Blaenoriaethau'r Adran Addysg ar gyfer blwyddyn addysgu 2020-21.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, gan ddiolch i'r penaethiaid ac i staff yr ysgolion am eu holl waith caled a'u hymrwymiad yn ystod cyfnod y pandemig, fu'n bosib' gyda chefnogaeth yr Adran Addysg, GwE, y llywodraethwyr a'r rhieni. Ychwanegodd ei bod yn bwysig nodi, yng nghyd-destun lles, bod yna gydweithio agos wedi bod gydag Adran Plant y Cyngor yn ogystal, heb anghofio hefyd am y ffordd yr oedd y mwyafrif o blant a phobl ifanc wedi dygymod â'r sefyllfa.

Ategodd y Pennaeth Addysg y sylwadau hyn drwy nodi bod y cyfnod wedi bod yn her fel na welwyd o'r blaen, ac y bu'n rhaid i'r Adran a'r ysgolion ymateb yn dra gwahanol i sicrhau parhad addysg i'r plant, tra ar yr un pryd yn sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i les y dysgwyr a'r staff yn yr ysgolion. Nododd ymhellach:-

- Bod llythyr Prif Arolygydd Estyn at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd (a anfonwyd ar wahân at aelodau'r pwyllgor) yn amlygu barn gadarnhaol Estyn ynglŷn ag ymateb yr Adran wrth iddynt gefnogi ysgolion ac unedau cyfeirio yn ystod y cyfnod clo cyntaf, a hefyd o fis Medi ymlaen. Ychwanegodd fod ymateb yr ysgolion, gyda chefnogaeth yr Adran a GwE, yn amlwg yn y llythyr, a diolchodd o waelod calon i bawb am y ffordd y bu iddynt ymdopi â'r newidiadau er mwyn parhau gydag addysg a lles plant.
- Bod y cyfnod Covid wedi ceisio gosod cyfyngiadau ar addysg, ond bod y plant a'r bobl ifanc a'u gwydnwch a'u brwdfrydedd tuag at barhad addysg wedi profi nad yw addysg yn adnabod unrhyw ffiniau.
- Bod y cyfnod hefyd wedi gweld cryfhau pellach o ran y cydweithio rhanbarthol sydd wedi digwydd mewn sawl maes ar draws chwe awdurdod y Gogledd, a gyda GwE yn ogystal.
- Y ceisiwyd ar bob achlysur i symleiddio arweiniad Llywodraeth Cymru i'r ysgolion fel ei fod yn briodol yng nghyd-destun asesiadau risg, mesurau lliniaru yn sgil Covid, ayb.
- Y cynhaliwyd cyfarfodydd cyson gyda'r undebau hefyd, yn lleol ac yn rhanbarthol, i'w diweddarau ar ein cynlluniau, a chafwyd cydsyniad a chefnogaeth yr undebau i'r gwaith o gefnogi, nid yn unig y dysgwyr, ond y gweithlu addysg hefyd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Ategwyd diolchiadau'r Aelod Cabinet a'r Pennaeth Addysg i benaethiaid, staff a llywodraethwyr yr ysgolion am ymateb mor arwrol i'r her enfawr oedd yn eu hwynebu.
- Croesawyd y ffaith bod cynifer o chromebooks wedi'u dosbarthu i deuluoedd oedd heb fynediad at dechnoleg.
- Nodwyd ei bod yn galonogol gweld faint o waith oedd wedi digwydd, a'i bod yn amlwg o lythyr Estyn a chyflwyniad ac adroddiad y Pennaeth Addysg bod ein gwaith partneriaethol yn cael ei gydnabod fel cryfder.
- Nodwyd bod llythyr Estyn hefyd yn amlygu bod gwaith Gwynedd yn flaengar drwy Gymru i gyd, a bod hyn yn bwynt pwysig i'w gyfleu i'r athrawon.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- O ran yr ymgysylltu gydag addysg o bell, roedd yr ysgolion yn cadw golwg i ba raddau roedd y plant yn ymwneud â'r profiad ysgol, ac roedd trefniadau gwydn a thrylwyr yn eu lle i sicrhau bod ysgolion yn cynnig arweiniad ac anogaeth reolaidd i blant sy'n cael anawsterau, a'u teuluoedd. Hefyd, bu'r swyddogion lles yn cefnogi'r ysgolion drwy wneud ymholiadau stepen drws dros y cyfnod clo cyntaf, mewn ymgais i gynyddu'r ymgysylltiad gyda theuluoedd. Yn ystod y cyfnod clo presennol, roedd llai o gyfeiriadau yn dod i'r swyddogion lles, gan fod yr ysgolion yn gallu gweld y plant yn fyw ar y sgrin, ond roedd yr achosion oedd yn cael eu cyfeirio atynt yn rhai fyddai angen mwy o sylw.
- Y byddem yn debygol o weld rhai plant ychwanegol yn dod i'r categori ADY ar y lefelau isaf o ran angen. Byddai'r grant Carlam yn targedu'r plant yma oedd wedi disgyn ar ei hôl hi, ac angen yr hwb ychwanegol oherwydd y cyfnod.
- O ran ymyrraeth gynnar, ceisiwyd parhau drwy gydol y cyfnod gyda'r trefniadau o ran y cyfeirio, y cyswllt gyda'r ysgolion ac adnabod y plant mor fuan â phosib'. Gan hynny, ni fu unrhyw oedi o ran unrhyw drefn asesu statudol, ayb. Gwelwyd yn ystod tymor yr Hydref nad oedd y naid mewn cyfeiriadau mor sylweddol â'r disgwyl, a chredid bod hynny oherwydd y cyswllt gyda'r ysgolion yn ystod tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf a'r gwahoddiad i blant bregus fynychu'r ysgol yn ystod y cyfnod clo.
- Bod yr Adran wedi derbyn comisiwn i gydlynu gwaith trawsadrannol ac amlasiantaethol i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â gagendor lles a chyrrhaeddiad ein holl blant a phobl ifanc, gan gynnwys plant ag anghenion ADY a phlant sy'n agored i becynnau cynhwysiad, fel bod yr ymgysylltu yn briodol a chywir, a'r gorau y gall fod. Adnabuwyd tair ffrwd gwaith yn y maes yma, ac roedd hynny'n cynnwys dwyn ynghyd yr holl waith oedd yn digwydd ym meysydd addysg, yr economi, plant, iechyd cyhoeddus a GwE, er mwyn gweld sut y gellid lleihau'r gagendor ymhellach. Y ffrydiau a adnabuwyd oedd y ffrydiau blynyddoedd cynnar, (gan fod tystiolaeth yn dangos po fwyaf yw cyfraniad yr Adran a'r ysgolion i'r plant ieuengaf, gorau'n y byd maent yn gallu manteisio ar eu profiadau addysgol wrth ddilyn eu gyrfa drwy'r ysgol), a'r maes ôl-16, (er mwyn sicrhau nad yw'r cyfnod yma'n llesteirio eu gallu i symud ymlaen i'w camau nesaf yn eu gyrfa). Comisiynwyd gwaith i edrych ar waelodlin cyrrhaeddiad er mwyn sicrhau data clir yn dangos beth yw'r sefyllfa, a thros yr wythnosau nesaf byddai'r Adran yn cydlynu'r gwaith o roi rhaglen waith gref yn ei lle i ymateb, hyd yn oed yn fwy, i'r anghenion yma, fel y gellid adrodd i'r Bwrdd Cefnogi Llesiant Pobl ar y gwaith y gallai'r Cyngor a'i bartneriaid ei wneud i gadw llygaid ar y gagendor, a'i leihau gymaint â phosib'.
- Bod dyletswydd ar y Cyngor, fel cyflogwr cyfrifol, i gydnabod bod y cyfnod wedi creu straen mawr ar y gweithlu, ac i gyfarch hynny. Roedd gwaith rhanbarthol wedi digwydd i gynnig sesiynau lles ar gyfer y staff, ac ers cychwyn y cyfnod clo, bu'r Adran Addysg, gyda chymorth y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, yn rhagweithiol yn cynnig sesiynau lles i'r holl staff. Roedd systemau yn eu lle i alluogi i staff adrodd pryderon, ac roedd y gweithlu wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r sesiynau lles a ddarparwyd ar eu cyfer. Gan y bu'n rhaid i staff weithio ar rota yn ystod gwyliau'r Pasg y llynedd er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth ofal, trefnwyd iddynt gael pythefnos o wyliau o fewn ffenestr bedair wythnos. Estynnwyd gwahoddiad yn unigol i bob athro llanw gysylltu gyda'r Adran os oeddent wedi colli cyflogaeth oherwydd y sefyllfa, ac roedd gan yr Adran gynlluniau a gweithdrefnau priodol yn eu lle er mwyn digolledu'r bobl yma am y gwaith y byddent yn debygol o fod wedi'i gael mewn sefyllfa fwy arferol.



- O ran y sefyllfa TG, rhoddwyd system mewn lle ar gyfer brocera dyfeisiadau o ysgolion yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Roedd gan yr Adran stoc o chromebooks yn y sector gynradd, a llai ohonynt yn yr uwchradd. Yn y don gyntaf, rhannwyd ychydig dros 1,200 o ddyfeisiadau ar gyfer dysgwyr, ac roedd hynny'n pontio'r cynradd a'r uwchradd. Roedd mwy o ddyfeisiadau pen desg yn y sector uwchradd, a mwy o liniaduron yn y sector cynradd, a bu'r cynradd yn benthyg i'r uwchradd, er mwyn sicrhau bod dyfeisiadau ar gael i bawb oedd eu hangen. Yn ystod y cyfnod clo diweddaraf, roedd mwy o ffocws ar addysg (o gymharu â lles yn ystod y cyfnod clo cyntaf) ac roedd y don yma wedi bod yn ychydig haws i'r Adran. Yn ystod tymor yr Haf, fel rhan o'r Strategaeth Ddigidol, dosbarthwyd 2,700 o chromebooks newydd, oedd yn darparu digon o stoc i'r cynradd ei rannu allan, gyda mwy o stoc ar gael wedyn i'w rannu gyda'r uwchradd maes o law. Roedd y gwaith brocera'n parhau, a chynyddwyd y niferoedd dros 300-400 yn ystod y mis diwethaf.
- Bod yr athrawon angen y dyfeisiadau a'r rhwydweithiau gorau posib' i fedru dysgu o bell, ond nid oedd hynny'n gweithio bob tro. Dyma pam bod angen strategaeth ddysgu ddigidol. Roedd yn hysbys cyn y pandemig bod yna wendidau, ond roedd y sefyllfa dros y flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu hynny fwy. Roedd yr Adran yn flaengar wedi rhoi'r strategaeth mewn lle, ond yn rhwystredig bod Cofid wedi dod, ac wedi arafu argaeledd dyfeisiadau.
- Yn ogystal â'r chromebooks a ddosbarthwyd eisoes, archebwyd dros 3,500 o liniaduron, un i bob athro yn y sir, ac un i bob disgybl Blwyddyn 10 ac 11 yn y sir. 'Roedd 2,500 o chromebooks eraill ar y ffordd hefyd, ynghyd â dros 1,000 o ipads.
- O ran y gwahanol blatfformau, roedd Hwb yn ganolog i'r strategaeth. Roedd angen i'r athrawon gael yr hyblygrwydd i ddefnyddio'r plattform oedd yn gweddu orau i'r plant, yn eu tyb hwy, yn ôl oedran a'u gallu a'u sgiliau TG. Roedd Hwb yn caniatáu iddynt wneud hynny, ond nid oedd yn cyfyngu athrawon i fod yn defnyddio un meddalwedd dros y llall. Roedd Hwb yn esblygu'n barhaus hefyd. Gan hynny, ceisid annog yr ysgolion i ddefnyddio'r meddalwedd oedd ar gael yn Hwb, a pheidio dargyfeirio oddi ar hynny.
- Bod yr adroddiad cenedlaethol a ddarparwyd gan Estyn yn nodi bod y partneriaethau ar draws y Gogledd yn gryf iawn. Nid oedd yn briodol i gymharu gyda gweddill Cymru, ond roedd digon yn yr adroddiad oedd yn peintio darlun eithaf clir.

Ar ddiwedd y cwestiynu, nododd y Pennaeth Addysg ei ddymuniad i dynnu sylw at yr adran ynglŷn â'r Gymraeg yn yr adroddiad. Nododd:-

- Bod y cameo o Adroddiad Thematig Estyn ar waith yr Awdurdod Lleol i gefnogi hwyrddyfodiaid yn amlygu sut y llwyddodd yr Awdurdod i gydweithio gyda GwE a staff y canolfannau iaith i ddarparu'n wahanol yn ystod y cyfnod hwn, gan gyrraedd mwy o blant.
- Bod cwestiynau wedi codi'n ddiweddar ynghylch i ba raddau y gall rhieni di-gymraeg gefnogi eu plant. Roedd Swyddog Addysg Ardal Arfon a Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd wedi bod mewn cyfarfod rhanbarthol â Swyddogion GwE yn ddiweddar lle cododd hyn, ac o ganlyniad, bu penderfyniad i gronni'r arferion gorau ar draws siroedd y Gogledd er mwyn rhoi pecyn at ei gilydd i gefnogi gofalmwyr di-gymraeg i fod yn gwneud eu gorau i gefnogi addysg eu plant.

**(B) RHAGLEN WAITH GWE A CHEFNOGAETH I YSGOLION YN YSTOD PANDEMIG COVID-19**

Cyflwynwyd – adroddiad Arweinwyr Craidd GwE yn manylu ar sut roedd y consortiwm rhanbarthol, mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Lleol, wedi datblygu ac addasu er mwyn cefnogi ysgolion yn ystod y Pandemig Covid-19.

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad sleidiau manwl gan swyddogion GwE. Manylwyd ar:-

- Gynnwys y prif adroddiad
- Y gwaith i gefnogi'r Gymraeg
- Yr adnoddau ar Ganolfan Cefnogaeth GwE
- Adnoddau dysgu ac addysgu o bell
- Dysgu digidol
- Dysgu cyfunol
- Dysgu Carlam
- Llyfrgell adnoddau ysgol i ysgol
- Cyfleoedd dysgu proffesiynol
- Yr hyn ddigwyddodd o ran y sectorau cynradd, uwchradd ac arbennig yn lleol
- Y camau nesaf

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am yr adroddiad cynhwysfawr, oedd yn cyflwyno llawer o wybodaeth am waith GwE i gefnogi'r ysgolion oedd wedi gorfod addasu'n llwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Nodwyd bod yr adroddiad wedi rhoi darlun clir i'r aelodau o waith diweddar GwE o ran cefnogi ysgolion, ac argymhellwyd y dylid pasio'r adroddiad ymlaen i holl aelodau'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Y derbynnid bod yna agweddau cefnogi a monitro i waith GwE. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r penaethiaid o ran eu darpariaeth, ond yn amlwg roedd wedi bod yn fwy o her i arfarnu ansawdd yr hyn oedd wedi bod yn digwydd, oherwydd yr amgylchiadau. Byddai'r rhaglen waith ar gyfer y ddau dymor nesaf yn rhoi sylw i hynny, a gobeithid gwneud hynny ar y cyd â'r ysgolion, fel y gellid asesu ansawdd y ddarpariaeth a chynnig cefnogaeth sydd wedi'i deilwrio ar eu cyfer. Roedd hyn wedi'i gytuno ar y cyd rhwng y chwe chyfarwyddwr yn y Gogledd o ran y ffordd ymlaen.
- Y cytunid bod y sefyllfa'n hynod rwystredig i rai rheini, yn enwedig os nad ydynt yn y byd addysg. Gwelwyd enghreifftiau arbennig o effeithiol o ganllawiau i rieni gan ysgolion, ac roedd GwE hefyd wedi ceisio cefnogi hynny drwy lunio darpariaeth a chanllawiau cyffredinol i'r ysgolion fedru eu defnyddio a'u haddasu yn ôl eu dymuniad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

**6. YMGYSYLLTU ANFFURFIOL ADDYSG ÔL-16**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar y broses ymgysylltu anffurfiol gyda rhan-ddeiliaid ar Addysg Ôl-16 yn Arfon.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun drwy egluro mai ei fwriad oedd bod y drafodaeth yn cael ei hagor yn gyhoeddus. Os bu cyhuddiad yn y gorffennol ynglŷn â phenderfyniadau wedi'u gwneud ymlaen llaw, roedd yn awyddus bod y Cyngor yn mynd allan gyda llechen lan, a bod y cyfarfodydd yn dryloyw, agored, gwrthrychol ac efallai'n arloesol hefyd. Roedd yn croesawu'r ffaith bod y drafodaeth yn cychwyn yn Arfon, ac roedd yn croesawu'r syniadau oedd yn dod i law. Roedd rhai ysgolion wedi ymuno mwy yn y drafodaeth nag eraill, ac roedd cyfrifoldeb i sicrhau bod pob ysgol yn cymryd rhan. Cyfeiriodd yn benodol at fewnbwn aeddfed disgyblion Ysgol Tryfan ac Ysgol Brynrefail i un cyfarfod, oedd wedi gadael cryn argraff arno. Ychwanegodd y bu'r ddarpariaeth yn fratiog yn hanesyddol, a bod cyfle nawr i geisio cael cysondeb ar draws y sir, a sicrhau'r ddarpariaeth orau er lles y disgyblion.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Nodwyd bod pryder y gallai unrhyw newid wanhau'r Gymraeg, a bod awydd i wella dysgu drwy Gymraeg oherwydd y diffygion presennol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Mai cais y Cabinet oedd i'r gwasanaeth edrych ar y ddarpariaeth yn Arfon yn y lle cyntaf. Pwysleisiwyd bod dymuniad i adeiladu ar y cryfderau amlwg oedd yn y gyfundrefn ôl-16, a bod ffocws y drafodaeth ar hyn o bryd ar ysgolion Arfon. Roedd y cyfarfodydd anffurfiol wedi bod yn ddiddorol iawn, a'r trafodaethau wedi bod yn aeddfed ar lawer o opsiynau, yn amrywio o fân newidiadau i'r gyfundrefn bresennol i ganolfan chweched dosbarth ar gyfer yr holl ddisgyblion. Pwysleisiwyd nad oedd gan yr Adran gynlluniau pendant ar hyn o bryd, a bod angen dadansoddi'r ymatebion cyn adrodd i'r Cabinet. Ychwanegwyd bod y dystiolaeth yn dangos yn glir nad yw'r safonau yn gyson ar draws ysgolion Arfon. Roedd yna wahaniaethau yn bodoli o fewn ysgolion unigol hefyd, e.e. ambell bwnc neu faes ddim yn perfformio cystal mewn ambell ysgol, ac roedd dymuniad i gryfhau hynny. Yn fwriadol, ar gais y Cabinet, ni chynigwyd opsiynau, gan mai'r nod oedd gweld beth oedd y cyhoedd yn feddwl oedd yr opsiynau gorau. Derbyniwyd rhai cynigion da, ac roedd yr Adran wrthi'n prosesu'r ymatebion cyn mynd yn ôl i'r Cabinet gyda nifer o syniadau oedd yn haeddu trafodaeth bellach.
- Nodwyd mai ansawdd yr addysg oedd y brif flaenoriaeth a amlygwyd yn y sesiynau, ynghyd â phwysigrwydd sicrhau bod y profiad hwnnw ar gael i bob dysgwr. Themâu eraill amlwg oedd y Gymraeg a darpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog. Hefyd, yn sgil y cyfnod yma, bu cryn drafod ynghylch technoleg. Mynegwyd y farn gyffredinol mai dysgu wyneb yn wyneb yw'r profiad addysgol gorau y gall unrhyw ddysgwr ei gael, ond bod yr elfen dysgu digidol yn gallu cefnogi'r cyswllt wyneb yn wyneb hwnnw.
- Er bod gennym gyfundrefn gadarn o ran y Gymraeg yng Ngwynedd, bod canfyddiad gan garfan o ddysgwyr a'u rhieni bod y Gymraeg yn anfanteisiol fel cyfrwng i ddysgu pynciau STEM, er nad oedd tystiolaeth i gefnogi hynny. Os rhywbeth, roedd y gwirionedd i'r gwrthwyneb, ac roedd yr Adran yn awyddus i roi'r Gymraeg yn ganolog fel egwyddor drwy gydol y trafodaethau. Cydnabyddid bod yna anghysondebau yng Ngwynedd o ran cyrsiau academiaidd a chyrsgiau galwedigaethol partneriaethol sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd, a chredid bod yna ddiffygion o ran y Gymraeg hefyd, ond byddai'r adolygiad yn sicrhau bod gennym ddarpariaeth briodol ar gyfer ein dysgwyr yn eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu Saesneg. Ychwanegwyd bod yr Adran yn awyddus iawn i hyrwyddo safle

amlwg y Gymraeg yn yr ôl-16, ynghyd ag ansawdd a chysondeb ansawdd yr addysg a'r profiadau roedd y plant yn gael.

- Y cydnabyddid bod amheuaeth a oedd yr Adran yn ymgysylltu gyda llechen lan, ond pwysleisiwyd mai bwriad yr adolygiad yn ei gyfanrwydd oedd edrych ar y ddarpariaeth drwy Wynedd gyfan, er mwyn dysgu gwersi o'r hyn oedd wedi digwydd ym Meirionnydd a Dwyfor, a chryfhau'r ddarpariaeth. Gwnaed hyn ar gais y Cabinet oherwydd bod grym yr Awdurdod Addysg a'r Cyngor yn benodol dros yr ysgolion hynny lle'r oedd y chweched dosbarth wedi ei leoli, sef yn Arfon, a'r bwriad oedd edrych i gryfhau'r ddarpariaeth honno yn gyntaf. Yn sgil yr adolygiad, bwriedid edrych ar unrhyw wersi a ddysgwyd oherwydd, er nad oedd yr Awdurdod yn uniongyrchol gyfrifol am y ddarpariaeth drydyddol, roedd cyfrifoldeb moesol arnom i gyflawni hyd eithaf ein gallu ar gyfer dysgwyr Gwynedd i gyd. Roedd y Llywodraeth wedi awdurdodi gwario £18 miliwn yn y maes, gyda rhan sylweddol o'r arian yma yn dod yn fuddsoddiad gan Gyngor Gwynedd drwy gynllun rheoli asedau. Roedd yn bwysig bod yr arian yma'n cael ei wario, a waeth beth fyddai'r datrysiad, ystyrid bod modd gwneud defnydd effeithiol o'r arian i gryfhau'r ddarpariaeth.
- Ei bod yn anodd dweud yn bendant beth fydd amserlen y broses hyd oni cheir cadarnhad ynglŷn ag Etholiad Llywodraeth Cymru ym mis Mai. Pe na chynhelid etholiad, o bosib' y gellid adrodd i'r Cabinet tua mis Ebrill gyda chanfyddiadau'r broses ymgysylltu, ond fel arall, byddai'r amserlen yn llithro oherwydd y cyfnod cyn etholiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

## **7. DATBLYGU EGWYDDORION TWRISTIAETH GYNALIADWY A THRETH TWRISTIAETH**

Croesawyd Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned a'r swyddogion i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned yn gwahodd y pwyllgor i graffu'r camau a gymerwyd hyd yma i lunio'r egwyddorion economi ymweld drafft a'r camau y bwriedid eu cymryd i lunio Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd 2030.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun drwy nodi bod yr economi ymweld yn rhan bwysig o economi'r sir, gyda nifer fawr yn cael eu cyflogi yn y diwydiant yn uniongyrchol, ac yn anuniongyrchol. Fodd bynnag, wrth i Covid daro'r diwydiant, daeth yn amlwg bod rhaid i'r Cyngor ail-ymweld â'i egwyddorion yn y maes. Roedd newid sylweddol wedi bod yn y ffordd rydym yn edrych ar yr economi ymweld. Yn flaenorol, roedd pawb yn meddwl am yr ymwelydd yn ganolog i unrhyw economi ymweld, ond bellach, daethpwyd i'r farn mai trigolion Gwynedd ddylai fod yn ganolog i unrhyw egwyddorion o gwmpas yr economi ymweld, a rhoddwyd lle blaenllaw i hyn yn natblygiad yr egwyddorion. Os oedd pobl Gwynedd yn gweld y budd a bod y diwydiant ymweld yn dderbyniol ganddynt, roedd hynny'n bwydo drwodd i brofiad yr ymwelwyr. Nodwyd y trefnwyd gweithdy ar gyfer holl gynghorwyr Gwynedd ar 2 Mawrth, 2021 er mwyn cyflwyno'r egwyddorion drafft, gyda bwriad o'u cyflwyno i'r Cabinet cyn diwedd Mawrth i'w mabwysiadu ar ffurf drafft i ymgynghori arnynt gyda phobl Gwynedd.

Cytunodd yr Arweinydd fod datblygu'r egwyddorion hyn yn newid cyfeiriad sylweddol iawn i'r Cyngor. Gwelwyd llynedd beth oedd twristiaeth 'anghynaliadwy', a dyma'r math o dwristiaeth oedd yn niweidio'r amgylchedd, ac yn cael drwg-ffaith ar y cymunedau. 'Roedd datgan ein bod yn gosod cyfeiriad newydd yn bwysig iawn. Credid bod y diwydiant hefyd yn gweld yr angen i fod yn adlewyrchu ein cymdeithas yn llawer gwell, ac roedd yr egwyddorion yn sylfaen i'r math o gefnogaeth a chyfeiriad roedd y Cyngor yn ei roi i'r

diwydiant. Roedd cyfarfodydd gyda'r diwydiant wedi dangos bod twristiaeth yn ddiwydiant pwysig iawn i'n pobl ni, er bod canfyddiad ei fod ym mherchnogaeth eraill. Roedd y pandemig wedi dangos bod ardaloedd gwledig fel Gwynedd bron iawn yn llwyr ddibynnol ar dwristiaeth bellach, ac roedd hynny'n ysgogiad i barhau â'r gwaith o geisio creu economi llawer mwy amrywiol. Er bod £1.3 biliwn yn dod i Wynedd drwy'r diwydiant, roedd incwm aelwydydd Gwynedd ymhlith yr isaf yn y wlad, ac roedd angen datblygu diwydiant lletygarwch sy'n rhoi gyrfa dda, a chyflogaeth dda. Roedd enghreifftiau o hynny'n bodoli eisoes, ac roedd angen gweithio i wella ansawdd y diwydiant yng Nghymru.

Yna cyfeiriodd yr Arweinydd at lythyr ymateb y Parc Cenedlaethol i benderfyniad y Cyngor i ymchwilio ar frys i'r posibilrwydd o godi tâl ar ymwelwyr sy'n ymweld â rhannau o'r parc. Nododd fod y llythyr yn datgan y byddai'n llwyr amhosib' codi tâl am fynd i ben yr Wyddfa ar sawl cyfrif, ond nad oedd hynny'n ein rhwystro rhag edrych ar ffyrdd eraill o greu incwm. Roedd cynllun y Parc i greu system drafnidiaeth yn ardaloedd yr Wyddfa ac Ogwen yn enghraifft o hynny, ac roedd cyfle yma, nid yn unig i greu amgylchedd gwell, ond hefyd i greu system trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel, fyddai'n gwasanaethu pobl leol yn ogystal ag ymwelwyr. Mawr obeithid, yn dilyn y gweithdy aelodau, y byddai modd cynnal cynhadledd agored i gael trafodaeth ar y materion hyn oll, ac i uchafu rhai o'r cwestiynau oedd yn codi.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Bod yr is-egwyddor '*Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd*' yn awgrymu cadw pethau fel y maent, yn hytrach na'u datblygu a'u gwella.
- Bod angen addysgu ymwelwyr i barchu ein cymunedau, a diolchwyd i'r swyddogion am eu hymdrechion yn y maes yma.
- Bod posib' gor-ymateb i'r sefyllfa, gan y bydd niferoedd ymwelwyr i'r ardal yn gostwng eto unwaith y bydd y pandemig drosodd.
- Nad oedd pawb yn edrych ymlaen at weld twristiaeth yn dychwelyd i'r ardal ar ôl y cyfnod clo, ac wrth yrru'r neges allan yn gofyn i bobl barchu'r ardal, dylid hefyd geisio newid meddylfryd y bobl leol fel eu bod yn deall bod economi Gwynedd yn ddibynnol ar dwristiaeth.
- Bod twristiaeth yn plethu drwy bob cymuned yng Ngwynedd, ac nid yn y prif gyrchfannau gwyliau yn unig.
- Y croesawid y syniad o edrych ar enghreifftiau o dwristiaeth gynaliadwy lwyddiannus mewn gwledydd eraill, a'i addasu ar gyfer cymunedau Gwynedd.
- Bod angen bod yn arloesol er mwyn elwa o dwristiaeth.
- Bod angen darganfod balans sy'n deg i bawb, ond sy'n rhoi pobl Gwynedd yn gyntaf.
- Bod angen deall beth a olygir gan dwristiaeth '*anghynaliadwy*', a bod peryg' i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd ddifetha ein cymunedau.
- Bod angen sicrhau gwaith sy'n talu'n dda yn y maes twristiaeth yng Ngwynedd, fel bod modd i bobl leol aros yn eu cymunedau.
- Y pryderid y bydd rhannau o'r sir yn wynebu mwy o drafferthion yr haf yma wrth i bobl sy'n arfer mynd dramor benderfynu dod yma ar wyliau.
- Bod angen gorfodi perchnogion cartrefi modur i aros mewn meysydd pwrpasol, yn hytrach na'u bod yn parcio ar ochr y lonydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Y byddai'r egwyddorion, o'u mabwysiadu, yn egwyddorion i'r Cyngor cyfan. Roedd niferoedd sylweddol o ymwelwyr wedi ymweld â rhannau o Wynedd yr haf diwethaf,

ac roedd cydweithio da iawn yn digwydd ar draws y Cyngor cyfan i baratoi ar gyfer yr hyn allai ddigwydd eto yr haf yma.

- Y cytunid bod y defnydd o'r gair '*Cynnal*' yn yr is-egwyddor '*Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd*' yn awgrymu bod pethau'n berffaith fel y maent, a bod angen rhoi ystyriaeth i'r geiriad yn yr adroddiad fydd yn mynd gerbron y Cabinet. Nodwyd hefyd y byddai cyfle i wneud y math hwn o sylw yn y gweithdy aelodau, ac yn ystod yr ymgynghoriad maes o law.
- Y bwriedid neilltuo ychydig amser ar gychwyn y gweithdy aelodau i adnabod y prif faterion a gododd llynedd ac i esbonio sut roedd yr Adrannau Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Economi a Chymuned, ynghyd â gwahanol asiantaethau yn bwriadu ymateb i hynny ar gyfer y tymor i ddod o safbwynt materion megis parcio anghyfreithlon, cartrefi modur, ysbwriel, rheolaeth traethau, rheolaeth cyrchfannau yn gyffredinol, a sut i hwyluso mynediad a llif pobl o fewn cyrchfannau, ayb. Nodwyd ymhellach y cyflawnwyd gwaith yr haf diwethaf mewn ugain o gyrchfannau o ran sicrhau trefniadau ymbellhau, arwyddo a sicrhau bod trigolion lleol ac ymwelwyr yn parchu'r rheoliadau, a bwriedid adeiladu ar y gwaith hwnnw ar gyfer y tymor i ddod. Hefyd, roedd gwaith rhyngadrannol yn mynd rhagddo o ran cynllunio ymlaen, a chyflwynwyd bidiau i'r Llywodraeth am arian ychwanegol i gefnogi'r gwaith. Bwriedid gyrru negeseuon mwyniant diogel o'r ardal ar gyfer y tymor i ddod ac annog ymddygiad cyfrifol. Eglurwyd na chyflawnwyd unrhyw waith hyrwyddo'r ardal y llynedd, ond yn hytrach, canolbwyntiwyd ar gydweithio gyda'r Heddlu, y Parc Cenedlaethol a'r Bwrdd Iechyd o ran y negeseuon ymddygiad cyfrifol a chyrchfan cyfrifol. Bwriedid adeiladu ar hynny ar gyfer y tymor i ddod, gan wneud cryn dipyn o newidiadau i'r wefan Eryri Mynyddoedd a Môr a'i ddefnyddio fel plattform i rannu gwybodaeth. 'Roedd gwaith pellach ar droed hefyd gan y Gwasanaeth Morwrol o ran negeseuon ymddygiad cyfrifol ar hyn yr arfordir, yn sgil sawl achos o drafferthion mewn rhai lleoliadau'r haf diwethaf. Roedd gwaith hefyd o rannu gwybodaeth yn digwydd gyda'r sector breifat i amlygu materion o ran y rheoliadau a chymorthdaliadau a rhannu ymarfer da.
- Nad oedd y Cyngor hwn yn cyfrannu at Dwristiaeth Gogledd Cymru. Roedd yn cael ei ariannu gan ei aelodau, ond roedd nifer fawr o'r aelodau hynny yn dod o Wynedd.
- Y cytunid bod rhaid dod â'r cymunedau gyda ni, ac fel enghraifft o hyn, cyfeiriwyd at Dolan, sef prosiect ar y cyd rhwng Dyffryn Nantlle, Dyffryn Ogwen a Blaenau Ffestiniog, oedd yn edrych ar y budd i'r gymuned o dwristiaeth. Hefyd, ystyrid bod datblygu'r berthynas rhwng rhai o'r prif atyniadau a'u cymunedau lleol yn ffordd o gael y cymunedau i weld y buddion posibl. Roedd ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i'r posibilrwydd o lunio cynllun llysgenhadon cymunedol a busnes, fel ffordd o wneud i bobl Gwynedd ddeall beth sy'n eithriadol am eu hardal, fel bod modd iddynt gyfleu'r arbenigeddau yma i ymwelwyr, yn ogystal â'u deall eu hunain.
- Bod yna gydnabyddiaeth nad oedd y model STEAM (*Scarborough Tourism Economic Assessment Model*) yn berffaith, ond dyma'r model oedd yn cael ei ddefnyddio gan y Llywodraeth ar gyfer rhoi dyraniad grant ychwanegol i'r Cyngor bob blwyddyn ar sail poblogaeth ddyrchafedig yn ystod yr haf. Roedd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan sawl cyngor ym Mhrydain, ac yn rhyngwladol, ac er ei feiau, roedd yn cynnig elfen o gysondeb gan fod cymaint yn ei ddefnyddio. Roedd y model yn edrych ar y niferoedd ymweld a'r tueddiadau gwerth, ond efallai bod angen edrych ar fesurydd gwahanol, ac roedd cydnabyddiaeth bod angen adolygu sut roedd hyn yn gweithio. Ychwanegwyd bod y rhagolygon cychwynnol ar gyfer 2019/20 yn dangos gostyngiad o 50%-60% o ran buddion economaidd a'r niferoedd ymweld, er yn amlwg roedd y niferoedd oedd wedi ymweld â'r ardal dros fisoedd yr haf yn uchel, gyda llai yn mynd dramor oherwydd y pandemig. O ran symud ymlaen, roedd yn bwysig ehangu'r gyfres o fesurau i gynnwys mesurau perfformiad

ychwanegol fyddai o gymorth i wireddu'r weledigaeth o roi trigolion Gwynedd yn ganolog.

- Bod y broses o ddatblygu'r egwyddorion yn cydnabod y ffaith bod twristiaeth yn treiddio i bob rhan o fywyd yng Ngwynedd, a gobeithid hefyd ymgorffori'r egwyddorion yn y fframwaith adfywio fyddai'n cael ei datblygu ar gyfer Gwynedd. Nodwyd ymhellach, o safbwynt ymarfer da ar draws y byd, bod yr Adran ar fin comisiynu Dr Terry Stevens, Arbenigwr mewn Cyrchfannau a Thwristiaeth Gynaliadwy i gynghori a ydyw'r egwyddorion yn llwyr gyd-fynd â thwristiaeth gynaliadwy a pha fesuryddion y gellid eu datblygu i fesur llwyddiant yr egwyddorion hynny i'r dyfodol. Byddai hefyd yn cynghori'r Adran ar arfer da mewn llefydd eraill, y tueddiadau ymweld dros y 10 mlynedd nesaf, a sut i gyfathrebu â'r marchnadoedd fydd yn datblygu. Ychwanegwyd y gellid gwahodd Dr Stevens i roi anerchiad i'r gynhadledd ym mis Mawrth ar yr hyn sy'n digwydd yn rhyngwladol yn y maes twristiaeth.
- Bod trafodaethau'n digwydd rhwng yr Adrannau Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Parc Cenedlaethol i geisio adnabod y ffordd orau o ymateb i'r problemau sy'n codi gyda chartrefi modur. Roedd yna atebion tymor byr, megis cyfathrebu'r neges a gosod arwyddion a chyfyngiadau uchder mewn meysydd parcio, ynghyd ag atebion mwy hir dymor, megis cyflwyno is-ddeddfau a gorfodaeth. Bwriedid rhannu'r materion a chyfrifoldebau gweithredu ar gyfer y tymor nesaf, a byddai'r Adran Amgylchedd yn arwain ar yr elfen yma, gyda mewnbwn gan yr Adran Economi.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 3.00 y.h.

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

## Adroddiad Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

<b>Cyfarfod:</b>	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
<b>Dyddiad:</b>	15fed o Ebrill, 2021
<b>Teitl:</b>	Cyflawni Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Ngwynedd
<b>Awdur:</b>	Ellen Rowlands – Rheolwr TRAC Bethan Eluned Jones Arweinydd Tîm Cymorth Ieuenctid -16-25
<b>Aelod:</b>	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams, Aelod Cabinet Addysg

### 1. PAM BOD ANGEN CRAFFU?

- 1.1. Cyflwynwyd y “Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid” gan Lywodraeth Cymru yn 2013. Awdurdodau Lleol sydd â’r cyfrifoldeb o ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer gweithredu’r fframwaith yn lleol. ( **Atodiad 1** )
- 1.2. Gofynnir i’r Pwyllgor Craffu ystyried a yw ein trefniadau a’n darpariaethau yn ddigonol i gefnogi pobl ifanc sydd mewn peryg o gael eu dadrithio gan addysg neu sydd wedi eu dadrithio gan addysg, hyfforddiant neu waith.

### 2. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

- 2.1. Cyflwynwyd y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (Y Fframwaith) yn 2013, fel fframwaith sy'n gosod strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET). Mae Llywodraeth Cymru yn gosod safonau craidd a disgwyliadau, ac Awdurdodau Lleol sydd â’r cyfrifoldeb o ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer gweithredu’r Fframwaith yn lleol. Mae Grŵp Rheoli wedi ei sefydlu yng Ngwynedd sy’n gosod gweledigaeth leol ar gyfer y Fframwaith.
- 2.2. Mae i’r Fframwaith chwe elfen allweddol:
  - Adnabod y bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ddisgyn allan o addysg
  - Darparu gwell broceriaeth a chyswllt mewn perthynas â chefnogaeth
  - Prosesau olrhain a phontio cryfach drwy'r system ar gyfer pobl ifanc
  - Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc
  - Atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth.
  - Gwell atebolrwydd er mwyn cyflawni deilliannau gwell i bobl ifanc.
- 2.3 Mae amrywiaeth o wasanaethau a phrosiectau ar gael yng Ngwynedd sy’n cyfrannu at gefnogi pobl ifanc sydd mewn peryg o ddisgyn allan o addysg, neu sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Mae enghreifftiau o’r gwasanaethau hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid; Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd; Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a’r Gwasanaeth Ieuenctid.
- 2.4 Rhai prosiectau penodol sydd wedi derbyn arian gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i gefnogi’r ymdrechion i leihau nifer y bobl ifanc sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant neu



waith yw TRAC (daw'r cyllid i ben fis Gorffennaf 2022), ADTRAC (daw'r cyllid i ben fis Mai 2021) a Chymunedau am Waith (daw'r cyllid i ben fis Mehefin 2022).

TRAC	ADTRAC
Arweinir gan Wasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yr Adran Addysg	Arweinir gan Gwasanaeth Ieuenctid
Cyfanswm gwerth y cynllun yw £4.6M (£3.3M arian ESF).	Cyfanswm gwerth y cynllun yw £1.6M (£1.1M arian ESF).
Anelu i gefnogi 1,200 o blant a phobl ifanc cyn i'r cynllun ddod i ben.	Anelu i gefnogi 301 o bobl ifanc cyn i'r cynllun ddod i ben.

### 3 FFACTORAU ALL BERI I BOBL IFANC YMDDIEITHRIO RHAG ADDYSG, HYFFORDDIANT NEU WAITH ( Atodiad 2)

3.1 Mae ystod eang o ymchwil yn cydnabod dangosyddion a nodweddion allweddol unigolion sydd mewn perygl o ymddieithrio . Gweler isod:



3.2 Mae pobl ifanc Ôl-16 yn profi amrediad eang o rwystrau rhag cael mynediad i addysg, hyfforddiant neu waith. Y rhwystrau mwyaf cyffredin yw diffyg hyder, problemau cludiant, diffyg profiad/cyflogadwyedd a dim cymwysterau. Yn ogystal, roedd 47 y cant o gyfranogwyr ADTRAC yn nodi pryderon iechyd meddwl fel rhwystr oedd yn eu hatal rhag ymgysylltu.

Gweler (**Atodiad 3**) "Personau" am enghreifftiau sy'n darlunio dangosyddion a nodweddion allweddol unigolion sydd â rhwystrau ac wedi derbyn cefnogaeth o dan y fframwaith.

3.3 Mae effeithiau Pandemig COVID-19 yn bellgyrhaeddol, ond gwelir effeithiau anghymesur ar:

- Bobl Ifanc sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant neu waith
- Rhai a oedd eisoes mewn peryg o beidio bod mewn addysg, hyfforddiant neu waith
- Dysgwyr sy'n agored i niwed
- Rhai wedi'i hallgau o'r byd digidol
- Rhai â lefel isel o sgiliau

3.4 Gwelwyd cynnydd yn y teuluoedd sy'n profi caledi a thlodi yn dilyn colli/cwtogi oriau gwaith; cynnydd mewn disgyblion yn mynd ar gofrestr addysg ddewisol gartref; pryderon ynghylch dychwelyd yn ôl i drefn sydd yn gysylltiedig ag addysg, yn enwedig i ddysgwyr oedd a heriau presenoldeb a llesiant cyn y cyfnodau clo. Mae'r pandemig wedi peri i nifer uchel o'r unigolion hyn ymbellhau o'u haddysg. Mae cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion Blwyddyn 11 sydd mewn peryg o beidio â phontio yn llwyddiannus i addysg, hyfforddiant neu waith ar ôl gadael yr ysgol eleni.

3.5 Mae'r Pandemig wedi cael effaith ar lwybrau cyflogaeth pobl ifanc e.e. llai o gyfleoedd i ddechrau Hyfforddeiaeth, Prentisiaethau a lleoliadau gwaith; dysgwyr ar raglenni cyflogaeth yn methu symud ymlaen i gyflogaeth barhaus; nifer o'r sectorau sy'n cyflogi Pobl Ifanc wedi cau am gyfnodau hir e.e. Lletygarwch, Twristiaeth a Hamdden a Manwerthu. Mae mwy o bobl ifanc angen cefnogaeth ar gyfer diweithdra, digartrefedd ac iechyd a llesiant emosiynol. Mae cynnydd yn y cyfeiriadau iechyd meddwl i bobl ifanc gan Feddygon Teulu ac mae mwy o bobl ifanc yn dioddef unigedd all arwain at gynnydd mewn pobl ifanc sy'n agored i niwed.

#### 4 BETH YDI'R GALW?


Mae ein trefniadau presennol drwy brosiect TRAC yn adnabod ar gyfartaledd 1,000 o ddisgyblion bl7-11 sydd angen cefnogaeth ychwanegol i'w hatal rhag datgysylltu gyda'i addysg. Ni all cynllun TRAC gefnogi pob un ohonynt, felly mae'r cynllun yn arwain ar waith mapio gydag asiantaethau eraill er mwyn adnabod yr ymyrraeth a'r gefnogaeth gywir.

Mae 78 o dysgwyr blwyddyn 6 wedi cael eu cyfeirio i brosiect TRAC ers mis Medi 2020, er mwyn cefnogi eu pontio i'r ysgol uwchradd. Mae nifer y cyfeiriadau ar gyfer dysgwyr cynradd wedi cynyddu ers y llynedd, ac nid oes amheuaeth o ran cymhlethdod y cyfeiriadau hyn, a'u bod mewn peryg mawr o beidio llwyddo yn yr Uwchradd oni bai am gefnogaeth ychwanegol.

4.1 Mae canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n ymadael â'r ysgol heb bontio i addysg bellach, hyfforddiant neu waith wedi bod yn gostwng rhwng 2015 i 2017, ond rhwng 2018 ac 2019 gwelwyd cynnydd bychan yn y canran. Rydym yn rhagweld y bydd effeithiau'r Pandemig yn gyrru'r niferoedd yn uwch eleni.

4.2 Mae nifer y bobl ifanc 16-25 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu waith wedi bod yn eithaf sefydlog yng Ngwynedd dros y 3 mlynedd ddiwethaf. Cyn COVID-19, roedd rhwng 6 a 7% o'r boblogaeth 16-24 oed ddim mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn diweithdra ar ôl y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020 gyda % y boblogaeth 16-24 oed NEET yn cynyddu i 10% ym mis Awst 2020 (bron i 1,900 o bobl ifanc). Gostyngodd y

niferoedd erbyn mis Tachwedd, ond mae ffigyrau diweddar yn dangos fod y niferoedd ar gynydd eto. (Atodiad 4)



4.4 Mae'r Pandemig wedi cael yr effaith fwyaf ar lefelau diweithdra ymysg pobl iau na 35 oed **ond** mae'r effaith ar bobl ifanc 16-24 oed yn anghymesur oherwydd nad oes gan y grŵp hwn gymaint o sgiliau a phrofiadau i gystadlu am swyddi o gymharu â grwpiau eraill o'r boblogaeth. Gwyddwn hefyd fod y grŵp 16-24 oed yn fwy tebygol o fod ar gynllun saib swyddi, ond ni wyddwn eto beth fydd yr effaith ar ddiweithdra pan ddaw'r cynllun i ben ym mis Medi 2021.

## 5 BYLCHAU MEWN DARPARIAETH WEDI CYFNOD ARIANNU ESF

5.1 Mae TRAC ac ADTRAC wedi dod â chapasiti ychwanegol i Wynedd i gefnogi ymdrechion i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET. Yn benodol, mae TRAC yn arwain y broses o adnabod y bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ddadrithio a'i haddysg. Mae'r ddarpariaeth o 'weithwyr arweiniol' ledled y prosiectau wedi cynorthwyo i gyfrannu at froceriaeth a chydlynad gwell wrth gefnogi pobl ifanc; mae'r prosiectau wedi'u hen sefydlu ac yn arwain ar adnabod dysgwyr sy'n ymadael â'r ysgol ym Mlwyddyn 11 ac sydd mewn perygl o beidio symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu waith ar adael ysgol a'u pontio i gefnogaeth Ôl-16. Mae fframwaith hyfforddiant y prosiectau wedi galluogi i bobl ifanc gael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant sydd wedi'u teilwra i wella datblygiad personol a sgiliau cyflogadwyedd.

5.2 Mae'r gefnogaeth iechyd meddwl a llesiant a'r gefnogaeth bwrpasol / wedi'i theilwra sy'n rhan o ddarpariaeth TRAC ac ADTRAC yn agweddau unigryw ac yn llenwi'r bwlch mewn cefnogaeth leol ar gyfer anghenion llesiant / iechyd meddwl lefel isel a chanolig sy'n rhwystro pobl ifanc rhag ymgysylltu yn llwyddiannus ag addysg, hyfforddiant neu waith.

## 6 CYNLLUNIO YMLAEN

- 6.1 Mae prosiect ADTRAC bellach wedi rhoi'r gorau i gefnogi Pobl Ifanc 16-24 oed ers diwedd mis Mawrth 2021. Mae Tîm Cymorth Ieuenctid 16-25 wedi ail-strwythuro i ymateb i'r newid yn anghenion Pobl Ifanc a'r ffynonellau ariannu. Bydd pedwar Gweithiwr Arweiniol Cymorth Ieuenctid ar gael i gefnogi pobl ifanc 16-25 oed sydd wedi ymbellhau fwyaf o'r farchnad lafur ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i ymgysylltu yn ôl ag addysg, hyfforddiant neu waith. Bydd y ffocws ar feithrin perthnasau positif; datblygiad cymdeithasol, emosiynol a phersonol y person ifanc; llesiant emosiynol ac iechyd meddwl da, er mwyn eu paratoi i symud ymlaen at eu cam nesaf mewn cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg neu gyfleoedd eraill. **(Atodiad 5)**
- 6.2 Gyda TRAC ar fin dod i ben, bydd ffocws ar lunio strategaeth ymadael a chyflwyno syniadau dilyniant i'r Adran Addysg eu mabwysiadau os yn dymuno. Bydd angen ystyried, pan ddaw i ben, ei fod wedi bod yn weithredol ers 6 mlynedd a rhaid gofyn a yw bellach yn brosiect neu'n wasanaeth? Hyn fydd yn arwain y rhaglen waith ar lefel strategol dros y misoedd nesaf i adnabod pa addasiadau fydd eu hangen os bydd yr Adran Addysg yn dymuno parhau gydag ymyraethau tebyg. Rhagwelir bydd adroddiad interim i'w rannu erbyn tymor yr hydref fan bellaf.

## 7 RISGIAU ( Atodiad 6)

- 7.1 Rhagwelir y bydd y galw'n cynyddu am gefnogaeth ac ymyraethau i bobl ifanc sydd mewn peryg o gael eu hymddieithrio rhag addysg, hyfforddiant neu waith, neu sydd eisoes wedi'u hymddieithrio. O fewn y 15 mis nesaf, bydd rhaglenni TRAC, ADTRAC a Chymunedau am Waith wedi dod i ben. Mae tynnu'r cynlluniau yn ôl yn codi pryderon ynghylch y bylchau fydd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â'r ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc yng Ngwynedd.
- 7.2 Mae'r hyn sy'n rhwystro pobl ifanc rhag ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu waith yn gymhleth, a mae pryderon ynghylch a yw'r datrysiadau cyflogadwyedd yn addas i fynd i'r afael â rhwystrau megis trafndiaeth a heriau emosiynol a chymdeithasol.
- 7.3 Mae pryder ymysg Partneriaid y byddai colli'r cyllid ar gyfer TRAC ac ADTRAC yn arwain at gollu cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant i bobl ifanc lle mae eu cynnydd i addysg, hyfforddiant neu waith yn cael ei gyfyngu gan iechyd meddwl a llesiant gwael.

# Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid

Cynllun gweithredu



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

*Canlyniadau gwell i bobl ifanc*



# Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid

## Cynllun gweithredu

### Cynulleidfa

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pawb sy'n gweithio yn y system addysg a hyfforddiant sy'n cefnogi pobl ifanc i gymryd rhan a gwneud cynnydd mewn addysg a hyfforddiant, gan gynnwys uwch arweinwyr mewn awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuencid a darparwyr (ysgolion, colegau addysg bellach (AB), gwaith-dysgu seiliedig ar waith (DSW)).

### Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar leihau nifer y bobl ifanc 11 i 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'n rhoi crynodeb gweithredol o'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid – Cynllun gweithredu*. Bydd angen i bob rhan o'r system gan Lywodraeth Cymru, partneriaid cenedlaethol, yr awdurdodau lleol a darparwyr i weithio gyda'i gilydd i weithredu'r cynllun hwn yn llwyddiannus. Mae'r cynllun yn nodi gwahanol rolau a chyfrifoldebau chwaraewyr allweddol a disgwyliadau ar gyfer sut y bydd pob partner yn cyflawni.

### Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

### Mwy o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

[youthengagementandprogression@cymru.gsi.gov.uk](mailto:youthengagementandprogression@cymru.gsi.gov.uk)

### Copïau ychwanegol

Gellir cael y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn

[www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau)

# Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	2
Adran 1: Crynodeb	4
Adran 2: Nodi'n gynnar	16
Adran 3: Broceriaeth	24
Adran 4: Tracio	32
Adran 5: Darpariaeth	40
Adran 6: Cyflogadwyedd a chyfleoedd cyflogaeth	48
Adran 7: Atebolrwydd	54
Adran 8: Rolau a chyfrifoldebau	62
Cydnabyddiaethau	69

# Rhagair gan y Gweinidog

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydledig i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i bob plentyn a pherson ifanc. Mae hyn yn cynnwys eu helpu i ddod yn rhan o fyd addysg a hyfforddiant ac yna byd cyflogaeth, gan eu galluogi i gyflawni eu potensial. Rydym yn cydnabod bod amgylchiadau economaidd a phersonol yn golygu bod rhai grwpiau o bobl ifanc yn wynebu heriau enfawr i ddatblygu ac rydym yn awyddus iawn i ddileu'r rhwystrau hyn, yn enwedig i'r rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi bod dwysáu ymgysylltu ag ieuencid a chyflogaeth ieuencid yn flaenoriaeth i Gymru a'n nod yw helpu pob person ifanc i oresgyn yr heriau a wynebant er mwyn iddynt gael cyfle i ddatblygu'n gadarnhaol ar ôl addysg orfodol yn 16 oed. Wrth wraidd agenda diwygio addysg y Llywodraeth – a nodir yn y cynllun *Gwella ysgolion* – mae egwyddorion allweddol codi safonau llythrennedd a rhifedd a'n penderfyniad i dorri'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad gwael. Os ydym yn llwyddiannus, bydd mwy o bobl ifanc yn cael gwell canlyniadau ac yn symud yn llwyddiannus i addysg a hyfforddiant ôl-16.

Yn y cynllun *Trechu Tlodi*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, nodir yn glir y bydd lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn cael effaith hirdymor, nid yn unig ar fywydau pobl ifanc heddiw, ond ar genedlaethau i ddod. Mae'r gost sy'n gysylltiedig â pheidio ag ymdrin â'r mater hwn nid yn unig yn un economaidd, ond mae hefyd yn effeithio ar lefelau diweithdra, tangyflogaeth, troseddu, lles, camddefnyddio sylweddau, marwolaethau cynamserol a bod yn fam yn gynnar. Ceir tystiolaeth gynyddol bod yn rhaid i'r broses o nodi'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg a hyfforddiant ddechrau ar oedran cynnar, ac mae ein cynllun *Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* yn nodi polisiau allweddol i fynd i'r afael â'r materion hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Yn anffodus, er ein bod wedi gweld rhywfaint o welliant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gormod o bobl ifanc yn ymddieithrio rhag addysg a hyfforddiant yn 16 oed o hyd. I lawer o bobl ifanc, bydd ymddieithrio yn y ffordd hon yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar eu gallu i symud yn llwyddiannus i fyd oedolion a byd gwaith. Ein bwriad, a nodir yn y fframwaith hwn, yw lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc nad ydynt yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial llawn.

Bydd y fframwaith hwn yn chwarae rhan bwysig yn y broses o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, gan weithredu dulliau mwy effeithiol a systematig o nodi'r bobl ifanc hyn y mae angen cymorth arnynt, a sicrhau eu bod yn cael yr help sydd ei angen arnynt i'w rhoi ar ben ffordd unwaith eto. Mae'r fframwaith yn nodi elfennau system y profir ei bod yn effeithiol o ran gwella ymgysylltu a datblygu ieuencid.



Mae'n anelu at sbarduno newid drwy'r system gyfan yng Nghymru a phennu sut y gall awdurdodau lleol, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner megis Gyrfa Cymru a darparwyr addysg a hyfforddiant roi systemau mwy effeithiol ar waith i gyflawni'r newid hwn. Mae'n her i ni gyd ond yn un y mae'n rhaid i ni ei hateb, os ydym am sicrhau'r deilliannau y mae ein pobl ifanc yn eu haeddu.



A handwritten signature in black ink that reads "Huw Lewis".

Huw Lewis AC  
Gweinidog yr Adran Addysg a Sgiliau



A handwritten signature in black ink that reads "Ken Skates".

Ken Skates AC  
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau  
a Thechnoleg

Adran 1:

## Crynodeb



Tud. 26

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei hymrwymiad i wella ymgysylltu a datblygu pobl ifanc yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae hefyd yn rhan allweddol o'r gwaith a nodwyd gennym y llynedd yn y cynllun *Gwella ysgolion* er mwyn gwella llythrennedd a rhifedd a thorri'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad.

Nodwyd ein disgwyliadau o ran darparu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid i gefnogi ymgysylltu a datblygu pobl ifanc yn *Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru* (2000) a'r cyfarwyddyd a'r canllawiau dilynol ar *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru* (2002).

Rydym yn ymrwymedig o hyd i'r egwyddor a sefydlwyd yn Ymestyn Hawliau i gynorthwyo pob person ifanc yng Nghymru i gyflawni hyd yr eithaf ym maes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Canllawiau anstatudol yw'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid – Cynllun gweithredu*. Nid yw'n disodli'r canllawiau presennol, ond yn hytrach, mae'n rhoi enghreifftiau o'r ffordd y dylid gweithredu dulliau wedi'u targedau o ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen cyhoeddi canllawiau statudol newydd ar ôl cyhoeddi'r cynllun hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei hymrwymiad parhaus i *Fynd i'r Afael â Thlodi* drwy flaenoriaethu anghenion y tlotaf a diogelu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi ac allgau yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012–2016*. Rhan allweddol o'r cynllun hwnnw oedd ymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Nodwyd y targedau newydd yn y cynllun, sef lleihau:

- nifer y bobl ifanc 16–18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 9 y cant erbyn 2017
- cyfran y bobl ifanc 19–24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru o gymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd erbyn 2017.

Rhwng 2007 a 2012 bu rhywfaint o gynnydd o ran cael mwy o bobl ifanc i symud yn uniongyrchol i addysg ôl-16 yn llwyddiannus. Dengys data Gyrfa Cymru ostyngiad o 2.7 pwynt canrannol ledled Cymru yng nghyfran y dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol ac nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o ysgolion yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r llwyddiant hwn wedi cael ei adlewyrchu yn y mesur swyddogol o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ymhlith pobl ifanc 16–18 oed yn eu cyfanrwydd.

Dengys y mesur cenedlaethol o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru fod y ffigur ar gyfer pobl ifanc 16–18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi aros ar lefel o rhwng 10 a 13 y cant yn ystod y pum mlynedd diwethaf hyd at 2012, gan adlewyrchu'r duedd yn y tymor hwy, er bod y gyfradd ar gyfer pobl ifanc 19–24 oed wedi cynyddu'n sydyn yn dilyn y dirwasgiad diwethaf yn 2008. Dengys cymariaethau rhyngwladol nad yw Cymru yn perfformio cystal â gwledydd eraill.

Rydym yn benderfynol o wneud gwelliant pellach. Mae manteision amlwg i economi Cymru, i'r gymdeithas ehangach ac, yn bwysicaf oll, i bobl ifanc a'u teuluoedd yn gysylltiedig â gwella ymgysylltu a datblygu ieuenctid. Mae angen i Gymru weld mwy o bobl ifanc yn symud yn llwyddiannus i addysg uwch ac addysg bellach ac i gyflogaeth fedrus. Mae methiant i ymgysylltu â phobl ifanc yn cynyddu'r costau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac mae'n cyfrannu at yr heriau sy'n gysylltiedig â diweithdra hirdymor.

Amcangyfrifodd astudiaeth gan Brifysgol Caerfrog yn 2010 fod costau gydol oes ychwanegol sy'n gysylltiedig â pheidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant dros £160,000 fesul unigolyn yn Lloegr yn 2008. O gymhwyso hyn at y garfan gyfredol o bobl ifanc 16–18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, awgrymir y bydd methiant i ymgysylltu â'r bobl ifanc hyn yn costio tua £2 biliwn i Gymru. Mae rheidrwydd economaidd yn ogystal â rheidrwydd moesol i sicrhau gwelliant.

Credwn fod angen i ni ailfywiogi'r ffordd rydym yn gwella ymgysylltu a datblygu yng Nghymru er mwyn sicrhau mwy o welliant. Er bod digonedd o sefydliadau ar gael i gefnogi ymgysylltu a datblygu pobl ifanc a bod llawer o'r sefydliadau hyn yn gwneud gwaith da o ran cefnogi pobl ifanc, nid yw'r effaith gyffredinol wedi bod yn ddigon o ystyried y lefel o adnoddau a fuddsoddiwyd. Un feirniadaeth a wneir yn aml gan y rhai sy'n gweithio o fewn y system yw bod diffyg cydgysylltu rhwng asiantaethau ynghyd â methiant i roi anghenion pobl ifanc yn gyntaf.

Rydym am weld system gyflawni sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc, sydd â rolau a chyfrifoldebau clir rhwng yr amrywiol sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac arweiniad lleol cryf gan awdurdodau lleol a'u partneriaid. Mae'r cynnydd a wnaed gan rai ardaloedd lleol o ran pobl ifanc dros 16 oed yn dangos yr hyn sy'n bosibl. Mae angen i ni gyflawni'r un lefel o gynnydd ar bob oedran ac ym mhob ardal yng Nghymru.

*Mae'r Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid – Cynllun gweithredu yn nodi ein dull gweithredu newydd. Mae i'r fframwaith chwe elfen allweddol.*

- Nodi pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio.
- Gwell broceriaeth a chydgyssylltu o ran cymorth.
- Prosesau tracio a phontio cryfach drwy'r system i bobl ifanc.
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc.
- Atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth.
- Gwell atebolrwydd i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc.

Mae dau gynnig newydd i bobl ifanc drwy'r fframwaith.

- Y cyntaf yw penodi un pwynt cyswllt (swyddog arweiniol) ar gyfer y bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio er mwyn helpu i sicrhau y caiff cymorth ei roi mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynol a'i fod yn llwyddo i ddiwallu eu hanghenion.
- Yr ail yw datblygu Gwarant Ieuenctid rhagweithiol a chadarnhaol a fydd yn helpu i sicrhau bod pob person ifanc yn cael mynediad at le addas ym myd dysgu ar ôl 16 oed.

## Tud. 28

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag wyth awdurdod lleol dros y flwyddyn ddiwethaf i brofi dulliau o wella ymgysylltu a datblygu ieuenctid. Mae tystiolaeth o'r ardaloedd hyn wedi llywio'r broses o ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn. Nid yw llawer o'r hyn sydd yn y cynllun hwn yn newydd ac mae'n seiliedig ar arfer effeithiol sydd eisoes yn bodoli mewn sawl rhan o Gymru. Yr her yw cymhwyso'r arfer effeithiol hwn yn fwy cyson ym mhob rhan o Gymru.

Yr allwedd i weithredu'r fframwaith yn llwyddiannus fydd dull system gyfan lle caiff rolau a chyfrifoldebau eu pennu'n fwy clir a lle y bydd angen i bob un o'r asiantaethau a ddarparwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc gydweithio er mwyn sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc. O dan y cynllun bydd awdurdodau lleol yn cael rôl arwain strategol allweddol ond bydd angen iddynt ymgysylltu'n agos â sefydliadau fel Gyrfa Cymru a'r Gwasanaeth Ieuenctid i ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer gweithredu, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a'r holl ystod o ddarparwyr ôl-16 oed.

Ceir cysylltiadau pwysig hefyd â meysydd eraill o bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd y cynllun yn cydgysylltu â gwaith i wella blynyddoedd cynnar bywydau pobl ifanc a nodir yn *Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*. ac yn adeiladu arno. Bydd hefyd yn cysylltu â gweithredu system cynllunio ac ariannu ôl-16 newydd yn 2014 ac argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau 14–19. Bydd gwaith ehangach ôl-18 Llywodraeth Cymru i hybu cyflogaeth ieuenctid drwy Twf Swyddi Cymru, hyfforddeiaethau a phrentisiaethau hefyd yn hollbwysig i'n llwyddiant cyffredinol.

## **Perfformiad presennol**

### **Sut rydym yn cyflawni ar lefel leol yng Nghymru?**

Dengys y siart isod ganlyniadau arolwg blynyddol Gyrfa Cymru o bob dysgwyr sy'n gadael ysgolion a gynhelir yng Nghymru sy'n edrych ar gyrchfannau erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn. Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn rhoi amcangyfrif o nifer y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ôl ardal awdurdod lleol. Maent yn dangos gostyngiad o 2.7 pwynt canrannol ar lefel genedlaethol yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant rhwng 2007 a 2012. Fodd bynnag, maent hefyd yn dangos amrywiad parhaus sylweddol yn lefelau pobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gyda rhai ardaloedd ond yn gwneud gwelliannau bach ers 2007.

**Ffigur 1: Cyrchfannau disgyblion Blwyddyn 11 o ysgolion yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol – Gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth**

	<b>2007</b>	<b>2008</b>	<b>2009</b>	<b>2010</b>	<b>2011</b>	<b>2012</b>
<b>Cymru</b>	<b>6.9</b>	<b>7.1</b>	<b>5.7</b>	<b>5.4</b>	<b>4.4</b>	<b>4.2</b>
Ynys Môn	6.7	8.1	5.2	5.3	2.7	2.4
Gwynedd	4.4	5.7	4.2	3.6	3.6	3.0
Conwy	5.5	5.7	4.8	3.7	4.0	3.4
Sir Ddinbych	4.9	6.2	4.4	4.4	3.6	2.9
Sir y Fflint	4.6	7.2	3.7	2.8	2.7	2.3
Wrecsam	8.9	9.6	5.0	4.2	3.4	3.2
Powys	5.3	3.0	2.1	2.9	3.0	2.2
Ceredigion	2.6	3.8	2.3	2.3	3.3	2.3
Sir Benfro	4.7	6.4	4.8	4.8	3.8	3.1
Sir Gaerfyrddin	5.5	4.4	4.0	2.9	2.8	4.3
Abertawe	5.8	5.8	6.4	4.2	3.1	3.2
Castell-nedd Port Talbot	9.0	7.7	7.1	6.6	4.6	3.1
Pen-y-bont ar Ogwr	7.3	8.0	7.6	7.1	4.4	6.4
Bro Morgannwg	6.8	6.2	5.6	4.6	4.3	3.9
Rhondda Cynon Taf	7.5	6.1	4.9	5.7	3.9	4.5
Merthyr Tudful	7.9	7.8	4.6	7.6	5.6	6.2
Caerffili	7.1	7.1	5.0	6.0	4.5	5.9
Blaenau Gwent	10.4	9.7	6.6	8.7	6.6	4.2
Torfaen	10.5	10.1	8.2	7.0	6.7	5.5
Sir Fynwy	5.6	5.3	5.0	3.9	3.8	3.8
Casnewydd	9.3	10.4	9.1	7.5	6.7	4.9
Caerdydd	8.5	10.6	8.9	8.8	7.7	6.7


*Ffynhonnell: Arolwg o gyrchfannau disgyblion o ysgolion yng Nghymru Gyrfa Cymru*

Bydd data Gyrfu Cymru ar gyrchfannau yn y dyfodol yn cynnwys deilliannau pobl ifanc 16, 17 a 18 oed ar gyfer pob darparwr a'r data hyn fydd y prif fesur o atebolrwydd ar gyfer perfformiad awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ffigurau cymharol ar gael i bobl ifanc 17 a 18 oed sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried perfformiad awdurdodau lleol ar gyfer pobl ifanc 16–18 oed yn eu cyfanrwydd. Felly mae'n rhaid i ni ystyried data cenedlaethol er mwyn ceisio deall a yw'r gwelliannau hyn ymhlith pobl ifanc 16 oed wedi parhau'n 17 oed ac yn 18 oed a thu hwnt i'r garfan 19–24 oed.

## Sut rydym yn cyflawni ar lefel genedlaethol yng Nghymru?

Dengys y siart isod ffigurau a gynhyrchwyd drwy'r amcangyfrif cenedlaethol swyddogol o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru (mae'r mesur 'Datganiad Cyntaf Ystadegol' neu 'SFR' yn ystadegau swyddogol sydd wedi cael eu hasesu gan Awdurdod Ystadegau'r DU) a ddefnyddir i fonitro ymrwmiadau ein Rhaglen Lywodraethu. Mae'r mesur yn dangos ar wahân niferoedd y bobl ifanc 16–18 oed a 19–24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Ffigur 2: Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur



Mae (p) SFR: diwedd blwyddyn 2012 yn ffigur dros dro a chaiff ei ddiweddarau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2014 a rhoddir ffigurau terfynol ar gyfer 2012 a ffigurau dros dro ar gyfer 2013.


Fel y dengys Ffigur 2, er gwaethaf y gwelliannau yng nghyfraddau pobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a welir yn nata Gyrfu Cymru, mae canran y bobl ifanc 16–18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn genedlaethol wedi aros yn weddol gyson, ar gyfradd o rhwng 10–13 y cant dros y blynyddoedd rhwng 1996 a 2012, er bod gwelliant yn ystod y cyfnod diweddaraf. Awgryma hyn fod angen gwelliannau pellach ymhlith pobl ifanc 17 a 18 oed, yn ogystal â phobl ifanc 16 oed, os ydym am gyflawni ein targed ar gyfer 2017. Amcangyfrifir y bydd angen i rhwng 4,000 a 4,500 o bobl ifanc symud i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth erbyn 2017 er mwyn cyflawni'r targed hwn.

Mae'r ffigur ar gyfer pobl ifanc 19–24 oed yn dangos cynnydd mawr yn 2009 o ganlyniad i effaith y dirwasgiad ar ddiweithdra ieuencid yng Nghymru a'r gostyngiad wedyn yn nifer y bobl ifanc 19–24 a oedd mewn gwaith yng Nghymru. Felly mae'r ffigur ar gyfer pobl ifanc 19–24 oed yn dibynnu mwy ar y cylch economaidd ehangach fwy na thebyg. Felly rydym wedi gosod ein targed i adlewyrchu'r ffaith na all Cymru reoli pob un o'r amgylchiadau economaidd ehangach hyn ond gall geisio gwella ei pherfformiad o gymharu â gweddill y DU.

### Sut rydym yn cyflawni o gymharu â gwledydd eraill?


Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn cyhoeddi cymariaethau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant mewn gwahanol wledydd ar gyfer dau grŵp oedran, 15–19 oed a 20–24 oed. Er mwyn cynnwys Cymru yn y gymhariaeth hon, daw amcangyfrifon ar gyfer Cymru o Arolwg yr UE o'r Llafurlu. Dangosir sefyllfa Cymru o'i chymharu â gwledydd eraill isod.

**Ffigur 3: Cymariaethau rhyngwladol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd o ganran y boblogaeth ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (2009)**






**Canran y boblogaeth ifanc 20–24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (2009)**



Er bod Cymru yn gwneud yn well na nifer o wledydd (gan gynnwys cyfartaledd y DU ar y sail hon), mae hefyd yn hanner isaf y tabl ac mae gwledydd megis yr Iseldiroedd, Slofenia a Denmarc yn dangos bod modd cael lefelau is o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar y ddau ystod oedran.

Un gymhariaeth arall y gallwn ei gwneud yw cymharu â Lloegr gan ei bod yn defnyddio amcangyfrif swyddogol tebyg i Gymru. Dengys Ffigur 4 isod, er bod y tueddiadau wedi bod yn debyg o ran pobl ifanc 16–18 oed, fod cyfran uwch o bobl ifanc 16–18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yng Nghymru nag yn Lloegr.

**Ffigur 4: Canran y bobl ifanc 16–18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, erbyn diwedd y flwyddyn 1996 hyd at 2012, cymharu Cymru a Lloegr**



Ffynhonnell Yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru.

Mae (p) SFR: diwedd blwyddyn 2012 yn ffigur dros dro a chaiff ei ddiweddaru erbyn diwedd mis Gorffennaf 2014 a rhoddir ffigurau terfynol ar gyfer 2012 a ffigurau dros dro ar gyfer 2013.

## **Felly pam bod angen dull gweithredu newydd arnom?**


Dengys y data uchod, er bod rhai awdurdodau lleol wedi llwyddo i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 16 oed, fod heriau mawr o hyd, ac mae'r data yn cefnogi ffocws ar y blaenoriaethau canlynol.

- Gwella deilliannau pobl ifanc 17 a 18 oed.
- Lleihau eto nifer y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant mewn rhai ardaloedd – ceir amrywiadau mawr o hyd o ran perfformiad awdurdodau lleol.
- Cynnal gwelliannau ymhlith pobl ifanc 16–18 oed er mwyn sicrhau'r lleihad yn y niferoedd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 19–24 oed hefyd.
- Sicrhau bod pob person ifanc yn cael ei gefnogi drwy addysg a hyfforddiant beth bynnag fo'u cyrchfan arfaethedig.
- Cefnogi gwell ymgysylltu a datblygu i bob person ifanc a chyfrannu at gyfraddau cyflawni uwch yn 16 oed ac yn 19 oed.

## Y fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i ddatblygu ein sylfaen tystiolaeth ynglŷn â'r hyn sy'n llwyddo i wella ymgysylltu a datblygu ieuencid. Rydym wedi nodi ardaloedd yng Nghymru a all roi arweiniad i'r system o ran arfer da ac rydym wedi gweithio gydag wyth awdurdod lleol dros y flwyddyn ddiwethaf i dreialu a phrofi dulliau o weithredu fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid newydd. Mae tystiolaeth o'r ardaloedd lleol hyn wedi llywio'r broses o ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn. Mae ein dull gweithredu newydd yn seiliedig ar chwe sylfaen allweddol a ddangosir yn y diagram isod.

Ffigur 5: Y fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid



## Beth yw manteision y fframwaith i bobl ifanc?

Mae'r fframwaith wedi'i lunio yn unol ag anghenion pobl ifanc gyda mwy o wybodaeth ar gael sy'n galluogi'r person ifanc i fod yn fwy pwerus yn y system. Er enghraifft, cyhoeddi prospectysau lleol ym mhob ardal yng Nghymru sy'n nodi manylion pob cwrs ôl-16 sydd ar gael iddynt a fydd yn galluogi pobl ifanc i benderfynu drostynt hwy eu hunain pa opsiynau a allai gynnig y cyfle gorau iddynt ddatblygu ymhellach yn llwyddiannus. Bydd y broses ymgeisio gyffredin electronig newydd yn eu galluogi i wneud cais yn uniongyrchol i unrhyw ddarparwr.

Mae'r fframwaith yn cynnwys dau gynnig newydd i bobl ifanc.

- Y cyntaf yw penodi swyddog arweiniol ar gyfer y bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf er mwyn helpu i sicrhau y caiff cymorth ei roi mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynol a'i fod yn llwyddo i ddiwallu eu hanghenion.
- Yr ail yw datblygu Gwarant Ieuenctid rhagweithiol a chadarnhaol a fydd yn helpu i sicrhau bod pob person ifanc yn cael mynediad at le addas ym myd dysgu ar ôl 16 oed.

O'u gweithredu dylai'r ddau gynnig newydd hyn wella profiad pobl ifanc yn sylweddol. Dylai cynnig un pwynt cyswllt a all gydgysylltu ag asiantaethau eraill helpu i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu ac osgoi'r achosion o ddyblygu, gorgyffwrdd a dryswch a brofir gan lawer o bobl ifanc ar hyn o bryd. Bydd proses Gwarant Ieuenctid yn tynnu sylw at fylchau mewn darpariaeth ac yn helpu darparwyr i ymateb i anghenion pobl ifanc yn ogystal â chyflogwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal yn ymrwymedig i gefnogi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a bydd yn disgwyl gweld ardaloedd lleol yn hyrwyddo cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o ddarparu'r fframwaith. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad 'Sgwrs Go lawn' i ddatblygu'r cynllun hwn ac roedd pobl ifanc yn glir iawn ynglŷn â'r hyn yr oeddent am ei weld. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am well gwybodaeth, cyngor a chanllawiau, mwy o gymorth i bontio, cydnabyddiaeth am bob math o ddarpariaeth a chael eu trin fel unigolion.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymrwymedig i weld y Gymraeg yn ffynnu. Mae *Strategaeth y Gymraeg a'r Strategaeth addysg cyfrwng Gymraeg* yn amlinellu ein huchelgais i atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Byddwn yn disgwyl i ardaloedd lleol ystyried pwysigrwydd anghenion ieithyddol pobl ifanc wrth weithredu'r fframwaith.

## Dull gweithredu newydd

Bwriedir i'r fframwaith hefyd arwain at ddull gweithredu newydd. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar arfer effeithiol sy'n bodoli eisoes mewn rhannau o Gymru. Bwriadwn adeiladu ar yr arfer effeithiol hwn drwy sicrhau y caiff ei weithredu'n fwy cyson ym mhob ardal yng Nghymru. Rhoddir mwy o fanylion ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau am weithredu ym Adran 8 (tudalen 62) ond ceir crynodeb yma.

- Rôl **Llywodraeth Cymru** o ran gweithredu'r fframwaith yw pennu safonau a disgwyliadau clir, er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddatblygu eu cynlluniau a chefnogi'r broses o'u rhoi ar waith drwy eu helpu i ddysgu o arfer effeithiol ledled Cymru, tra'n dwyn awdurdodau lleol a darparwyr i gyfrif am yr hyn a gyflawnwyd.
- **Awdurdodau lleol** fydd â'r cyfrifoldeb strategol arweiniol am weithredu'r fframwaith. Efallai y byddant am roi'r cyfrifoldeb am weithredu'r fframwaith i uwch arweinydd o fewn yr awdurdod lleol. At hynny, efallai y byddant am ddatblygu rôl Cydgyssylltydd Ymgysylltu a Datblygu i roi arweiniad gweithredol a gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru a darparwyr.
- Gall **Gyrfa Cymru** helpu i sicrhau mwy o gysondeb wrth weithredu'r fframwaith ledled Cymru ac mae'n chwarae rhan bwysig o ran helpu i ddatblygu trefniadau broceriaeth newydd ac wrth weithredu'r data a'r systemau olrhain.
- Bydd y **Gwasanaeth Ieuencid** mewn sefyllfa dda i ymgymryd â rôl y gweithiwr arweiniol ar gyfer rhai o'r bobl ifanc sydd wedi'u henwi fel y rhai â'r angen mwyaf am gymorth. Bydd y Strategaeth Gwaith Ieuencid Genedlaethol sydd ar fin ymddangos yn gosod y rôl hon yng nghyd-destun ehangach y Gwasanaethau Ieuencid.
- **Ysgolion** sy'n gyfrifol am sicrhau bod y bobl ifanc gywir wedi'u nodi ac am olrhain y cynnydd a wnaed gan bobl ifanc. Byddant yn cefnogi pobl ifanc i ddefnyddio'r broses ymgeisio gyffredin ac yn sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor a chanllawiau priodol. Byddwn yn dwyn ysgolion i gyfrif drwy ddatblygu Mesurau Cyrchfannau ôl-16.
- Mae gan **ddarparwyr ôl-16** gyfrifoldeb allweddol i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o roi'r gorau i addysg a rhoi cymorth i'w helpu i gadw diddordeb. Bydd angen iddynt hysbysu Gyrfa Cymru os bydd pobl ifanc yn rhoi'r gorau i addysg a hyfforddiant. Maent hefyd yn hollbwysig o ran sicrhau bod cymysgedd priodol a darpariaeth gytbwys ar waith ym mhob ardal.

## Adran 2:

**Nodi'n gynnar**

**Broceriaeth**

**Tracio**

**Darpariaeth**



Tud. 38

Bydd yr adran hon yn nodi sut y bwriadwn ddatblygu dull cyson o ddatblygu a defnyddio systemau nodi'n gynnar ledled Cymru i lywio'r ffordd y caiff cymorth ei ddyrannu ac y caiff ei effaith ei werthuso. Nodi'n gynnar bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yw sylfaen y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid*. Bydd nodi'n gynnar yn ei gwneud yn bosibl i gymorth wedi'i dargedu gael ei roi ar waith i gael mwy o ymgysylltu, gwella cyrhaeddiad a datblygu llwybrau cadarnhaol tuag at gyflogaeth i'r rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Bydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl i olrhain effeithiolrwydd y cymorth hwn i weld a yw'r perygl y bydd pobl ifanc yn ymddieithrio yn lleihau. A bydd yn llywio'r broses o gomisiynu darpariaeth er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol a chyfleoedd i ddatblygu ar waith i bob person ifanc.

Byddwn yn sicrhau y bydd gan bob ardal leol system nodi'n gynnar effeithiol a ddefnyddir yn gyson gan y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc drwy:

- **bennu safonau craidd ar gyfer nodi'n gynnar yng Nghymru.** Rydym wedi nodi safonau craidd yn y ddogfen hon ar gyfer nodi'n gynnar yng Nghymru er mwyn helpu i lywio awdurdodau lleol i ddatblygu eu dull gweithredu eu hunain. Rydym yn gofyn i bob awdurdod lleol ddatblygu dull o nodi'n gynnar erbyn mis Mawrth 2014 yn barod i'w weithredu'n gyntaf ym mis Medi 2014
- **datblygu systemau nodi'n gynnar ôl-16 effeithiol a systemau nodi parhaus ôl-16.** Byddwn yn gofyn i awdurdodau lleol benderfynu pa ddangosyddion a throthwyon y byddant yn eu defnyddio a chysylltu eu systemau nodi'n gynnar ar lefel uwchradd â'r lefel gynradd a'r blynyddoedd cynnar. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol weithio'n agos gydag ysgolion i ddatblygu a defnyddio eu systemau nodi'n gynnar. Ôl-16, rydym yn disgwyl i systemau'r darparwyr eu hunain nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio ac i ddarparwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gyrfu Cymru. Bydd awdurdodau lleol yn penderfynu sut y gall canlyniadau'r broses nodi'n gynnar ôl-16 fwydo i mewn i fodel pum haen 16–18 Cymru
- **gweithredu system nodi'n gynnar er mwyn dechrau nodi anghenion cymorth.** Awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb allweddol am weithredu systemau nodi'n gynnar. Bydd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn gyfrifol am oruchwylio'r broses nodi'n gynnar. Disgwylwn iddynt weithio'n agos gyda Gyrfu Cymru ac integreiddio systemau nodi'n gynnar â phrosesau cymorth eraill megis Teuluoedd yn Gyntaf. Drwy sgwrsiau gydag ysgolion bydd y broses nodi'n gynnar yn dechrau nodi anghenion cymorth penodol i fwydo i mewn i'r broses froceriaeth.

## Safonau craidd ar gyfer nodi'n gynnar yng Nghymru

Ceir ystod o dystiolaeth sy'n dangos pwysigrwydd nodi'n gynnar ac effeithiolrwydd gwahanol systemau nodi'n gynnar.

- Mae SCYA wedi cyhoeddi ymchwil i ddatblygiad systemau nodi'n gynnar a dangosyddion gwahanol yn Lloegr er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno Codi Oedran Cyfranogi<sup>1</sup>.
- Yng Nghymru mae nifer o ardaloedd lleol eisoes wedi datblygu systemau nodi'n gynnar. Mewn rhai o'r ardaloedd hyn gwelwyd gostyngiadau mawr yn nifer y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a chredwn mai un o'r rhesymau allweddol yw eu systemau nodi'n gynnar.

Ar sail y dystiolaeth hon a gwaith a wnaed gan awdurdodau lleol dros y flwyddyn ddiwethaf, credwn y dylai systemau nodi'n gynnar yng Nghymru:

- **canolbwyntio ar ddangosyddion presenoldeb, ymddygiad a chyrraedd fel craidd** (gyda'r hyblygrwydd i ychwanegu dangosyddion lleol perthnasol eraill)
- **llunio asesiad clir wedi'i flaenoriaethu o risg o ganlyniad.** Mae llawer o'r systemau cyfredol yn defnyddio dangosyddion 'goleuadau traffig' a byddem yn disgwyl i lawer o systemau yng Nghymru ddefnyddio graddfa driphwynt debyg
- **trafod y canlyniadau gydag ysgolion a darparwyr eraill** er mwyn rhoi cyfle i wybodaeth ymarferwyr gael ei bwydo i mewn i'r broses nodi'n gynnar
- **cael ei defnyddio gan bob partner sy'n ymwneud â rhoi cymorth** i bobl ifanc yn enwedig Gyrfa Cymru a'r Gwasanaeth Ieuencid
- **bod yn gyson â gwasanaethau eraill** megis Teuluoedd yn Gyntaf, cymorth anghenion addysgol arbennig (AAA), darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol sy'n nodi pobl ifanc y mae angen cymorth ychwanegol arnynt
- **dechrau gyda Chyfnod Allweddol 4 yn gyntaf** ond disgwyl iwn i awdurdodau lleol gynnwys Cyfnod Allweddol 3 ar y cyfle cynharaf posibl a chysylltu â systemau ôl-16.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hastudiaeth ei hun o systemau nodi'n gynnar yn seiliedig ar dystiolaeth o Gymru a gwledydd eraill **ym mis Hydref 2013**. Byddwn yn cyhoeddi cyngor manylach ar ddatblygu a defnyddio systemau nodi'n gynnar er mwyn helpu awdurdodau lleol i gynllunio eu dull gweithredu. Rydym yn amlinellu isod rai o'r ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu systemau nodi'n gynnar cyn-16 effeithiol a systemau nodi'n barhaus ôl-16.

## Datblygu systemau nodi'n gynnar cyn-16 effeithiol

Wrth ddatblygu eu systemau nodi'n gynnar cyn-16 bydd angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid feddwl am nifer o gwestiynau fel y canlynol.

<sup>1</sup> Filmer-Sankey, C. a McCrone, T. (2012). *Developing indicators for early identification of young people at risk of temporary disconnection from learning*. (Rhaglen Ymchwil SCYA: From Education to Employment). Slough: SCYA.



## **Pa ddangosyddion a throthwyon i'w defnyddio?**

- Dengys y dystiolaeth y bydd ffocws ar bresenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad yn nodi'r rhan fwyaf o bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â gwneud cynnydd cadarnhaol yn 16 oed<sup>2</sup>. Credwn mai dyma'r dangosyddion craidd y dylai pob system nodi'n gynnar eu defnyddio.
- Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod dangosyddion eraill y bydd ardaloedd lleol yn penderfynu eu bod yn berthnasol iddynt a gall awdurdodau lleol eu hychwanegu felly at ddangosyddion craidd presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad.
- Ni fwriadwn bennu pa drothwyon y dylai ardaloedd lleol eu defnyddio. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o gyngor ar systemau nodi'n gynnar a fydd yn rhoi tystiolaeth ynglŷn ag effaith debygol pennu gwahanol drothwyon.
- Fodd bynnag, ni ddisgwyliwn i ardaloedd lleol ddefnyddio meini prawf a throthwyon sy'n nodi carfannau cyfan o bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio. Awgryma tystiolaeth o systemau sy'n bodoli eisoes na fydd mwy na 50 y cant o bobl ifanc yn cael eu nodi, gyda niferoedd is yn y categorïau risg uchel.

## **Pryd y dylai'r broses o nodi'n gynnar ddechrau?**

- Disgwyliwn i'r broses ddechrau ym Mlwyddyn 10 a pharhau ym Mlwyddyn 11 wrth i bobl ifanc baratoi i symud i'r cyfnod ôl-16. Fodd bynnag, rydym am weld proses nodi'n gynnar yn digwydd yn gynharach yng Nghyfnod Allweddol 3.
- Mae angen hefyd i systemau nodi'n gynnar gysylltu â'r broses o nodi a chefnogi pobl ifanc mewn ysgolion cynradd a'r blynyddoedd cynnar. Byddwn yn disgwyl gweld systemau nodi'n gynnar yn defnyddio'r wybodaeth a rennir ynglŷn â'r ffordd y mae pobl ifanc yn pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

## **Pwy ddylai gymryd rhan yn y broses?**

- Bydd ymgysylltu ag ysgolion yn hollbwysig. Disgwyliwn i'r broses ddechrau drwy ddadansoddi'r data ac yna drwy sgysiau ag ysgolion disgwyliwn i wybodaeth ymarferwyr gael ei bwydo i mewn i'r broses.
- Bydd Gyrfa Cymru hefyd yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth a fydd yn bwydo i mewn i'r broses nodi'n gynnar, yn enwedig ym Mlwyddyn 11 pan fydd pobl ifanc yn cwblhau'r Broses Ymgeisio Gyffredin.
- Dylai ardaloedd lleol ystyried sut y gellid ymgynghori â phobl ifanc yn y broses nodi'n gynnar er mwyn iddynt roi eu barn ar eu risg a'u hanghenion.

---

<sup>2</sup> Bathgate, K. a J. Bird (2013) *Identifying young people at risk of disengaging* (Llywodraeth Cymru: Caerdydd).



## Arfer cyfredol: Nodi'n gynnar ym Mlaenau Gwent

Mae adnodd nodi'n gynnar Blaenau Gwent wedi cael ei ddatblygu drwy ddysgu o fodolau o arfer da yn Abertawe a Wrecsam. Sefydlwyd gweithgor i nodi cyfres o ffactorau risg, y gwyddys eu bod yn gysylltiedig ag ymddieithrio rhag dysgu ymhlith pobl ifanc. Rhoddwyd pwysoliadau i'r ffactorau risg hyn yn seiliedig ar ddemograffeg Blaenau Gwent a gwybodaeth hanesyddol o bobl ifanc gynt nad ydynt wedi bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn yr ardal. Roedd y ffactorau risg yn cynnwys cyfraddau presenoldeb presennol a thueddiadau o ran presenoldeb, gwaharddiadau cyfredol ac yn y gorffennol, tangyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 yn ogystal â nifer o ddangosyddion eraill a nodwyd yn lleol. Rhoddwyd sgôr pwysoliad gwahanol i bob un o'r ffactorau risg a phennwyd trothwy cyffredinol i nodi pobl ifanc a oedd fwyaf tebygol o ymddieithrio.

Treialwyd yr adnodd am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2012 o Flwyddyn 7 hyd at Flwyddyn 11. Cafodd y wybodaeth ei rhannu gydag ysgolion, er mwyn canfod a oedd yr adnodd yn nodi'r plant a'r bobl ifanc gywir ai peidio. Yna cytunwyd o'r adeg honno ymlaen i ddefnyddio adnodd ddwywaith bob blwyddyn academiaidd o Flwyddyn 2 hyd at Flwyddyn 11, gan ddechrau o dymor yr hydref, 2012. Ym mis Tachwedd 2012, cafodd yr adnodd ei ddefnyddio am y tro cyntaf o Flwyddyn 2 hyd at Flwyddyn 11. Nodwyd cyfanswm o 410 o blant a phobl ifanc fel rhai a oedd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 11. Rhoddwyd y canfyddiadau am eu hysgol unigol i'r ysgolion, a rhoddwyd cymorth gan y Swyddog Datblygu dros bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant er mwyn sicrhau bod pecynnau cymorth ar waith i unigolion. Ar ôl hyn, defnyddiwyd yr adnodd eto ym mis Mai 2013 fel rhan o broses olrhain i ystyried a oedd ffactorau risg pobl ifanc wedi lleihau o ganlyniad i'r cymorth a roddwyd.

## Proses barhaus o nodi'r risg 16–18 yn effeithiol

Systemau darparwyr ôl-16 eu hunain o nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o roi'r gorau i addysg a system nodi Gyrfa Cymru yw'r elfennau allweddol o broses barhaus o nodi pobl ifanc a allai fod mewn perygl o ymddieithrio.

Hoffem weld y nodweddion canlynol o ran proses nodi parhaus.

- Bydd gan ddarparwyr ôl-16 eu systemau eu hunain ar waith i dynnu eu sylw at y perygl y bydd pobl ifanc yn rhoi'r gorau i addysg ac maent yn defnyddio eu systemau cymorth a'u gofal bugeiliol eu hunain yn y lle cyntaf.
- Bydd darparwyr ôl-16 yn hysbysu Gyrfa Cymru os nad yw eu systemau cymorth yn gweithio a bod person ifanc mewn perygl mawr o ymddieithrio neu eisoes wedi ymddieithrio.
- Bydd Gyrfa Cymru yn rhoi pobl ifanc mewn un o bum categori er mwyn dangos eu risg/lefel o ymddieithrio. Bydd Gyrfa Cymru yn diweddarau'r asesiad yn rheolaidd ar sail gwybodaeth a dderbyniwyd gan ddarparwyr, partneriaid neu drwy eu cysylltiad eu hunain â phobl ifanc.
- Bydd awdurdodau lleol ac yn benodol y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn sicrhau'r broses o nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn 16–18 oed yn gweithio'n effeithiol drwy weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru ac yn cydgysylltu â darparwyr ôl-16 os oes angen.

## Tud. 42

- Bydd awdurdodau lleol yn penderfynu pa wybodaeth o'r broses nodi cyn-16 a gaiff ei rhannu gyda Gyrfa Cymru a darparwyr ôl-16. Mae hyn yn cynnwys rhoi cytundebau rhannu data priodol ar waith a sicrhau nad yw gwybodaeth yn dylanwadu ar benderfyniadau derbyn darparwyr.

## **Gweithredu system nodi'n gynnar er mwyn dechrau nodi anghenion cymorth**

Yn y cyflwyniad i'r cynllun hwn nodwyd, o ystyried eu cyfrifoldeb am arwain y fframwaith yn strategol, efallai y bydd awdurdodau lleol am benodi uwch arweinydd a fydd â throsolwg o'r broses o weithredu'r fframwaith ac uwch aelod o staff yn Gydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu er mwyn rhoi arweiniad gweithredol a chydgyssylltu rhwng yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuencid, ysgolion a darparwyr ôl-16.

Bydd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn chwarae rhan allweddol o ran gweithredu nifer o rannau o'r fframwaith hwn. Rhoddir rhagor o fanylion am y rôl a phwy allai ymgymryd â hi yn Adran 7 (tudalen 54). Fodd bynnag, un o'u swyddogaethau pwysicaf fydd sicrhau bod systemau nodi'n gynnar ar waith a'u bod yn gweithredu'n effeithiol.

Bydd angen i'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu systemau nodi'n gynnar. Mae Gyrfa Cymru wedi bod yn datblygu eu dull eu hunain o nodi'n gynnar er mwyn llywio'r ffordd y dyrennir eu hadnoddau ac efallai y bydd awdurdodau lleol yn gallu adeiladu ar y rhain wrth iddynt ddatblygu eu systemau nodi'n gynnar eu hunain. Bydd angen hefyd iddynt feddwl ynglŷn â sut y bydd eu system yn cydweddu â systemau eraill ar gyfer nodi pobl ifanc y mae angen cymorth mwy dwys arnynt megis Teuluoedd yn Gyntaf, cymorth i bobl ifanc ag AAA a darpariaeth ar gyfer pobl ifanc mewn addysg heblaw yn yr ysgol.

Yn ogystal â nodi lefel risg pobl ifanc dylai Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu ddechrau nodi anghenion cymorth penodol pobl ifanc er mwyn bwydo hynny i mewn i'r sgwrs ynglŷn â broceriaeth. Gallai hyn gynnwys:

- awdurdodau lleol a darparwyr yn dechrau nodi a chofnodi anghenion cymorth penodol pobl ifanc yn ystod eu sgysiau cychwynol ynghylch canlyniadau'r broses nodi'n gynnar
- awdurdodau lleol a darparwyr yn nodi anghenion cymorth mewn sawl ffordd wahanol. Efallai y byddant yn ymwneud â nodwedd neu reswm penodol pam mae person ifanc wedi cael ei nodi fel un sydd mewn perygl o ymddieithrio neu efallai y byddant yn ymwneud ag angen penodol sydd gan y person ifanc
- awdurdodau lleol ac ysgolion yn cofnodi'r hyn sy'n deillio o'r sgysiau hyn er mwyn cael cytundeb clir nid yn unig ynghylch lefel y risg ond hefyd ynghylch pa fath o anghenion cymorth sydd ar yr unigolyn.


Mae angen i'r wybodaeth gychwynol hon am gymorth gael ei bwydo i mewn i'r sgwrs ynglŷn â broceriaeth er mwyn helpu i benderfynu pa fath o gymorth y mae angen ei roi i ba bobl ifanc. Bydd unrhyw ddadansoddiad neu asesiad mwy penodol arall yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses froceriaeth.

## **Tud. 43**

## Crynodeb o gerrig milltir allweddol nodi'n gynnar

Er mwyn i'r fframwaith gael ei weithredu'n llwyddiannus bydd angen cymryd y camau canlynol.

- Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor pellach i awdurdodau lleol, eu partneriaid a darparwyr ynglŷn â datblygu systemau nodi'n gynnar, eu cynnwys a'u gweithrediad erbyn mis Rhagfyr 2013.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau i ddarparwyr ôl-16 ynglŷn â'u cyfrifoldebau i nodi pobl ifanc 16–18 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio fel rhan o'r broses barhaus o gontractio â darparwyr ôl-16.
- Bydd awdurdodau lleol yn datblygu dull o nodi'n gynnar y cytunwyd arno erbyn mis Mawrth 2014 yn barod i'w weithredu'n gyntaf ym mis Medi 2014.
- Bydd awdurdodau lleol yn cynnwys eu cynigion ar gyfer nodi'n gynnar yn y cynlluniau cyflawni a gyflwynant i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2014.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag awdurdodau lleol i drafod eu dull arfaethedig o nodi'n gynnar cyn mis Gorffennaf 2014.
- Bydd dull cyson o nodi'n gynnar yn dechrau cael ei weithredu ledled Crymu ac ymhlith pob partner ym mis Medi 2014.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth ac yn rhannu arfer effeithiol o ran nodi'n gynnar o fis Medi 2014.





Tud. 45

## Adran 3:

Broceriaeth

gynnar

Tracio



wydd

Darpariaeth

Cyflogadwyedd  
a chyfleoedd  
cyflogaeth

Tud. 46

Mae'r adran hon yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer system newydd o gynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio, neu sydd wedi ymddieithrio rhag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae pobl ifanc yn cael cymorth gan nifer o sefydliadau ar hyn o bryd, yn dibynnu ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau. O ran effaith dylai'r cymorth hwn helpu pobl ifanc i ymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac i ddatblygu. Fodd bynnag, gall fod yn ddryslyd i bobl ifanc gael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth hwn ac yn aml nid oes cydgysylltu effeithiol. Credwn y dylai'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio, neu sydd wedi ymddieithrio gael mynediad at unigolyn a all roi cymorth cyson a help i gydgysylltu cymorth os bydd person ifanc hefyd yn cael cymorth gan wasanaethau cymorth arbenigol eraill. Disgrifiwn y rôl hon fel y 'gweithiwr arweiniol'.

Rydym am sefydlu system genedlaethol o weithwyr arweiniol ledled Cymru drwy:

- **nodi manyleb glir ar gyfer rôl y gweithiwr arweiniol.** Credwn mai'r rôl yw gweithio ochr yn ochr â phobl ifanc 'ar lawr gwlad', gan roi cymorth uniongyrchol i'r unigolyn yn ogystal â rhoi adborth ynghylch a yw ymyriadau a roddir gan eraill yn helpu'r person ifanc hwnnw i symud ymlaen
- **targedu gweithwyr arweiniol i roi cymorth i'r rhai sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio.** Bydd system nodi'n gynnar cyn-16 yn cael ei defnyddio i nodi'r rhai a all gael budd o weithiwr arweiniol. Ôl-16, bydd model 5 haen Gyrfa Cymru yn cael ei ddefnyddio i nodi'r rhai a all gael budd o weithiwr arweiniol. Y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu (CYD) fydd yn gyfrifol am ddyrannu gweithwyr arweiniol a bydd yn cael ei lywio gan gyfraniadau gan ymarferwyr a chyd-destun y cymorth ehangach sydd ar gael i bobl ifanc
- **cefnogi arfer effeithiol wrth gyflawni rôl gweithiwr arweiniol.** Disgwylw i awdurdodau lleol ystyried yr arian a'r adnoddau sydd ar gael eisoes i ymgymryd â rôl gweithiwr arweiniol. Er enghraifft, mae'r *Strategaeth Gwaith Ieuencid Genedlaethol* yn nodi'r Gwasanaeth Ieuencid fel adnodd perthnasol yn hyn o beth. Bydd angen hefyd iddynt ddatblygu trefniadau rhannu data priodol er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ynglŷn â phobl ifanc ei diogelu a'i rheoli'n briodol rhwng partneriaid cyflawni a chynorthwyo. Bwriadwn ddatblygu canllawiau arfer da wedi'u llywio gan arfer newydd a hyfforddiant ychwanegol i'r gweithwyr hynny sydd am ddod yn weithwyr arweiniol.

## Datblygu manyleb glir ar gyfer rôl y gweithiwr arweiniol

Mae rhai pobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd â rhwystrau ac anghenion cymhleth neu luosog eisoes yn cael cymorth gan unigolyn sydd â chyfrifoldeb penodol am sicrhau bod y pecyn cymorth a'r ymyriadau mewn perthynas â nhw neu eu teulu ehangach yn gydgysylltiedig ac

### Tud. 47

yn cefnogi datblygiad a deilliannau cadarnhaol. Gall y cymorth hwn gael ei roi gan weithiwr cymdeithasol neu gellir cytuno arno fel rhan o ddull gweithredu 'tîm o amgylch y teulu' Teuluoedd yn Gyntaf.

Fodd bynnag, mae pobl ifanc eraill sydd mewn perygl o ymddieithrio neu sydd wedi ymddieithrio nad ydynt yn cael cymorth arbenigol ar hyn o bryd, y credwn y byddent yn cael budd o gymorth unigolyn dynodedig a all helpu i sicrhau bod y cymorth a gânt wedi'i gydgysylltu'n well a'i fod yn diwallu eu hanghenion. I'r bobl ifanc hynny bydd y gallu i droi at unigolyn a enwyd y maent yn ymddiried ynddynt a all eu cynorthwyo a'u tywys yn helpu i sicrhau deilliannau cadarnhaol. Felly cynigiwn ddatblygu rôl 'gweithiwr arweiniol' newydd fel a ganlyn.

### **Manyleb rôl y 'gweithiwr arweiniol'**

Bydd gan weithwyr arweiniol berthynas uniongyrchol â'r person ifanc a dod yn bwynt cyswllt cyson ac yn gynhorthwy wrth iddynt symud ymlaen gan eu helpu i adeiladu a datblygu'r cadernid sydd ei angen arnynt yn yr hirdymor i lwyddo mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Ochr yn ochr â'u rôl bresennol, bydd gan weithwyr proffesiynol sy'n cael eu nodi'n weithwyr arweiniol gyfrifoldeb am gadw mewn cysylltiad â pherson ifanc ac am adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu os na fydd y pecyn cymorth a'r ymyriadau a drefnir ar gyfer unigolyn yn ei helpu mewn gwirionedd i ailymgysylltu a symud y person ifanc ymlaen.

Y cyfrifoldebau penodol sy'n gysylltiedig â rôl y gweithiwr arweiniol yw:

- bod yn unigolyn a enwyd ar gyfer llwyth achos o bobl ifanc fel y cytunwyd arno gan ei sefydliad cynhaliol â'r CYD a'r bartneriaeth ehangach
- rhoi cymorth yn uniongyrchol i'r person ifanc er mwyn helpu i adeiladu cadernid a/neu gydgysylltu cymorth gan nifer o wasanaethau cymorth eraill
- gweithredu fel eiriolwr y person ifanc er mwyn sicrhau ei fod yn cael y cymorth sydd ei angen arno
- rhoi adborth ar gynnydd y person ifanc i'r CYD er mwyn gallu asesu a yw'r cymorth yn cael yr effaith a ddymunir.

Astudiaethau achos dychmygol yw'r canlynol, sy'n dangos sut y gallai cymorth gan weithiwr arweiniol helpu pobl ifanc o dan wahanol amgylchiadau.



## Sut y gallai gweithiwr arweiniol helpu pobl ifanc?



Yn hanesyddol mae Sangita wedi cael trafferth i fod yn rhan o addysg ôl-16 ac wedi rhoi'r gorau i sawl cwrs. Fodd bynnag, mae bellach yn dilyn cwrs gyda darparwr hyfforddiant ond mae'n tynnu at derfyn ei chwrs ac nid oes ganddi syniad clir ynglŷn â'r cam nesaf. Nodwyd (gan Gyrfa Cymru) iddi fod mewn perygl o ymddieithrio yn y gorffennol, ac mae Gyrfa Cymru wedi nodi bod angen iddi gael cyfweiliad diwedd cwrs. A hithau mewn perygl o ymddieithrio mae Gyrfa Cymru yn cytuno â'r CYD eu bod mewn sefyllfa dda i roi cymorth gweithiwr arweiniol ac mae Sangita yn cael ei chynnwys yn llwyth achos cyngorydd gyrfaoedd penodol a fydd yn cyflawni'r rôl hon yn y dyfodol a rhoi parhad cymorth. Bydd y Cyngorydd Gyrfaoedd yn ei rôl fel gweithiwr arweiniol yn parhau i fod ar gael i roi cymorth a phwynt cyswllt i Sangita yn ystod tri mis cyntaf ei chwrs newydd yn y coleg er mwyn sicrhau ei bod yn ymgartrefu yn y coleg. Ar ôl siarad sawl gwaith â Sangita mae'r gweithiwr arweiniol yn credu y byddai ychydig mwy o gymorth i feithrin cadernid a'r gallu i lwyddo'n fwy cyffredinol yn fuddiol iddi. Mae'r gweithiwr arweiniol yn hysbysu'r CYD am hyn ac mae'r cydgysylltydd yn ei dro yn helpu i gyd-drefnu cysylltiadau â gweithiwr ieuencid lleol.



Mae Rhys yn 14 oed ac mae ganddo nifer o broblemau cymhleth. Mae wedi bod yn cael cymorth gan yr awdurdod lleol ochr yn ochr â gwasanaethau arbenigol eraill ers nifer o flynyddoedd. Mae wedi symud ysgol ddwywaith yn ystod ei addysg uwchradd eisoes ac mae ganddo record presenoldeb wael. Mae Rhys wedi bod yn derbyn gofal am gyfnodau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r system nodi'n gynnar wedi ei nodi fel un sydd mewn perygl mawr o ymddieithrio. Mae Teuluoedd yn Gyntaf eisoes wedi dynodi gweithiwr cymdeithasol i Rhys a chytunwyd â'r CYD y bydd yn gweithredu fel ei weithiwr arweiniol yng nghyd-destun y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid*. Caiff cynnydd Rhys ei adolygu bob tymor mewn cyfarfod lle y bydd pob partner sy'n rhoi cymorth yn bresennol a chaiff adborth ar ei statws (perygl o ymddieithrio) ei drosglwyddo o'r gweithiwr arweiniol i'r CYD yng nghyd-destun y cymorth ehangach a roddir.



Mae Sarah yn 17 oed ac wedi cael lluo o broblemau presenoldeb yn yr ysgol a'r coleg. Llwyddwyd i'w hailgysylltu eto ond yn ddiweddar mae wedi rhoi'r gorau i addysg. Er na chafodd ddatganiad yn yr ysgol roedd ar y gofrestr Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Roedd coleg AB Sarah wedi ei nodi fel uniglyn mewn perygl o ymddieithrio ac roedd yn rhoi cymorth mentora penodol iddi yn ystod ei chyfnod yn y coleg fel rhan o'i drefniadau cymorth bugeiliol. Mae hyn wedi dod i ben gan fod Sarah wedi rhoi'r gorau i addysg ac mae Gyrfa Cymru wedi cael atgyfeiriad gan y coleg ynglŷn â'i phenderfyniad i roi'r gorau i'w chwrs. Mae wedi gwahodd Sarah i gael trafodaeth ynglŷn â'i chynlluniau yn y dyfodol. Ar ôl cael gwybod am sefyllfa ac anghenion Sarah mae'r CYD yn cysylltu â phartneriaid i gael trafodaeth ynghylch pwy sydd yn y sefyllfa orau i roi cymorth gweithiwr arweiniol, oherwydd ei hangen am gymorth meithrin gallu ehangach a'i hymwneud o'r blaen â chlwb ieuencid, penderfynir mai gweithiwr ieuencid ddylai ymgymryd â rôl y gweithiwr arweiniol. Bydd y gweithiwr arweiniol yn helpu i gadw mewn cysylltiad â Sarah a'i helpu i ymgysylltu â gwasanaethau megis Gyrfa Cymru ac yn parhau i roi cymorth tra bydd yn ymfefydlu o ran y ddarpariaeth yn y dyfodol.

Tud. 49

## Targeddu gweithwyr arweiniol i roi cymorth i'r rhai sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio

Disgwyliwn i amgylchiadau penodol y person ifanc gael eu hystyried wrth benderfynu pa sefydliad sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â rôl gweithiwr arweiniol. I rai, efallai mai anogwr dysgu fydd yn y sefyllfa orau, i rywun arall, gweithiwr ieuenctid, i rywun arall eto, efallai y bydd gwasanaeth arbenigol presennol yn gallu ymgymryd â'r rôl. Er y gallwn gynnig rhai tybiaethau cychwynnol ynghylch pwy sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r rôl bydd angen i'r penderfyniad terfynol gael ei lywio gan gyfraniadau ymarferwyr a bydd angen cytuno arno drwy drafodaeth rhwng partneriaid lleol.

Bydd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn rheoli'r broses o ddynodi gweithwyr arweiniol gan ddefnyddio canlyniadau prosesau nodi'n gynnar i gyd-drefnu trafodaeth rhwng asiantaethau cymorth allweddol er mwyn nodi a ddylid dynodi gweithiwr arweiniol ar gyfer person ifanc o gwbl ac os felly pa sefydliad sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r rôl honno, yn ogystal â phwy arall fydd yn helpu i roi'r cymorth. Bydd angen iddynt benderfynu faint o bobl ifanc sy'n cael gweithiwr arweiniol yn unol â'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Er mwyn rhoi rhyw ganllaw byddem yn disgwyl i'r tybiaethau canlynol fod yn fan cychwyn cyn dynodi gweithwyr arweiniol.

- Pan fydd person ifanc wedi ymsefydlu mewn darpariaeth ac na thybir ei fod mewn perygl o ymddieithrio ni chaiff gweithiwr arweiniol ei ddynodi.
- Pan fydd person ifanc mewn perygl mawr o ymddieithrio, neu wedi ymddieithrio, caiff gweithiwr arweiniol ei ddynodi i helpu'r unigolyn.
- Gall y gweithiwr arweiniol ddod o un o'r gwasanaethau cymorth arbenigol neu gall fod yn anogwr dysgu, yn weithiwr ieuenctid neu'n un o gynghorwyr Gyrfa Cymru.
- Cyn-16, i'r rhai y tybir bod risg uchel neu ganolig y byddant yn ymddieithrio, ond nad ydynt yn cael cymorth o dan drefniadau Teuluoedd yn Gyntaf, y disgwyl yw mai'r gwasanaeth ieuenctid fydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â rôl gweithiwr arweiniol gyda'r rhai sy'n wynebu llai o risg yn cael cymorth drwy'r anogwr dysgu neu Gyrfa Cymru, yn dibynnu ar eu hanghenion.
- Ôl-16, caiff y penderfyniad ynglŷn â dynodi rôl y gweithiwr arweiniol ei lywio drwy gyfeirio at fodel pum haen Gyrfa Cymru (gweler Ffigur 6).

Disgwyliwn i weithwyr arweiniol ddechrau cael eu dynodi ym Mlynnyddoedd 10 ac 11 yn gyntaf. Disgwyliwn hefyd i weithwyr arweiniol gynnig parhad drwy'r cyfnod pontio a wynebir gan bobl ifanc yn 16 oed. Dylai pobl ifanc ddisgwyl cadw eu gweithiwr arweiniol drwy'r tri mis cyntaf o'u cyfnod mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, ac eithrio lle mai anogwr dysgu oedd y gweithiwr arweiniol. Ar yr adeg hon byddent yn cael eu hailasesu fel rhan o'r model pum haen a chât penderfyniad ei wneud ynghylch a ddylai cymorth gan weithiwr arweiniol barhau ai peidio.

Ffigur 6: Model pum haen Gyrfa Cymru ar gyfer ymgysylltu (ôl-16) a dynodi gweithwyr arweiniol

Haen	Grŵp cleient	Gweithiwr arweiniol
<b>Haen 5</b> <b>Pobl Ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.</li> <li>• Gweithio neu astudio'n rhan-amser am dros 16 awr.</li> <li>• Gwaith Gwirfoddol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni thybir bod angen gweithiwr arweiniol o ystyried bod y person ifanc eisoes wedi ymgysylltu ac ni thybir ei fod mewn perygl o ymddieithrio.</li> </ul>
<b>Haen 4</b> <b>Pobl Ifanc sydd mewn perygl o roi'r gorau i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y rhai sy'n cael llai na 16 awr o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.</li> <li>• Y rhai y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio cyn 16 a/neu y tybiwyd eu bod mewn perygl o beidio â phontio'n gadarnhaol sydd wedyn mewn addysg bellach, y chweched dosbarth neu hyfforddiant.</li> <li>• Y rhai y mae darparwyr addysg, cyflogaeth a hyfforddiant wedi tynnu sylw Gyrfa Cymru atynt am eu bod mewn perygl o roi'r gorau i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.</li> </ul>	<p>Mae dynodi gweithiwr arweiniol yn dibynnu ar lefel y risg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Risg isel a chanolig – systemau bugeiliol darparwyr a/neu ddynodi anogwr dysgu fel gweithiwr arweiniol.</li> <li>• Risg uchel – gellir dynodi gweithiwr arweiniol naill ai o'r Gwasanaeth Ieuencid neu Gyrfa Cymru neu os yw Teuluoedd yn Gyntaf mewn cysylltiad â'r unigolyn, bydd Tîm o Amgylch y Teulu yn penderfynu dynodi gweithiwr arweiniol.</li> </ul>
<b>Haen 3</b> <b>Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed y gŵyr Gyrfa Cymru amdanynt</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgysylltu â Gyrfa Cymru a/neu y gwyddys eu bod yn ceisio addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant; naill ai'n barod i ddechrau addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, neu wedi'u hasesu fel rhai y mae angen cymorth i reoli eu gyrfa neu i ddysgu sgiliau cyflogadwyedd er mwyn dechrau addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.</li> <li>• Dylai'r haen hon hefyd gynnwys y rhai y gŵyr Gyrfa Cymru amdanynt ac sy'n ceisio addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn rhagweithiol ond nad oes angen cymorth ychwanegol gan Gyrfa Cymru arnynt h.y. maent yn cael cymorth drwy gyrfacymru.com, yn aros am ddyddiad dechrau yn y coleg, ac ati.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithiwr arweiniol a nodwyd ar gyfer 100% o'r garfan.</li> <li>• Bydd Gyrfa Cymru yn darparu'r gweithiwr arweiniol ym mhob achos bron.</li> </ul>
<b>Haen 2</b> <b>Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed, y gŵyr Gyrfa Cymru amdanynt, nad ydynt ar gael i ddechrau addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Person ifanc nad yw ar gael/na all geisio addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (salwch, gofalwyr ifanc, beichiogrwydd, yn y ddalfa).</li> <li>• Pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog sy'n gofyn am gymorth personol dwys.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithiwr arweiniol a nodwyd ar gyfer 100% o'r garfan.</li> <li>• Bydd y Gwasanaeth Ieuencid yn darparu gweithiwr arweiniol ym mhob achos bron.</li> </ul>
<b>Haen 1</b> <b>Statws anhysbys ar adeg gadael gwasanaethau Gyrfa Cymru</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pobl ifanc na ŵyr Gyrfa Cymru amdanynt.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar ôl i unigolion gael eu nodi cânt eu rhoi mewn haen briodol a chaiff gweithiwr arweiniol ei ddynodi yn unol â hynny.</li> </ul>

Caiff cymorth ôl-18 i bobl ifanc ei ystyried yng nghyd-destun cyflogaeth a chymorth sgiliau ehangach i oedolion. Rydym yn datblygu cynigion sydd wedi'u hanelu at gyflwyno dull gweithredu symlach o 2014 ymlaen. Bydd hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer cyflawni ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, gan bennu cyfeiriad strategol clir i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith cyflogaeth a sgiliau i oedolion. Bydd hefyd yn cael ei ategu gan wasanaeth asesu ac atgyfeirio integredig i fusnesau ac unigolion sydd am gael cymorth o ran eu hanghenion sgiliau, lle y bo modd, drwy un pwynt mynediad.



### Arfer cyfredol: Broceriaeth yng Nghaerdydd

Mae proses nodi'n gynnar Caerdydd yn rhoi statws Coch/Melyn/Gwyrdd i ddangos y bobl hynny sydd â'r angen mwyaf am ymyriad a chymorth ychwanegol. Cadarnheir y statws drwy ddeialog ag ysgolion, ac mae'n galluogi ysgolion i nodi pobl ifanc eraill y gwyddant y byddant yn cael problemau difrifol wrth bontio ac sy'n cael eu hychwanegu at y categori coch. Caiff y data o brosesau nodi'n gynnar eu darparu i ysgolion deirgwaith y flwyddyn yn 2013–14 drwy borth diogel, a byddant yn sail i drafodaeth gydag ysgolion.

Bydd trafodaethau panel yr ysgol yn sicrhau y caiff anghenion unigolion eu diwallu wedyn o ran symud i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae'r paneli yn cynnwys dirprwy benaethiaid neu benaethiaid Cyfnodau Allweddol 3 a 4, Cynghorydd Gyrfaoedd, swyddog Lles, Cymorth Bugeiliol, swyddogion Lles (os oes rhai mewn swydd) ac enw cyswllt yn y Gwasanaeth Ieuencid. Caiff y bobl ifanc a nodwyd eu trafod a chaiff cynlluniau eu rhoi ar waith i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu yn yr ysgol.

Mae nifer o unigolion yn y categori Coch sydd â chymorth ychwanegol eisoes ar waith a bydd y cymorth hwn yn parhau. I bobl ifanc eraill y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ar ôl yr ysgol caiff gweithiwr arweiniol ei ddarparu. Er mwyn defnyddio'r adnodd hwn mae'n rhaid i'r ysgol gyflwyno achos busnes i'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu a fydd yn dynodi Gweithiwr Arweiniol yn unol â hynny. Ar yr un pryd llunir pecyn cymorth a chytunir arno fel y bydd ymyriad y Gweithiwr Arweiniol yn strwythuredig ac yn effeithiol a bydd modd ei fonitro.

### Cefnogi arfer effeithiol wrth gyflawni rôl gweithiwr arweiniol

Rydym yn gofyn i awdurdodau lleol ddatblygu a rhannu eu cynlluniau ar gyfer cyflawni model y gweithwyr arweiniol gyda phartneriaid lleol eraill a Llywodraeth Cymru erbyn mis Rhagfyr 2013. Bydd hyn yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol sy'n teimlo eu bod yn barod i ddechrau gweithredu model y gweithiwr arweiniol o fis Ebrill 2014. Byddai awdurdodau lleol eraill sy'n teimlo bod angen mwy o amser arnynt i ddatblygu a chytuno ar gynigion yn dechrau gweithredu ym mis Medi 2014.

Wrth ddatblygu eu cynigion bydd angen i awdurdodau lleol:

- ymgynghori a gweithio gyda nifer o bartneriaid – ysgolion, colegau, darparwyr eraill, Gyrfa Cymru a'r Gwasanaeth Ieuencid
- ystyried yr amryw systemau ariannu sy'n bodoli eisoes y gellid eu defnyddio i gefnogi gweithwyr arweiniol

## Tud. 52

- sicrhau bod protocolau rhannu data priodol ar waith er mwyn sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth am anghenion a datblygiad pobl ifanc a'u rheoli'n briodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru i gofnodi a lleadaenu arfer effeithiol wrth iddo ddod i'r amlwg. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi arfer da o ddechrau gweithredu ac yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ystyried pa hyfforddiant ac achredu ychwanegol fydd eu hangen o bosibl i gefnogi rôl y gweithiwr arweiniol ymhellach.

Mae pob person ifanc 14–19 oed mewn ysgolion, colegau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW) yn cael mynediad at anogwyr dysgu bellach ond mae'r rôl wedi datblygu ers ei dibenion gwreiddiol. Bydd Estyn yn cynnal adolygiadau o Wasanaethau Cymorth Dysgwyr mewn ysgolion a cholegau dros y ddwy flynedd nesaf – ysgolion yn 2013–14 a cholegau a darparwyr DSW yn 2014–15. Yng ngoleuni hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau newydd, wedi'u diweddarau i ddarparwyr ynglŷn ag anogwyr dysgu yng ngoleuni datblygiad rôl y gweithiwr arweiniol a'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid* ehangach. Byddwn yn ystyried argymhellion Estyn wrth ddiweddarau'r canllawiau.

## Crynodeb o gerrig milltir broceriaeth

- Bydd awdurdodau lleol yn datblygu cynigion i ddatblygu gweithwyr arweiniol a nodi a ydynt yn bwriadu dechrau yn y cam cyntaf (yn dechrau ym mis Ebrill 2014) neu'r ail gam (mis Medi 2014) erbyn mis Rhagfyr 2013.
- I'r rhai yn y cam cyntaf, bydd angen i awdurdodau lleol weithio gyda Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru i gytuno ar drefniadau ar gyfer nodi a gweithredu gweithwyr arweiniol erbyn diwedd mis Chwefror 2014.
- Yn ystod y cyfnod gweithredu cychwynnol hwn, pobl ifanc ym Mlwyddyn 11 sydd mewn perygl o beidio â phontio'n llwyddiannus fydd y flaenoriaeth wrth ddynodi gweithwyr arweiniol.
- I'r rhai yn yr ail gam bydd angen i drefniadau fod ar waith erbyn mis Gorffennaf 2014.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau arfer da i weithwyr arweiniol yng ngoleuni'r profiad cynnar o gyflawni erbyn mis Medi 2014.

	Hydref 2013	Gwanwyn 2014	Haf 2014	Haf 2014	Gwanwyn 2015
<b>Broceriaeth</b>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Rhag</b> – ALLau yn cytuno ar gynigion ar gyfer dynodi gweithwyr arweiniol gyda rhanddeiliaid lleol</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Medi</b> – LIC yn dechrau casglu arfer da ar gyfer gweithwyr arweiniol</li> </ul>	
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Chwe</b> – ALLau yn y cam cyntaf yn trafod cynlluniau ar gyfer dynodi gweithwyr arweiniol gyda GC/LIC</li> </ul>			
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Ebr</b> – ALLau yn y cam cyntaf yn mabwysiadu gweithiwr arweiniol</li> </ul>			
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Gorff</b> – ALLau yn yr ail gam yn cytuno ar gynigion ar gyfer dynodi gweithwyr arweiniol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Medi</b> – ALLau yn yr ail gam yn gweithredu cynigion ar gyfer gweithwyr arweiniol</li> </ul>		

# Adran 4:



Tud. 54

Bydd yr adran hon yn dangos sut y gall systemau tracio effeithiol helpu ardaloedd lleol i werthuso a yw'r cymorth a roddant ar waith yn gweithio i bobl ifanc. Bydd y broses o nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio a chyd-drefnu cymorth priodol a amlinellir yn yr adrannau blaenorol yn helpu i sicrhau bod y bobl ifanc gywir yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Ond mae'n bwysig hefyd bod awdurdodau lleol yn gallu monitro a gwerthuso effaith unrhyw gymorth a roddir i bobl ifanc, gan eu galluogi i addasu yn ôl yr angen a hefyd ddwyn darparwyr cymorth i gyfrif am effaith eu gwaith. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen iddynt ddatblygu systemau olrhain effeithiol cyn ac ôl-16.

Rydym wedi nodi pum cam gweithredu allweddol i atgyfnerthu prosesau tracio.

- **Atgyfnerthu prosesau tracio cyn-16 ysgolion ac awdurdodau lleol.** Nododd yr adolygiad o flaenoriaethau gan yr Uned Safonau Ysgolion nifer o gamau gweithredu i wella ansawdd prosesau tracio mewn ysgolion. Drwy gyfuno data ysgolion â'r broses nodi'n gynnar gellir cynnig ffordd effeithiol o dracio at ddefnydd awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.
- **Atgyfnerthu prosesau tracio wrth symud o'r cyfnod cyn-16 i'r cyfnod ôl-16 drwy'r Prospectws Ardal Leol a'r Broses Ymgeisio Gyffredin.** Byddwn yn cyflwyno proses prospectws ardal leol ac ymgeisio gyffredin electronig ar gyrfacymru.com fel y gall pob myfyriwr ym Mlwyddyn 11 gael mynediad at le dysgu addas ôl 16. Caiff y gwaith o tracio pobl ifanc wrth iddynt symud o addysg cyn 16 i addysg ôl-16 ei atgyfnerthu gan y prosesau hyn.
- **Atgyfnerthu prosesau tracio 16–18.** Bydd Arolwg Cyrchfannau Gyrfa Cymru yn cynnwys pob person ifanc 16–18 oed yn y dyfodol ymhob darparwr gan gynnwys y rhai mewn AB a DSW. Bydd Gyrfa Cymru yn darparu gwybodaeth reolaidd am lefelau ymgysylltu ymhlith pobl ifanc 16–18 oed yn erbyn y model pum haen.
- **Atgyfnerthu prosesau tracio ar bob oedran drwy rannu a defnyddio data yn fwy effeithiol.** Disgwylw'n i bob darparwr ôl-16 roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gyrfa Cymru ynghylch unrhyw bobl ifanc sydd wedi gadael eu darpariaeth neu sydd mewn perygl o roi'r gorau iddi. Bydd Gyrfa Cymru yn rhoi gwybodaeth bob chwarter ar lefel awdurdodau lleol ynglŷn â statws pobl ifanc 16–18 oed yn erbyn y model pum haen.
- **Atgyfnerthu prosesau tracio yn 18 oed a thu hwnt.** Byddwn yn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng systemau Gyrfa Cymru a systemau Canolfannau Byd Gwaith Lleol er mwyn sicrhau y parheir i dracio hynt pobl ifanc wrth iddynt symud i gyflogaeth. Byddwn hefyd yn ystyried atgyfnerthu prosesau tracio cyrchfannau darparwyr ôl-16.

## Atgyfnerthu prosesau tracio cyn-16 ysgolion ac awdurdodau lleol

Bydd cam cyntaf tracio cynnydd pobl ifanc yn dechrau yn ystod eu haddysg uwchradd. Cyn-16, yr ysgolion fydd yn bennaf cyfrifol am tracio cynnydd pobl ifanc. Gwyddom fod rhai ysgolion yn tracio cynnydd disgyblion yn effeithiol iawn, a bod gan rai awdurdodau lleol a chonsortia ddulliau effeithiol o gasglu'r data hyn ar lefel ysgolion er mwyn adolygu cynnydd gwahanol garfannau a grwpiau o ddysgwyr mewn ardal neu ranbarth.

Cynhaliodd yr Uned Safonau Ysgolion a Chyflawni Adolygiad o Flaenoriaethau o ran tracio disgyblion yn effeithiol mewn rhai o'r ysgolion yng Nghymru sydd wedi gweld y gwelliant mwyaf. Canfuwyd bod pob un o'r ysgolion hyn yn cynnwys y nodweddion canlynol o ran tracio.

- Defnyddio a dadansoddi data yn effeithiol at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd o ddysgwyr i'r Uwch Dîm Arwain.
- Deall bod y data yn arwain at gysondeb a thrylwyrredd wrth gael eu defnyddio, gan ddehongli a monitro cynnydd dysgwyr unigol, dosbarthiadau ac adrannau cyfan.
- Caiff targedau eu pennu'n well ar ôl dealltwriaeth gliriach a defnydd mwy effeithiol o ddata.
- Roedd cyfrifoldeb am ddehongli data a phennu targedau yn amrywio, o unigolion/timau bach i'w ddirprwyo i adrannau gyda'r Uwch Dîm Arwain yn herio adrannau ac yn ceisio trylwyrredd.
- Roedd pob ysgol yn tracio dysgwyr ac roedd y mwyafrif wedi darparu'r wybodaeth hon i bob aelod o staff, gan gynnig dull gweithredu cyfannol a modd i gymharu pob pwnc â'i gilydd. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i lywio ymyriadau cynnar a chamau gweithredu. Roedd rhai ysgolion wedi datblygu prosesau tracio ymhellach ac wedi ymgorffori dangosyddion lles.

Mae'r adolygiad o flaenoriaethau wedi eu cyhoeddi ar wefan Dysgu Cymru, ynghyd ag enghreifftiau o arfer da. Mae'r argymhellion yn cynnwys:

- gwella cysondeb ysgol gyfan o ran manylder y data a gofnodir mewn systemau tracio a pha mor aml y cânt eu cofnodi a dadansoddi data i lywio gwaith cynllunio ac ymyriadau
- ymgorffori arfer da o ran cysylltiadau rhwng Asesu ar gyfer Dysgu a systemau tracio, gan arwain at fwy o drylwyrredd o ran asesiadau ac ansawdd a chywirdeb ymyriadau
- gwella ac ymgorffori arfer da yn y defnydd o ddata tracio er mwyn llywio gwahaniaethu sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr unigol ac sy'n arwain at well deilliannau
- datblygu proses o dracio lles er mwyn gwella deilliannau, ymddygiad a phresenoldeb pob dysgwr gan gynnwys grwpiau penodol megis prydau ysgol am ddim, anghenion dysgu ychwanegol, mwy galluog a thalentog a phlant sy'n derbyn gofal.



Yn ogystal ag atgyfnerthu prosesau tracio ar lefel ysgolion mae angen i awdurdodau lleol a chonsortia atgyfnerthu'r defnydd o ddata ar lefel ysgolion. Un ffordd o wneud hyn yw drwy gysylltu prosesau tracio ar lefel ysgolion â'r broses nodi'n gynnar a defnyddio'r system hon i adolygu cynnydd pobl ifanc.

Disgwyliwn i'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu hwyluso sgysiau ag ysgolion yn rheolaidd – o leiaf bob tymor – ynglŷn â'r cynnydd y mae pobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio yn ei wneud ac adolygu a yw'r cymorth a roddwyd yn gweithio ai peidio.

Gwybodaeth tracio ysgolion ddylai gynnig y cyfraniad allweddol at y sgysiau hyn. Dylai roi cyfle i gael trafodaeth agored gydag ysgolion ynghylch a yw lefel y risg i berson ifanc wedi cynyddu, wedi lleihau neu wedi aros yr un fath. Yna gall y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu adolygu ar y cyd ag ysgolion p'un a yw'r cymorth a roddir yn gweithio, a oes angen iddo barhau fel y mae neu a oes angen ei newid mewn rhyw ffordd.

## **Atgyfnerthu prosesau tracio wrth i bobl ifanc symud o ddarpariaeth cyn 16 i ôl-16 drwy'r Prosectws Ardal Leol a'r Broses Ymgeisio Gyffredin**

Y cam nesaf o dracio cynnydd pobl ifanc yw'r cyfnod pontio wrth iddynt symud o addysg a hyfforddiant cyn-16 i ôl-16. Bwriadwn atgyfnerthu'r broses o tracio pobl ifanc wrth iddynt symud o addysg statudol i ddarpariaeth ôl-16 drwy ddatblygu Prosectws Ardal Leol a Phroses Ymgeisio Gyffredin electronig ar [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)

Bydd y Prosectws Ardal Leol a'r Broses Ymgeisio Gyffredin yn rhoi cyfle i bob person ifanc gael gafael ar wybodaeth ym Mlynnyddoedd 10 ac 11 ynglŷn â'r holl ddewisiadau sydd ar gael iddynt ar ôl 16 oed. Yna gellir tracio pobl ifanc sy'n ymgeisio drwy'r system hon er mwyn sicrhau eu bod wedi cwblhau cais yn llwyddiannus ac, wedyn, gadarnhau a ydynt wedi derbyn y lle hwinnw ai peidio.

Bydd y system newydd hon yn rhoi cyfle i dargedu cymorth yn fwy uniongyrchol at bobl ifanc ym Mlwyddyn 11 nad ydynt wedi cwblhau cais neu y mae eu ceisiadau wedi cael eu gwrthod er mwyn sicrhau y cânt gymorth i ystyried opsiwn arall. Gellir hefyd ei defnyddio i nodi pa bobl ifanc nad ydynt yn derbyn y cynnig disgwyliedig ym mis Medi gan sicrhau bod Gyrfya Cymru yn cael darlun cywir a llawn o gyrchfannau ôl-16 uniongyrchol y garfan gyfan.

## **Atgyfnerthu systemau tracio 16–18**

Ar ôl i bobl ifanc symud o addysg a hyfforddiant cyn 16 i ôl-16, mae'r cam nesaf yn y broses tracio yn digwydd rhwng 16 oed a 18 oed. Gyrfya Cymru yw'r sefydliad allweddol i dracio pobl ifanc 16–18 oed a bydd yn parhau felly.

Bydd Gyrfya Cymru yn parhau i gynnal arolwg blynyddol o gyrchfannau dysgwyr o Flwyddyn 11, Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13, ond o fis Hydref 2013 caiff hyn ei ehangu i gynnwys y garfan gyflawn o bobl ifanc 16–18 oed ymhob darparwr. Golyga hyn y caiff cyrchfannau pobl ifanc mewn addysg bellach a darpariaeth DSW eu cynnwys hefyd. Bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn parhau i gael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol gan Gyrfya Cymru.

Yn ogystal â rhoi cipolwg o gyrchfannau pobl ifanc disgwylw'n hefyd i Gyrfa Cymru gofnodi cynnydd pobl ifanc a rhoi darlun amser real o ble mae pobl ifanc yn y system. Bydd yn gwneud hynny erbyn y model pum haen o ymgysylltu ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Bydd nid yn unig yn dangos lle mae pob person ifanc yn y system ond bydd yn nodi a ydynt wedi symud rhwng yr haenau yn ystod cyfnod penodol.

## **Rhannu data a gwybodaeth am bobl ifanc yn fwy effeithiol**

Mae llwyddiant Gyrfa Cymru i dracio pobl ifanc ar ôl 16 oed pan fyddant yn 17 a 18 oed yn dibynnu i raddau helaeth ar waith asiantaethau eraill sy'n ei hysbysu bod pobl ifanc wedi rhoi'r gorau i'w haddysg. Yn y lle cyntaf y darparwyr ddylai roi'r hysbysiad hwn.

Er enghraifft, yn Abertawe, mae gan yr awdurdod lleol gytundeb â'r coleg lleol y bydd yn hysbysu Gyrfa Cymru am unrhyw berson ifanc sy'n rhoi gorau i'w cyrsiau o fewn pythefnos iddo wneud hynny. Mae llawer o awdurdodau lleol yn Lloegr hefyd wedi datblygu systemau sy'n ei gwneud yn bosibl i ddarparwyr hysbysu'r awdurdod lleol yn gyflym os bydd pobl ifanc yn rhoi'r gorau i'w haddysg.

Byddwn yn sicrhau y bydd system debyg lle mae'r darparwr yn rhoi gwybod am bobl ifanc sy'n rhoi gorau i'w haddysg ar waith ledled Cymru a chan bob darparwr drwy:

- atgyfnerthu disgwyladau yn llythyr blaenoriaethau addysg bellach a chontractau ariannu DSW i roi'r data hyn yn rheolaidd i Gyrfa Cymru
- gweithio gyda Colegau Cymru i weld sut y gallwn annog a chefnogi'r sector colegau yng Nghymru ymhellach i roi'r hysbysiadau hyn yn rheolaidd i Gyrfa Cymru
- gofyn i Gyrfa Cymru ein hysbysu am unrhyw ddarparwr nad ydynt yn bodloni'r gofynion hyn yn rheolaidd fel y gallwn godi'r mater hwn yn uniongyrchol gyda nhw. Mae hyn yn berthnasol i chweched dosbarth ysgolion yn ogystal â cholegau AB a darparwyr DSW.

Os bydd y broses hysbysu hon gan ddarparwyr yn gweithio'n effeithiol yna dylai cronfa ddata Gyrfa Cymru ddarparu gwybodaeth fyw a chyfredol am y rhan fwyaf o bobl ifanc drwy gydol eu haddysg a'u hyfforddiant yn 16, 17 a 18 oed. Fodd bynnag, bydd rhai pobl bob amser yn gadael y system neu'n symud rhwng ardaloedd lleol nad ydynt yn cael eu nodi ar unwaith. Mae angen i awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru roi systemau effeithiol ar waith i tracio y bobl ifanc 'anhysbys' hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych yn ofalus ar nifer y bobl ifanc anhysbys ym mhob ardal yn ogystal â chyfanswm y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Gall awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru ddefnyddio gwybodaeth o nifer o ffynonellau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n anhysbys ganddynt. Gall gwaith gweithwyr leuenctid datgysylltiedig fod yn bwysig iawn ac mae'n bosibl y bydd gan wasanaethau eraill awdurdodau lleol wybodaeth am y bobl ifanc anhysbys hyn. Bydd angen i ardaloedd lleol roi systemau effeithiol ar waith i hysbysu ei gilydd pan fydd pobl ifanc yn symud rhwng ardaloedd er mwyn osgoi sefyllfa lle mae pobl ifanc yn mynd yn anhysbys mewn un ardal er nad ydynt yn byw yno mwyach.

## **Tud. 58**

Mae datblygu protocolau rhannu data priodol hefyd yn rhan bwysig o roi systemau olrhain effeithiol ar waith (gweler yr astudiaeth achos canlynol) a bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau drafft ar gyfer sylwadau erbyn mis Gorffennaf 2014 ynglŷn â threfniadau a phrotocolau rhannu data i gefnogi prosesau tracio a gweithredu'r fframwaith. Argymhellodd yr Adolygiad o Gymwysterau 14–19 y dylid ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau dyfarnu sydd am ddarparu cymwysterau yng Nghymru yn y dyfodol gydymffurfio â'r defnydd o Rifau Dysgwyr Unigryw, ac y dylid ei gwneud yn ofynnol iddynt hwy a darparwyr dysgu ym mhob sector fabwysiadu systemau gwybodaeth sy'n casglu data Rhifau Dysgwyr Unigryw ar fformat y cytunir arno'n genedlaethol.



### Arfer cyfredol: Ceredigion – Rhannu Data Amlasiantaethol

Yng Ngheredigion mae Protocol Rhannu Gwybodaeth wedi cael ei ddatblygu i gefnogi gwasanaethau amlasiantaethol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i rannu gwybodaeth bersonol yn rheolaidd er mwyn nodi a lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r protocol yn atodol i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ac mae wedi'i sicrhau gan Fwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Cymru. Mae'r protocol yn cwmpasu cyfnewid gwybodaeth rhwng y canlynol: gwasanaethau addysg, cymunedol, cymdeithasol a throseddwr ifanc yr awdurdod lleol; y sector tai; darparwyr hyfforddiant; Gyrfa Cymru a'r sector gwirfoddol. Mae'r gwasanaethau amlasiantaethol hyn wedi dod ynghyd ar ffurf Grŵp Ymarferwyr NEET Ceredigion. Nod y grŵp hwn yw rhannu gwybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc y mae angen iddynt gael cymorth gan fwy nag un sefydliad yn cael gwasanaeth di-dor ac effeithiol; a bod y gwasanaethau wedi'u cydgysylltu, yn gydlynol ac yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd. Mae'r protocol ar gael ar wefan Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru: [www.waspi.org/page.cfm?orgid=702&pid=50178](http://www.waspi.org/page.cfm?orgid=702&pid=50178)

### Tracio pobl ifanc ôl-18

Ôl-18, mae gan y Ganolfan Byd Gwaith rôl allweddol i'w chwarae o ran tracio pobl ifanc wrth iddynt symud i gyflogaeth. Bydd Llywodraeth Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru yn parhau i ystyried cyfleoedd i gydweithio'n agosach drwy, er enghraifft, y Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth a Fforwm Strategol newydd Cymru ar gyfer Datblygu Gyrfa. Yn benodol, byddwn yn anelu at atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng systemau Gyrfa Cymru a systemau lleol y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn sicrhau y parheir i dracio pobl ifanc wrth iddynt symud i gyflogaeth.

### Crynodeb o gerrig milltir tracio

- Bydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn cysylltu systemau tracio ysgolion â phrosesau nodi'n gynnar erbyn mis Medi 2014 fan bellaf.
- Bydd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu ar y cyd ag ysgolion yn adolygu'r cynnydd a wneir gan fyfyrwyr bob tymor.

- Caiff Arolwg Cyrchfannau Gyrfa Cymru ei ehangu gynnwys cyrchfannau ym Mlwyddyn 11, 12 a 13 ymhob darparwr ym mis Hydref 2013 (i'w gyhoeddi gyntaf ym mis Mawrth 2014).
- Bydd Gyrfa Cymru yn cyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar statws y garfan gyflawn o bobl 16–18 oed yn erbyn y model pum haen o ymgysylltu bob chwarter o fis Hydref 2013.
- Bydd Gyrfa Cymru yn darparu gwybodaeth i ALLau ynglŷn â nifer y bobl ifanc 16, 17 a 18 oed ym mhob un o'r pum haen; yn fisol o fis Medi 2013.
- Bydd darparwyr ôl-16 yn hysbysu Gyrfa Cymru yn rheolaidd am unrhyw bobl ifanc sy'n rhoi'r gorau i'w darpariaeth o fis Medi 2013.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau drafft ar drefniadau a phrotocolau rhannu data erbyn mis Gorffennaf 2014.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda ColegauCymru i ddatblygu cyngor pellach i golegau AB ar roi gwybod am bobl ifanc sy'n gadael ac yn atgyfnerthu'r gofynion mewn cytundebau ariannu ôl-16 erbyn mis Ionawr 2014.
- Bydd y Prospectws Ardal Leol a'r Broses Ymgeisio Gyffredin ar gael ar [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com) o fis Medi 2013.


	Hydref 2013	Gwanwyn 2014	Haf 2014	Hydref 2014	Gwanwyn 2015
<b>Tracio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>0 fis Medi</b> – GC yn darparu gwybodaeth i ALLau yn fisol</li> <li>• <b>0 fis Medi</b> – Darparwyr ôl-16 yn hysbysu GC yn rheolaidd o'r rhai sy'n rhoi'r gorau iddi</li> <li>• <b>0 fis Medi</b> – Prospectws Ardal Leol ac Broses Ymgeisio Gyffredin ar gael</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Ion</b> – LIC/ColegauCymru yn rhoi cyngor pellach i AB ar hysbysu am y rhai sy'n rhoi'r gorau iddi</li> <li>• <b>Maw</b> – Cyhoeddi Arolwg Cyrchfannau GC a ehangwyd</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Medi fan bellaf</b> – ALLau ac ysgolion yn cysylltu system tracio ar lefel ysgolion a system nodi'n gynnar</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Hyd</b> – Ehangu Arolwg Cyrchfannau GC</li> <li>• <b>0 fis Hyd</b> – Adroddiadau chwarterol gan GC i LIC ac ALLau (carfan 16 i 18 yn erbyn model pum haen)</li> </ul>				



Tud. 61

## Adran 5:

**Darpariaeth**



Cyflogadwyedd  
a chyffleoedd  
cyflogaeth

Atebolrwydd

**Nodi'n gynnar**

Tud. 62

Mae'r adran hon yn nodi sut y bwriadwn sicrhau y gall y cymysgedd o ddarpariaeth sydd ar gael ym mhob ardal yng Nghymru ddiwallu anghenion pob person ifanc. Rydym yn diffinio darpariaeth yn yr adran hon fel darpariaeth addysg, hyfforddiant ac ailymgysylltu wedi'i hanelu at bobl ifanc. Trafodir darpariaeth sy'n cynnwys y gwasanaethau cymorth ehangach i bobl ifanc yn Adran 3 (tudalen 24). Er y gwyddom fod llawer o'r ddarpariaeth bresennol yn llwyddo i ddiwallu anghenion pobl ifanc ac yn cynnig cyfleoedd datblygu clir, cyfyd cwestiynau pwysicach ynghylch a yw'r holl ddarpariaeth sydd ar gael yn cynnig cyfleoedd datblygu clir i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Credwn fod angen i ardaloedd lleol ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghenion pobl ifanc a defnyddio'r ddealltwriaeth i sicrhau bod y cyflenwad o ddarpariaeth bresennol a newydd yn diwallu'r anghenion hynny ym mhob ardal yng Nghymru.

Rydym wedi nodi pedair blaenoriaeth i atgyfnerthu darpariaeth i bobl ifanc.

- **Proses gryfach o fapio'r ddarpariaeth bresennol.** Mae angen i awdurdodau lleol gael darlun llawn o'r holl ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol a'i mapio yn erbyn anghenion pobl ifanc a nodwyd drwy'r broses nodi'n gynnar neu fodel pum haen Gyrfa Cymru. Rydym yn gofyn i awdurdodau lleol atgyfnerthu'r ffordd y maent yn mapio'r ddarpariaeth bresennol a defnyddio hyn i nodi bylchau, anghenion nas diwallwyd neu ddyblygu yn y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes.
- Bydd **gweithredu'r Warrant Ieuencid Newydd** yn gyfrifoldeb allweddol i awdurdodau lleol fel rhan o'u rôl strategol arweiniol i weithredu'r fframwaith. Bydd angen iddynt weithio gyda nifer o sefydliadau lleol er mwyn sicrhau y caiff y Warrant Ieuencid ei gweithredu'n effeithiol. Byddwn yn nodi'r camau gweithredu a'r rolau a'r cyfrifoldebau allweddol isod a byddwn yn cyhoeddi canllawiau manwl er mwyn helpu i weithredu'r Warrant Ieuencid.
- **Gweithio gyda darparwyr i wella'r hyn a gynigir ar hyn o bryd.** Gan ddefnyddio'r dystiolaeth sy'n deillio o'r broses o fapio darpariaeth a'r Warrant Ieuencid, bydd awdurdodau lleol drwy rwydweithiau 14–19 yn ymgysylltu â phob darparwr er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu cymysgedd priodol a darpariaeth gytbwys yn lleol. Bydd gan y sector AB, chweched dosbarth ysgolion a darparwyr dysgu seiliedig ar waith a'r trydydd sector oll ran allweddol i'w chwarae.

- **Targedau darpariaeth newydd at anghenion nas diwallwyd.** Rhan o'r her yn hyn o beth yw cael y cydbwysedd cywir rhwng darpariaeth a ariennir yn lleol ac yn genedlaethol. Credwn y dylai awdurdodau lleol gael mwy o lais o ran y ddarpariaeth a gomisiynir drwy raglenni cenedlaethol fel hyfforddeiaethau. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau bod darpariaeth a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn fwy cyson ag anghenion lleol ac yn cefnogi datblygiad y rhai sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio.

## Proses gryfach o fapio'r ddarpariaeth bresennol

Dylai'r broses nodi'n gynnar a amlinellir yn Adran 2 (tudalen 16) a'r broses froceriaeth a amlinellir yn Adran 3 (tudalen 24) helpu awdurdodau lleol i ddeall amrywiaeth a chymysgedd anghenion pobl ifanc mewn ardal leol. Bydd hyn yn cynnwys yr angen am wahanol fathau o ddarpariaeth cyn-16 ac ôl-16. Bydd y cam nesaf o'r fframwaith yn gofyn i awdurdodau lleol fapio'r anghenion hyn yn erbyn yr holl ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn ei gwneud yn bosibl iddynt ddadansoddi a oes unrhyw fylchau, anghenion nas diwallwyd o ran darpariaeth neu unrhyw ddyblygu yn y ddarpariaeth bresennol.

Drwy ein gwaith gydag awdurdodau lleol gwyddom fod rhai eisoes wedi dechrau mapio eu darpariaeth. Mae rhai ardaloedd eisoes wedi pennu data sylfaenol ar ddarpariaeth ac mae eraill ar y trywydd cywir i ddechrau casglu data – gweler yr enghraifft canlynol.



### Arfer cyfredol: Rhondda Cynon Taf (RhCT) – mapio darpariaeth

Er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant cyflogodd RhCT Gydgyssylltydd Strategaeth Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant i arwain y gwaith o ddatblygu partneriaeth strategol yn RhCT. Yn ystod y flwyddyn gyntaf cynhaliodd y cydgysylltydd archwiliad o'r gwasanaethau a'r sefydliadau yn RhCT a oedd yn cyfrannu at y gwaith o gefnogi pobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio neu a oedd mewn perygl o ymddieithrio. Ym mis Mawrth 2012 cyhoeddwyd 'Cyfeiriadur o Wasanaethau' yn Rhondda Cynon Taf sy'n rhoi cymorth i blant a phobl ifainc sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a'u teuluoedd. Rhoddodd y cyfeiriadur hwn wybodaeth i weithwyr proffesiynol ynglŷn â'r holl wasanaethau lleol a oedd yn cynnig cymorth i bobl ifanc a'u teuluoedd ynghyd â'u manylion cyswllt.

Ar ôl cyhoeddi a dosbarthu'r cyfeiriadur, a chydag arweiniad a chymorth y Grŵp Llywio Strategol, dechreuodd y cydgysylltydd ar y gwaith o fapio'r gwasanaethau yn y cyfeiriadur yn erbyn model pum haen Gyrfa Cymru. Dangosodd dadansoddiad cychwynnol fod darpariaeth dda ar draws y pum haen, ond tynnodd sylw hefyd at achosion posibl o ddyblygu gwasanaethau o fewn rhai haenau yr oedd angen ymchwilio iddynt ymhellach. Bydd y dadansoddiad hwn ynghyd â'r ymarfer mapio cwricwlwm a gynhaliwyd gan dîm 14–19 RhCT a'r data a gynhyrchwyd drwy Broffilio'r Rhai mewn Perygl (proses RhCT o nodi'n gynnar bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio) hefyd yn helpu i nodi a mynd i'r afael ag achosion o ddyblygu gwasanaethau neu fylchau mewn darpariaeth. Bydd hefyd yn sicrhau bod y galw yn y dyfodol am wasanaethau ym mhob haen yn cael ei fodloni drwy'r ddarpariaeth sydd ar gael ledled RhCT.



Rydym bellach am ddatblygu ffordd gyson o fapio darpariaeth ymhlith awdurdodau lleol ym mhob ardal er mwyn sicrhau bod darlun clir o pa mor dda y mae darpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc. Disgwylw'n i'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu arwain y gwaith hwn yn lleol gan ddefnyddio gwybodaeth o brosesau nodi'n gynnar a model pum haen Gyrfa Cymru a gweithio drwy eu rhwydweithiau 14–19 sydd eisoes wedi cael y dasg o lunio cynlluniau 14–19.

Gan weithio gyda rhai o'r ardaloedd dan sylw i ddatblygu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid* rydym wedi datblygu rhai egwyddorion cyffredin ar gyfer mapio darpariaeth.

- Bydd y gwaith mapio darpariaeth yn cynnwys darpariaeth addysg, hyfforddiant ac ailymgysylltu a gomisiynwyd yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.
- Dylai gynnwys darpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, drwy bartneriaethau 14–19 lleol a'r Gwasanaeth Ieuencid yn ogystal â thrwy sefydliadau yn y trydydd sector.
- Yn y lle cyntaf, dylid mapio pob math o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16–18 oed; dros amser hoffem ehangu'r gwaith mapio i gwmpasu pob math o ddarpariaeth 14–19 gan gynnwys darpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n cael addysg y tu allan i leoliad ysgol brif ffrwd mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac mewn ysgolion arbennig.
- Dylid mapio darpariaeth yn erbyn model pum haen Gyrfa Cymru o ymgysylltu a dylid nodi atebolrwydd clir am bob haen o ddarpariaeth.
- Dylai'r gwaith mapio ddangos llwybr datblygu clir rhwng pob haen o ddarpariaeth gyda systemau atgyfeirio rhwng haenau er mwyn i bobl ifanc gael eu helpu i symud i ddysgu pellach neu gyflogaeth.
- Dylai pob awdurdod lleol lunio map sylfaenol o ddarpariaeth erbyn mis Mawrth 2014 er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno'r Warrant Ieuencid.
- Dylai'r map o ddarpariaeth gael ei lunio i ddechrau ar lefel awdurdod lleol, ond dylai rhwydweithiau 14–19 helpu i gyfuno mapiau ar lefel ranbarthol ar draws consortia er mwyn ystyried anghenion ar sail ehangach.
- Dylai'r map sylfaenol o ddarpariaeth gael ei adolygu a'i diweddarau bob blwyddyn.
- Dylai data ar ddatblygiad pobl ifanc rhwng haenau gael eu defnyddio i lywio'r prosesau comisiynu ar gyfer darpariaeth newydd.

## **Gweithredu'r Warrant Ieuencid newydd**

Yr elfen newydd o'n dull gweithredu yw'r cynnig rhagweithiol o Warrant Ieuencid i bob myfyriwr y bydd yn gallu cael lle addas mewn dysgu ôl-16. Bydd y Warrant yn darparu:

- ffordd systematig o gasglu gwybodaeth am gyrchfannau ôl-16 arfaethedig pobl ifanc a gwaith dilynol i weld a ydynt yn pontio'n llwyddiannus

- proses gyffredinol glir sy'n sicrhau y gall pob person ifanc gychwyn lle addysg neu hyfforddiant addas a gynigir
- targedu gwasanaethau wedi'u personoli'n well at y rhai y mae angen cymorth arnynt.

### **Beth yw'r Warant Ieuenctid?**

Mae'r Warant Ieuenctid yn cynnwys cynnig, derbyn a chychwyn:

- lle ar gwrs amser llawn neu ran-amser mewn ysgol, coleg, gyda darparwyr annibynnol, neu hyfforddeiaeth neu le prentisiaeth
- bydd hyfforddiant yn cyrraedd o leiaf Lefel 2 yn ystod cyflogaeth.

Ystyr cynnig addas i berson ifanc yw cynnig sy'n briodol i anghenion unigol y person ifanc. Golyga hyn fod yn rhaid iddo fod ar y lefel gywir: yn y lleoliad daearyddol cywir; yn y sector galwedigaethol cywir a chynnig y dull dysgu cywir ac sy'n golygu eu bod yn ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu weithgareddau eraill a'u helpu tuag at gyflogaeth gynaliadwy. Caiff y Warant Ieuenctid ei chynnig am y tro cyntaf ym mis Medi 2014 mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru a chaiff ei chyflwyno'n llawn o fis Medi 2015. Caiff y Warant Ieuenctid ei chynnig i ddechrau ym mis Medi i gyd-daro â chyfnod pontio pobl ifanc o addysg cyn-16 i ôl-16. Byddwn yn ystyried a ddylem ymestyn y Warant a'i chynnig ym mis Ionawr hefyd er mwyn cynnwys pobl ifanc sydd wedi rhoi'r gorau i addysg neu hyfforddiant yn eu hail flwyddyn weithredol.

### **Sut y caiff y Warant ei rhoi ar waith?**

Bydd y Prospectws Ardal Leol a'r Broses Ymgeisio Gyffredin a nodir yn Adran 4 (tudalen 32) yn helpu i weithredu'r Warant Ieuenctid newydd drwy alluogi ysgolion, Gyrfa Cymru a gwasanaethau cymorth eraill i dargedu unrhyw grwpiau o bobl ifanc nad ydynt wedi gwneud cais neu y tybir eu bod mewn perygl o beidio â phontio'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent wedi gwneud cais afrealistig neu wedi dweud mai swydd heb hyfforddiant yw eu cyrchfan arfaethedig.

Er mai awdurdodau lleol fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyflwyno a chyflawni'r Warant Ieuenctid fel rhan o'u rôl strategol arweiniol o weithredu'r fframwaith, bydd angen iddynt weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru a fydd yn dal y data a ddaw o'r Broses Ymgeisio Gyffredin. Gwyddom fod rhai ardaloedd lleol eisoes wedi llwyddo i weithredu fersiwn o'r Warant a gallwn ddysgu ganddynt o ran gweithredu (gweler yr astudiaeth achos o Warant Abertawe ar dudalen 45). Byddwn yn cyhoeddi canllawiau manylach ynglŷn â gweithredu'r Warant Ieuenctid ym mis Tachwedd 2013.



## Arfer cyfredol: Gwarant Abertawe

Nod Gwarant Abertawe yw sicrhau bod pobl ifanc ym Mlwyddyn 11 yn cael cynnig o fod yn rhan o raglen ddysgu briodol (gydag ysgol, coleg, darparwr seiliedig ar waith neu gyflogwr) neu gyflogaeth erbyn diwedd mis Medi ar ôl cwblhau Blwyddyn 11. Wrth wraidd hyn mae'r Broses Ymgeisio Gyffredin sy'n gofyn am gydweithredu rhwng partneriaid allweddol gan gynnwys Cyngor Sir Abertawe, Gyrfa Cymru, ysgolion, Coleg Gŵyr Abertawe, CCS Employment Training a darparwyr yn y trydydd sector. Mae llwyddiant y rhaglen yn gofyn am ymrwymiad y staff rheng flaen ym mhob lleoliad 11–16 a darparwr ôl-16 yn ardal Abertawe er mwyn prosesu ceisiadau, dod yn berchen ar ddata a'u rheoli a gweithio yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt. Mae'r broses yn dechrau gyda phroses Nodi'n Gynnar pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae'r gwaith o gyflwyno'r warant wedi annog gwaith cynllunio cyfnod pontio, monitro a tracio pobl ifanc a all fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn well, wedi rhoi arweiniad clir a mynediad at ddata i bartneriaid.

## Gweithio gyda darparwyr i wella ansawdd y ddarpariaeth bresennol

Disgwyliwn i bartneriaethau 14–19 a darparwyr ôl-16 ystyried y data sy'n deillio o'r Broses Ymgeisio Gyffredin a'r Warant leuenctid er mwyn archwilio a oes ganddynt y cymysgedd sydd ei angen a darpariaeth gytbwys ar waith. Argymhellodd yr Adolygiad o Gymwysterau 14–19 y dylai darparwyr gynnig pecynnau dysgu wedi'u personoli i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio. Dylai'r rhain gynnwys cymwysterau ac unedau wedi'u rheoleiddio yn bennaf ynghyd â llythrennedd a rhifedd craidd, a dylent arwain at lwybrau datblygu cydnabyddedig. I bobl ifanc pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gallai cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol wneud cyfraniad priodol a gwerthfawr tuag at eu cyflawniadau a'u datblygiad.

Bydd ychwanegu data ar gyfraddau rhoi'r gorau iddi rhwng 16 a 17 oed, datblygiad o gyrsiau blwyddyn yn 17 oed a data ar ddatblygiad ôl-18 at y darlun hwn hefyd yn rhan bwysig o'r wybodaeth y dylai partneriaethau ei hystyried. Ar ôl i bartneriaethau lleol nodi unrhyw flaenoriaethau sy'n deillio o'r data disgwyliwn i:

- awdurdodau lleol ddylanwadu ar ddarparwyr lleol a'u darbwyllo os bydd data o'r Warant leuenctid neu'r gwaith mapio darpariaeth yn dangos nad yw'r cymysgedd presennol na'r cydbwysedd o ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc
- awdurdodau lleol, lle nodir darpariaeth nad yw'n diwallu angen, geisio dylanwadu ar ddarparwyr i addasu eu rhaglenni fel eu bod yn diwallu anghenion yn well. Os bydd darparwyr yn methu ag ymateb, yna gall awdurdodau lleol godi unrhyw bryderon gyda Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y trefniadau ariannu i ddarparwyr ôl-16
- darparwyr ôl-16 ymateb i unrhyw heriau a nodwyd yn lleol. Mae llawer o golegau AB eisoes yn chwarae rhan bwysig yn lleol o ran ateb yr her i leihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Credwn y gall y sector AB wneud hyd yn oed yn fwy. Gwyddom fod y rhan helaeth o ddyddiadau dechrau'r coleg ym mis Medi a mis Hydref o hyd ond pan gyflwynir y Warant leuenctid bydd angen mwy o hyblygrwydd na hyn. Byddwn yn gweithio gyda Coelgau Cymru i nodi beth yn rhagor y gall y sector AB ei wneud

- chweched dosbarth ysgolion leihau nifer y rhai sy'n rhoi'r gorau i'w haddysg a sicrhau gwell datblygiad yn 17 oed ymhlith pobl ifanc sy'n symud o un sefydliad i'r llall. Rhan o'r ateb yn hyn o beth yw gwell gwybodaeth, cyngor a chanllawiau cyn-16, ond i bobl ifanc sy'n dewis astudio Safonau UG yn yr ysgol ac na allant symud i raglen Safon Uwch lawn yn 17 oed, mae angen mwy o gymorth i'w galluogi i symud yn llwyddiannus i ddarpariaeth amgen
- awdurdodau lleol ymgysylltu â darparwyr eraill o'r sector dysgu seiliedig ar waith a'r trydydd sector drwy strwythurau partneriaethau 14–19 neu grwpiau darparwyr lleol eraill i sicrhau eu bod yn deall blaenoriaethau'r ddarpariaeth leol ac yn datblygu'r hyn a gynigir ganddynt yn unol â hynny.

## Targedau darpariaeth newydd at anghenion nas diwallwyd

Rhan o'r broblem o ran sicrhau'r cymysgedd cywir a darpariaeth gytbwys yn y gorffennol fu cymysgedd o ddarpariaeth a gomisiynwyd yn lleol ac yn genedlaethol a oedd yn cystadlu â'i gilydd. Nod yr holl ddarpariaeth hon oedd helpu pobl ifanc i ddatblygu ond heb sicrwydd ynglŷn â sut y cafodd ei chomisiynu a chan bwy mae yn aml wedi ychwanegu at y cymhlethdod. Yn ein barn ni, unwaith y bydd awdurdodau lleol wedi atgyfnerthu eu gwaith mapio darpariaeth, byddant yn y sefyllfa orau i wybod beth yw'r ddarpariaeth sydd ei hangen yn eu hardal nhw.

Bwriadwn fod awdurdodau lleol yn cael mwy o lais yn y ddarpariaeth a ariennir yn genedlaethol drwy:

- gofyn i awdurdodau lleol weithio gyda ni i sicrhau bod y ddarpariaeth o hyfforddeiaethau a gomisiynir yn genedlaethol yn diwallu anghenion lleol. Byddwn yn gofyn am dendrau i ddarparu rhaglenni seiliedig ar waith ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2015 hyd at fis Mawrth 2019. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n tendro i ddarparu ein rhaglen o hyfforddeiaethau ddangos eu bod yn ymgysylltu â rhwydweithiau 14–19 a dangos sut mae'n rhaid i ddarpariaeth arfaethedig ystyried anghenion lleol
- sicrhau bod ffrydiau ariannu cenedlaethol eraill, er enghraifft y defnydd o arian cyfrifon segur i Gymru, yn cael eu defnyddio i lenwi'r bylchau mewn darpariaeth leol yn hytrach na dyblygu'r hyn sydd ar gael eisoes. Bydd canlyniadau gwaith mapio awdurdodau lleol yn llywio ein dull gweithredu.

Yn ogystal, byddwn yn sicrhau bod rhaglen 2014–2020 Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ceisio buddsoddi mewn camau gweithredu sy'n cefnogi cyflogaeth ieuencid, ymgysylltu a chyrrhaeddiad wedi'u targedu at y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a'r rhai sydd fwyaf tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae cyfleoedd yn bodoli i ddatblygu a gweithredu rhaglen 2014–2020 er mwyn cysoni buddsoddiadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ag egwyddorion y fframwaith hwn. Drwy gysoni â'r system nodi'n gynnar a'r system tracio bydd modd sicrhau dull gweithredu cyson o nodi'r rhai sydd mewn angen a tracio canlyniadau buddsoddi, tra bydd yr ymarfer mapio lleol yn sicrhau y bydd unrhyw gymorth buddsoddi yn parhau i ychwanegu gwerth at ddarpariaeth

leol. Yn benodol, byddwn yn gweithio gyda WEFO i ddatblygu a gweithredu rhaglenni 2014–2020 Cronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn sicrhau cysondeb rhwng gweithgarwch a gefnogwyd a'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuentid* a mapiau o ddarpariaeth leol.

## Crynodeb o'r cerrig milltir o ran darpariaeth

- Bydd awdurdodau lleol yn paratoi map sylfaenol o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant ac ailymgysylltu yn erbyn model pum haen Gyrfa Cymru erbyn mis Mawrth 2014 a diweddarau'r map o ddarpariaeth bob blwyddyn.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi papur cyfarwyddyd er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflwyno'r Warant leuencid erbyn mis Tachwedd 2013.
- Bydd awdurdodau lleol yn gweithredu'r Warant leuencid am y tro cyntaf ym mis Medi 2014 mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol a chaiff ei chyflwyno'n llawn yn genedlaethol o fis Medi 2015 gan sicrhau y gall pob myfyriwr Blwyddyn 11 gael lle dysgu addas.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid ymestyn y Warant a'i chynnig ym mis Ionawr yn ei hail flwyddyn weithredol erbyn mis Medi 2015.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Colegau Cymru i nodi beth yn rhagor y gall y sector AB ei wneud er mwyn helpu i weithredu'r Warant leuencid.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda WEFO i gysoni rhaglenni 2014–2020 Cronfa Gymdeithasol Ewrop â'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuentid* er mwyn cynnwys y systemau nodi a thracio a mapiau o ddarpariaeth a luniwyd yn lleol erbyn mis Medi 2013.
- Bydd awdurdodau lleol yn ymgysylltu â sefydliadau sy'n tendro i gyflwyno hyfforddeiaethau er mwyn sicrhau bod yr hyn y maent yn bwriadu ei ddarparu yn diwallu anghenion lleol erbyn mis Ebrill 2014.

	Hydref 2013	Gwanwyn 2014	Haf 2014	Hydref 2014	Gwanwyn 2015
<b>Darpariaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Medi</b> – LIC yn gweithio gyda WEFO er mwyn sicrhau cysondeb rhwng prosiectau ESF ar gyfer 2014–2020 a'r fframwaith</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Tach</b> – LIC yn llunio papur i gefnogi ALLau wrth gyflwyno'r Warant leuencid</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Medi</b> – ALLau yn gweithredu'r Warant leuencid am y tro cyntaf (cyflwyno'n genedlaethol yn llawn o 15 Medi)</li> </ul>	
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Maw</b> – ALLau yn cynhyrchu map sylfaenol o ddarpariaeth yn erbyn model pum haen GC</li> </ul>			
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Ebr</b> – ALLau yn ymgysylltu â sefydliadau sy'n tendro i gyflwyno hyfforddeiaethau</li> </ul>			

## Adran 6:

**Cyflogadwyedd  
a chyfleoedd  
cyflogaeth**

**Atebolrwydd**



**Nodi'n gynnar**

**Broceriaeth**

Tud. 70

Mae'r adran hon yn nodi sut y bwriadwn sicrhau gwell ymgysylltu rhwng darparwyr dysgu a chyflogwyr. Yn ogystal â hyrwyddo gwell ymgysylltu a datblygu ymhlith pobl ifanc, mae angen hefyd i ni sicrhau, o ganlyniad i weithredu'r fframwaith, y bydd mwy o bobl ifanc yn symud i gyflogaeth fedrus – naill ai'n uniongyrchol yn 16 oed neu'n 18 oed neu ar ôl cyfnod o addysg bellach neu addysg uwch. Mae angen hefyd i ni sicrhau, pan fydd pobl ifanc yn gwneud hynny, y byddant yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo ac y gallant aros mewn cyflogaeth drwy ddatblygu sgiliau i ddod ymlaen yn eu dewis yrfaeodd.

Er mwyn gwneud hyn bydd angen i ni:

- **atgyfnerthu'r broses o feithrin cysylltiadau rhwng cyflogwyr ac ysgolion** drwy weithio gyda nifer o sefydliadau partner i ddatblygu prosiect strategol ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a darparu rhaglen gyrfaoedd a'r byd gwaith estynedig. Fel maes â blaenoriaeth, bwriadwn geisio arian gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol i gefnogi hyn. Bydd hyn yn adeiladu ar ein Rhaglen Rhifedd Genedlaethol sydd wedi cyflwyno rhaglen meithrin cysylltiadau â chyflogwyr sy'n canolbwyntio ar rifedd er mwyn annog ysgolion a chyflogwyr i gydweithio gyda'r nod o wella sgiliau rhifedd
- **datblygu cymwysterau sy'n hyrwyddo sgiliau cyflogadwyedd.** Mae'r adolygiad o gymwysterau 14–19 yn amlinellu cynlluniau i gyflwyno Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig i'w chyflwyno o 2015. Bydd hyn yn adlewyrchu ac yn cefnogi cwricwlwm sy'n cynnig addysg gyffredinol eang a chytbwys rhwng 14 a 16 oed, a rhaglenni dysgu cydlynol rhwng 16 a 19 oed. Ochr yn ochr â datblygu'r Fagloriaeth newydd byddwn yn ystyried cyflwyno dull dysgu seiliedig ar raglenni ar lefel mynediad i ddsygwyr 14–16 oed
- **datblygu cynnig i bobl ifanc mewn Swyddi Heb Hyfforddiant** drwy ofyn i Gyrfa Cymru ac awdurdodau lleol nodi a tracio pobl ifanc mewn Swyddi Heb Hyfforddiant a chysylltu â nhw fel mater o flaenoriaeth i'w hysbysu o'r cyfleoedd addysg a hyfforddiant
- **parhau i adeiladu ar lwyddiant ein rhaglenni ôl-16 presennol.** Mae ein data cynnar ar gyrchfannau gan Twf Swyddi Cymru yn edrych yn addawol. Mae pobl ifanc sy'n cwblhau'r cyfle chwe mis llawn yn cael cyfle da i ddatblygu'n gadarnhaol. Lle y bo modd rydym yn defnyddio Twf Swyddi Cymru i gefnogi ein partneriaid yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â diweithdra ieuencid yn lleol ac rydym yn awyddus i ymestyn y math hwn o ddull gweithredu strategol yn fwy cyffredinol drwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Byddwn hefyd yn adeiladu ar ein llwyddiant i gynyddu nifer y prentisiaethau sydd ar gael i bobl ifanc.

## **Atgyfnerthu'r broses o feithrin cysylltiadau â chyflogwyr a phrofiad gwaith mewn ysgolion**

Mae gan ysgolion rôl allweddol i'w chwarae o ran atgyfnerthu gwaith gyda chyflogwyr a meithrin dealltwriaeth pobl ifanc o fyd gwaith cyn-16. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ein bod yn gosod llawer o ofynion ar ysgolion ar hyn o bryd a'i bod yn hollbwysig eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar y tair blaenoriaeth graidd, sef llythrennedd, rhifedd a thorri'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad. O ystyried eu hadnoddau cyfyngedig, credwn fod angen i ni roi cymorth ychwanegol i ysgolion er mwyn cefnogi eu gwaith gyda chyflogwyr. Bwriadwn weithio gyda nifer o sefydliadau partner gan gynnwys Gyrfa Cymru i ddatblygu prosiect strategol ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a chyflwyno rhaglen gyrfaoedd a'r byd gwaith estynedig erbyn mis Mawrth 2014 gyda'r nod o ddenu arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Yn ogystal â helpu ysgolion i atgyfnerthu eu cysylltiadau â chyflogwyr credwn hefyd y dylem edrych yn fanylach ar ddiben profiad gwaith yng Nghymru a'r defnydd a wneir ohono. Ceir dadl ynghylch a yw'r model cyfredol o gynnig i bob myfyriwr Blwyddyn 10 ac 11 gyfnod penodedig o brofiad gwaith yn cynnig profiad wedi'i deilwra i bobl ifanc ac a yw'n helpu i sicrhau bod y rhai sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio yn cael yr amrywiaeth ehangaf posibl o gyfleoedd cyn-16. Fel rhan o ddatblygu ein prosiect arfaethedig ar feithrin cysylltiadau â chyflogwyr bwriadwn felly adolygu gofynion profiad gwaith y fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith erbyn mis Mawrth 2014 er mwyn argymhell gwelliannau yn y defnydd a wneir o brofiad gwaith yng Nghymru.

Bydd Gyrfa Cymru hefyd yn parhau i helpu ysgolion i gynnig gwybodaeth, cyngor a chanllawiau annibynnol a diduedd ynglŷn â chyfleoedd dysgu, hyfforddiant a gyrfaoedd. Mae hysbysu pobl ifanc mewn ysgolion am eu hopsiynau o ran addysg a gyrfaoedd yn y dyfodol a rhoi sgiliau rheoli gyrfa iddynt yn rhan o'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith. Yr ysgol fydd yn gyfrifol am gyflawni hyn. Fel rhan o gylch gwaith Gyrfa Cymru yn 2013–14 bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r cwmni ystyried y ffordd orau o weithio gydag ysgolion i'w helpu i ddarparu rhaglenni Gyrfa Cymru – gan gynnwys y ffordd y mae Gyrfa Cymru yn meithrin gallu ac yn cyflawni Nod (Ansawdd) Gyrfa Cymru.

## **Datblygu cymwysterau sy'n hyrwyddo sgiliau cyflogadwyedd**

Fel rhan o'n hadolygiad diweddar o gymwysterau i ddysgwyr 14–19 rydym wedi cytuno i adeiladu ar Fagloriaeth Cymru a'i hatgyfnerthu er mwyn cynnig fframwaith cyffredin ar gyfer cymwysterau i bobl ifanc 14–19 oed. Bydd Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf ddiwygiedig i'w chyflwyno o 2015 yn adlewyrchu ac yn cefnogi cwricwlwm sy'n cynnig addysg gyffredinol eang a chytbwys rhwng 14 a 16 oed, a rhaglenni dysgu cydlynol rhwng 16 a 19 oed. Bydd y fframwaith yn cynnig llwybrau galwedigaethol ac academaidd i ddatblygu, gan arwain at ddyfarniad Bagloriaeth Cymru ar lefel Genedlaethol ac Uwch.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn byddwn yn ystyried cyflwyno dull dysgu seiliedig ar raglenni ar lefel Mynediad i ddysgwyr 14–16 oed. Roedd hwn yn un o argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau 14–19. Byddwn yn defnyddio tystiolaeth o gyflawni ein rhaglen hyfforddeiaethau a'n cynllun peilot ar gyfer Llwybrau Dysgu seiliedig ar waith i bobl ifanc 14–16 oed yn 2009–11 i lywio'r ffordd y byddwn yn gweithredu.



Gwyddom fod llawer o bobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan ar hyn o bryd yn awyddus iawn i weithio ond nad oes ganddynt y sgiliau na'r profiad ymarferol i symud i gyflogaeth<sup>3</sup>. Dyna pam ein bod yn gwneud profiad gwirioneddol o'r gweithle yn un o elfennau allweddol ein rhaglenni astudio 16–19. Drwy roi profiad gwaith ystyrlon i bobl ifanc yn agosach at yr adeg pan fyddant yn ymuno â'r farchnad lafur, byddwn nid yn unig yn paratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth yn well, ond byddwn hefyd yn sicrhau bod parhau i ddysgu yn fwy atyniadol i'r bobl ifanc hynny na fyddent fel arall wedi cymryd rhan. Rydym eisoes wedi sicrhau bod profiad o fyd gwaith yn nodweddig ganolog o'n rhaglen hyfforddeiaethau a byddwn yn parhau i annog y sector AB i wneud yr un fath wrth ddarparu ei raglenni.

## Datblygu cynnig i bobl ifanc mewn Swyddi Heb Hyfforddiant

Er bod y niferoedd sy'n gweithio yn 16–18 oed wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwyddom fod rhai pobl ifanc yn dal yn awyddus i ymuno â'r farchnad lafur yn 16 oed. Rydym am i hynny barhau i fod yn opsiwn iddynt. Fodd bynnag, mae llawer o bobl ifanc sy'n dechrau swyddi yn 16 oed mewn cyflogaeth dros dro heb fynediad at hyfforddiant pellach a gallant yn aml roi'r gorau i'w swydd ac ymddieithrio. Rydym am i bobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn 16 oed gael fynediad at hyfforddiant parhaus naill ai'n uniongyrchol drwy eu cyflogwr neu gyda darparwr addysg neu hyfforddiant drwy amser i ffwrdd o'r gwaith. O ystyried y risg gynyddol y bydd pobl ifanc mewn Swyddi Heb Hyfforddiant yn ymddieithrio ac yn peidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant<sup>4</sup> byddwn yn gofyn i Gyrfa Cymru nodi a thracio pob person ifanc mewn Swyddi Heb Hyfforddiant a chysylltu â nhw fel mater o flaenoriaeth i'w hysbysu o'r cyfleoedd addysg a hyfforddiant a threfnu i gynnig lle addysg a hyfforddiant os nad yw eu cyflogwr yn cynnig hyn.

## Adeiladu ar lwyddiant ein rhaglenni ôl-16 presennol

Drwy ein rhaglen Twf Swyddi Cymru a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop rydym yn annog cyflogwyr i newid eu harfer recriwtio a chreu cyfleoedd swyddi ychwanegol, gwirioneddol i bobl ifanc. Mae ein data cynnar ar gyrchfannau gan Twf Swyddi Cymru yn edrych yn addawol. Mae pobl ifanc sy'n cwblhau'r cyfle chwe mis llawn yn cael cyfle da i ddatblygu'n gadarnhaol. Bydd ein gwerthusiad o'r rhaglen yn dangos a ydym wedi llwyddo i ddylanwadu ar gyflogwyr i greu cyfleoedd cynaliadwy i bobl ifanc ai peidio.

Lle y bo modd, rydym yn defnyddio Twf Swyddi Cymru i gefnogi ein partneriaid yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â diweithdra ieuencid yn lleol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi datblygu 'Raglen PASSPORT' a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn helpu partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu (gweler yr astudiaeth achos ar y dudalen nesaf). Rydym yn awyddus i ymestyn y math hwn o ddull gweithredu strategol yn fwy cyffredinol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

<sup>3</sup> Gwyddom hyn yn sgil adborth a gafwyd drwy nifer o astudiaethau, gan gynnwys *'Moving Forward; Foundations for Growth'* adroddiad gan WESB; Grŵp Gorchwyl a Gorffen Allanol *'What more the Welsh Government can do to counter the effects of the recession on young people'* o dan gadeiryddiaeth Martin Mansfield; adolygiad o dystiolaeth *'Triggers and preventions/interventions in relation to young people who may become economically inactive or disengaged from learning'* Adroddiad Llywodraeth Cymru; y Pwyllgor Menter a Dysgu 'Pobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant' Adroddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

<sup>4</sup> Dangoswyd hyn mewn nifer o astudiaethau o bobl ifanc mewn Swyddi Heb Hyfforddiant a gynhaliwyd gan ardaloedd lleol sy'n rhan o dreialon Raising the Participation Age (RPA) yn Lloegr.

Gweler [www.education.gov.uk/childrenandyoungpeople/youngpeople/participation/rpa](http://www.education.gov.uk/childrenandyoungpeople/youngpeople/participation/rpa) ar gyfer adroddiadau gwerthuso y treialon hyn.

Drwy Twf Swyddi Cymru rydym hefyd wedi ceisio pontio'r bwlch rhwng ein rhaglenni dysgu a hyfforddiant i bobl ifanc a'n 'cynigion' o gyflogaeth. Ein nod fu creu llwybr mwy di-dor drwy hyfforddiant a gwaith i bobl ifanc. Unwaith eto, mae data cynnar yn rhoi gwybodaeth addawol i ni ynglŷn â nifer y bobl ifanc sy'n gadael Twf Swyddi Cymru ac yn mynd yn eu blaen i dderbyn prentisiaeth sydd wedi'i hategu mewn rhai achosion gan gymhorthdal cyflog estynedig fel rhan o'n Rhaglen Recriwtiaid Newydd. Gyda'i gilydd, mae Twf Swyddi Cymru a'r Rhaglen Recriwtiaid Newydd yn cynnig pecyn cymorth atyniadol i gyflogwyr.



### Arfer cyfredol: Rhaglen PASSPORT Caerffili

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi integreiddio'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau lleol er mwyn bodloni gofynion sgiliau ei bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol gan gynnwys Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, GAVO a Fforwm Busnes Caerffili. Mae'r rhaglen yn helpu partneriaid a chyflogwyr yn benodol i fynd i'r afael â bylchau sgiliau lleol drwy roi'r sgiliau penodol i bobl ifanc ddi-waith sydd eu hangen i gael cyflogaeth ac aros mewn cyflogaeth yn lleol. Mae staff yn gweithio gyda phartneriaid a chyflogwyr i nodi cyfleoedd ar gyfer lleoliadau a chyflogaeth; paru gofynion sgiliau â'r sgiliau sydd ar gael; olrhain a monitro cynnydd a chynorthwyo pobl ifanc tuag at gyflogaeth gynaliadwy.

Mae'r model hwn wedi cynyddu nifer y cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth sydd ar gael yn lleol yn sylweddol ac mae'r broses o baru pobl ifanc addas â'r cyfleoedd hyn wedi lleihau lefelau diweithdra ymhlith pobl ifanc 16–24 oed. Mae'r Cyngor bellach wedi amlinellu gweledigaeth uchelgeisiol i adeiladu ar y llwyddiant hwn a chreu cronfa dalent a gwasanaeth paru swyddi gwag ledled Caerffili. Mae hefyd yn bwriadu gweithio gyda'i bartneriaid i fabwysiadu arferion caffael arloesol er mwyn ymgorffori cymalau recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu mewn contractau â'r sector preifat (lle y bo'n briodol) er mwyn creu mwy o gyfleoedd cyflogaeth, dysgu a hyfforddiant yn lleol.

At hynny, rydym yn ehangu ein rhaglen prentisiaethau llwyddiannus drwy ddarparu:

- 5,650 o leoedd prentisiaid ychwanegol, y mae 2,650 ohonynt yn Brentisiaethau Lefel Uwch, Lefel 4 ac uwch
- cymhorthdal cyflog ychwanegol o £3,900 dros 52 wythnos i gyflogwyr sy'n cyflogi prentisiaid ifanc 16–24 oed drwy'r Rhaglen Recriwtiaid Ifanc, bydd hyn hefyd yn cael ei ehangu i gynnwys Prentisiaethau Lefel Uwch
- taliad untro o £500 i fusnesau bach a micro-fusnesau ar gyfer yr amser a'r costau sy'n gysylltiedig â recriwtio prentisiaid y dywedant eu bod yn eu rhwystro rhag recriwtio
- £3.4 miliwn i gefnogi'r rhai sydd am gwblhau eu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ac ymrwymiad i gael mwy o bobl mewn prentisiaethau yn y sectorau STEM.

I rai pobl ifanc, dechrau busnes newydd fydd yr opsiwn gorau. Mae angen i ni roi anogaeth a chymorth i entrepreneuriaid ifanc sy'n eu helpu i gyflwyno eu syniad ar y farchnad. Byddwn yn cynnig y cymorth hwnnw drwy barhau i gyflawni ein Strategaeth Entrepreneuriaeth leuenctid

a thrwy'r bwrseri gwerth uchel a ddarparwn fel rhan o Twf Swyddi Cymru. Bydd y broses o werthuso Twf Swyddi Cymru yn ystyried cynaliadwyedd y busnesau rydym wedi helpu pobl ifanc i'w dechrau a bydd yn llywio'r ffordd rydym yn rhoi cymorth yn y maes hwn yn y dyfodol.

Ôl-18, rydym eisoes yn datblygu ffordd newydd o roi cymorth cyflogaeth a sgiliau a fydd yn sicrhau bod yr hyn a gynigir yn fwy integredig o 2014. Byddwn yn amlinellu blaenoriaethau strategol cenedlaethol a fydd yn adlewyrchu'r angen i gyfrannu tuag at ganlyniadau ehangach mewn meysydd megis adfywio, datblygu economaidd a mynd i'r afael â thlodi drwy ymyriadau cyflogaeth a sgiliau. Byddwn hefyd yn datblygu un system ymgysylltu, asesu ac atgyfeirio (Porth Sgiliau) a fydd yn cynnig gwasanaeth di-dor i fusnesau ac unigolion sy'n ceisio cymorth.

## Crynodeb o gerrig milltir cyflogadwyedd

- Byddwn yn datblygu prosiect strategol ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a chyflwyno rhaglen gyrfaoedd a'r byd gwaith estynedig erbyn mis Mawrth 2014 gyda'r nod o ddenu arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol.
- Byddwn yn datblygu cymwysterau a fydd yn atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc drwy gyflwyno Bagloriaeth Cymru newydd erbyn 2015.
- Byddwn yn gofyn i Gyrfa Cymru nodi ac olrhain pob person ifanc mewn Swyddi Heb Hyfforddiant a chysylltu â nhw i'w hysbysu am gyfleoedd addysg a hyfforddiant o fis Medi 2013.
- Byddwn yn ystyried cyflwyno dull dysgu seiliedig ar raglenni ar lefel Mynediad i ddysgwyr 14–16 oed erbyn 2015.
- Byddwn yn parhau i annog awdurdodau lleol i ymdrin â gwaith cynllunio'r gweithlu a mynd i'r afael â diweithdra ieuencid mewn ffordd strategol gan ddefnyddio ein rhaglenni lle y bo modd.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector ôl-16 i ddarparu ein rhaglen Twf Swyddi Cymru a'n rhaglen prentisiaethau a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl ifanc sy'n cymryd rhan ynddynt.
- Cyflwyno cynnig cyflogaeth a sgiliau integredig newydd i gyflogwyr ac unigolion erbyn 2014.

	Hydref 2013	Gwanwyn 2014	Haf 2014	Hydref 2014	Gwanwyn 2015
<b>Cyflogadwyedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>0 fis Medi</b> – GC yn cysylltu â phob person ifanc yn Swyddi Heb Hyfforddiant</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Maw</b> – LIC yn datblygu prosiect strategol ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr fel maes â blaenoriaeth ar gyfer arian ESF yn y dyfodol</li> <li>• <b>Erbyn 2014</b> – LIC yn cyflwyno Cynnig Cyflogaeth a Sgiliau integredig</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Erbyn 2015</b> – LIC yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru wedi'i hatgyfnerthu</li> <li>• <b>Erbyn 2015</b> – LIC yn ystyried dull dysgu seiliedig ar raglenni ar lefel Mynediad</li> </ul>

# Adran 7:

**Atebolrwydd**

**Nodi'n gynnar**

**Broceriaeth**

**Tracio**



Tud. 76

Mae'r adran hon yn nodi sut y bwriadwn ddwyn awdurdodau lleol a darparwyr i gyfrif am weithredu'r fframwaith hwn. Credwn mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i roi'r arweiniad strategol a gweithredol i weithredu'r fframwaith. Gall hyn gynnwys penodi uwch arweinydd i fod yn gyfrifol am ei weithredu a Chydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu i arwain y gwaith ymhlith nifer o bartneriaid. Bwriadwn atgyfnerthu'r broses graffu ar gyfer gwella ymgysylltu a datblygu yn lleol ar gyfer pob oedran hefyd. Bu'n anodd gwneud hynny yn y gorffennol oherwydd gwendidau yn y data a'r ffaith mai dim ond ar sail data ar gyrchfannau pobl ifanc 16 oed y bu modd barnu perfformiad ardaloedd lleol. Nid yw ysgolion na darparwyr ôl-16 wedi cael eu dwyn i gyfrif yn uniongyrchol am gyrchfannau eu myfyrwyr yn y gorffennol.

Nod y cynigion yn yr adran hon yw ceisio mynd i'r afael â'r gwendidau hyn drwy:

- **dwyn awdurdodau lleol a phartneriaid i gyfrif yn rheolaidd am weithredu'r fframwaith.** Rydym yn gofyn i awdurdodau lleol ddatblygu cynllun cyffredinol ar gyfer ymgysylltu a datblygu ieuencid a'i rannu gyda Llywodraeth Cymru erbyn mis Ionawr 2014 a bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â phob awdurdod lleol yn unigol cyn mis Ionawr 2014 er mwyn trafod ei syniadau ynglŷn â'r cynllun. At hynny, rydym hefyd am sefydlu proses ffurfiol o drafod cynnydd awdurdodau lleol o ran gweithredu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid* ddwywaith y flwyddyn
- **cyhoeddi data perfformiad cymaradwy yn ôl awdurdod lleol ar gyfer cyrchfannau pobl ifanc 16, 17 a 18 oed.** Bydd data cyrchfannau Gyrfa Cymru yn cynnwys deilliannau pobl ifanc 16, 17 a 18 oed ar gyfer pob darparwr yn y dyfodol a dyma fydd y prif fesur atebolrwydd ar gyfer perfformiad awdurdodau lleol. At hynny, bydd data ar gael yn fwy aml yn ystod y flwyddyn o gronfa ddata genedlaethol Gyrfa Cymru ynglŷn â sefyllfa pob person ifanc 16–18 oed yn erbyn y model pum haen. Gall y wybodaeth hon gael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru mewn sgysiau ag awdurdodau lleol ynglŷn â'u cynnydd a chan yr awdurdodau lleol eu hunain
- **datblygu mesurau cyrchfannau ar lefel darparwyr.** Argymhellodd yr Adolygiad o Gymwysterau 14–19 ac adolygiad Robert Hill o ddyfodol gwasanaethau addysg yng Nghymru y dylid datblygu mesurau cyrchfannau i ddarparwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflwyno mesurau cyrchfannau ac mae'n bwriadu treialu mesurau newydd o fis Medi 2014 i'w gweithredu'n llawn am y tro cyntaf ym mis Medi 2015.

## Dwyn awdurdodau lleol a phartneriaid i gyfrif yn rheolaidd am weithredu'r fframwaith

Gwyddom fod arweiniad cadarn gan awdurdodau lleol wedi bod yn rhan hollbwysig o weithredu llwyddiannus ym mhob un o'r ardaloedd hynny sydd wedi llwyddo i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant<sup>5</sup> ac rydym yn awyddus i weld yr arweiniad hwn ledled Cymru. Felly disgwylwn weld y cyfrifoldeb am weithredu'r fframwaith yn cael ei ddynodi'n glir i uwch arweinydd o fewn yr awdurdod lleol. Byddwn am gyfarfod â'r unigolyn hwn er mwyn trafod cynllun gweithredu'r awdurdod lleol ac adolygu ei gynnydd a'i ddata. Mae llawer o ardaloedd lleol hefyd wedi gwneud hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor cyfan drwy ei gynnwys fel un o flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor (gweler yr astudiaeth achos isod) neu drwy ofyn i nifer o randdeiliaid ei gyflawni drwy eu Byrddau Gwasanaethau Lleol.



### Arfer cyfredol: Arweiniad Wrecsam ar agenda pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Aeth Wrecsam ati i wneud lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn un o flaenoriaethau corfforaethol y cyngor yn 2009, yn sgil y cynnydd yn y ffigur hwn mewn blynyddoedd blaenorol. Pennwyd targedau clir ar gyfer gwella gan y cyngor a dygwyd ynghyd nifer o sefydliadau partner lleol a oedd yn gweithio i leihau nifer y bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Wrecsam er mwyn meithrin cysylltiadau cryfach rhwng partneriaid ac ystyried sut y gellid lleihau'r niferoedd. Roedd y partneriaid allweddol hyn yn cynnwys yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Drwy gyfarfodydd chwarterol y grŵp hwn, cafodd blaenoriaethau penodol eu nodi a chafodd y gwaith a oedd yn mynd rhagddo ei fonitro'n rheolaidd. Yn 2011 nododd y grŵp fod angen gwasanaeth newydd i weithio gyda'r bobl fwyaf agored i niwed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dyrannwyd cyllid o Teuluoedd yn Gyntaf a datblygodd y grŵp fanyleb y contract ar gyfer y gwasanaeth newydd. Mae effaith y gwaith wedi bod yn amlwg, gyda nifer y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fel y'i mesurwyd gan Gyrfa Cymru yn lleihau o'r lefel uchaf o 9.6 y cant yn 2008 i 3.2 y cant yn 2012. Er nad yw'n un o flaenoriaethau corfforaethol Wrecsam mwyach, mae gwaith y grŵp gwreiddiol yn parhau.

Rydym wedi nodi mai rôl y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu fydd yn allweddol i gydgysylltu gwaith rhwng yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuencid, ysgolion a darparwyr ôl-16. Mae gan lawer o awdurdodau lleol swyddogaeth sy'n cyfateb i'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu ar waith eisoes ond rydym am sicrhau bod cyfrifoldeb am y rôl arwain strategol a gweithredol allweddol hon yn gwbl glir ym mhob rhan o Gymru. Rydym yn rhagweld y caiff y swyddogaeth hon ei chydgyssylltu gan unigolyn sy'n gweithredu ar lefel uwch ar draws ardal awdurdod lleol, er y bydd yn cael ei gefnogi gan nifer o unigolion eraill sy'n gweithio mewn timau lleol.

<sup>5</sup> Gweler astudiaeth ymchwil ARAD o ddulliau o gynydd cyfran y bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn Abertawe a Wrecsam ar gyfer y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesedd: Modelau Newydd o Ddarparu Gwasanaeth, Adroddiad Terfynol, Gorffennaf 2011.

Mewn rhai o'r ardaloedd sydd eisoes wedi datblygu rôl sy'n cyfateb i rôl Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu mae wedi bod yn gyd-benodiad â Gyrfa Cymru, gyda'r unigolyn yn rhan o'r ddau sefydliad ac yn atebol i arweinyddiaeth y ddau. Credwn fod hwn yn fodel grymus y dylai ardaloedd eraill ei ystyried yn fanwl. Mae hefyd yn swyddogaeth a allai gael ei chynnal ar draws mwy nag un ardal leol ac felly mae posibiladau i awdurdodau lleol gydweithredu i'w gyflawni naill ai drwy eu trefniadau consortia neu drwy drefniadau dwyochrog rhyngddynt. Dylai awdurdodau lleol drafod y posibiladau hyn gyda'u partneriaid consortiwm a/neu awdurdodau lleol eraill.

O ystyried y flaenoriaeth a roddir i'r agenda hon mae llawer o awdurdodau lleol eisoes wedi dewis buddsoddi mewn rôl leol sy'n cyfateb i'r cydgysylltydd ymgysylltu a datblygu. Ac o ystyried natur hollbwysig y rôl hon i weithredu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid* cyffredinol yn llwyddiannus byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol eraill edrych yn fanwl ar y ffordd y maent yn dyrannu adnoddau ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod ganddynt yr arweiniad strategol a gweithredol cywir ar waith.

Ar hyn o bryd mae rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanethau Cymraeg i'r cyhoedd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg wrth baratoi a darparu gwasanaethau, fel y'u hamlinellwyd yn eu priod gynlluniau iaith Gymraeg. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac yn sefydlu fframwaith i osod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Bydd safonau yn disodli cynlluniau iaith Gymraeg dros amser. Felly, disgwyliwn i awdurdodau lleol ystyried anghenion a dewis iaith unigolion drwy gydol y broses o ddatblygu a darparu cynlluniau lleol gan gynnwys y sgiliau, y galluoedd a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer rolau o'r fath fel y gweithiwr arweiniol a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg.

Rydym yn gofyn i awdurdodau lleol ddatblygu cynllun cyffredinol ar gyfer ymgysylltu a datblygu ieuencid a'i rannu gyda Llywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2014. Cynlluniau anstatudol yw'r rhain a bydd angen i awdurdodau lleol benderfynu ar y ffordd orau o gydweddu â'u cynlluniau eraill, gan gynnwys y rhai y mae'n rhaid iddynt eu paratoi yn statudol. At hynny bwriadwn:

- gyfarfod ag awdurdodau lleol i drafod sut y maent yn bwriadu mynd ati i weithredu'r fframwaith. Mae'r gwaith a wnaed gennym ar y cyd ag wyth awdurdod lleol dros y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu'r fframwaith wedi rhoi cyfle da i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol rannu a datblygu syniadau ynglŷn a pholisi ar y cyd. Rydym am i hyn barhau
- ymestyn y model sydd wedi bod yn weithredol yn ein gwaith hyd yma gyda phob awdurdod lleol yn cael pwynt cyswllt allweddol o fewn Llywodraeth Cymru a fydd yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â hwy ac yn rhoi llwybr i awdurdodau lleol godi unrhyw faterion gyda Llywodraeth Cymru
- sefydlu proses ffurfiol o drafod cynnydd awdurdod lleol ddwywaith y flwyddyn. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru drafod data diweddaraf Gyrfa Cymru gydag ardaloedd lleol, gan roi cyfle i'r ddau barti ystyried y materion sy'n dod i'r amlwg a mynd o dan y prif

## Tud. 79

ddata er mwyn ymchwilio i'r hyn sy'n digwydd mewn awdurdod lleol ac ar lefel darparwyr. Mae'r model hwn yn debyg i'r broses a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i drafod data ar bresenoldeb ac ymddygiad gydag awdurdodau lleol

- cynnal dau gyfarfod blynyddol ag awdurdodau lleol – un yn nhymor yr hydref rhwng mis Medi a mis Rhagfyr ac un ar ôl i ddata blynyddol Gyrfa Cymru gael eu cyhoeddi
- gweithio gydag Estyn i gytuno ar y ffordd y bydd yn arolygu sut mae ardaloedd lleol yn gweithredu'r fframwaith. Gwyddom y bydd arweiniad awdurdodau lleol a'u hymwneud â phartneriaid lleol eraill yn hollbwysig i lwyddiant gweithredu'r fframwaith
- sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael dylanwad mawr ar gynlluniau gweithredu awdurdodau lleol. Mae datblygiad y Broses Ymgeisio Gyffredin yn un enghraifft o'r ffordd y caiff pobl ifanc fwy o lais i ddylanwadu ar y ddarpariaeth a gynigir mewn ardaloedd lleol. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ei digwyddiad Sgwrs Go lawn ei hun gyda phobl ifanc wrth baratoi'r cynllun hwn a bydd yn annog awdurdodau lleol i wneud yr un peth wrth ddatblygu eu cynlluniau hwythau.

## **Cyhoeddi data perfformiad cymaradwy i bobl ifanc 16, 17 a 18 oed**

Ar hyn o bryd, y mesur gorau o ymgysylltu a datblygu ar lefel awdurdodau lleol yw data Gyrfa Cymru ar gyrchfannau ôl-16. Fodd bynnag, mae un gwendid mawr yn nata Gyrfa Cymru yn yr ystyr mai dim ond data ar bobl ifanc 16 oed a roddir ar gyfer pob darparwr; mae data ar gyrchfannau pobl ifanc 17 a 18 oed ond yn ymwneud â'r bobl ifanc hynny sy'n mynd ymlaen i'r chweched dosbarth ac nid ydynt yn cynnwys darparwyr AB, DSG na'r sector gwirfoddol. Golyga hyn na all Llywodraeth Cymru edrych ar berfformiad carfan gyfan o bobl ifanc 16–19 yn ôl awdurdod lleol.

Fel y nodir yn Adran 4 (tudalen 32) bydd Gyrfa Cymru yn parhau i gynnal arolwg blynyddol o gyrchfannau dysgwyr o Flwyddyn 11, Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13, ond o 2013 caiff hyn ei ehangu i gynnwys Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn ogystal â Blwyddyn 11 ymhob darparwr. Golyga hyn y caiff cyrchfannau pobl ifanc mewn addysg bellach a darpariaeth DSW eu cynnwys hefyd. Disgwyliwn i Gyrfa Cymru gyhoeddi data ar gyfer pobl ifanc 17 a 18 oed am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2014.

Yn ogystal â chyhoeddi'r data blynyddol hyn bydd Gyrfa Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf bob chwarter ar garfannau 16, 17 a 18 oed ym mhob awdurdod lleol yn erbyn y model pum haen o ymgysylltu. Bydd hyn yn dangos sut mae'r niferoedd yn newid ac yn symud rhwng y pum haen yn ystod blwyddyn. Bydd Llywodraeth Cymru am drafod unrhyw dueddiadau newydd y mae'r data yn eu dangos gydag awdurdodau lleol. Yn benodol, bydd Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld lleihad yn nifer y bobl ifanc yn haen 1 y mae eu statws yn anhysbys.



## Datblygu mesurau cyrchfannau ar lefel darparwyr

Argymhellodd yr Adolygiad o gymwysterau 14–19 y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag eraill i wella'r sylfaen tystiolaeth mewn perthynas â chymwysterau, gyda mwy o bwyslais ar ddeilliannau, megis symud at addysg bellach neu gyflogaeth. Argymhellodd adolygiad Robert Hill o *Ddarparu gwasanaethau addysg yn y dyfodol* y dylid cynnwys data ar gyrchfannau myfyrwyr ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn y system bandio ysgolion uwchradd yn ogystal â datblygu mesurau cyffredin o asesu a chofnodi perfformiad yn gyffredinol mewn lleoliadau ôl-16 gyda phob darparwr ôl-16 yn cael ei asesu ar sail gymaradwy gan gynnwys data ar gwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant. Argymhellodd hefyd y dylid cynnwys data ar gyrchfannau (h.y. cyfran y myfyrwyr sy'n mynd i addysg uwch neu addysg bellach, hyfforddiant neu waith) mewn fframwaith adrodd safonol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gymryd camau i atgyfnerthu atebolrwydd ysgolion a darparwyr ôl-16 am gyrchfannau eu myfyrwyr. Rydym wedi sefydlu grŵp llywio adrannol trawsbynciol i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn oherwydd gwyddom y bydd datblygu mesurau o'r fath yn gofyn am ddefnyddio setiau data gweinyddol cysylltiedig ar draws gwahanol sectorau addysg mewn ffordd fwy strategol. Byddwn hefyd yn ceisio dysgu gwersi o'r ffordd y mae Lloegr wedi gweithredu mesurau cyrchfannau ôl-16 (gweler yr astudiaeth achos isod). Bydd y grŵp yn cyflwyno cynigion manylach erbyn mis Rhagfyr 2013.



### Arfer cyfredol: Datblygu Mesurau Cyrchfannau yn Lloegr

Yn Lloegr cyflwynwyd Mesurau Cyrchfannau yn 2012 fel 'ystadegau arbrol' gan ddechrau gyda chyrchfannau addysg (gan gynnwys prentisiaethau) cyn cynnwys cyrchfannau cyflogaeth mwy cymhleth. Mae'r mesurau yn dal i gael eu datblygu. Eu nod yw ystyried llwyddiant darparwyr i helpu eu disgyblion i symud i gyrchfannau ôl-16 cadarnhaol a bwriedir iddynt roi gwybodaeth glir i rieni a phobl ifanc ynglŷn â llwybrau ôl-16 y mae cyn-ddysgwyr ysgol, coleg neu ddarparwr hyfforddiant yn eu dilyn. Maent hefyd yn gwneud ysgolion a darparwyr ôl-16 yn atebol am sicrhau bod pob un o'u dysgwyr yn datblygu'n llwyddiannus ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Maent yn seiliedig ar gymryd rhan drwy'r ddau dymor cyntaf cyfan (a diffinnir fel o fis Hydref i fis Hydref) o'r flwyddyn ar ôl i'r person ifanc adael y sefydliad. Mae hyn yn annog sefydliadau i gefnogi a pharatoi eu myfyrwyr i fynd i gyrchfan sy'n cynnig ymgysylltu parhaus.

## Crynodeb o gerrig milltir atebolrwydd

- Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i gyhoeddi data ar gyrchfannau bob blwyddyn.
- Disgwyliwn i Gyrfa Cymru allu cyhoeddi data ar gyfer pobl ifanc 17 a 18 oed am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2014.
- Bydd Gyrfa Cymru yn rhannu data o gronfa ddata Gyrfaoedd Cenedlaethol Cymru gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol bob chwarter o fis Medi 2013.
- Bydd awdurdodau lleol yn datblygu cynllun cyffredinol ar gyfer ymgysylltu a datblygu ieuencid ac yn ei rannu gyda Llywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2014.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag awdurdodau lleol i drafod sut y bwriadant weithredu'r fframwaith cyn mis Ionawr 2014.
- Sefydlu adolygiad o gynnydd ddwywaith y flwyddyn rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Cynnal yr adolygiad cyntaf cyn mis Ebrill 2014.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi cynigion manwl ar gyfer datblygu Mesurau Cyrchfannau erbyn mis Rhagfyr 2013.

	Hydref 2013	Gwanwyn 2014	Haf 2014	Hydref 2014	Gwanwyn 2015
<b>Atebolrwydd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>0 fis Medi</b> – GC yn rhannu data chwarterol â LIC ac ALLau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Rhag</b> – LIC yn nodi cynigion manwl ar gyfer datblygu Mesurau Cyrchfannau</li> <li>• <b>Ion</b> – LIC yn cyfarfod ag ALLau i drafod y dull gweithredu</li> </ul>			
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Maw</b> – ALLau yn datblygu ac yn rhannu â LIC gynllun cyffredinol ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc</li> <li>• <b>Erbyn mis Ebr</b> – Cynhelir yr adolygiad dwywaith y flwyddyn cyntaf rhwng LIC ac ALLau</li> </ul>			



Tud. 83

Adran 8:

**Crynodeb  
o rolau a  
chyfrifoldebau**




Tud. 84

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o rolau a chyfrifoldebau allweddol gweithredu'r fframwaith a nodir gennym drwy'r ddogfen hon. Mae hefyd yn nodi sut y bwriadwn werthuso'r ffordd y gweithredir y fframwaith.

Mae'r ffigur isod yn nodi'r rolau a'r chyfrifoldebau allweddol ar gyfer gweithredu'r fframwaith.

**Ffigur 7: Crynodeb o rolau a chyfrifoldebau gweithredu**



O dan y fframwaith hwn prif rôl **Llywodraeth Cymru** yw pennu safonau clir mewn nifer o feysydd y fframwaith megis nodi'n gynnar, rôl gweithwyr arweiniol, mapio darpariaeth a gweithredu'r Warant Ieuenctid. Fel arall bydd eu rôl yn gyfyngedig i helpu i ddatblygu arfer lleol effeithiol a gweithredu rhaglenni cenedlaethol fel hyfforddeiaethau. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dwyn awdurdodau lleol a darparwyr i gyfrif fel y nodir yn Adran 7 (gweler tudalen 54).

Mae cyfrifoldeb hefyd ar Lywodraeth Cymru i barhau i gyfathrebu ac ymgysylltu â phob sefydliad sy'n rhan o'r gwaith o weithredu'r fframwaith. Bydd y rhan fwyaf o'r gweithgarwch hwn yn gysylltiedig a'r cerrig milltir a nodir ym mhob un o'r penodau a bydd yn cynnwys cyfathrebu ar sail genedlaethol, gan gynnwys gan y Gweinidog, yn ogystal â digwyddiadau rheolaidd megis gweithdai sy'n canolbwynti ar elfennau penodol o'r fframwaith, neu sesiynau 'plymio'n ddwfn' a drefnir o amgylch cerrig milltir megis datblygu canllawiau ar rannu data.

**Awdurdodau lleol** fydd â'r cyfrifoldeb am arweiniad strategol allweddol i weithredu'r fframwaith. Mae'r cynllun yn cyflwyno dwy rôl newydd y bydd awdurdodau lleol yn eu goruchwyllo ac yn eu rheoli – y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu a'r gweithiwr arweiniol. Bydd gan y ddwy rôl ran bwysig i'w chwarae o ran darpariaeth cyn-16 ar y cyd ag ysgolion, a bydd y rolau yn parhau ar oedran 16–18 pan fydd angen iddynt gyfuno â Gyrfa Cymru a byddant yn bwysig o ran rheoli'r cyfnod pontio o ran unrhyw gymorth ôl-18.

Mae **Gyrfa Cymru** yn bartner cyflawni hollbwysig i awdurdodau lleol. Gall helpu i datblygu systemau nodi'n gynnar cyn-16; bydd yn rhan allweddol o'r hyn a gynigir drwy froceriaeth cyn ac ôl-16; bydd yn tracio cynnydd pobl ifanc ôl-16; bydd yn helpu i weithredu'r Warrant Ieuenticid drwy ddarparu'r Broses Ymgeisio Gyffredin ac yn cyfrannu at ddatblygu Sgiliau Cyflogadwyedd drwy ei waith ar Wybodaeth, Cyngor a Chanllawiau ar Yrfaoedd. Disgwyliwn i awdurdodau lleol weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru wrth weithredu'r fframwaith, yn enwedig drwy'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu.

Bydd gan y **Gwasanaeth Ieuenticid** ran allweddol i'w chwarae hefyd o ran darparu gweithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio a gwybodaeth am bobl ifanc er mwyn cefnogi prosesau olrhain.

Bydd **nifer o wasanaethau cymorth arbenigol eraill** hefyd yn ymwneud â'r gwaith o ddarparu'r fframwaith. Gallant weithredu fel y gweithiwr arweiniol i bobl ifanc neu fod yn rhan o'r pecyn cymorth a roddir i bobl ifanc. Gwyddom fod y cymorth ehangach hwn yn rhan allweddol o helpu pobl ifanc i oresgyn y rhwystrau a wynebant.

**Darparwyr** fydd â'r cyfrifoldeb gweithredol pwysicaf am sicrhau y bydd y bobl ifanc gywir yn cael eu nodi fel rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i sicrhau eu bod yn ymgysylltu ac yn datblygu'n llwyddiannus. Maent hefyd yn hollbwysig o ran sicrhau bod cymysgedd priodol a darpariaeth gydbwys ar waith ym mhob ardal.

## **Crynodeb o gamau allweddol**

Mae Ffigur 8 yn nodi crynodeb o'r camau gweithredu allweddol ar gyfer pob un o elfennau'r fframwaith a pha bartner a ddylai wneud beth er mwyn helpu i'w weithredu.

Ffigur 8: Crynodeb o'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd i weithredu'r cynllun hwn

	Darparwyr (ysgolion, colegau AB, DSW)	Awdurdodau Lleol, GC a'r Gwasanaeth Ieuencid	AdAS
<b>Nodi'n gynnar</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd ysgolion yn cynnal sgysrsiau am bobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ymarferwyr ei bwydo i mewn i'r broses.</li> <li>• Bydd ysgolion yn cynnal sgysrsiau cychwynnol er mwyn nodi anghenion cymorth penodol i lywio'r broses froceriaeth.</li> <li>• Bydd gan ddarparwyr ôl-16 eu systemau eu hunain ar waith i dynnu eu sylw at y perygl y bydd pobl ifanc yn rhoi'r gorau i addysg a dylent ddefnyddio eu systemau cymorth a'u gofal bugeiliol eu hunain yn y lle cyntaf.</li> <li>• Bydd darparwyr ôl-16 yn hysbysu GC os nad yw eu systemau cymorth yn gweithio a bod person ifanc mewn perygl mawr o ymddieithrio neu eisoes wedi ymddieithrio.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai awdurdodau lleol ddatblygu dull o nodi'n gynnar y bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio gan gynnwys pa ddangosyddion a throthwyon i'w defnyddio, pryd i ddechrau a phwy arall sy'n gorfod bod yn rhan o'r gwaith hwn.</li> <li>• Dylai awdurdodau lleol drafod canlyniadau o systemau nodi'n gynnar cyn-16 ag ysgolion er mwyn cytuno ar lefelau risg a llywio'r broses o nodi anghenion.</li> <li>• Dylai GC ddiweddarau'r model pum haen yn rheolaidd ar sail gwybodaeth a geir gan ddarparwyr, partneriaid neu drwy eu cysylltiad â phobl ifanc.</li> <li>• Dylai awdurdodau lleol benderfynu sut y rhennir canlyniadau nodi'n gynnar cyn-16 â darparwyr ôl-16.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddi canllawiau ar ddatblygiad, cynnwys a gweithrediad systemau nodi'n gynnar.</li> <li>• Cynnwys system nodi pobl ifanc sydd mewn perygl mewn contractau â darparwyr ôl-16.</li> <li>• Trafod a chytuno ar ddulliau lleol arfaethedig o nodi'n gynnar.</li> <li>• Parhau i ddatblygu enghreifftiau o arfer da a'u rhannu ag ardaloedd lleol ar sail barhaus.</li> </ul>
<b>Broceriaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd ysgolion yn cynnal sgysrsiau am bobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ymarferwyr ei bwydo i mewn i'r broses o ddynodi gweithiwr arweiniol.</li> <li>• Bydd ysgolion yn trafod ac yn cytuno â'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu ar eu rôl o ddarparu cymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio.</li> <li>• Dylai darparwyr ôl-16 sicrhau bod eu systemau cymorth eu hunain ar waith er mwyn rhoi cymorth cychwynnol i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd awdurdodau lleol yn datblygu cynigion lleol ar gyfer dyrannu gweithwyr arweiniol, gan gynnwys ystyried cyllid ac adnoddau presennol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol.</li> <li>• Bydd awdurdodau lleol yn trafod ac yn cytuno ar gynlluniau ar gyfer nodi a gweithredu gweithwyr arweiniol gyda Llywodraeth Cymru a GC.</li> <li>• Bydd awdurdodau lleol yn datblygu trefniadau newydd priodol ar gyfer rhannu data.</li> <li>• Bydd gweithwyr arweiniol yn cadw mewn cysylltiad â pherson ifanc ac yn adrodd yn ôl i'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu os nad yw'r ymyriadau a roddwyd ar waith yn cael yr effaith a ddymunir.</li> <li>• Bydd Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu yn rheoli'r broses o ddyrannu gweithwyr arweiniol, yn trefnu trafodaethau rhwng asiantaethau cymorth allweddol ac yn ailasesu dyraniadau er mwyn pennu anghenion.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno ar drefniadau lleol ar gyfer nodi a gweithredu gweithwyr arweiniol.</li> <li>• Cyhoeddi canllawiau ar arfer da i weithwyr arweiniol.</li> <li>• Ystyried yr hyfforddiant a'r achrediad ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi rôl y gweithiwr arweiniol ymhellach.</li> <li>• Canllawiau newydd a chyfredol ar anogwyr dysgu.</li> </ul>

	<b>Darparwyr (ysgolion, colegau AB, DSW)</b>	<b>Awdurdodau Lleol, GC a'r Gwasanaeth Ieuentid</b>	<b>AdAS</b>
<b>Tracio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd ysgolion yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol er mwyn cysylltu proses tracio ar lefel ysgolion â phroses nodi'n gynnar.</li> <li>• Bydd ysgolion yn ymgysylltu â Chydgyssylltwyr Ymgysylltu a Datblygu fel y gallant adolygu'r cynnydd a wnaed gan ddysgwyr.</li> <li>• Bydd darparwyr ôl-16 yn hysbysu GC yn rheolaidd am bobl ifanc sy'n rhoi'r gorau i'w darpariaeth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd awdurdodau lleol yn ymgysylltu ag ysgolion er mwyn cysylltu proses tracio ar lefel ysgolion â phroses nodi'n gynnar.</li> <li>• Bydd GC yn ehangu'r Arolwg Cyrchfannau i gynnwys carfan lawn o bobl ifanc 16 i 18 oed (Blynyddoedd 11, 12 ac 13) ac yn rhoi adroddiadau i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar statws y garfan gyflawn.</li> <li>• Bydd GC yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol am bobl ifanc yn erbyn y model pum haen ar gyfer y rhai ar haenau 1–4 yn fisol.</li> <li>• Sicrhau bod y Prospectws Ardal Leol a'r Broses Ymgeisio Cyffredin ar wefan GC.</li> <li>• Sicrhau bod gan awdurdodau lleol a GC systemau effeithiol ar gyfer pobl ifanc â statws anhysbys.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda Colegau Cymru i ddatblygu cyngor pellach i golegau AB ar roi gwybod am bobl ifanc sy'n rhoi'r gorau iddi ac atgyfnerthu'r gofynion mewn cytundebau ariannu ôl-16.</li> <li>• Atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng GC a'r Ganolfan Byd Gwaith.</li> <li>• Atgyfnerthu prosesau tracio cyrchfannau gan ddarparwyr ôl-16.</li> </ul>
<b>Darpariaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y sector AB, ysgolion (Chweched dosbarth) a darparwyr DSW a'r trydydd sector yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau cymysgedd priodol a darpariaeth gytbwys.</li> <li>• Bydd partneriaethau 14 i 19 a darparwyr ôl-16 yn dadansoddi'r data sydd ar gael er mwyn sicrhau bod ganddynt gymysgedd priodol a darpariaeth gytbwys ar waith.</li> <li>• Bydd darparwyr ôl-16 yn ymateb i heriau a nodwyd, e.e. hyblygrwydd o ran y Warant Ieuentid.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd awdurdodau lleol yn paratoi map sylfaenol o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chymorth wedi ei fapio yn erbyn model pum haen GC ac yn diweddarau'r map bob blwyddyn.</li> <li>• Bydd awdurdodau lleol yn ymgysylltu â phob darparwr er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu ac yn cyflawni cymysgedd priodol a darpariaeth gytbwys.</li> <li>• Bydd angen i awdurdodau lleol weithio gyda nifer o sefydliadau lleol er mwyn sicrhau y caiff y Warant Ieuentid ei gweithredu'n effeithiol.</li> <li>• Bydd awdurdodau lleol yn ymgysylltu â sefydliadau sy'n tendro i gyflwyno hyfforddeiaethau er mwyn sicrhau bod yr hyn y maent yn bwriadu ei ddarparu yn diwallu anghenion lleol.</li> <li>• Bydd awdurdodau lleol yn dadansoddi'r ddarpariaeth bresennol yn erbyn yr angen i nodi bylchau, anghenion nas diwallwyd o ran darpariaeth ac unrhyw ddyblygu a dylanwadu ar ddarparwyr yn seiliedig ar hyn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhyrchu canllawiau pellach er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflwyno'r Warant Ieuentid.</li> <li>• Gweithio gyda WEFO i gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol sy'n adlewyrchu darpariaeth a gynhyrchir yn lleol.</li> <li>• Ystyried sut y gellir defnyddio ffrydiau ariannu cenedlaethol eraill i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth leol.</li> </ul>

## Tud. 88



	<b>Darparwyr (ysgolion, colegau AB, DSW)</b>	<b>Awdurdodau Lleol, GC a'r Gwasanaeth Ieuentid</b>	<b>AdAS</b>
<b>Cyflogadwyedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y sector ôl-16 yn darparu'r rhaglen Twf Swyddi Cymru a'r rhaglen Prentisiaethau ac yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl ifanc sy'n cymryd rhan ynddynt.</li> <li>Bydd ysgolion yn atgyfnerthu gwaith â chyflogwyr ac yn meithrin dealltwriaeth o'r rhaglen gyrfaedd a byd gwaith cyn 16.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn yn gofyn i GC nodi ac olrhain pob person ifanc mewn swyddi heb hyfforddiant a chysylltu â hwy i'w hysbysu am gyfleoedd addysg a hyfforddiant.</li> <li>Bydd awdurdodau lleol yn mynd ati i ymdrin â gwaith cynllunio'r gweithlu a mynd i'r afael â diweithdra ieuentid mewn ffordd strategol gan ddefnyddio ein rhaglenni lle y bo modd.</li> <li>Bydd Gyrfa Cymru yn darparu cymorth meithrin gallu i waith meithrin cysylltiadau â chyflogwyr.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop strategol ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a chyflwyno rhaglen gyrfaedd a'r byd gwaith estynedig.</li> <li>Datblygu cymwysterau sy'n atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc drwy gyflwyno Bagloriaeth Cymru newydd.</li> <li>Ystyried cyflwyno dull dysgu seiliedig ar raglenni ar lefel Mynediad i ddysgwyr 14 i 16 oed.</li> <li>Parhau i annog awdurdodau lleol i ymdrin â gwaith cynllunio'r gweithlu a mynd i'r afael â diweithdra ieuentid mewn ffordd strategol gan ddefnyddio ein rhaglenni lle y bo modd.</li> <li>Gweithio gyda'r sector ôl 16 i gyflawni ein rhaglen Twf Swyddi Cymru a'n rhaglen prentisiaethau.</li> <li>Cyflwyno cynnig cyflogaeth a sgiliau integredig newydd i gyflogwyr ac unigolion.</li> </ul>
<b>Atebolrwydd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai ysgolion edrych ar ddata GC ar gyfer cyrchfannau ôl-16 eu dysgwyr ac ystyried beth y gallant ei wneud i wella nifer y bobl ifanc sydd â chyrchfannau pendant.</li> <li>Dylai darparwyr ôl-16 ystyried y data sydd ar gael am bobl ifanc sy'n rhoi'r gorau i'r ddarpariaeth neu nad ydynt yn datblygu ac ystyried beth y gallant ei wneud i wella cyfradd y bobl ifanc sy'n cael eu cadw ac sy'n datblygu.</li> <li>Dylai darparwyr ôl-16 edrych i weld pa ddata sydd ar gael am gyrchfannau ôl-18 a gofyn beth y gallant ei wneud i wella nifer y bobl ifanc sydd â chyrchfannau ôl-18.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd GC yn rhannu data chwarterol o gronfa ddata Gyrfaoedd Cenedlaethol Cymru â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.</li> <li>Bydd awdurdodau lleol yn datblygu ac yn trafod sut y maent yn bwriadu mynd ati i weithredu.</li> <li>Bydd awdurdodau lleol yn cynnal adolygiadau o gynnydd ddwywaith y flwyddyn â Llywodraeth Cymru.</li> <li>Bydd awdurdodau lleol yn dyrannu uwch arweinydd i fod yn llwyr gyfrifol am weithredu'r Fframwaith.</li> <li>Bydd awdurdodau lleol yn ystyried dull consortia o weithredu.</li> <li>Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt yr arweinyddiaeth strategol a gweithredol gywir ar waith.</li> <li>Sicrhau bod gan bobl ifanc ddylanwad cryf ar gynlluniau awdurdodau lleol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i gyhoeddi data cyrchfannau GC i bobl ifanc 16 oed fel rhan o'r datganiad cyntaf ystadegol.</li> <li>Cyhoeddi data i bobl ifanc 17 ac 18 oed.</li> <li>Cwrdd ag awdurdodau lleol unigol i drafod y dull arfaethedig o weithredu a dyrannu pwynt cyswllt allweddol o Lywodraeth Cymru ar gyfer pob awdurdod lleol.</li> <li>Bwrw ymlaen ag adolygiadau ar gynnydd ddwywaith y flwyddyn.</li> <li>Datblygu cynigion ar gyfer datblygu Mesurau Cyrchfannau.</li> <li>Gweithio gydag Estyn i gytuno ar y ffordd o arolygu'r broses o roi'r fframwaith ar waith.</li> </ul>

## **Gwerthuso'r gwaith o weithredu'r fframwaith**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnal gwerthusiad o'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid* er mwyn deall ei effeithiolrwydd yn genedlaethol ac yn lleol. Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi cynigion manwl ynglŷn â'r gwerthusiad ond disgwylwn i ymchwil annibynnol gael ei chomisiynu er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun yn erbyn ei amcanion ac mewn perthynas â'r canlyniadau a fwriedir. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y caiff gwersi o'r gwerthusiad eu defnyddio i wella'r ffordd y gweithredir y cynllun drwy gydol ei oes. Hoffem hefyd ystyried ar y cyd ag awdurdodau lleol y ffordd orau iddynt gefnogi'r gwerthusiad a sut y gallant gynnal eu gwerthusiadau eu hunain o'r ffordd y gweithredir y fframwaith.

# Cydnabyddiaethau

Mae'r ALLau canlynol wedi rhoi cryn dipyn o'u amser a chyngor wrth ddatblygu a phrofi'r cynllun gweithredu hwn, a hoffem ddiolch iddynt yn ogystal â rhanddeiliaid eraill wrth gefnogi Llywodraeth Cymru drwy'r broses hon.

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Lleihau'r nifer o unigolion sydd a risg o fod yn NEET drwy gefnogi pobl ifanc 11-16 drwy amryw o ymyraethau ac o ganlyniad gwella cyfleoedd bywyd unigolion bregus.

## PWY YW DISGYBLION TRAC?

- Presenoldeb rhwng 70-80%
- Ar gofrestr PYD
- Cyrhaeddiad isel
- Mwy na 1 gwaharddiad mewn cyfnod o flwyddyn



## YSGOL



- Wedi derbyn gwaharddiad parhaol
- Ar gofrestr EOTAS; ADY; Timau Plant GC&GCI
- O ardal difreintiedig
- Teuluoedd di-waith

## BETH SYDD TU ÔL I'R CYFEIRIADAU?

- Cyrhaeddiad addysgol isel
- Statws Economaidd - cymdeithasol
- Rhagfarn gymdeithasol
- Pobl ifanc ddim yn gweld budd mewn bod mewn addysg/hyfforddiant/gwaith
- Disgwyliadau isel
- Diffyg cefnogaeth teuluoedd
- Ymddygiad negyddol
- Problemau cymdeithasol/iechyd meddwl



# DEILLIANNAU

## UNIGOLION:

- ✓ Sgiliau personol a chymdeithasol
- ✓ Cyflawni'n well yn yr ysgol
- ✓ Cymhelliant i lwyddo
- ✓ Codi uchelgais



## CYMDEITHAS:



- Llai o bobl ifanc yn ddi-waith
- Dyheadau pobl ifanc wedi codi
- Lleihad mewn ymddygiad gwrth cymdeithasol
- Llai o adnoddau yn cael eu cyfeirio at nifer bach o unigolion


## I GOFFRAU'R SECTOR GYHOEDDUS:



Gostyngiad yn anghenion yr unigolyn a'u galw ar wasanaethau heddiw ac yfory



Yn y tymor hir lleihau'r tebygolrwydd y bydd y genhedlaeth nesaf gyda'r un anghenion dwys



**TRAC**

ADDYSG

CYMHWYSTER

CEFNOGAETH GYRFA

Tud. 93

ADNABOD YN GYNNAR

# DEILLIANNAU

934

o unigolion wedi derbyn cefnogaeth TRAC

75

wedi cwblhau ac ennill cymhwyster level 2  
(cyfateb i 1 TGAU A-C)

119

ar gyrsiau cyfredol (cyfateb i TGAU)

557

wedi ymadael prosiect Trac...



Wedi symud  
ymlaen i gwrs  
coleg



Wedi cau  
cael deiliant  
cadarnhaol



Wedi symud  
ymlaen i waith neu  
brentisiaeth

\*\* dim ond 26 wedi amlygu i  
dderbyn cefnogaeth TRAC yn  
y Coleg

## Cyfnod ariannu TRAC yn dod i ben Awst 2022

Hydref 2021:  
Gorffen derbyn  
cyfeiriadau

Gorffennaf 2022:  
Gorffen cefnogi  
unigolion

Awst 2022:  
Prosiect yn cau



# Beth sydd wedi newid i bobl ifanc 11-16 oed?

- **Cyfnodau estynedig o addysg rhithiol** ers mis Mawrth 2020 (oni bai am blant Gweithwyr Allweddol ac unigolion bregus).
- Disgyblion BI 11 a 13 yn gadael addysg **heb eistedd arholiadau** (TGAU, Lefel AS a Lefel A). Dyfernir graddau ar sail gwaith a gwblhawyd amcangyfrifon athrawon.
- Symud i Ddysgu o bell drwy blatfform ar lein (nifer o deuluoedd **heb ddyfais neu fynediad at y we**) sydd wedi arwain at ddisgyblion i fod yn segur o ran eu hymgysylltiad.
- **Diffyg cyswllt a chyfoedion** - arwain at gynnydd mewn teimladau o unigedd.
- Disgyblion BI10 **heb fynediad llawn i bynciau dewisol.**
- **Cynnydd** mewn **problemau personol/iechyd meddwl** a dim yn hapus i dderbyn cefnogaeth yn rhithiol
- **Disgyblion BI 11 heb gynnig coleg/gwaith**, methu cael y cyswllt wyneb yn wyneb i gefnogi
- Disgyblion BI 6 yn **colli mwyafrir o'u blwyddyn olaf yn y Cynradd.**
- **Dim cyfleoedd profiad gwaith**/ymweliadau cyflogwyr



# Disgyblion effeithir yn bennaf gan COVID-19



Rhai oedd wedi eu hadnabod yn barod mewn peryg o fod yn NEET



Rhai oedd yn barod yn agored i niwed



Rhai a phroblemau iechyd meddwl



Rhai sydd ar gofrestr EOTAS y Sir



Disgyblion BI 11 heb bendaith coleg/gwaith



Rhai a chyrhaeddiad a chymhelliant isel





# Beth ydi'r goblygiadau?



Methiant i dracio darpar unigolion sydd â risg uchel o fod yn NEET

Cynnal cywirdeb y gyfundrefn proffil dysgwr

Tebygolrwydd uchel o ddiweithdra a hyn yn fwy o fewn diweithdra pobl ifanc

Canran o ddisgyblion bregus yn dad gysylltu â'i haddysg


Effaith hir dymor ar iechyd meddwl pobl ifanc




**Mwy o alw am ddarpariaeth o fewn addysg sy'n cefnogi'r unigolion fwyaf bregus**

# Cyfnod ariannu ESF yn dod i ben 2023


## Gwasanaeth Cynhwysiad - heddiw




Canolfannau Llechan Lân




Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar



Pecyn 25




TRAC (arian ESF)



## Gwasanaeth Cynhwysiad - wedi cyfnod ariannu ESF



Uned Cyfeirio



Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar



Pecyn 25

Wedi cyfnod ariannu ESF ddod i ben - ni fydd y Gwasanaeth Cynhwysiad yn gallu cyfarch y galw i gefnogi'r disgyblion fwyaf bregus fydd yn cynyddu o ganlyniad COVID-19


# PROSIECT ADTRAC





Cefnogi Pobl Ifanc 16-24 oed i ymgysylltu yn ôl efo Addysg, Hyfforddiant neu Cyflogaeth





AR GYFARTALEDD, MAE PERSON IFANC YN GWYNEBU 8 RHWYSTR SY'N ATAL EU HYMGYSSLTIAD EFO ADDYSG, HYFFORDDIANT NEU WAITH.




- 45% yn ddi-waith ers 6 mis neu fwy
- 39% yn ddi-waith ers 6 mis neu lai
- 16% yn economaidd anweithgar
- 20% o bobl ifanc a gyfeiri i ADTRAC heb gymwysterau
- 29% o bobl ifanc yn byw ar aelwyd di-waith





## Beth sydd wedi newid i bobl ifanc 16-24 oed?

- **Cyfnodau hir o addysg rhithiol** yn ystod cyfnodau clo.
- Ni chaiff arholiadau 2020 na 2021 (TGAU, Lefel AS a Lefel A) eu cynnal. Dyfarnwyd graddau ar sail **gwaith a gwblhawyd ac amcangyfrifon athrawon**.
- Prentisiaid ac Hyfforddai **methu a pharhau a rhaglen ddysgu lawn** oherwydd i'w gweithle gau dros cyfnodau Clo.
- **Sectorau o'r economi wedi cau** - arwain i diswyddiadau a gweithleoedd yn cael eu rhoi ar gynllun "**saib swyddi**".
- Gwasanaethau Cymorth Ieuentid a chynlluniau Cyflogaeth yn parhau ond dull ymgysylltu, lefel cefnogaeth a chyfleoedd datblygu i Bobl Ifanc wedi newid. **Cyfnod estynedig o dim gwaith wyneb-i-wyneb**.
- Gwaith ymestyn allan i geisio cysylltu efo Bobl Ifanc 16/17 oed sydd ddim mewn gwaith **yn dod i ben yn ystod cyfnodau clo**.
- Ymbellhau Cymdeithasol a'r cyfnod "clo" wedi arwain at **gyfnod hir o ynysu**.
- Angen addasu i'r "normal newydd" a all **barhau am gryn amser**



## Grwpiau a effeithir yn bennaf gan COVID-19



**Nid yw effeithiau  
COVID-19 yn cael eu  
teimlo'n gyfartal ar  
draws y  
boblogaeth...**



### Rhagwelir effeithiau anghymesur ar:



Pobl Ifanc sydd ddim mewn addysg,  
hyfforddiant neu waith



Dysgwyr sy'n agored i niwed



Oedolion sy'n dysgu yn y gymuned



Rhai wedi'i hallgau o'r byd digidol



Rhai a oedd eisioes mewn perygl o fod yn NEET  
(heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu  
hyfforddiant)



Rhai hynny a thelerau cyflogaeth mwy "bregus"



Rhai mewn swyddi cyflog isel



Rhai a sgiliau lefel isel



Rhai ar incwm isel



## **Beth ydi'r goblygiadau?**



**Debygol o weld busnesau yn cau,  
diswyddiadau a lefelau  
diweithdra yn codi i dros 10%**

**Llai o gyfleoedd cychwyn  
Prentisiaethau, Hyfforddeiaethau  
a Lleoliadau Gwaith**

**Bydd dull "cyfunol" o ddysgu yn  
parhau am gryn amser i lawer o  
grwpiau o ddysgwyr**

**Dysgwyr ar raglenni  
cyflogadwyedd yn methu symud  
ymlaen i  
gyflogaeth barhaus**

**Cynnydd mewn Oedolion a phobl  
ifanc di-waith neu economaidd  
anweithgar**

**Mae'n bosib y gwelwn fwy o  
ddysgwyr yn dad-gysylltu o  
addysg**

**Effaith ar Iechyd Meddwl a  
Llesiant Pobl Ifanc**

# PERSONA UNIGOLION

DANGOSYDDION - A NODWEDDION - ALLWEDDOL I'NGOLION SYDD MEWN PERYG O DDATGYSYLLTU

---

---

---

---

---

---

---

---

## PERSONA 1

Dim yn licio ysgol. Dydi mam methu helpu fi

- Problemau ymddygiad yn yr ysgol.
- Presenoldeb yn ddiwio 50% - Cdrrestru yn Addysg gartref deuwol yn Mwyddyn 11
- 21 Diwyddiad Hysbys yn y catrief (Cyfeiriad Heddlu (CID16)
- Mam yn dioddef o broblemau Iechyd Meddwl
- Dim yn gallu ymgysylltu gyda gwasanaethau 'cefnogi'.
- 6 Profiadau Niwriadol mewn Plerilyndod (ACEs)
- Gadael ysgol heb gymwysterau
- Cyn datgysylltu awdhanu Acrediaid Lefel 1 a Trwydded CSCS gyda cynllun TRAC
- Brawd / Chwaite wedi ddiol sylw Gwasanaethau Iles a Gwasanaeth Plant.




---

---

---

---

---

---


---

---

## PERSONA 2

- ▶ Presenoldeb lefel B17 a B18
- ▶ Addysg gartref yn B 9 (5awr yr wythnos) oherwydd problemau Iechyd meddwl.
- ▶ Dim yn gadael y catrief.
- ▶ Cynnig Gwasanaeth TRAC ond dim eisiau ymgysylltu.
- ▶ Addysg gartref i ben a cynnig addysg o bell mewn lleoliad cymunedol yn mwyddyn 11.Ni fyrychodd
- ▶ Gadael ysgol heb gymwysterau.
- ▶ Cyfeirio i CAMHS ac yn derbyn gwasanaeth.
- ▶ Cyfeiriadau Diogelu i Gwasanaethau Plant
- ▶ Cynnig Gwasanaeth AdTRAC. Llwyddodd i gael lleoliad Hyfforddolaeth. Dsgyn allan o'r lleoliad.
- ▶ Gwrthododd y fam wasanaeth Gweithiwr Ieuenctid i ddb.
- ▶ Cois i addasu r lly ar gyfer ymaifer coffi i'r plentyn wedi ei wrthgan y Gymdeithas Tai.

Dwi'n methumyndi Coleg na gwelirio ar hyn o brydachas fy Iechyd. Nid oes gen i reolaeth dros fy mywyd.




---

---

---

---

---

---


---

---

### PERSONA 3

Tydi bywyd ddim yn deg !!-Pam i ?

- ▶ Problemau ymddygiadol ers blynyddoedd cynnar
- ▶ Nifer o waharddiadau
- ▶ Cyfnod yn yr uned cylch drai
- ▶ Profedigaeth yn y teulu
- ▶ Rhiant gyda problemau lechyd meddwl
- ▶ Ar agor i gwasanaethau Cymdeithasol
- ▶ Problemau gymdeithasu / Dim ffrindiau agos
- ▶ Gwrthod ymyrraeth TRAC Yn y lle cyntaf ond erbyn nawr yn cydweithio
- ▶ Angen parhau i gefnogi, risg uchel o ddad-rithio




---

---

---

---

---

---


---

---

### PERSONA 4

Gadwch lonyddi mi, dwi' DDM iso newid

- ▶ Presenoldeb Dirywio 60% yn Bl 7 i 8% yn Bl 11.
- ▶ TRAC wedi cefnogi, ond diffyg ymgysylltiad rheolaidd .
- ▶ Gadael ysgol heb gymwysterau
- ▶ Cynnig gwasanaeth Ad TRAC ond dim eisiau ymgysylltu.
- ▶ Cynnig a derbyn Gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer cwrs riantu.
- ▶ Diagnosis ASD ar ôl gadael ysgol.
- ▶ Hunan gyfeirio i Gwasanaeth DERWEN ond dim yn gymwys. Cefnogi gan y gwasanaeth integredig awistiaeth.
- ▶ Brawd / Chwaer dal mewn addysg ond problemau presenoldeb – y ddau ers mis lonawr ar agor i TRAC ( BL 6 A 7)




---

---

---

---

---

---


---

---

### PERSONA 5

Dwi eisiau llwyddo

- ▶ Treulio amser yn yr Uned lechyd meddwl preswyl
- ▶ Phroblemau lechyd meddwl difrifol a chymhleth
- ▶ Cyfeiriad am gefnogaeth TRAC drwy yr uned .
- ▶ Cefnogaeth i gychwyn ar gwrs coleg, ond problemau gôr bryder yn parhau ac methu gorffen y cwrs.
- ▶ Gadael y Cwrs yn gyn amserol
- ▶ Byw mewn lle anghysbell
- ▶ Symud Mlaen i gefnogaeth ADTRAC




---

---

---

---

---

---

---

---



# Data Diweithdra Pobl Ifanc 16-25 oed

Gogledd Cymru

2017 - 2021

	Chwef-17				Chwef-17				Chwef-17				Cyfanswm	
	searching for work	planning for work	preparing for work	no work requirements	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	IS	Cyfanswm	Haen 1	Haen 2		Haen 3
Ymys Môn	176	0	0	14	70	30	120	10	180	480	31	38	34	103
Gwynedd	287	0	0	7	110	120	40	190	10	230	700	58	39	151
Conwy	210	0	0	14	100	60	230	10	280	770	55	45	43	143
Dinbych	230	0	0	11	241	90	90	20	300	790	100	57	39	196
Fflint	231	11	7	28	100	50	240	20	270	770	38	62	48	148
Wrecsam	251	0	6	30	130	80	290	30	300	540	82	42	34	158
<b>Cyfanswm</b>	<b>1885</b>	<b>11</b>	<b>13</b>	<b>104</b>	<b>600</b>	<b>320</b>	<b>1500</b>	<b>100</b>	<b>1560</b>	<b>4460</b>	<b>364</b>	<b>298</b>	<b>237</b>	<b>899</b>
<b>Variance from previous quarter</b>	<b>-138</b>	<b>3</b>	<b>0</b>	<b>6</b>	<b>-70</b>	<b>30</b>	<b>-70</b>	<b>-10</b>	<b>-80</b>	<b>-340</b>	<b>49</b>	<b>29</b>	<b>-53</b>	<b>25</b>

	Mai-17				Mai-17				Mai-17				Cyfanswm	
	searching for work	planning for work	preparing for work	no work requirements	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	IS	Cyfanswm	Haen 1	Haen 2		Haen 3
Ymys Môn	158	0	0	10	70	30	110	10	160	440	23	48	38	109
Gwynedd	227	0	0	5	100	40	190	10	210	630	64	61	43	168
Conwy	175	0	0	13	80	175	60	220	10	260	710	65	49	22
Dinbych	212	0	0	21	80	70	210	20	290	740	118	65	35	216
Fflint	233	14	5	32	80	60	220	10	260	690	45	65	28	138
Wrecsam	242	8	29	279	120	90	280	30	300	910	98	39	18	155
<b>Total</b>	<b>1247</b>	<b>14</b>	<b>13</b>	<b>110</b>	<b>550</b>	<b>350</b>	<b>1250</b>	<b>90</b>	<b>1480</b>	<b>4120</b>	<b>413</b>	<b>327</b>	<b>184</b>	<b>924</b>
<b>Variance from previous quarter</b>	<b>-638</b>	<b>3</b>	<b>0</b>	<b>6</b>	<b>-70</b>	<b>140</b>	<b>-70</b>	<b>-10</b>	<b>-80</b>	<b>-340</b>	<b>49</b>	<b>29</b>	<b>-53</b>	<b>25</b>

	Awst-17				Awst-17				Awst-17				Cyfanswm	
	searching for work	planning for work	preparing for work	no work requirements	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	IS	Cyfanswm	Haen 1	Haen 2		Haen 3
Ymys Môn	142	0	0	15	50	30	120	10	160	410	20	56	44	120
Gwynedd	203	0	0	19	60	90	180	10	210	600	59	66	26	151
Conwy	209	0	0	19	100	60	210	10	240	690	64	39	56	159
Dinbych	171	7	0	14	60	100	70	210	20	290	128	74	50	252
Fflint	305	25	11	74	40	40	220	10	210	580	43	66	47	156
Wrecsam	225	0	0	30	120	80	280	20	300	880	85	53	60	198
<b>Total</b>	<b>1259</b>	<b>32</b>	<b>18</b>	<b>107</b>	<b>500</b>	<b>360</b>	<b>1250</b>	<b>70</b>	<b>1410</b>	<b>3960</b>	<b>389</b>	<b>354</b>	<b>183</b>	<b>1036</b>
<b>Variance from previous quarter</b>	<b>8</b>	<b>18</b>	<b>5</b>	<b>57</b>	<b>-40</b>	<b>110</b>	<b>-10</b>	<b>-30</b>	<b>-70</b>	<b>-420</b>	<b>-14</b>	<b>27</b>	<b>99</b>	<b>111</b>

	Tach-17				Tach-17				Tach-17				Cyfanswm	
	searching for work	planning for work	preparing for work	no work requirements	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	IS	Cyfanswm	Haen 1	Haen 2		Haen 3
Ymys Môn	110	0	0	14	30	30	122	10	140	382	25	30	29	84
Gwynedd	150	0	0	11	70	100	50	182	10	210	622	36	57	22
Conwy	151	0	0	14	60	70	212	20	240	622	44	17	38	99
Dinbych	135	0	0	17	80	70	202	20	280	712	41	42	24	107
Fflint	159	0	0	17	60	80	212	10	260	682	36	42	32	110
Wrecsam	189	8	2	52	80	50	272	30	260	502	53	36	22	119
<b>Total</b>	<b>1005</b>	<b>37</b>	<b>30</b>	<b>199</b>	<b>420</b>	<b>370</b>	<b>1202</b>	<b>100</b>	<b>1310</b>	<b>3562</b>	<b>245</b>	<b>227</b>	<b>168</b>	<b>640</b>
<b>Variance from previous quarter</b>	<b>-256</b>	<b>5</b>	<b>12</b>	<b>32</b>	<b>-70</b>	<b>10</b>	<b>-18</b>	<b>30</b>	<b>-100</b>	<b>-338</b>	<b>-154</b>	<b>-177</b>	<b>-115</b>	<b>-396</b>

	Chwef-18				Chwef-18				Chwef-18				Cyfanswm	
	searching for work	planning for work	preparing for work	no work requirements	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	IS	Cyfanswm	Haen 1	Haen 2		Haen 3
Ymys Môn	140	0	0	17	30	40	122	10	140	482	10	38	35	83
Gwynedd	123	0	0	11	60	80	172	10	210	632	36	57	22	115
Conwy	143	0	0	11	70	80	202	10	212	652	30	39	30	99
Dinbych	163	0	0	19	80	70	202	20	259	711	56	27	45	128
Fflint	173	0	0	17	60	80	202	10	269	629	47	34	34	115
Wrecsam	312	46	42	117	120	60	202	0	155	459	62	57	31	150
<b>Total</b>	<b>1184</b>	<b>59</b>	<b>58</b>	<b>283</b>	<b>300</b>	<b>410</b>	<b>1142</b>	<b>80</b>	<b>1194</b>	<b>3658</b>	<b>270</b>	<b>207</b>	<b>752</b>	<b>5994</b>
<b>Variance from previous quarter</b>	<b>179</b>	<b>22</b>	<b>22</b>	<b>84</b>	<b>-120</b>	<b>40</b>	<b>-60</b>	<b>-20</b>	<b>-116</b>	<b>96</b>	<b>25</b>	<b>48</b>	<b>39</b>	<b>112</b>
<b>Variance from Feb 2017</b>	<b>-201</b>	<b>48</b>	<b>45</b>	<b>179</b>	<b>-300</b>	<b>90</b>	<b>-158</b>	<b>-20</b>	<b>-346</b>	<b>-802</b>	<b>-54</b>	<b>-23</b>	<b>-30</b>	<b>-147</b>

	Mai-18				Mai-18				Mai-18				Cyfanswm	
	searching for work	planning for work	preparing for work	no work requirements	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	IS	Cyfanswm	Haen 1	Haen 2		Haen 3
Ymys Môn	80	6	6	12	31	37	114	10	142	431	24	47	20	91
Gwynedd	119	6	7	19	50	75	110	11	194	619	39	51	26	116
Conwy	110	6	7	14	54	80	205	19	209	678	38	35	33	106
<b>Total</b>	<b>209</b>	<b>18</b>	<b>19</b>	<b>45</b>	<b>135</b>	<b>192</b>	<b>439</b>	<b>40</b>	<b>545</b>	<b>1728</b>	<b>101</b>	<b>133</b>	<b>79</b>	<b>313</b>
<b>Variance from previous quarter</b>	<b>91</b>	<b>12</b>	<b>11</b>	<b>32</b>	<b>65</b>	<b>115</b>	<b>225</b>	<b>30</b>	<b>351</b>	<b>1297</b>	<b>77</b>	<b>86</b>	<b>59</b>	<b>226</b>

	116	115	6	5	27	154	74	32	83	215	11	230	645	62	49	74	135	934	
Dibwch																			
Ymys Môn	345	46	47	144	592	16	11	11	50	131	7	133	398	55	66	79	159	1130	
Gwynedd	308	25	21	127	116	15	4	16	212	242	11	175	556	75	54	20	149	1186	
Dinbych	1078	95	93	343	1609	479	217	397	1132	69	1083	69	1083	327	302	152	747	5683	
Wrecsam	-106	36	35	60	25	-103	-83	-13	-10	-11	-111	-331	-23	27	-55	-5	-311	-745	
Variance from previous quarter	-169	81	80	233	225	-11	-313	47	-98	-21	-397	-793	-120	-25	-32	-177	-745	-119	
Variance from May 2017																			

	Awst-18										Awst-18										Amlyniad o'r chwarter blaenorol	Amlyniad o Awst 2017
	Credyd Cynhygus (16-24 oed)					Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)					Credyd Cynhygus (16-24 oed)					Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)						
	searching for work	planning for work	preparing for work	no work requirements	Cyfanswm	JSA	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	IS	Cyfanswm	Haen 1	Haen 2	Haen 3	Cyfanswm (H1-H3)	Cyfanswm					
Ymys Môn	52	10	10	81	104	36	42	105	0	143	430	25	63	36	104	615						
Gwynedd	76	5	6	94	115	80	37	109	12	195	628	42	60	32	174	857						
Dinbych	131	14	14	156	228	39	59	76	13	203	526	36	65	17	108	938						
Wrecsam	376	48	53	645	12	7	43	164	6	114	346	47	81	36	164	1155						
Total	1214	119	132	1929	336	171	379	1069	50	971	2976	250	400	37	185	1269						
Variance from previous quarter	136	24	39	121	320	-93	-46	-18	-63	-19	-112	-351	-43	98	-1	54	23					
Variance from Aug 2017	-41	87	114	297	450	-14	-319	19	-151	-20	-439	-149	46	-132	-235	-709						

	Tach-18										Tach-18										Amlyniad o'r chwarter blaenorol	Amlyniad o Awst 2017
	Credyd Cynhygus (16-24 oed)					Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)					Credyd Cynhygus (16-24 oed)					Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)						
	searching for work	planning for work	preparing for work	no work requirements	Cyfanswm	JSA	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	IS	Cyfanswm	Haen 1	Haen 2	Haen 3	Cyfanswm (H1-H3)	Cyfanswm					
Ymys Môn	113	8	9	122	143	34	43	113	5	112	361	23	63	11	97	620						
Gwynedd	203	12	16	299	91	31	63	177	0	165	530	56	38	18	112	941						
Conwy	365	32	25	119	541	28	5	179	9	125	410	116	52	7	175	1126						
Dinbych	354	36	33	152	575	20	7	59	183	8	141	104	69	8	181	1174						
Wrecsam	515	84	62	250	911	7	0	34	136	10	68	295	582	66	10	658						
Total	2092	243	195	901	3431	228	62	317	971	44	725	1016	355	76	1447	7225						
Variance from previous quarter	399	57	44	123	445	-123	-75	-30	-2	-125	-380	-1365	81	-17	-1301	-1036						
Variance from Feb 2017	707	232	182	797	1918	-352	-538	-3	-329	-56	-835	-2113	652	57	-161	548	353					
Variance from Feb 2018	908	184	137	618	1847	-304	-238	-53	-171	-56	-469	-1411	706	80	-131	695	1231					

	Chwefr-19										Chwefr-19										Amlyniad o'r chwarter blaenorol	Amlyniad o Chwefr 2017
	Credyd Cynhygus (16-24 oed)					Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)					Credyd Cynhygus (16-24 oed)					Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)						
	searching for work	planning for work	preparing for work	no work requirements	Cyfanswm	JSA	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	IS	Cyfanswm	Haen 1	Haen 2	Haen 3	Cyfanswm (H1-H3)	Cyfanswm					
Ymys Môn	160	16	11	61	248	37	11	43	104	0	88	262	6	66	6	78	588					
Gwynedd	232	25	20	104	381	50	17	53	173	5	135	433	55	52	10	117	931					
Conwy	352	37	37	170	591	32	6	52	167	5	96	348	120	53	8	181	1120					
Dinbych	364	52	40	180	636	18	5	38	169	5	117	352	40	80	9	129	1170					
Wrecsam	528	76	65	274	901	9	0	20	123	7	59	228	544	73	15	632	1801					
Total	2168	252	232	1132	3774	126	26	252	676	31	533	1950	88	219	41	1138	7062					
Variance from previous quarter	53	38	21	71	249	-34	-34	-54	-59	-11	-137	-133	32	-11	-152	-206						
Variance from May 2017	888	267	213	1012	2380	-304	-502	-97	-318	-57	-892	-2170	420	70	-119	371	591					
Variance from May 2018	1067	186	133	779	2165	-293	-189	-144	-220	-36	-495	-1377	540	95	-87	548	1336					

FCC Tier 1 amounts high as Cong Cambria figures delayed due to new

	Mai-19										Mai-19										Amlyniad o'r chwarter blaenorol	Amlyniad o Mai 2017
	Credyd Cynhygus (16-24 oed)					Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)					Credyd Cynhygus (16-24 oed)					Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)						
	searching for work	planning for work	preparing for work	no work requirements	Cyfanswm	JSA	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	IS	Cyfanswm	Haen 1	Haen 2	Haen 3	Cyfanswm (H1-H3)	Cyfanswm					
Ymys Môn	190	28	16	79	313	28	0	31	102	0	77	238	4	80	17	101	652					
Gwynedd	293	34	35	119	459	6	4	54	159	0	102	311	4	58	14	158	1096					
Dinbych	334	47	41	159	521	13	6	38	165	0	91	313	19	51	12	112	1180					
Wrecsam	560	79	76	324	1039	7	0	23	120	0	49	199	155	82	31	268	1506					
Total	2162	311	314	1323	4310	116	14	232	855	15	479	1711	401	463	1021	7042						
Variance from previous quarter	217	30	88	201	536	-20	-14	-21	-57	-18	-109	-239	-432	66	92	-274	23					
Variance from August 2017	1107	279	296	1156	2831	-234	-476	-128	-365	-55	-931	-2189	7	109	-126	-15	627					
Variance from August 2018	1148	192	182	859	2881	-220	-157	-147	-214	-35	-492	-1265	151	63	6	220	1336					

Tech-19	Credyl Cynhwysol (16-24 oed)							Tech-19							Cyfanswm	
	Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)			Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)			Cyfanswm	Credyl Cynhwysol (16-24 oed)			Tech-19			Cyfanswm		
	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	ESA: Assessment	ESA: Work Related		ESA: Support	ESA: Unknown	Haen 1	Haen 2	Haen 3	Cyfanswm (H1-H3)			
Ymys Môn	199	30	19	102	632	18	60	8	86	632	20	42	260			
Gwynedd	350	47	158	47	155	5	90	323	65	30	149	1065	59	167	26	
Conwy	403	47	45	220	715	11	142	0	74	267	139	32	189	1171	-3	285
Dinbych	420	52	146	66	270	8	116	0	77	270	81	58	14	1227	87	260
Fflint	550	77	343	67	106	0	33	171	109	69	22	200	200	1419	47	169
Wrecsam	549	72	408	29	140	6	66	251	43	60	26	129	1489	35	607	
Total	2971	317	344	1497	4619	79	16	187	776	18	402	1478	455	333	118	1530
Variance from previous quarter	109	6	174	389	-57	-77	-233	54	-100	-59	-413	-59	-539			
Variance from November 2017	668	80	384	1208	3494	221	2	628	-2684	220	108	60	184	193	19	339
Variance from November 2018	78	131	331	121	-121	353	25	28	-468	-1459	59	25	-5842	-1238		

Chwef-20	Credyl Cynhwysol (16-24 oed)							Chwef-20							Cyfanswm	
	Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)			Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)			Cyfanswm	Credyl Cynhwysol (16-24 oed)			Chwef-20			Cyfanswm		
	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	ESA: Assessment	ESA: Work Related		ESA: Support	ESA: Unknown	Haen 1	Haen 2	Haen 3	Cyfanswm (H1-H3)			
Ymys Môn	241	45	39	124	449	11	21	82	0	57	171	7	65	10	82	702
Gwynedd	399	41	58	193	25	44	142	7	81	299	61	58	39	158	1148	
Conwy	454	42	48	273	817	17	6	237	0	56	237	103	47	28	178	1232
Dinbych	456	56	74	308	894	15	0	132	0	63	233	55	78	8	141	1288
Fflint	539	39	166	59	1009	9	25	100	0	52	199	11	78	11	190	1457
Wrecsam	481	45	104	45	1169	5	0	25	0	53	232	11	71	13	217	1316
Total	2586	344	419	1718	5077	78	11	589	709	27	336	336	404	123	863	7259
Variance from previous quarter	125	-27	85	-221	488	-1	-5	-29	-67	9	-66	-159	-119	71	5	-43
Variance from Feb 2017	1211	333	406	1624	3564	-502	-502	-62	-591	-73	-1224	-3141	-28	106	-114	-36
Variance from Feb 2018	1412	285	361	1435	3403	-454	-289	-252	-433	-53	-858	-2389	66	129	-84	111
Variance from Feb 2019	504	101	224	817	1646	-150	-51	-159	-262	-17	-389	-650	49	47	-584	34


Mai-20	Credyl Cynhwysol (16-24 oed)							Mai-20							Cyfanswm	
	Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)			Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)			Cyfanswm	Credyl Cynhwysol (16-24 oed)			Mai-20			Cyfanswm		
	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	ESA: Assessment	ESA: Work Related		ESA: Support	ESA: Unknown	Haen 1	Haen 2	Haen 3	Cyfanswm (H1-H3)			
Ymys Môn	446	46	45	135	629	25	21	82	0	49	167	9	66	16	91	937
Gwynedd	854	56	70	284	1275	41	0	38	120	5	60	292	87	86	15	188
Conwy	879	60	60	284	1275	41	0	27	120	0	48	236	83	67	26	176
Dinbych	799	63	86	349	1297	37	0	25	123	7	56	248	50	83	10	143
Fflint	1005	84	97	422	1608	47	0	12	89	8	16	172	87	86	15	188
Wrecsam	1016	80	106	491	1693	30	6	25	116	10	44	231	39	87	17	143
Total	4993	384	464	1917	7764	233	13	146	651	30	273	1346	355	475	99	929
Variance from previous quarter	400	40	45	199	2687	195	2	-12	-58	3	-63	27	19	71	-24	66
Variance from May 2017	370	451	1807	680	6155	-207	-517	-204	-579	-60	-1207	-2774	-58	148	-85	5
Variance from May 2018	3921	289	371	1574	6155	-196	-204	-251	-481	-39	-810	-1981	62	173	-53	182
Variance from May 2019	2854	103	238	795	3980	97	15	-107	-261	3	315	-604	-478	78	34	3020


Awst-20	Credyl Cynhwysol (16-24 oed)							Awst-20							Cyfanswm	
	Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)			Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)			Cyfanswm	Credyl Cynhwysol (16-24 oed)			Awst-20			Cyfanswm		
	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	ESA: Assessment	ESA: Work Related		ESA: Support	ESA: Unknown	Haen 1	Haen 2	Haen 3	Cyfanswm (H1-H3)			
Ymys Môn	476	37	50	147	710	25	12	66	6	36	145	14	78	26	118	973
Gwynedd	936	53	71	232	1292	43	0	32	118	8	57	258	88	88	48	1774
Conwy	911	50	60	296	1317	27	0	25	103	6	35	196	105	76	39	220
Dinbych	850	73	362	382	1358	22	0	20	103	8	47	200	48	94	25	167
Fflint	1030	102	100	421	1653	37	5	13	87	5	18	170	82	106	31	202
Wrecsam	1004	88	100	387	1579	22	0	25	103	8	47	200	48	94	25	167
Total	5204	398	464	1982	8049	139	11	125	558	42	230	1184	358	532	239	1139
Variance from previous quarter	205	34	10	146	785	-44	-1	-21	-65	12	-43	12	10	24	333	383
Variance from August 2017	3049	366	446	1816	6570	-161	-478	-235	-634	-28	-1380	-2716	-41	198	-54	3057
Variance from August 2018	3990	279	332	1519	6120	-147	-159	-264	-483	8	-741	-1792	108	152	78	338
Variance from August 2019	2842	87	150	660	3739	73	-2	-107	-269	27	-249	-527	-43	89	72	3330


Tach-20	Credyl Cynhwysol (16-24 oed)							Tach-20							Cyfanswm	
	Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)			Budd-daliadau DWP eraill (16-24 oed)			Cyfanswm	Credyl Cynhwysol (16-24 oed)			Tach-20			Cyfanswm		
	ESA: Assessment	ESA: Work Related	ESA: Support	ESA: Unknown	ESA: Assessment	ESA: Work Related		ESA: Support	ESA: Unknown	Haen 1	Haen 2	Haen 3	Cyfanswm (H1-H3)			
Ymys Môn	829	30	48	152	671	*	*	*	*	*	0	32	32	6	6	761
Gwynedd	818	50	64	249	1181	*	*	*	*	*	0	77	70	15	162	1343
Conwy	822	56	310	310	1247	*	*	*	*	*	0	120	58	28	206	1463
Dinbych	803	66	361	361	1306	*	*	*	*	*	0	63	63	6	132	1438
Fflint	1002	80	93	441	1616	*	*	*	*	*	0	63	61	12	154	1770
Wrecsam	944	78	103	554	1619	*	*	*	*	*	0	63	63	14	140	1819
Total	4818	369	441	2072	7700	0	0	0	0	0	0	437	366	81	884	8584
Variance from previous quarter	-386	-29	23	89	-349	-189	-12	-125	-586	-42	-230	-1184	-195	-148	-255	-1788
Variance from November 2017	3813	332	411	1873	6429	-300	-420	-370	-1202	-100	-1310	-3862	192	139	-87	244
Variance from November 2018	3125	316	290	1316	4914	-351	-137	-342	-1001	-46	-850	-2727	1944	92	-12	-1864
Variance from November 2019	2347	52	107	575	3081	-79	-16	-187	-776	-18	-402	-1478	-18	33	-37	-1581


\* Data not yet published/received






















# Data Diweithdra Pobl Ifanc 16-25 oed

## Gogledd Cymru

2017 - 2021

### Cyfnod/niferoedd di-waith

Sir	Chwef-17	Mai-17	Awst-17	Tach-17	Chwef-18	Mai-18	Awst-18	Tach-18	Chwef-19	Mai-19	Awst-19	Tach-19	Chwef-20	Mai-20	Awst-20	Tach-20	Chwef-21
Ynys Môn	783	717	694	590	655	626	615	892	620	588	652	632	702	937	973	761	814
<b>Gwynedd</b>	<b>1145</b>	<b>1090</b>	<b>969</b>	<b>898</b>	<b>1002</b>	<b>886</b>	<b>857</b>	<b>1036</b>	<b>941</b>	<b>931</b>	<b>1006</b>	<b>1065</b>	<b>1148</b>	<b>1692</b>	<b>1774</b>	<b>1343</b>	<b>1423</b>
Conwy	1137	1054	1077	886	1000	921	872	1197	1126	1120	1174	1171	1232	1687	1733	1453	1524
Dinbyrch	1227	1191	1184	967	1053	934	938	1355	1174	1117	1180	1227	1268	1688	1725	1438	1505
Fflint	1195	1112	1151	1250	1126	1130	1155	1912	1824	1801	1506	1419	1432	1968	2042	1770	1773
Wrecsam	1385	1344	1340	882	1158	1186	1269	1869	1540	1462	1524	1489	1477	2067	2125	1819	1828

Cyfnod  
% o'r boblogaeth 16-24 oed Gwynedd ddim mewn addysg, hyfforddiant neu waith


Awst-17	7%
Awst-18	6%
Awst-19	7%
Awst-20	10%


### Cymhareb Hynt Disgyblion Gadawr Blyddyn 11 sydd ddim yn pontio i addysg, hyfforddiant neu waith ar ôl gadael Ysgol


	2015	2016	2017	2018	2019
Ynys Môn	2.20%	2.30%	4.30%	1.10%	2.00%
<b>Gwynedd</b>	<b>1.80%</b>	<b>1.10%</b>	<b>1.10%</b>	<b>1.90%</b>	<b>2.20%</b>
Conwy	2.40%	1.70%	1.30%	0.90%	1.40%
Dinbyrch	3.10%	1.90%	1.10%	1.00%	1.90%
Fflint	1.30%	1.70%	1.60%	1.20%	1.90%
Wrecsam	1.70%	1.40%	1.10%	1.70%	1.70%


### Hynt Disgyblion Blyddyn 11, 12 a 13 Gwynedd sydd ddim yn pontio i addysg, hyfforddiant neu waith ar ôl gadael Ysgol

	Bl 11	Bl 12	Bl 13
2015	1.80%	0.20%	3.10%
2016	1.10%	0.60%	2.70%
2017	1.10%	1.00%	2.50%
2018	1.30%	0.00%	1.97%
2019	2.20%	0.80%	2.20%


































aru



Wrecsam

edd







# Gwerthuso Adtrac

## Adroddiad Interim

**Y daith hyd yma**  
Awst 2020



# Gwerthusiad ADTRAC: Adriddiad Interim

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd**

Adroddiad Ymchwil Llawn: Chloë Maughan, Tom Marshall & Endaf Griffiths / Wavehill



Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai prosiect ADTRAC o reidrwydd.

## **Am wybodaeth bellach am yr adroddiad, cysylltwch â:**

Tom Marshall, Wavehill

Ffôn: 01545 571711

E-bost: [tom.marshall@wavehill.com](mailto:tom.marshall@wavehill.com)

## **I gael rhagor o wybodaeth am ADTRAC, cysylltwch â:**

Sara Williams, Rheolwr Rhanbarthol ADTRAC, Grŵp Llandrillo Menai

Ffôn: 01492 546666

E-bost: [sara.williams@gllm.ac.uk](mailto:sara.williams@gllm.ac.uk)

[gllm.ac.uk/adtrac](http://gllm.ac.uk/adtrac)

[@adtrac1624](https://twitter.com/adtrac1624)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Maughan, C., Marshall, T., a Griffiths, E. (2020). *Gwerthusiad ADTRAC: Adroddiad Interim*.



## Cynnwys

Cynnwys .....	4
Geirfa .....	5
1. Cyflwyniad/Cefndir .....	6
2. Methodoleg a Chyfyngiadau .....	11
3. Model Darparu a Rhesymeg .....	15
4. Gweithredu a Darparu ADTRAC.....	27
5. Cynnydd a Pherfformiad .....	61
6. Canlyniadau i Gyfranogwyr.....	79
7. Canlyniadau i Sefydliadau Darparu.....	99
8. Conclusions .....	102
9. Argymhellion.....	109
Cyfeiriadau .....	111
Atodiad A: Offerynnau Ymchwil .....	115

## Geirfa

### Acronym/Llythrenw/ Diffiniad

#### Gair allweddol

ADTRAC	Rhaglen a ddarperir ar draws Gogledd Cymru i gynorthwyo pobl ifanc 16-24 oed sy'n ddi-waith
AMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
CAB	Cyngor ar Bopeth
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CfW	Cymunedau am Waith
GC	Gyrfa Cymru
DPS	System Brynu Ddeinamig
DWP	Adran Gwaith a Phensiynau
EET	Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
EPC	Cydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
FTE	Cyfwerth ag Amser Llawn
GDPR	Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data
GLLM	Grŵp Llandrillo Menai
GP	Meddyg Teulu
ALI	Awdurdod Lleol
LMI	Gwybodaeth am y Farchnad Lafur
NEET	Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
PaCE	Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth
SPoA	Un Pwynt Mynediad
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
WEMWBS	Graddfa Lles Meddwl Warwick-Edinburgh
WFGA	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
WLHC	Cyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar eich Gallu i Weithio
YEPF	Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

## 1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Adroddiad interim yw hwn a gynhyrchwyd fel rhan o werthusiad Wavehill o brosiect ADTRAC – prosiect sy'n ceisio symud pobl ifanc 16-24 oed i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET). Mae Wavehill yn gwmni ymchwil cymdeithasol ac economaidd annibynnol, a gomisiynwyd gan Grŵp Llandrillo Menai (GLLM) i gynnal gwerthusiad o'r prosiect. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaethpwyd wrth ddarparu ADTRAC tan fis Mawrth 2020. Fe'i rhagflaenwyd gan Adroddiad Cychwynnol a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2019, a bydd Adroddiad Terfynol ym mis Chwefror 2021 yn ychwanegu ato.

### Trosolwg o Brosiect ADTRAC

- 1.2 Mae ADTRAC yn weithrediad a ddarperir ar draws Gogledd Cymru, sy'n ceisio lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Ariannir y gweithrediad yn rhannol dan Brosiect Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc, Amcan Penodol 1 Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal y gweithrediad tair blynedd rhwng mis Mawrth 2017 a mis Awst 2020. Yn dilyn gwaith ailbroffilio, fodd bynnag, disgwylir i'r gweithrediad ddod i ben ym mis Mai 2021.<sup>1</sup> Yn ystod y cyfnod hwn, nod ADTRAC yw cynorthwyo 1,451 o bobl ifanc sy'n NEET ac sy'n wynebu rhwystrau sy'n atal eu llwybr a'u dilyniant i EET.<sup>2</sup> Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth iechyd meddwl a lles clinigol i bobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl ysgafn i

---

<sup>1</sup> Sylwer. Ar draws y rhanbarth, gwelwyd dyddiadau darparu gwasgarog o ganlyniad i weithgarwch recriwtio i'r tîm.

Ar Ynys Môn, cychwynnodd Rheolwr y Prosiect ym mis Ionawr 2018 a phenodwyd mentoriaid ym mis Mawrth y flwyddyn honno. Cychwynnodd gweithgarwch monitro data ar 22 Ionawr 2018, gwelwyd y cofrestrriad cyntaf ar 15 Mawrth, a chynhaliwyd lansiad swyddogol y prosiect ar 19 Ebrill 2018.

Cychwynnodd ADTRAC ar ei waith gweithredol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddiwedd fis Chwefror 2018.

Yn Sir Ddinbych, aeth y prosiect yn fyw ar 13 Tachwedd 2017.

Yn Wrecsam a Sir y Fflint, cafwyd y cyfeiriad cyntaf ym mis Rhagfyr 2017, ac erbyn hynny, roedd y tîm eisoes yn ei le. Cafwyd mwy o gyfeiriadau ym mis Ionawr 2018 a dechreuodd y mentoriaid ddatblygu llwyth achosion. Yng Ngwynedd, cychwynnodd Rheolwr y Prosiect yn ei swydd ym mis Mehefin 2017 a cychwynnodd aelodau'r Tîm Darparu yn eu swyddi ym mis Medi 2017. Dechreuodd y prosiect gael cyfeiriadau ym mis Tachwedd 2017.

<sup>2</sup> Sylwer y diwygiwyd y ffigwr hwn o darged cychwynnol o 1,651 yn dilyn gwaith i ailbroffilio'r gweithrediad.

gymedrol. Nodir y targedau gwreiddiol a'r targedau yn dilyn y gwaith ailbroffilio yn Nhabl 1.1 isod.

- 1.3 Arweinir y prosiect gan GLLM ac fe'i ddarperir ar draws ardaloedd y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.<sup>3</sup> Ar lefel weinyddol, ceir dau brosiect ar wahân: prosiect Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a phrosiect Dwyrain Cymru. Mae'r prosiectau yn dwyn ynghyd GLLM, y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), sy'n darparu arbenigedd ym maes iechyd meddwl a lles. Dan arweiniad GLLM, darperir y prosiectau gan dimau a arweinir gan y chwe awdurdod lleol, a chaiff arbenigedd staff BIPBC ei gynnwys o fewn pob tîm.

### Targedau'r Prosiect

- 1.4 Ar ôl ailbroffilio'r prosiect, bydd Cyd-fuddiolwyr<sup>4</sup> yn gweithio gyda 1,451 o bobl ifanc a nodir yn unigolion NEET yn ystod cyfnod y gweithrediad, gyda'r nod o gyflawni'r canlyniadau canlynol.

---

<sup>3</sup> Ar draws yr awdurdodau lleol canlynol yn benodol: Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a Chyngor Sir y Fflint.

<sup>4</sup> Mae Cyd-fuddiolwyr yn cyfeirio at y sefydliadau sy'n ymwneud â darparu ADTRAC, gan gynnwys y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, GLLM, a BIPBC.

**Tabl 1.1: Canlyniadau a dargedir**

Canlyniad a dargedir	Ŷifer y cyfranogwyr a dargedir	Nifer y cyfranogwyr a dargedwyd (cyn ailbroffilio)
Cyfanswm y cyfranogwyr	1,451	1,651
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn sicrhau cymwysterau erbyn iddynt adael	350	350
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn symud ymlaen i addysg/hyfforddiant ar ôl gadael	270	280
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn symud ymlaen i gyflogaeth ar ôl gadael	367	357
Cyfranogwyr yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill <sup>5</sup>	290	330

Ffynhonnell: Cynlluniau Busnes

1.5 Yn ychwanegol i'r targedau hyn, yn dilyn y gwaith ailbroffilio, roedd gan ADTRAC gyfres o dargedau cyfranogi (fel yr amlinellir yn Nhabl 1.2).

<sup>5</sup> Gallai canlyniadau cadarnhaol eraill gynnwys y canlynol:

- Sicrhau mwy nag un cymhwyster/achrediad o ganlyniad i'r ymyriad
- Sicrhau rhan-gymhwyster/achrediad
- Cyflawni hyfforddiant heb ei achredu
- Sicrhau ardystiad sy'n berthnasol i fyd gwaith erbyn gadael
- Cychwyn ar gwrs addysg rhan-amser (llai nag 16 awr)
- Cwblhau lleoliad profiad gwaith/cyfle gwirfoddoli
- Cychwyn cyflogaeth am lai nag 16 awr (gan gynnwys hunangyflogaeth)
- Cychwyn cyflogaeth ar gontract dim oriau
- Cychwyn ar hyfforddeiaeth
- Gwelliant o ran eu lles meddyliol
- Gwelliant mewn canlyniadau meddal

Sylwer. Cytunwyd gyda WEFO y bydd cychwyn ar hyfforddeiaeth yn cyfrif tuag at 'ganlyniad ymgymryd ag addysg/hyfforddiant' ond ni chaiff hwn ei hawlio gan y prosiect tan fis Medi 2020 a bydd gofyn i'r timau sicrhau'r safon ofynnol o ran y dystiolaeth. O'r herwydd, cynhwyswyd y canlyniadau hyn yng nghategori 'canlyniadau cadarnhaol eraill' yn y gwerthusiad interim hwn.



**Tabl 1.2: Targedau cyfranogi**

Grŵp cyfranogi	Targed	Targed (%)
Cyfanswm y cyfranogwyr	1,451	
Cyfranogwyr sydd ag anabledd/cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	112	8%
Cyfranogwyr sy'n BME/Mudwyr/Lleiafrifoedd	31	2%
Cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu	121	8%
Cyfranogwyr gwrywaidd	721	50%
Cyfranogwyr benywaidd	730	50%

Ffynhonnell: Cynlluniau Busnes

**Sut y mae ADTRAC yn Gweithio**

- 1.6 Mae ADTRAC yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gyfranogwyr, gan adlewyrchu eu hanghenion unigol a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgymryd ag EET. Mae ADTRAC yn gweithio gyda chyfranogwyr i nodi'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag sicrhau cyflogaeth, ac yna, mae'n darparu cymorth er mwyn eu helpu i oresgyn y rhwystrau hyn neu mae'n cyfeirio cyfranogwyr at asiantaethau eraill sy'n gallu darparu'r cymorth hwn.
- 1.7 Yng nghyd-destun y dull holistig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'r prosiect yn dwyn ynghyd cymorth cyflogadwyedd a darpariaeth iechyd meddwl a lles, a ddarperir yn rhannol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol cymwys o BIPBC. Nid yw hon yn nodwedd gyffredin mewn ymyriadau cyflogadwyedd; penderfynwyd ei gynnwys yn y prosiect oherwydd pryder ynghylch lefelau uchel iechyd meddwl a lles gwael ymhlith unigolion sy'n NEET. Felly, mae'r prosiect yn gyfle pwysig er mwyn dysgu am sut i weithio gyda'r garfan hon, yn ogystal â'r rhwystrau er mwyn ymgymryd ag EET a wynebir gan bobl ifanc sy'n NEET.
- 1.8 Un o nodweddion anarferol eraill ADTRAC yw ei fod yn cael ei arwain gan GLLM, sefydliad nad yw'n ymwneud â darparu'r prosiect. Roedd rôl GLLM yn cynnwys sefydlu'r prosiect, trefnu methodoleg a phrosesau adrodd, gwaith monitro a darpariaeth y prosiect, sicrhau cyfathrebu parhaus rhwng partneriaid, cynnwys safbwyntiau partneriaid am benderfyniadau strategol a gweithredol, a darparu diweddariadau prosiect gan WEFO.

## Amcanion ar gyfer y Gwerthusiad Interim

1.9 Mae'r adroddiad interim hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a sicrhawyd wrth ddarparu ADTRAC tan fis Mawrth 2020, ac mae'n archwilio gwerth y dull hwn wrth gynorthwyo pobl ifanc sy'n NEET. Yn benodol, mae'r gwerthusiad interim yn ceisio nodi:


- cynnydd y gweithrediad wrth gyflawni ei ddangosyddion perfformiad
- effeithiolrwydd prosesau gweithredol a rheoli
- effeithiau cynnar y prosiect ar sefydliadau darparu a buddiolwyr y prosiect
- argymhellion cychwynnol er mwyn sicrhau gwelliant.

## 2. Methodoleg a Chyfyngiadau

- 2.0 Mae'r adran hon yn amlinellu'r dull methodolegol a fabwysiadwyd yn ystod y cam hwn o'r gwerthusiad, yn ogystal â chyfyngiadau'r dull hwn y mae'n bosibl eu bod yn effeithio ar gadernid y canfyddiadau a'r casgliadau a dynnwyd ohonynt.

### Methodoleg

- 2.1 Mae'r gwerthusiad hwn wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar theori. Roedd hyn yn cynnwys datblygu cadwyn resymeg ar gyfer yr ymyriad a fframwaith gwerthuso a oedd yn cynnwys dangosyddion, a fydd yn caniatáu mesur cynnydd y prosiect tuag at ganlyniadau a ragwelwyd.
- 2.2 Amlinellir y gadwyn resymeg lawn ar gyfer y prosiect yn yr Adroddiad Gwerthuso Cychwynnol. Fodd bynnag, mae'n seiliedig ar y resymeg ymyrraeth gymharol syml ganlynol.
- 2.3 Ffigur 2.1: Cadwyn resymeg ganolog ar gyfer ADTRAC



- 2.4
- 2.5 Ar sail y resymeg hon, datblygwyd fframwaith gwerthuso, gan gynnwys cwestiynau proses a chanlyniad ac effaith, a dangosyddion gwrthrychol a goddrychol.
- 2.6 Er mwyn ateb y cwestiynau gwerthuso a nodwyd yn y fframwaith gwerthuso, mae'r gwerthusiad interim wedi mabwysiadu dull sy'n cynnwys dulliau cymysg,

sy'n dwyn ynghyd gwaith dadansoddi meintiol ac ansoddol. Mae hyn wedi cynnwys y gweithgareddau casglu data canlynol:

- 2.7 Adolygiad o ddata monitro a dogfennaeth allweddol ar draws ardaloedd Cyd-fuddiolwyr, gan gynnwys Data Monitro Cyfranogwyr a ddarparwyd tan fis Mawrth 2020 a Chofnodion Gwersi a Ddysgwyd.
- 2.8 Arolwg ar-lein o'r staff a fu'n ymwneud â rheoli a darparu ADTRAC (n = 48), er mwyn deall persbectifau am y dull cyflwyno a'r effeithiau tybiedig. O blith y 48 o staff a gwblhaodd yr arolwg, adroddodd 34 eu bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol gyda chyfranogwyr fel rhan o'u rôl, ac adroddodd 12 bod eu rôl yn ymwneud â rheoli staff eraill sy'n darparu ADTRAC. Caiff copi o'r arolwg ei gynnwys yn Atodiad A.
- 2.9 Cyfweiliadau un-i-un manwl dros y ffôn gyda staff sy'n ymwneud â rheoli a darparu ADTRAC (n = 9), er mwyn casglu dirnadaeth bellach am y ffordd y cyflwynir y prosiect a safbwyntiau ynghylch prif sialensiau a chryfderau y model cyflwyno. Caiff copi o'r canllaw trafod ei gynnwys yn Atodiad A.
- 2.10 Cyfweiliadau un-i-un manwl dros y ffôn gyda rhanddeiliaid strategol (n = 9) er mwyn deall ffit strategol y prosiect, a safbwyntiau am y cymorth a roddwyd. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys staff a fu'n ymwneud â darpariaeth ehangach cymorth er mwyn lleihau cyfraddau'r bobl ifanc sy'n NEET, gan gynnwys staff awdurdodau lleol, yn ogystal â staff sefydliadau cymorth eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Barnardo's. Caiff copi o'r canllaw trafod ei gynnwys yn Atodiad A.
- 2.11 Cyfweiliadau un-i-un dros y ffôn gyda chyfranogwyr (n = 30) er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o effaith cymorth ADTRAC ar gyfranogwyr, a safbwyntiau ynghylch sut y cyflwynir y cymorth. Caiff copi o'r canllaw trafod ei gynnwys yn Atodiad A.
- 2.12 Cynigiwyd yr holl ddulliau casglu data hyn yn ddwyieithog (yn Gymraeg ac yn Saesneg).
- 2.13 Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r wybodaeth ansoddol a gasglwyd trwy gyfrwng cyfweiliadau ac ymatebion i'r arolwg. Mae dadansoddi thematig yn ddull

o nodi, dadansoddi ac adrodd patrymau (themâu) o fewn data (Boyatzis, 1998). Fe'i cynhelir trwy nodi themâu allweddol mewn testun, trawsnewid y themâu hyn yn godau a'u crynhoi mewn llyfr codau (Guest, et al., 2012). Mae'r dull yn cynnwys saith cam: trawsgrifio,<sup>6</sup> darllen ac ymglyfarwyddo, codio, chwilio am themâu, adolygu themâu, diffinio ac enwi themâu, a chwblhau'r dadansoddiad (Braun & Clarke, 2013).

#### 2.14 **Cyfyngiadau**

- 2.15 Defnyddiodd y gwerthusiad hwn dulliau cyfweld manwl er mwyn ymgysylltu gyda chyfranogwyr a staff rheoli a darparu ADTRAC. Mae'r dulliau hyn yn galluogi ymchwilwyr i feithrin dealltwriaeth fanwl o safbwyntiau cyfranogwyr, gan eu bod yn galluogi cyfranogwyr mewn gwaith ymchwil i archwilio themâu yn eu geiriau eu hunain. Fodd bynnag, gall natur y dulliau hyn, sef y ffaith nad ydynt yn ddiennw, beri rhywfaint o risg y bydd unigolion yn rhannu safbwyntiau mwy ffafriol oherwydd pryderon ynghylch cyfrinachedd, yn enwedig pan fo unigolion yn rhannu gwybodaeth sensitif sy'n ymwneud â'u cyflogaeth.
- 2.16 Dylid nodi hefyd yr enwebwyd y cyfranogwyr a gyfwelwyd gan swyddogion arweiniol o bob awdurdod lleol. Dewiswyd cyfranogwyr addas mewn trefn er mwyn lleihau'r posibilrwydd y byddai cyfranogwyr ymchwil sy'n gofidio ynghylch cael ymchwilwyr yn cysylltu â nhw, yn dioddef niwed. O'r herwydd, mae'n bosibl bod cyfranogwyr wedi cael eu dewis ar gyfer y gwerthusiad, sydd wedi cael profiadau mwy ffafriol ac y mae ganddynt anghenion llai cymhleth nag anghenion eu cymheiriaid. Mae'r cyfranogwyr hyn yn fwy tebygol o ymgysylltu llawer hefyd, sy'n golygu nad yw'r gwerthusiad yn adlewyrchu safbwyntiau cyfranogwyr sydd wedi bod yn llai tebygol o ymgysylltu gyda'r cymorth efallai. O ganlyniad, efallai nad yw safbwyntiau'r cyfranogwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y cyfweiliadau ar gyfer y prosiect hwn yn gynrychioliadol o'r grŵp ehangach o reidrwydd.
- 2.17 Mae'r potensial o weld tuedd yn y data hwn, fodd bynnag, wedi cael ei liniaru trwy ddefnyddio dulliau cymysg. Dadansoddwyd data a gasglwyd trwy gyfrwng y

---

<sup>6</sup> Sylwer. Yn yr achos hwn, darparwyd rhywfaint o'r data a gasglwyd fel testun ysgrifenedig (e.e. ymatebion arolwg) ac ni fu gofyn trawsgrifio.

cyfweiliadau manwl yng nghyd-destun data arall, gan gynnwys arolwg dienw ymhlith staff rheoli a darparu, data monitro prosiect, a dadansoddiad o brif ddogfennaeth y prosiect. Yn ogystal, hysbyswyd pob un a gyfwelwyd o'r ffaith bod y tîm gwerthuso yn annibynnol ar y sefydliadau a fu'n ymwneud â darparu ADTRAC, a rhoddwyd sicrwydd iddynt y byddai eu hymatebion yn cael eu cofnodi mewn ffordd ddienw er mwyn sicrhau eu cyfrinachedd. Yn anffodus, pan gynhwyswyd niferoedd isel o'r rhai a gyfwelwyd o Gyd-Fuddiolwr penodol mewn cyfweiliadau, mae hyn yn golygu na fu modd cynnig dadansoddiadau o'r gwahaniaethau rhwng patrymau ymateb ar draws Cyd-Fuddiolwyr o ganlyniad i'r risg y byddai modd adnabod ymatebwyr.

- 2.18 2.10 Dylid nodi hefyd y cynhaliwyd gwaith maes gyda chyfranogwyr ADTRAC yn ystod y cyfnod clo yn y DU<sup>7</sup> o ganlyniad i bandemig COVID-19. O ganlyniad i bandemig COVID-19, canslwyd chwe grŵp ffocws a drefnwyd gyda chyfranogwyr y prosiect a gynorthwywyd gan y Cyd-Fuddiolwyr, a phenderfynwyd cynnal cyfweiliadau un-i-un dros y ffôn gyda chyfranogwyr yn lle hynny.
- 2.19 Yn ogystal â'r ffaith y bu gofyn newid y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad, mae'n bosibl y gallai COVID-19 fod wedi newid rhai o'r ymatebion a gafwyd. Gallai newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i COVID-19 yng ngoleuni mesurau cadw pellter cymdeithasol, fod wedi effeithio ar safbwyntiau cyfranogwyr am y cymorth a gynigiwyd, a cheir tystiolaeth bod pandemig y coronafeirws wedi cynyddu gofid nifer o bobl (Bentall, et al., 2020).

---

<sup>7</sup> O 23 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n rhaid i'r rhan fwyaf o boblogaeth y DU aros gartref a chadw pellter cymdeithasol (hynny yw, osgoi cael cyswllt gyda phobl y tu allan i uned aelwyd unigolyn) fel rhan o ddull y llywodraeth o reoli pandemig COVID-19. Dilynwyd y cyhoeddiad hwn gan gyhoeddiad Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, y byddai'r mesurau yn cael eu gweithredu yng Nghymru hefyd, ac y byddent yn dod i rym y noson honno. Roedd y mesurau a weithredwyd yn atal nifer o fusnesau a gwasanaethau rhag darparu cymorth wyneb yn wyneb, gan gynnwys ADTRAC.

### 3. Model Darparu a Rhesymeg

3.0 Mae'r bennod hon yn archwilio'r rhesymeg a'r model darparu ar gyfer ADTRAC.

#### Prif Bwyntiau:

- Mae ADTRAC wedi ymgysylltu ag 893 o gyfranogwyr hyd yn hyn, o'i gymharu â tharged o 1,451.
- Mae cyfranogwyr yn wynebu ystod eang o rwystrau wrth iddynt ymgymryd ag EET; mae lefelau hyder isel, diffyg profiad/sgiliau cyflogadwyedd, diffyg sgiliau/cymwysterau, a phryderon iechyd meddwl yn arbennig o gyffredin ymhlith y rhain.
- Mae rhanddeiliaid yn ystyried bod y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn wahanol i gymorth arall sydd ar gael i bobl ifanc sy'n NEET.
- Mae rhanddeiliaid strategol yn adrodd bod ADTRAC wedi darparu gwerth ychwanegol, yn enwedig trwy gyfrwng ei bartneriaeth gyda BIPBC a chyswllt Ymarferwyr Iechyd Meddwl.

#### Model Darparu

- 3.1 3.1 Mae ADTRAC yn weithrediad amlasiantaethol sy'n ceisio lleihau cyfran y bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET yng Ngogledd Cymru. Mae'r prosiect yn darparu ystod eang o gymorth, gan gynnwys:
- 3.2 cynnig cymorth cyflogadwyedd mwy traddodiadol megis cynorthwyo unigolion i ddatblygu eu CVs a sgiliau cyfweld;
- 3.3 caffael cyrsiau a hyfforddiant er mwyn cynorthwyo cyfranogwyr i feithrin eu sgiliau neu oresgyn eu rwystrau er mwyn ymgymryd ag EET;
- 3.4 helpu cyfranogwyr i fanteisio ar a sicrhau cymwysterau ac ardystiadau hyfforddiant newydd;
- 3.5 cymorth iechyd a lles meddyliol arbenigol er mwyn datblygu strategaethau ymdopi a meithrin cydnherthedd; a

- 3.6 darparu gweithgareddau er mwyn helpu i wella hunanhyder, codi uchelgais a chynyddu cymhelliant.
- 3.7 Dynododd rhanddeiliaid strategol bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y darpariaethau cymorth hyn a'r cymorth a ddarperir gan asiantaethau eraill sy'n ceisio lleihau cyfraddau NEET yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, yr hyn sy'n gwahaniaethu ADTRAC a'r cymorth hwn yw ei ddull un-i-un pwrpasol, lle y mae mentoriaid yn cydweithio'n agos gyda chyfranogwyr er mwyn nodi eu hanghenion cymorth unigol, pennu nodau, a nodi pecyn cymorth sy'n galluogi'r cyfranogwr i gyflawni'r nodau hynny.
- 3.8 Yn ogystal, un o'r agweddau mwy unigryw ar ADTRAC, o'i gymharu â phrosiectau eraill sy'n darparu cymorth er mwyn symud pobl ifanc i EET, fu cynnwys Ymarferwyr Iechyd Meddwl a chymorth iechyd wrth ddarparu'r prosiect trwy gyfrwng partneriaeth gyda BIPBC.
- 3.9 Trwy gyfrwng y cymorth hwn a ddarperir, gall cyfranogwyr fanteisio ar gymorth iechyd meddwl clinigol trwy gyfrwng Ymarferwyr Iechyd Meddwl, pan fo hynny'n briodol. Yn ogystal, mae mentoriaid wedi cael hyfforddiant gan BIPBC, a oedd yn ceisio gwella eu sgiliau a'u galluogi i weithio mewn ffordd fwy effeithiol mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar les, megis trwy ymgorffori Pum Ffordd i sicrhau Lles yn eu gwaith.
- 3.10 [Ffit Strategol y Gweithrediad: Sut Mae ADTRAC yn cyd-fynd â Chymorth Arall ar gyfer Pobl Ifanc yng Ngogledd Cymru?](#)
- 3.11 3.5 Ceir cysylltiadau partneriaeth rhwng ADTRAC ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â darparu cymorth i bobl ifanc sy'n NEET, gan gynnwys trwy gyfrwng Paneli 16+ a Chyfarfodydd Partneriaeth NEET. Mae hyn yn galluogi ADTRAC i gydweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn mapio'r ddarpariaeth, ac i nodi anghenion cymorth pobl ifanc. Nododd rhai rhanddeiliaid strategol yn eu hadborth bod cyfraniad ADTRAC at hyn yn rhan hanfodol o allu awdurdodau lleol i ddarparu elfennau'r [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid](#) (YEPF).
- 3.12 3.6 Nododd rhanddeiliaid yn eu hadborth y bu ADTRAC yn rhan ganolog o waith cydgysylltiedig i leihau cyfraddau NEET, sy'n ymwneud â'r amcan o ddarparu mwy



o froceriaeth trwy gyfrwng gwasanaethau i bobl ifanc dan YEPF. Trafododd un rhanddeiliad bwysigrwydd ADTRAC yn ystod cyfarfodydd, er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a chynnig llwybr i drosglwyddo rhai pobl ifanc iddo. Pan oedd unigolion wedi gwrthod help, roedd ADTRAC weithiau yn gallu 'ffurfio'r cyswllt hwnnw a dweud ein bod ni yma pan fyddwch yn barod'. Nododd rhanddeiliad arall y bu ADTRAC yn arbennig o lwyddiannus wrth 'ddal' pobl ifanc a oedd yn Haen 1, sy'n cyfeirio at bobl ifanc nad yw gwasanaethau Gyrfa Cymru (GC) yn ymwybodol ohonynt.<sup>8</sup> Yn hyn o beth, mae ADTRAC yn helpu i gynorthwyo amcan adnabod yn gynnar dan YEPF.

- 3.13 'Cyn ADTRAC, roedd 60–70 o bobl ifanc yn Haen 1 — bellach, ceir dim ond 8–10.' (Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)
- 3.14 3.7 Ystyriwyd bod ADTRAC yn llwybr posibl er mwyn sicrhau cymorth i unigolion sy'n wynebu rhwystrau sylweddol wrth ymgymryd ag EET, neu nad oedd GC yn ymwybodol ohonynt, na fyddent yn cael cymorth asiantaethau eraill. Nododd rhanddeiliaid werth ychwanegol penodol ADTRAC i ymdrechion i weithio gyda phobl ifanc sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.
- 3.15 'Yn fy marn i, byddai'n anodd iawn cyflawni hyn heb ADTRAC. Er bod adnoddau eraill i gael, nid ydynt yn darparu'r un lefel o ran cymorth ar gyfer y rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur. Efallai y byddai unrhyw gyfranogwyr a fyddai'n cael eu dosbarthu fel llwyddiannau cyflym yn cael sylw mewn mannau eraill, ond nid y rhai pellaf i ffwrdd. Byddai CfW mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ond nid y tu hwnt i'r ardaloedd hyn.' (Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)

---

<sup>8</sup> Mae model ymgysylltu pum haen Gyrfa Cymru (ar gyfer ôl-16) ar gael [yma](#).

- 3.17 3.8 Mae wyth deg y cant o staff rheoli a darparu yn cytuno bod ADTRAC yn cael ei integreiddio'n dda ymhlith cymorth arall sy'n ceisio sicrhau bod pobl ifanc yn ymgymryd ag EET yng Ngogledd Cymru.<sup>9</sup> Mae'n werth nodi nad oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad hwn; nododd yr 20% a oedd yn weddill nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Gallai hyn ddynodi nad oedd yr ymatebwyr hyn yn siŵr sut i ateb y cwestiwn, neu eu bod yn anghyfarwydd â'r cymorth arall sydd ar gael.
- 3.18 3.9 Nododd lleiafrif o randdeiliaid strategol eu bod yn teimlo bod rhywfaint o ddyblygu rhwng ADTRAC a rhai prosiectau eraill a ddarperir yn yr ardal, gan gynnwys gorgyffwrdd gyda CfW a GALLAF Weithio.<sup>10</sup> Adroddodd rhai rhanddeiliaid bod y ddarpariaeth a gynigir gan ADTRAC yn debyg i'r hyn a ddarperir trwy gyfrwng Cymunedau am Waith. O ganlyniad i gyfyngiadau gan y ffrydiau cyllid, fodd bynnag, ceir cyfyngiadau o ran ble y gall y prosiectau weithredu. Mae hyn wedi peri mwy o broblem i rai partneriaid nag eraill, gan ddibynnu ar gyfanswm y codau post Cymunedau yn Gyntaf mewn awdurdodau lleol.
- 3.19 3.10 Fodd bynnag, myfyriodd rhanddeiliaid yn gyffredinol eu bod yn teimlo bod ADTRAC yn cyd- fynd â rhaglenni cyflogadwyedd eraill sydd ar gael yng Ngogledd Cymru, yn enwedig trwy gyfrwng y cymorth holistig y mae'n ei ddarparu i gyfranogwyr, cyswllt BIPBC wrth ddarparu, a'i allu i weithio gyda chyfranogwyr sydd bellaf i ffwrdd o gyflogaeth. Disgrifiodd rhai rhanddeiliaid eu bod wedi teimlo fel pe bai ADTRAC yn darparu ffurf unigryw o gymorth 'holistig' neu 'gofleidiol' nad oedd prosiectau eraill yn ei ddarparu.
- 3.20
- 3.21
- 3.22 'Yn fy marn i, nid oes unrhyw un arall yn cynnig yr hyn y mae ADTRAC yn ei gynnig. Nid oes unrhyw un arall yn cynnig y math hwn o gymorth er mwyn meithrin hyder

---

<sup>9</sup> Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 48).

<sup>10</sup> Menter yw GALLAF Weithio sy'n rhedeg ar draws Gogledd Cymru, a arweinir gan BIPBC mewn partneriaeth ag RCS a Cais, sy'n cyfuno gofal iechyd meddwl gyda chymorth cyflogaeth, gyda'r nod o helpu pobl y mae ganddynt broblemau iechyd meddwl i sicrhau cyflogaeth barhaol. Darllenwch fwy amdano [yma](#).

pobl a dwyn pobl o lefel isel iawn i fyny i'r pwynt lle y gallant sicrhau cyflogaeth. Pan fyddwn yn symud pobl ymlaen i gynlluniau cyflogadwyedd eraill, mae cyfradd lwyddo y rhai sydd wedi bod trwy ADTRAC lawer yn uwch.' (Rhanddeiliad strategol)

- 3.23 Yn ogystal, cyfeiriodd rhanddeiliaid at y sialensiau o gael gwahanol asiantaethau yn cyflwyno gwahanol raglenni. Ceir gwerth mewn mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig wrth ddarparu cynlluniau cyflogadwyedd, gan sicrhau y caiff cyfranogwyr eu cyfeirio at y cymorth cywir ac na fydd gwahanol gynlluniau yn 'cystadlu' am gyfranogwyr. Ymhellach, mynegwyd y farn gan rhanddeiliaid bod angen ystyried hyn wrth gomisiynu prosiectau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau cydlyniaeth a chydweithrediad rhwng rhaglenni, yn ogystal â thegwch o ran yr hyn a gynnigir i bobl sy'n byw mewn gwahanol ardaloedd.
- 3.24 Adroddodd rhai rhanddeiliaid eu bod yn teimlo fel pe bai ADTRAC eisoes wedi cyfrannu at ddarparu dull mwy cydgysylltiedig wrth ddarparu cymorth i bobl ifanc sy'n NEET yng Ngogledd Cymru, a'i bod yn ymddangos bod graddau hyn yn gwahaniaethu, gan ddibynnu ar ardal yr awdurdod lleol dan sylw. Yn wir, mewn rhai ardaloedd, amlinellodd rhanddeiliaid eu bod yn teimlo fel pe bai ADTRAC wedi bod yn "hanfodol" er mwyn darparu dull mwy cydgysylltiedig, gan bod y prosiect yn cydweithio'n agos gyda sefydliadau eraill er mwyn mapio cymorth posibl a sicrhau mai ADTRAC yw'r allbwn cywir ar gyfer yr unigolyn hwnnw, ac mae wedi dylanwadu ar gydweithio agosach o ganlyniad.
- 3.25 3.13 Fodd bynnag, myfyriodd rhai awdurdodau lleol, megis Sir Ddinbych,<sup>11</sup> bod ADTRAC wedi cyfrannu at ymdrechion ehangach i ddarparu cymorth cyflogadwyedd mwy holistig, er nad ADTRAC fu prif ysgogydd hyn. I rai, roedd y gwaith cydgysylltiedig hwn eisoes yn cael ei gynnwys yn eu model gwaith nhw er mwyn bodloni disgwyliadau YEPP.

---

<sup>11</sup> Ceir Un Pwynt Brysbennu o fewn Gweithio Sir Ddinbych, sef ei ddull cyffredinol er mwyn mynd i'r afael â thlodi. Mae rhagor o wybodaeth am Gweithio Sir Ddinbych ar gael [yma](#).

3.26 3.14 Adroddodd rhanddeiliaid bod rhai bylchau posibl yn y cymorth a ddarperir gan ADTRAC, yn enwedig mewn perthynas ag unigolion “mwy anodd i'w cyrraedd” megis pobl ifanc sydd ag awtistiaeth a'r rhai sy'n gadael gofal, y bydd gofyn iddynt gael cymorth ychwanegol efallai er mwyn ymgysylltu â'r cymorth sydd ar gael. O ran y grŵp olaf, mynegwyd pryderon gan rhanddeiliad strategol ynghylch yr her i ADTRAC wrth sicrhau cydbwysedd rhwng y gofyniad i gyflawni gwaith manwl a hirdymor gyda chyfranogwyr sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, a'r angen i ddwyn i mewn a rhyddhau niferoedd digonol o gyfranogwyr er mwyn bodloni targedau'r rhaglen. Roeddent yn awgrymu y bydd angen cymorth manylach a dros y tymor hwy na'r hyn a ddarperir gan ADTRAC efallai, er mwyn cynorthwyo'r garfan hon i sicrhau canlyniadau cyflogaeth mewn ffordd effeithiol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y mentoriaid o ADTRAC yn gwneud gwaith effeithiol i ymgysylltu â'r grŵp hwn, a bod ymddieithrio yn digwydd yn amlach o ganlyniad i'r bobl ifanc eu hunain.

### 3.27 Gwerth Ychwanegol y Dull

3.28 3.15 Roedd cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid yn dynodi tybiaeth bod ADTRAC yn ychwanegu gwerth nid yn unig oherwydd y rhai y mae'n gweithio gyda nhw, ond hefyd oherwydd y ffordd y mae'n gweithio gyda'r bobl ifanc hyn. Adroddodd sawl rhanddeiliad bod ADTRAC yn gallu darparu lefel o gymorth holistig i bobl ifanc sy'n ddwys ac sydd wedi'i theilwra i'r rhwystrau y mae'r person ifanc yn eu hwynebu, ac na all asiantaethau eraill gynnig darpariaeth ar y lefel hon ac sydd mor ddwys â hon. Disgrifiwyd y prosiect fel darpariaeth 'unigryw' o ran y cynnig 'holistig' y mae'n ei ddarparu i gyfranogwyr. Roedd hyn yn cynnwys y 'cyswllt personol' yr oedd ADTRAC yn gallu ei ddarparu o'i gymharu â phrosiectau eraill, gan gynnwys y capasiti a oedd gan gynghorwyr i 'fynd allan a chwilio am y bobl ifanc' trwy guro ar ddrysau i ymgysylltu cyfranogwyr nad oeddent yn ymgysylltu gyda gwasanaethau eraill, a'r ffordd yr oedd cynghorwyr yn gweithio gyda phobl ifanc i weithio trwy eu rhwystrau. Roedd cymorth ADTRAC yn wahanol i gymorth arall gan 'nad yw ADTRAC yn gweithio gyda charfan – [mae'n] hollol bwrpasol i'r unigolyn'.

3.29 'Mae cyfuniad dulliau ALL, [AB] ac iechyd ar y cyd, arweinyddiaeth gadarn y prosiect rhanbarthol, meini prawf cymhwysedd clir iawn, a neilltuo capasiti o'r

timau i weithio gyda ac wrth ymyl cyfranogwyr mewn ffyrdd pwrpasol, creadigol ac wedi'u harwain gan anghenion, yn wahanol i'r hyn y gellir ei ddarparu mewn gwasanaethau craidd; mae'n mynd y tu hwnt i ddarpariaeth ymyriadau "wedi'u seilio ar dystiolaeth", gan symud i ddull o weithio sy'n wirioneddol ganolbwyntio ar yr unigolyn ac a gaiff ei arwain gan anghenion.' (Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 48)

- 3.30 Adroddodd rhanddeiliaid strategol yn aml eu bod yn teimlo fel pe bai dull ADTRAC yn eu galluogi i gynorthwyo pobl ifanc yr oeddent ymhlith y rhai lleiaf parod am fyd gwaith. Roedd un rhanddeiliad wedi cyferbynnu'r dull hwn gyda phrosiectau eraill sy'n 'gwneud rhai pethau ac yna, yn cerdded i ffwrdd' yn eu barn nhw.
- 3.31 'Nid oes unrhyw un arall yn darparu'r dull holistig hwn.' (Rhanddeiliad strategol, cyfweledig) Yn ogystal, canmolwyd rôl BIPBC ac Ymarferwyr Iechyd Meddwl wrth ddarparu'r prosiect gan rhanddeiliaid strategol, am ddwyn "gwerth ychwanegol" i'r gweithrediad, mewn cyferbyniad â chymorth cyflogadwyedd arall sydd ar gael i bobl ifanc yng Ngogledd Cymru. Ar ben hynny, nodwyd bod ADTRAC yn cyd-fynd â'r Strategaeth Iechyd Meddwl i bob oed ar gyfer Gogledd Cymru.
- 3.32 Amlinellodd rhai rhanddeiliaid sut yr oedd pwysau ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn yr ardal yn golygu bod bwlch o ran y cymorth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc yng Ngogledd Cymru, yr oedd ADTRAC yn helpu i'w lenwi. Heb ADTRAC, teimlwyd na fyddai nifer o'r bobl ifanc yr oedd y prosiect yn gweithio i'w cynorthwyo, yn gallu manteisio ar y math hwn o gymorth.
- 3.33 'Rydw i'n pryderu'n fawr y bydd ADTRAC... yn dod i ben... ac nid oes darpariaeth amgen ar gyfer y cyfranogwyr hynny. Byddant yn cwmpo oddi ar glogwyn a bydd bwlch enfawr yn bodoli. Mae ADTRAC yn cynnwys elfennau da a drwg, ond mae ei egwyddorion yn hollol hanfodol ar gyfer y grŵp oedran hwnnw, ac mae dwyn iechyd meddwl i mewn iddo wedi bod yn hollbwysig. Rydym yn gweithio gyda chymaint o blant sy'n cyfaddef eu bod yn teimlo fel cyflawni hunanladdiad ac na allant ymdopi gyda bywyd... mae'r ochr iechyd meddwl yn hollbwysig. Mae'r holl brosiectau eraill yn genfigennus iawn o'r ffaith bod gan y prosiect weithiwr iechyd meddwl, gan bod iechyd meddwl yn broblem enfawr i bobl sy'n cychwyn ym myd gwaith.' (Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)

- 3.34 Rhan o'r hyn yr oedd y cymorth hwn yn ceisio'i ddarparu oedd dull cydgysylltiedig er mwyn cynorthwyo pobl ifanc sydd ag anghenion cymorth iechyd meddwl ysgafn i gymedrol. Gall y torbwynt yn CAMHS lle y bydd pobl ifanc yn symud i Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion (AMHS) adael nifer o bobl ifanc heb gymorth. Canmolwyd ADTRAC gan ei fod yn gallu 'llenwi'r bwlch hwnnw', gan sicrhau bod 'cymorth cydgysylltiedig' er mwyn bodloni anghenion pobl ifanc sy'n NEET ac sydd ag anghenion cymorth ychwanegol. Ar ben hynny, nododd lleiafrif o randdeiliaid eu bod yn teimlo fel pe bai'r ddarpariaeth iechyd meddwl sydd ar gael trwy ADTRAC yn ychwanegu gwerth gan ei fod mewn lleoliad 'anghlinigol', a oedd yn galluogi pobl ifanc i fanteisio ar gymorth, nad ydynt yn teimlo'n gyffyrddus i fanteisio arno trwy leoliad mwy ffurfiol efallai, megis clinig. Proffil Cyfranogwyr
- 3.35 3.19 Hyd yn hyn, mae 893 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn ADTRAC,<sup>12</sup> o'i gymharu â tharged o 1,451. Fel y dangosir yn Nhabl 3.1, mae 47% o'r cyfranogwyr hyn wedi gadael y ddarpariaeth, a dosbarthir 38% fel cyfranogwyr gweithredol (byw neu wedi ail-yngysylltu).
- 3.36 3.20 Roedd 500 o gyfranogwyr pellach wedi ymgysylltu â'r prosiect ond fe'u rhestrwyd fel rhai "nid ydynt yn hawlio"; felly, nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn.<sup>13</sup> Rhestrwyd y cyfranogwyr hyn at ei gilydd fel piblinell: wedi ymddieithrio (n = 390) neu fel piblinell: yn aros am dystiolaeth (n = 98).

---

<sup>12</sup> Nid yw achosion lle y nodwyd bod cyfranogwyr "Heb fod yn Hawlio" wedi cael eu cynnwys yn y gwaith dadansoddi.

<sup>13</sup> Mae enghreifftiau o achosion lle nas hawliwyd cyfranogwyr yn cynnwys lle'r oedd dystiolaeth ar goll a oedd yn dangos bod cyfranogwyr yn bodloni meini prawf WEFO, neu lle y bu anawsterau wrth gofrestru unigolion ar ADTRAC.

**Tabl 3.1: Cyfranogwyr, yn ôl statws**

Stats	Nifer y cyfranogwyr	Cyfran y cyfranogwyr (%)
Gweithredol: Wedi gadael	422	47%
Gweithredol: Byw	331	37%
Piblinell: Wedi ymddieithrio	1	0%
Gweithredol: Wedi ail-ymgysylltu	13	1%
Piblinell: Yn aros am dystiolaeth	0	0%
Gweithredol: Wedi ymddieithrio	126	14%
Cyfanswm	<b>893</b>	<b>100%</b>

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)


- 3.37 3.21 Mae rhan fwyaf y cyfranogwyr sy'n ymgysylltu ag ADTRAC yn unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith dros y tymor hir pan fyddant yn dechrau cael cymorth (57%).<sup>14</sup> Mae tri deg un y cant o'r cyfranogwyr wedi bod yn ddi-waith am y tymor byr, ac mae 12% yn cael eu hystyried fel unigolion economaidd anweithgar.<sup>15</sup> Mae bron i un o bob tri cyfranogwr yn dod o aelwyd lle nad oes gan unrhyw un swydd (32%). Yn ogystal, mae 23% o'r cyfranogwyr wedi manteisio ar wasanaethau iechyd meddwl trwy gyfrwng CAMHS neu AMHS yn hanesyddol.
- 3.38 Mae'r cyfranogwyr yn ADTRAC yn profi ystod eang o rwystrau y gallent eu hatal rhag ymgymryd ag EET, gan gynnwys materion megis hyder isel, diffyg profiad, a sgiliau/cymwysterau. Mae Ffigwr 3.1 yn dangos amrediad y rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu profi pan fyddant yn cychwyn gydag ADTRAC. Ar gyfartaledd, roedd cyfranogwyr wedi profi wyth o'r rhwystrau hyn erbyn iddynt gychwyn, a allai ddynodi bod anghenion cyfranogwyr yn arbennig o gymhleth.
- 3.39 Roedd y graddau yr oedd cyfranogwyr yn wynebu gwahanol rwystrau yn gwahaniaethu ar draws awdurdodau lleol. Rhennir y 10 prif rwystr a brofwyd fesul awdurdod lleol yn Ffigwr 3.2. Mae'n dangos, er enghraifft, bod iechyd meddwl yn cael ei brofi'n fwy cyson fel rhwystr yn Wrecsam a Sir y Fflint nag yr oedd, er enghraifft, yn Sir Ddinbych a Gwynedd. Yn yr un modd, roedd cyfran uwch o

<sup>14</sup> Yn ddi-waith am gyfnod o flwyddyn neu fwy.

<sup>15</sup> Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 935).

gyfranogwyr o Ynys Môn a Sir Ddinbych wedi profi trafndiaeth fel rhwystr o'u cymharu â chyfranogwyr o ardaloedd eraill.


**Ffigwr 3.1: Rhwystrau i sicrhau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant y bydd cyfranogwyr yn eu profi pan fyddant yn cychwyn gydag ADTRAC**



Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)



**Ffigwr 3.2: Y 10 prif rwystr wrth geisio ymgymryd ag EET a brofir gan yr holl gyfranogwyr, wedi'u rhannu yn ôl awdurdod lleol**



## Casgliadau

- 3.22 Ystyrir yn eang y caiff ADTRAC ei integreiddio'n dda o fewn y cymorth sydd ar gael er mwyn gostwng cyfraddau NEET yng Ngogledd Cymru. Ystyrir y cymorth mewn ffordd gadarnhaol gan randdeiliaid, a oedd yn canmol y dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran y cymorth a'r ffaith y caiff cymorth lles ac iechyd meddwl ei gynnwys yng nghynllun y prosiect. Mae rhanddeiliaid yn credu bod ADTRAC yn ychwanegu gwerth i'r cymorth arall a gynigir i bobl ifanc sy'n NEET yng Ngogledd Cymru.

## 4. Gweithredu a Darparu ADTRAC

- 4.0 Mae'r adran hon yn archwilio tybiaethau rhanddeiliaid ynghylch y ffordd y caiff ADTRAC ei ddarparu ar hyn o bryd. Cynorthwyr hyn gan archwiliad manwl o'r ffordd y mae'r gweithrediad yn perfformio yn erbyn y targedau a nodwyd yn y Cynlluniau Busnes (a nodwyd ym Mhennod 5).

### Prif Bwyntiau:

- Yn gyffredinol, roedd staff cyflawni a oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg a'r cyfweiliadau manwl o'r farn bod darpariaeth y rhaglen, gan gynnwys rôl GLLM fel arweinydd y prosiect, yn effeithiol ac yn briodol er mwyn cyflawni canlyniadau'r prosiect. Ymhellach, roedd y cyfranogwyr a gyfwelwyd yn teimlo'n gadarnhaol iawn ynghylch y cymorth yr oeddent wedi'i gael.
- Ceir rhywfaint o bryder, fodd bynnag, ynghylch y targedau canlyniadau ar gyfer y rhaglen. Ceir tybiaeth gyffredinol bod cyfranogwyr ADTRAC ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur ac yn wynebu rhagor o rwystrau – a rhwystrau mwy cymhleth – nag a ragwelwyd ar y dechrau, gan gynnwys diffyg cyfleoedd cyflogaeth mewn rhai ardaloedd, sy'n golygu ei bod yn anos cyflawni rhai targedau canlyniadau.
- Barnwyd bod rôl BIPBC yn ased allweddol i ADTRAC, gyda'r ffaith bod gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol hyfforddedig yn cael eu cynnwys yn helpu i sicrhau y bodlonir anghenion iechyd meddwl cyfranogwyr, a'u bod yn cynorthwyo timau prosiect i ymgorffori gweithgarwch lles yn eu gwaith, megis Pum Ffordd i sicrhau Lles.
- Er ei fod o fudd er mwyn darparu ADTRAC, nododd rhai staff y bu rôl BIPBC yn “ddryslyd”, gyda diffyg eglurder ynghylch safle staff BIPBC o fewn strwythurau timau. Roedd rhai staff yn teimlo bod lleoli rolau Ymarferwyr Iechyd Meddwl mewn timau awdurdodau lleol, ond eu bod yn cael eu rheoli a'u goruchwylio o fewn BIPBC, wedi arwain at y teimlad bod Ymarferwyr Iechyd Meddwl 'hanner i mewn/hanner allan' o'r tîm darparu.

- Nododd rhai staff cyflawni broblemau capasiti o ran cymorth iechyd meddwl hefyd – a oedd yn gysylltiedig â'r ffaith na chaiff Ymarferwyr Lles Cynorthwyol eu recriwtio – a bod hyn yn rhwystr wrth geisio cyflawni'r prosiect mewn ffordd effeithiol.
- Mae ADTRAC yn perfformio'n gryf ar draws yr holl Themâu Trawsbynciol.

### Rheoli'r Prosiect a Gweithio fel Partneriaeth

- 4.1 Darperir ADTRAC gan gonsortiw m o bartneriaid a arweinir gan GLLM. Roedd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y gwerthusiad yn teimlo'n gadarnhaol am y bartneriaeth, yn ogystal â'r prosesau yr oedd y gweithrediad wedi'u gweithredu er mwyn ei rheoli.

#### *Rôl GLLM yn y Bartneriaeth*

- 4.2 Roedd rhanddeiliaid a staff rheoli a darparu yn teimlo'n gadarnhaol am rôl GLLM wrth arwain y prosiect. Yn gyffredinol, mae unigolion yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y gwerthusiad wedi bod yn falch gyda'r arweinyddiaeth a ddangoswyd gan GLLM trwy gydol y prosiect.

'Mae cymorth rheoli prosiect ac arweinyddiaeth GLLM wedi bod yn rhagorol o'r cychwyn cyntaf.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 47)**

'Mae'r tîm rhanbarthol yn wych. Maen nhw'n ardderchog. Maent yn mesur nifer yn fwy o bethau nag y byddwn i, ond mae eu cymorth a'u gweithgarwch rheoli prosiect wedi bod yn arbennig.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

- 4.3 Ceir dau brif faes lle y canmolwyd rôl GLLM yn arbennig. Mae'r cyntaf yn ymwneud â rôl GLLM wrth sefydlu'r prosiect, trefnu prosesau adrodd a methodoleg. Mae'r ail yn ymwneud â rheolaeth prosiect parhaus ADTRAC, gan gadw'r prosiect ar y trywydd iawn mewn perthynas â gweithgarwch monitro a darparu parhaus, gan geisio safbwyntiau partneriaid ynghylch penderfyniadau gweithredol a strategol, cyfathrebu cyffredinol gyda phartneriaid y prosiect, a gweithredu fel cyfryngwr effeithiol rhwng WEFO a'r timau sy'n darparu'r prosiect.

Yn ogystal, mae'n ymddangos bod cael arweinydd nad yw'n ymwneud â darparu'r prosiect yn uniongyrchol yn elfen gadarnhaol o ADTRAC. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r gwerthusiad hwn wedi ystyried rôl GLLM wrth arwain ADTRAC o'i gymharu â phrosiectau eraill.

#### *Gwaith Gwell mewn Partneriaeth*

- 4.4 Gofynnwyd i staff rheoli a darparu a fu'n cymryd rhan mewn cyfweiliadau manwl a oedd y cydweithio rhwng sefydliadau wedi helpu i gryfhau cysylltiadau a chydweithio rhwng y sefydliadau partner sy'n ymwneud â'r gwaith darparu.
- 4.5 Nododd chwech o'r naw a gyfwelwyd bod y dull cydweithredol wedi helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau darparu. Soniodd dau o'r rhai a gyfwelwyd am y ffordd y mae'r dull wedi helpu i gryfhau perthnasoedd gyda GC yn benodol. Bu aelod arall o staff yn myfyrio am y ffaith bod y dull cydweithredol yn "hanfodol" wrth helpu i rannu gwybodaeth a chael cyfeiriadau i'r gweithrediad.
- 4.6 Yn ogystal, disgrifiodd pedwar o'r rhai a gyfwelwyd sut yr oedd cyswllt sefydliadau partner wedi cael effaith gadarnhaol ar arfer gweithio yn eu sefydliad.
- 4.7 Fodd bynnag, nododd dau a gyfwelwyd o wahanol awdurdodau lleol y byddai modd gwella'r gwaith a wneir mewn partneriaeth. Roedd eu sylwadau yn cynnwys yr angen i rannu mwy o wybodaeth rhwng partneriaid, a nododd un a gyfwelwyd bod rhai rhannau o'r coleg yn anymwybodol o ADTRAC. Nododd un arall a gyfwelwyd bod anghysondebau mewn perthynas â phrosesau cyfeirio, yr oedd angen i bartneriaid roi mwy o sylw iddynt wrth reoli prosesau cymhwystra ar gyfer unigolion a gyfeiriwyd gan drydydd parti. Roeddent yn teimlo bod y cyngor yr oeddent yn ei gael gan GC yn anghyson pan oedd yn ymwneud â sut i gadarnhau cymhwystra unigolion a oedd wedi dod o gyfeiriwr trydydd parti.

4.8 Gofynnwyd i randdeiliaid strategol fyfyrto hefyd am ba mor effeithiol yr oedd partneriaid y prosiect yn cydweithio i ddarparu ADTRAC. Ymatebodd pump o'r rhai a gyfwelwyd i'r cwestiwn hwn, ac roedd eraill wedi gwrthod ateb gan eu bod yn teimlo'n fwy pell i ffwrdd o'r prosiect ac yn methu cynnig ymateb. O blith y rhai a ymatebodd, nododd tri ymatebydd eu bod yn teimlo fel pe bai'r bartneriaeth yn gweithio'n dda. Cafwyd ymatebion mwy awgrymiadol gan y ddau arall, a oedd yn myfyrto am y pethau cadarnhaol a meysydd posibl i'w gwella. Roedd yn ymddangos bod consensws ynghylch y ffaith bod agweddau cadarnhaol i'w gweld, gan gynnwys 'angerdd' y tîm a 'pherthnasoedd da' rhwng partneriaid. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid bod y meysydd canlynol yn feysydd posibl er mwyn sicrhau gwelliant ynddynt:

- Gweithio gyda sefydliadau darparu eraill er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hatgoffa o'r cymorth sydd ar gael.
- Gwella'r cyfathrebu rhwng BIPBC a thimau darparu ADTRAC er mwyn sicrhau bod timau darparu yn ymwybodol o'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i'r cyfranogwr a phryd y byddant yn cyfarfod gyda'r cyfranogwyr.
- Gwella'r broses o integreiddio'r Ymarferwyr Iechyd Meddwl yn nhimau darparu ehangach ADTRAC er mwyn eu hatal rhag bod "hanner allan, hanner i mewn". Adroddodd staff bod yr ymarferwyr yn cael eu rheoli gan BIPBC am resymau sy'n ymwneud â goruchwyliaeth glinigol, ond bod hyn wedi peri iddynt deimlo ychydig yn fwy ar wahân o'r tîm darparu ehangach. Dylid nodi y mynegwyd y pryder hwn gan leiafrif o staff rheoli a darparu yn unig, ac nad yw hi'n glir o'r data a yw staff BIPBC yn rhannu'r safbwyntiau hyn.


## Cyswllt BIPBC

- 4.9 Gofynnwyd i staff darparu a rhanddeiliaid strategol fyfyrion am yr effaith y mae cyswllt BIPBC wedi ei gael ar ddarparu ADTRAC yn eu barn nhw.
- 4.10 Fel y dangosir yn y siart isod, nododd mwyafrif helaeth y staff bod cyswllt gweithwyr iechyd meddwl hyfforddedig proffesiynol gyda'r broses o ddarparu'r prosiect yn helpu i:
- leihau'r rhwystrau i ymgymryd ag EET y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu
  - sicrhau y byddai modd bodloni anghenion cyfranogwyr, a
  - chynorthwyo staff i ddatblygu eu gwybodaeth ynghylch lles, gan gynnwys sut i ymgorffori gweithgarwch lles yn eu gwaith, megis Pum Ffordd i sicrhau Lles.<sup>16</sup>

---

<sup>16</sup> Amrediad o strategaethau a ddefnyddir yn eang yw'r Bum Ffordd i sicrhau Lles, er mwyn helpu unigolion i gynorthwyo eu lles a'u hiechyd meddwl eu hunain ar sail arfer wedi'i seilio ar dystiolaeth. Mae'r Bum Ffordd yn cynnwys: cysylltu gyda phobl arall, bod yn weithgar, dysgu sgiliau newydd, rhoi i eraill, ac ymwybyddiaeth ofalgar. Caiff y Bum Ffordd i sicrhau Lles eu hyrwyddo gan amrediad o sefydliadau iechyd meddwl a lles gan gynnwys GIG, Mind, a What Works Centre for Wellbeing. Mae mwy o wybodaeth ar gael [yma](#).

**Ffigwr 4.1: Safbwyntiau staff rheoli a darparu ynghylch sut y mae cyswllt gweithwyr iechyd meddwl hyfforddedig proffesiynol gyda'r prosiect wedi effeithio ar y gweithrediad**



Ffynhonnell: Arolwg o Staff Rheoli a Darparu (n = 46)

4.11 Yn ystod cyfweiliadau manwl, myfyriodd mwyafrif y staff bod cyswllt BIPBC wedi cael effaith gadarnhaol. Y rhesymau cyffredin y cyfeiriwyd atynt dros hyn oedd:

- Y rôl a gyflawnir gan BIPBC wrth hyfforddi mentoriaid a chynnig arweiniad a chymorth i'r rhai sy'n cynorthwyo cyfranogwyr gyda phroblemau lles.
- Rôl BIPBC wrth ddarparu cymorth i gyfranogwyr.

Adroddodd staff bod cyswllt BIPBC yn gwahaniaethu'r cymorth a ddarperir gan ADTRAC o'r hyn a gynnigir gan brosiectau eraill sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd, yn ogystal â chynnig gwerth ychwanegol. 'Rydw i wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc mewn sefydliad hyfforddiant ers nifer o flynyddoedd ac rydych yn sylwi mai'r rheswm nad yw pobl ifanc yn llwyddo yw oherwydd y diffyg cymorth ar gyfer problemau iechyd meddwl.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**



'Un o fanteision ADTRAC yw'r cymorth un-i-un y mae'r person ifanc yn ei gael gan y mentor a'r cyfle i fanteisio ar yr Ymarferwr Iechyd Meddwl mewn lleoliad anghlinigol... Er bod gwasanaethau i bobl ifanc fanteisio arnynt mewn awdurdodau lleol, mae angen help ar y bobl ifanc yr ydym yn eu cynorthwyo i fanteisio arnynt. Wrth i bobl ifanc ddisgrifio diffyg hyder fel rhwystr ac anhawster wrth ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, gall y mentor a'r Ymarferwr Iechyd Meddwl helpu trwy ddarparu cymorth un-i-un a'r cyfle i ddysgu mecanweithiau ymdopi y gallant eu defnyddio yn y dyfodol.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 10)**

- 4.12 Bu rhanddeiliaid strategol yn canmol cyswllt BIPBC hefyd, gan nodi 'gwerth ychwanegol' yn deillio o'u cyswllt gyda'r prosiect. Adroddodd sawl rhanddeiliad eu bod yn teimlo eu bod yn gweld problemau iechyd meddwl yn gyffredin ymhlith pobl ifanc, yr oeddent yn cyfyngu ar eu cynnydd. Myfyriodd rhanddeiliaid eu bod yn teimlo bod cynnwys Ymarferwyr Iechyd Meddwl o fewn cymorth ADTRAC yn helpu i bontio bylchau yn y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc, gan helpu unigolion i fanteisio ar gymorth, y gallent fod wedi penderfynu peidio manteisio ar gymorth mewn lleoliad mwy clinigol.
- 4.13 'Mae'n cynnig cymaint o werth ychwanegol oherwydd y pontio anodd rhwng rhwng CAMHs a gwasanaethau IM i oedolion, oherwydd y gall pobl gael eu gadael mewn rhyw fath o dir neb pan na fyddant yn gallu manteisio ar gymorth. Nid yw'n helpu eu sefyllfa, felly i rai pobl, mae hwn wedi pontio'r bwlch hwnnw. Yn [ein lleoliad], rydym yn gweld mwy a mwy o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl a gyda phobl iau, yn fy marn i, hyd yn oed os nad ydynt wedi cael unrhyw gyswllt gyda thimau iechyd meddwl, mae cael cymorth proffesiynol yn wych o hyd. Mae'n rhoi'r haen ychwanegol honno iddynt.' **(Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)** Fodd bynnag, mewn ffordd debyg i staff rheoli a darparu, nododd dau o'r rhanddeiliaid hyn sialensiau mewn perthynas â recriwtio pobl i swyddi Ymarferwyr Iechyd Meddwl, a oedd wedi gadael swyddi yn wag a chreu sialensiau mewn perthynas â bodloni anghenion cymorth cyfranogwyr.

## Darparu Cymorth i Gyfranogwyr

### Cofrestru Cyfranogwyr

4.14 Gellir cyfeirio pobl ifanc i'r prosiect trwy gyfrwng amrywiaeth o sianelau, gan gynnwys Canolfan Byd Gwaith (y cyfeirir ato yn nogfennaeth y prosiect fel DWP), GC, awdurdodau lleol (gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a thimau iechyd meddwl cymunedol), prosiectau ESF eraill, sefydliadau AB ac AU, BIPBC (CAMHS a meddygfeydd), a hunan- gyfeiriadau. Mae'r tabl isod yn dynodi cyfran y cyfeiriadau a ddaeth o bob asiantaeth gyfeirio.

**Tabl 4.1: Cyfeiriadau i ADTRAC, fesul asiantaeth<sup>17</sup>**

Asiantaeth gyfeirio	Nifer y cyfeiriadau	Cyfran y cyfeiriadau (%)
Hunangyfeirio	61	7%
Arall	93	10%
Awdurdod lleol	150	17%
Gyrfa Cymru	172	19%
Adran Gwaith a Phensiynau	299	34%
BIPBC	52	6%
Trydydd sector	42	5%
Prosiect ESF arall	7	1%
Addysg bellach	4	0%
Addysg uwch	1	0%
Panel YEFP	11	1%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 892)

4.15 Ar draws yr holl Gyd-Fuddiolwr, roedd 73% o'r staff rheoli a darparu yn cytuno bod y prosesau cyfeirio i ADTRAC yn glir ac yn hawdd i'w deall; roedd 15% yn anghytuno.<sup>18</sup> Roedd data ansoddol a gasglwyd mewn man arall yn awgrymu y bu rhai anawsterau mewn perthynas ag ymrwymiad yr unigolyn a gyfeiriwyd neu wybodaeth annigonol i nodi a yw'r unigolyn yn gymwys ar gyfer ADTRAC, a allai ddylanwadu ar dybiaethau y broses gyfeirio.

<sup>17</sup> Mae cyfeiriadau wedi'u codio yn 'Arall' yn cynnwys cyfeiriadau gan: Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol, Gwasanaethau Cwnsela, Gofalwyr Ifanc, Gwasanaethau Prawf, yn ogystal â phrosiectau Cefnogi Pobl a Byw â Chymorth.

<sup>18</sup> Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (n = 46).

'Rydym wedi cael problemau gyda sawl cyfeiriad gan DWP – pan gysylltir â'r cyfranogwyr, nid ydynt yn sylweddoli eu bod wedi cael eu cyfeirio, neu ni fyddant yn ymgysylltu. Cyfeiriwyd un o'r cyfeiriadau atom sawl gwaith, ond nid ydynt wedi ymgysylltu – dywedwyd wrtho bod angen iddo gael ei gyfeirio ond nid yw'n dymuno ymgysylltu mewn gwirionedd. Efallai y caiff rhai eu cyfeirio er mwyn cael Credyd Cynhwysol yn unig, er enghraifft, ond nid ydynt yn dymuno dilyn y broses gyfan.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

'Gallai'r ffurflen gyfeirio fod yn well. Rydw i'n ei chael hi'n anodd nodi pwy sy'n briodol ar gyfer y prosiect gan bod nifer o'r cyfranogwyr yn nodi bod problemau hyder ac iechyd meddwl yn rhwystrau iddynt ac efallai y byddant wedi dioddef cryn drawma.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

- 4.16 Ar yr un pryd, mae'n bwysig nodi bod nifer o staff darparu wedi bod yn gadarnhaol iawn am y ffordd y mae ADTRAC wedi meithrin partneriaethau gyda sefydliadau partner. Adlewyrchir hyn yn y ffaith bod 87% o'r staff rheoli a darparu a arolygwyd yn cytuno bod ADTRAC wedi cael ei farchnata a'i hyrwyddo i sefydliadau partner mewn ffordd effeithiol, ac roedd 87% yn cytuno bod ADTRAC wedi cael ei hyrwyddo a'i farchnata i sefydliadau cyfeirio mewn ffordd effeithiol.
- 4.17 Roedd 74% yn cytuno bod ADTRAC wedi cael ei farchnata a'i hyrwyddo mewn ffordd effeithiol i ddarparu gyfranogwyr. Gellir esbonio'r lefel gytuno ychydig yn is hon gan y ffaith bod y gweithrediad yn dibynnu ar gyfeiriadau gan asiantaethau cyfeirio i raddau helaeth, yn hytrach na hunan-gyfeiriadau gan ddarparu gyfranogwyr.

#### *Cyn-ymgysylltu*

- 4.18 Roedd yn ymddangos bod dulliau cyn-ymgysylltu yn amrywio ar draws Cychuddiolwyr. Roedd dulliau cyffredin yn cynnwys cysylltu dros y ffôn neu gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb cychwynnol er mwyn galluogi staff i esbonio'r cymorth sydd ar gael ac i ymgyfarwyddo yn fwy gyda chyfranogwyr er mwyn deall eu hanghenion. Nododd un aelod o staff bod cnocio ar ddrysau yn cael ei ddefnyddio gyda chyfranogwyr arbennig o "anodd i'w cyrraedd".
- 4.19 Adroddodd staff rheoli a darparu y gallai'r cam hwn fod yn heriol gyda rhai cyfranogwyr. Roedd hyn yn wir yn enwedig pan nad oedd ganddynt hyder neu

pan fyddant yn llai agored i ymgysylltu efallai (e.e. unigolion y maent wedi cael eu hannog i gofrestru, er mwyn eu galluogi i fanteisio ar fudd-daliadau, ond nad oeddent wedi ymrwymo cymaint i'r prosiect efallai).

- 4.20 Mewn rhai achosion, ymgysylltodd staff rheoli a darparu gyda sefydliadau cyfeirio er mwyn cynorthwyo eu hymdrechion cyn-ymgysylltu. Er enghraifft, yn dilyn cyfeiriad, nododd rhai staff eu bod wedi gwneud cyswllt uniongyrchol gyda sefydliad cyfeirio er mwyn casglu gwybodaeth ychwanegol i'w helpu i ddatblygu darlun mwy holistig o'r cyfranogwr er mwyn cynorthwyo ymdrechion ymgysylltu. Ymhellach, adroddodd rhai staff eu bod wedi gwneud cyswllt gyda sefydliadau cyfeirio i roi sylw pellach i gyfranogwyr lle'r oedd y cyswllt wedi bod yn aflwyddiannus, gan bod gan y sefydliadau cyfeirio berthnasoedd gyda chyfranogwyr yr oeddent yn bodoli eisoes, y gallent helpu i frocera perthnasoedd.

#### *Nodi Anghenion Cyfranogwyr*

- 4.21 Mae'r prosiect yn defnyddio Work Star<sup>19</sup> a WEMWBS (Graddfa Lles Meddwl Warwick– Edinburgh)<sup>20</sup> i nodi anghenion cyfranogwyr. Gofynnir i gyfranogwyr lenwi WEMWBS a Work Star pan fyddant yn gadael ac yn cyrraedd y prosiect er mwyn helpu i ddeall effaith y prosiect arnynt ac er mwyn archwilio'r cynnydd a sicrhawyd.
- 4.22 Mewn ymatebion i'r arolwg, nododd 91% o'r staff rheoli a darparu eu bod yn teimlo fel pe bai GLLM wedi gweithredu prosesau da er mwyn nodi anghenion cyfranogwyr (gan gynnwys anghenion iechyd meddwl). Dim ond 2% o'r staff oedd yn anghytuno.
- 4.23 Mewn cyfweiliadau, holwyd staff rheoli a darparu am effeithiolrwydd Work Star a WEMWBS wrth nodi anghenion cyfranogwyr – rhoddwyd ymatebion mwy cymysg. Roedd mwyafrif y staff (7/9) yn canmol Work Star fel offeryn defnyddiol a oedd yn

---

<sup>19</sup> Offeryn holistig yw Work Star a ddefnyddir i fesur canlyniadau cyflogadwyedd a chyflogaeth. Mae'n cynnwys saith maes allweddol: (1) Profiad a sgiliau swydd, (2) Uchelgais a chymhelliant, (3) Sgiliau chwilio am swydd, (4) Sefydlogrwydd, (5) Sgiliau sylfaenol, (6) Sgiliau cymdeithasol a gweithle, a (7) Iechyd a lles.

<sup>20</sup> Mae WEMWBS yn raddfa sy'n cynnwys 14 eitem, a ddefnyddir i fesur lles cyfranogwyr. Mae'n offeryn a ddefnyddir yn eang er mwyn mesur lles meddyliol ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, ac felly, mae'n cynnig cyfle i gymharu sgoriau lles cyfranogwyr ADTRAC gyda sgoriau'r rhai yn y boblogaeth gyffredinol.

eu helpu i gychwyn sgysiau gyda chyfranogwyr. Nododd staff eraill (2/9) bod effeithiolrwydd Work Star fel offeryn yn dibynnu ar y cyfranogwr, a bod rhai yn fwy amharod i'w lenwi, a bod rhai cyfranogwyr yn ei chael hi'n heriol deall y cwestiynau. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd yr adborth am Work Star yn fwy cadarnhaol na negyddol.

4.24 Roedd safbwyntiau ynghylch y defnydd o WEMWBS yn gymysg hefyd, er eu bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Nododd mwyafrif y staff (6/9) eu bod yn teimlo bod WEMWBS yn ddefnyddiol. Wrth esbonio pam, nododd rhai aelodau o staff eu bod yn teimlo fel pe bai'n offeryn da er mwyn deall sut yr oedd y cyfranogwr yn teimlo a pham. Nododd nifer o staff (3/9) nad oeddent yn teimlo bod WEMWBS yn ddefnyddiol a nododd un aelod o staff ei fod yn rhoi sgôr i'r person ifanc heb unrhyw ganllawiau ynghylch sut i'w ddehongli. O ystyried mai rôl y mentor yw darparu'r cyd-destun hwn ar gyfer cyfranogwyr, mae'n awgrymu efallai bod angen cael hyfforddiant ychwanegol.

4.25 Amlygodd aelod o staff arall eu bod wedi canfod bod rhai pobl ifanc yn teimlo'n anghyfforddus wrth ei gwblhau. Yn yr un modd, cododd dau aelod o staff faterion ynghylch rôl meithrin perthynas wrth eu cynorthwyo i ddefnyddio Work Star a WEMWBS mewn ffordd effeithiol, oherwydd y bydd cyfranogwyr yn teimlo'n nerfus fel arall neu byddant yn gweld y profiad o lenwi'r holiaduron hyn ychydig yn 'fusneslyd'.

#### *Cynllunio Gweithredu*

4.26 Gan ddilyn y broses a ddatblygwyd gan GLLM, datblygir cynlluniau gweithredu gyda chyfranogwyr yn ystod apwyntiadau cynnar ac fe'u defnyddir i ddeall eu nodau ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir. Roedd yn ymddangos bod dulliau er mwyn adolygu'r cynlluniau gweithredu yn amrywio ar draws Cyd-fuddiolwyr. Mewn rhai achosion, adolygwyd cynlluniau gweithredu yn rheolaidd (megis bob yn ail fis), ac roedd eraill yn defnyddio'r rhain yn fwy fel offeryn ad hoc, gan ddefnyddio adolygiadau yn fwy pan oedd cyfranogwyr yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu, pan yr oedd ganddynt anghenion cymhleth neu pan oeddent yn teimlo fel pe baent yn methu symud ymlaen.

- 4.27 Roedd staff yn teimlo'n gadarnhaol am y prosesau cyfredol er mwyn cynllunio gweithredu. Yn wir, roedd 89% o'r ymatebwyr i'r arolwg staff yn cytuno bod y broses o gynllunio gweithredu a weithredwyd gan GLLM yn briodol ac yn addas i'r diben, ac nid oedd unrhyw un yn anghytuno. Yn ychwanegol, roedd 82% o'r staff yn cytuno yr ystyrir nodau i gyfranogwyr a gweithgarwch cynllunio gweithredu yn ddigon rheolaidd; unwaith eto, nid oedd unrhyw un yn anghytuno.
- 4.28 Nododd staff rheoli a darparu bod adolygu'r cynllun gweithredu yn rhan ddefnyddiol o gynorthwyo cyfranogwyr. Pan oedd cyfranogwyr yn teimlo fel pe na baent yn gallu symud ymlaen neu eu bod yn cael anhawster gweld y cynnydd yr oeddent yn ei wneud, byddai modd ailystyried cynlluniau gweithredu er mwyn dangos eu cynnydd ac er mwyn helpu gyda'u cymhelliant i barhau gyda'r cymorth. Ymhellach, byddai modd eu defnyddio er mwyn ymateb i newidiadau yn amgylchiadau cyfranogwyr, gan addasu eu nodau a'u cymorth mewn ffordd briodol.

#### *Cymorth a Roddwyd*

- 4.29 Nododd staff rheoli a darparu mai un o gryfderau'r cymorth a ddarparwyd trwy ADTRAC oedd y ffaith ei fod wedi cael ei 'deilwra i anghenion unigol'. Mae'r mathau o gymorth a gynigir yn cynnwys:
- Cymorth cyflogadwyedd, e.e. ysgrifennu CV, sgiliau cyfweld, cymorth wrth chwilio am swydd a gwneud ceisiadau, lleoliadau profiad gwaith, a chymorth wrth fynychu cyfweiliadau
  - Cymorth wrth ymgeisio am a pharatoi ar gyfer AB, coleg, prentisiaethau a hyfforddeiaethau
  - Cymorth gyda hyder a phendantrwydd
  - Sgiliau meddal a sgiliau bywyd, e.e. coginio a garddio
  - Cymorth wrth fanteisio ar gymorth iechyd meddwl, gan gynnwys cymorth er mwyn cofrestru gyda Meddyg Teulu a chyfeirio at gymorth lles ac iechyd meddwl
  - Cyfleoedd gwirfoddoli

- Cymorth wrth fanteisio ar ystod o wasanaethau eraill, e.e. banciau bwyd, tai, banciau, a CAB; a
  - Chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.30 Yn ogystal, cyfeiriwyd 48% o gyfranogwyr at BIPBC am gymorth iechyd meddwl mwy arbenigol. Mae Tabl 4.2 isod yn nodi manylion yr ymyriadau a gynigiwyd i'r cyfranogwyr hyn. Yn ogystal â'r gweithgareddau penodol hyn, darparwyd sesiynau galw heibio rheolaidd mewn rhai awdurdodau lleol er mwyn caniatáu i gyfranogwyr fanteisio ar gymorth lles. Yn Wrecsam a Sir y Fflint, darparwyd sesiynau grŵp wythnosol gan fentoriaid, Ymarferwyr Iechyd Meddwl ac asiantaethau allanol, gan archwilio mater perthnasol a ddewiswyd gan y bobl ifanc ac a fynychwyd gan 10-20 o bobl ifanc bob wythnos. Yng Ngwynedd, darparwyd 'Canolfannau' wythnosol gan Weithwyr Cymorth Ieuenctid, a gwelwyd 15 o gyfranogwyr yn mynychu Canolfan Caernarfon a 5-6 o gyfranogwyr yn mynychu Canolfan Dolgellau. Yn Sir Ddinbych, mae cwrs meithrin hyder chwe wythnos wedi bod ar gael i gyfranogwyr ac ers gweithredu'r mesurau cadw pellter cymdeithasol, darparwyd sesiwn galw heibio ar-lein wythnosol, 'Ar y trywydd iawn gydag ADTRAC'.

**Tabl 4.2: Ymyriadau a ddarparwyd gan BIPBC**


Ymyriad BIPBC	Nifer yr ymyriadau	Canran
Un-i-un	146	65%
Dim gweithredu	18	8%
Cymorth lles	40	18%
Cyffyrddiad ysgafn	2	1%
Cymorth mentor	4	2%
Sesiynau grŵp	5	2%
Ymgynghori	7	3%
Cyfeirio at wasanaethau craidd	2	1%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 224)

- 4.31 Mewn cyfweiliadau, adroddodd staff rheoli a darparu eu bod yn teimlo fel pe bai amrediad yr ymyriadau a gynigir gan ADTRAC yn addas i anghenion cyfranogwyr. Cefnogir hyn gan ddata yr arolwg, a ganfu:
- bod 84% o staff yn cytuno bod ADTRAC yn cynnig gweithgareddau priodol i fodloni anghenion cyflogadwyedd a diddordebau cyfranogwyr; roedd 4% yn anghytuno.
  - bod 73% o staff yn cytuno bod ADTRAC yn cynnig gweithgareddau priodol i fodloni anghenion iechyd meddwl a lles cyfranogwyr; roedd 11% yn anghytuno.
  - bod 93% yn cytuno bod y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol parhaus i gyfranogwyr unigol; roedd 0% yn anghytuno.
- 4.32 Nid oedd hi'n hollol glir pam bod llai o staff yn teimlo bod ADTRAC yn cynnig gweithgareddau priodol i fodloni anghenion iechyd meddwl a lles cyfranogwyr. Fodd bynnag, mewn cyfweiliadau gyda staff rheoli a darparu a rhanddeiliaid strategol, bu nifer fach yn trafod sialensiau mewn perthynas â nifer ofynnol yr Ymarferwyr Iechyd Meddwl, felly gallai'r farn hon fod yn cael ei dylanwadu gan broblemau capasiti.
- 4.33 Mae Ffigwr 4.2 isod yn dangos beth yw'r agweddau mwyaf llwyddiannus ar ddarpariaeth cymorth ADTRAC ym marn staff rheoli a darparu. Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd, y mae'r ymchwilyr wedi ei ddadansoddi a'i godio er mwyn nodi themâu cyffredin (nodir y manylion isod). Nodwyd mai cymorth iechyd meddwl a ddarperir trwy ADTRAC oedd yr agwedd fwyaf lwyddiannus ar y ddarpariaeth amlaf, a ddilynwyd gan brofiad y mentoriaid, yn ogystal â'r ffaith bod natur y cymorth yn gymorth un-i-un, ac felly, yn canolbwyntio ar y cyfranogwr.
- 4.34 Canmolwyd y cam o gynnwys cymorth iechyd meddwl yn y cynnig gan ei fod yn sicrhau y gall cyfranogwyr fanteisio ar gymorth 'holistig', sy'n eu galluogi i oresgyn y rhwystrau unigryw yr oeddent yn eu hwynebu, gan helpu i'w symud yn agosach i'r farchnad lafur.



**Ffigwr 4.2: Ymatebion wedi'u codio i'r cwestiwn testun rhydd: "Yn eich barn chi, beth yw'r agweddau mwyaf llwyddiannus ar ddarpariaeth cymorth ADTRAC?"**



Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 46)

4.35 Mae'r dyfyniad isod yn disgrifio pwysigrwydd y cymorth un-i-un a ddarperir trwy gyfrwng ADTRAC, a sut y mae hyn yn rhoi gwerth ychwanegol o'i gymharu â chymorth arall ar gyfer pobl ifanc.

'Nid ydw i'n ymwybodol o wasanaethau [eraill] sy'n darparu cymorth i chi adael y tŷ, sy'n gwneud hyfforddiant trafndiaeth gyda nhw neu sy'n eu helpu i fanteisio ar grŵp cymdeithasol o bobl ifanc yr un oed â nhw, y maent oll yn bethau pwysig iawn os ydym yn dymuno i bobl ifanc i fod yn llwyddiannus wrth gyflawni eu nodau a manteisio ar goleg, prifysgol a gwaith... Mae hyblygrwydd y cymorth yn unigryw: caiff ei redeg ar gyflymder y person ifanc, sy'n ymwneud yn fawr â'r cam o osod eu nodau eu hunain, manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant pwrpasol, ac sy'n helpu i waredu rhwystrau megis cost gofal plant neu offer ar gyfer coleg, prifysgol neu gyflogaeth.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 10)**

## Adborth am Ddarparu Cymorth

### *Prif Sialensiau*

- 4.36 Er y bu'r adborth gan staff rheoli a darparu yn gadarnhaol ar y cyfan, nodwyd y materion canlynol gan staff rheoli a darparu fel sialensiau allweddol wrth ddarparu'r cymorth:

### *Ymgysylltu Cyfranogwyr*

- 4.37 Hon oedd yr her a nodwyd amlaf gan staff rheoli a darparu mewn ymatebion i'r arolwg, ac a drafodwyd gan 29% o ymatebwyr. Roedd yr her hon yn ymwneud ag anawsterau wrth gael cyfranogwyr i ymgysylltu gyda'r cymorth ar y dechrau ac i barhau gyda'r cymorth. Roedd nifer o ffactorau a oedd yn tanlinellu'r her hon, gan gynnwys y rhwystrau cymhleth yr oedd y bobl yr oedd y prosiect yn ceisio ymgysylltu â nhw yn eu hwynebu, y mae gan nifer ohonynt anghenion iechyd meddwl ac y maent wedi dioddef profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod. Yn ogystal, nododd staff bod rhai sialensiau wrth geisio sicrhau bod cyfranogwyr yn parhau i ymgysylltu, o ganlyniad i brosesau y gallent fod yn hir ac y gallent beri i bobl ifanc golli ffocws. Rhoddir crynodeb o'r materion hyn yn y dyfyniad isod.

'Mae nifer o bobl ifanc yn bell iawn o'r farchnad lafur – mwy na'r disgwyl – ac mae goresgyn y rhwystrau hyn yn broses hir iawn. Gan bod y prosiect yn un gwirfoddol, mae'n aml yn anodd cynnal ymgysylltu i bawb... Gall y broses gaffael gymryd cryn amser ac yn aml, gall pobl ifanc golli ffocws wrth aros i gyrsiau gael eu caffael.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 16)**

- 4.38 Mynegwyd pryderon gan rai rhanddeiliaid nad yw rhai o'r unigolion a gyfeirir at ADTRAC yn barod am y cymorth eto, naill ai oherwydd anghenion cymhleth (sy'n golygu nad ydynt yn barod i ymgymryd ag EET eto) neu oherwydd lefelau cymhelliant isel (a arweiniodd atynt yn tynnu yn ôl o'r cymorth).

### *Problemau gyda Gwaith Papur*

- 4.39 Nododd staff rheoli a darparu sialensiau gyda'r gwaith papur. Roedd y rhain yn cynnwys problemau gyda'r gwaith papur sy'n ofynnol er mwyn cofrestru cyfranogwyr, a'r ffaith na all rhai cyfranogwyr ddarparu rhif Yswiriant Gwladol, a adlewyrchwyd hefyd yn y Cofnod Gwersi a Ddysgwyd ar gyfer y gweithrediad. Yn ogystal, roedd y rhain yn cynnwys problemau gyda'r gwaith gweinyddol, yn ogystal ag anhawster manteisio ar dechnoleg ystwyth er mwyn bodloni gofynion elfen gwaith papur y prosiect.

### *Rheoli Problemau Iechyd Meddwl*

- 4.40 Adroddodd staff rheoli a darparu bod gan nifer fawr o gyfranogwyr anghenion iechyd meddwl cymhleth, sy'n golygu bod gofyn cael cryn dipyn o gapasiti er mwyn cynorthwyo'r unigolion hyn. Roedd rhai problemau a oedd yn ymwneud â'r cymorth ar gyfer staff sy'n ofynnol er mwyn cynorthwyo'r bobl ifanc hyn yn cydfynd â hyn. Nododd un aelod o staff nad oedd gan eu tîm Ymarferwr Iechyd Meddwl ar hyn o bryd, a nododd un arall nad oes ganddynt ddigon o Ymarferwyr Iechyd Meddwl i fodloni'r galw o ganlyniad i'r anawsterau a gafwyd wrth recriwtio staff. Yn ogystal, nododd llond llaw o randdeiliaid anawsterau sy'n codi wrth recriwtio pobl i'r swyddi hyn, gan arwain at sialensiau o ran capasiti. Gan gyfeirio at hyn, nododd ychydig randdeiliaid bod prosesau recriwtio araf o fewn BIPBC yn gwaethgu'r mater hwn. Adlewyrchir hyn hefyd yn y Cofnod Gwersi a Ddysgwyd ar gyfer y gweithrediad, a nododd bod prosesau recriwtio o fewn BIPBC yn gymhleth.

### *Methu â sylweddoli maint y Rhwystrau*

- 4.41 Gwelwyd y mater hwn yn codi yn yr ymatebion i'r arolwg ac yn ystod cyfweiliadau gyda staff rheoli a darparu a rhanddeiliaid strategol. Teimlwyd nas sylweddolwyd yn llawn cymhlethdod y rhwystrau y mae rhai o'r cyfranogwyr yr oedd y prosiect yn ceisio ymgysylltu â nhw yn eu hwynebu, ac yn ei dro, arweiniodd hyn at deimlad ymhlith rhai rhanddeiliaid bod targedau yn afrealistig ac yn annhebygol o gael eu cyflawni gan bod y prosiect yn gweithio gyda chyfranogwyr sy'n bellach i ffwrdd o'r farchnad lafur nag a ragwelwyd.

‘Treuliwyd mwy o amser yn cynorthwyo pobl ifanc nag a ragwelwyd yn wreiddiol o ganlyniad i'r ffaith bod eu problemau yn lluosog ac yn gymhleth.’ **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 2)**

- 4.42 Nododd rhai rhanddeiliaid eu bod yn teimlo fel pe bai angen i'r prosiect roi mwy o ffocws ar ganlyniadau meddal a'r cynnydd a sicrhawyd yng ngoleuni'r rhwystrau cymhleth y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu. Roeddent yn teimlo y gallai ffocws ar ganlyniadau caled megis targedau cyflogaeth fwrw cysgod ar effaith sylweddol y prosiect ar lefel unigol. Trafodir y mater hwn ymhellach ym Mhennod 5 (Cynnydd a Pherfformiad).

‘Fy mhersbectif personol i yw dylai fod llai o bwysau ar ganlyniadau, gan ganolbwyntio yn fwy ar gynnydd y bobl ifanc a gweld y sialensiau y bu'n rhaid iddynt eu hwynebu, yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniad terfynol, e.e. cyflogaeth.’ **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

#### *Mynd trwy'r System Brynu Ddeinamig (DPS)*

- 4.43 Trafodwyd yr her hon gan 23% o'r ymatebwyr i'r arolwg, ac fe'i codwyd yn ystod cyfweiliadau gyda staff rheoli a darparu a rhanddeiliaid strategol hefyd. Dylid nodi na fydd DPS wedi bod yn berthnasol i'r holl unigolion a holwyd; o ganlyniad, efallai bod y mater hwn yn fwy amlwg ymhlith staff y mae'r DPS yn berthnasol i'w rôl. Mynegwyd pryderon gan rhanddeiliaid bod y DPS yn arwain at brosesau “araf”, y gallent arwain at y perygl y byddai cyfranogwyr yn ymddieithrio wrth iddynt aros am y cymorth a geisiwyd i ddod ar gael. Nododd rhai rhanddeiliaid nad oeddent yn teimlo bod y DPS yn “addas i'r diben”, yn arbennig gan bod y broses ymgeisio yn peri i fusnesau bychain beidio cymryd rhan, ac roedd hyn yn golygu nad oeddent yn gallu cyrraedd busnesau lleol llai o faint, y byddai wedi bod ganddynt yr arbenigedd i ddarparu'r ddarpariaeth ofynnol.

4.44 Myfyriodd staff rheoli a darparu bod gan gyfranogwyr dueddiad i ymddieithrio o'r prosiect pe na byddent yn teimlo fel pe baent yn cael canlyniadau yn gyflym; o'r herwydd, roedd y DPS yn ffactor ym mhenderfyniad cyfranogwyr i dynnu'n ôl o gael cymorth.

#### *Sialensiau Logisteg a Chydlynu*

- 4.45 Codwyd rhai materion ynghylch y ffordd y cydlynir ADTRAC. Roedd y rhain yn cynnwys y materion canlynol:
- Adroddodd rhai staff y bu rôl BIPBC yn “ddryslyd”, gyda diffyg eglurder ynghylch ble y mae staff BIPBC yn eistedd o fewn strwythurau tîm. Roedd rhai staff yn teimlo bod lleoli rolau Ymarferwyr Iechyd Meddwl o fewn timau awdurdodau lleol, ond yn cael eu rheoli a'u goruchwylio o fewn BIPBC, wedi arwain at y teimlad bod Ymarferwyr Iechyd Meddwl 'hanner i mewn/hanner allan' o'r tîm darparu.
  - Codwyd rhai sialensiau mewn perthynas â seilwaith, yn enwedig ynghylch y sialensiau wrth nodi manau er mwyn cwrdd cyfranogwyr, yn ogystal â chydlynu ymweliadau o ganlyniad i ddiffyg cymorth gweinyddol.

#### *Diffyg Cyfleoedd Cyflogaeth*

- 4.46 Myfyriodd rhai staff bod diffyg cyfleoedd cyflogaeth yn rhwystr yn eu hardal, a chyfeiriodd rhai staff at broblemau yn y farchnad lafur leol megis colli cyflogwyr mawr, neu gyflogwyr nad oedd ganddynt y capasiti a/neu'r diddordeb mewn croesawu pobl ifanc i gael profiad gwaith. Mewn rhai ardaloedd, roedd problemau ynghylch seilwaith trafndiaeth a natur wledig yr ardal yn cyd-fynd â hyn, a oedd yn golygu nad oedd nifer o bobl ifanc yn gallu manteisio ar rai cyfleoedd gwaith. Bu aelod arall o staff yn trafod anawsterau wrth geisio sicrhau cyflogwyr y byddent “yn rhoi cyfle i bobl ifanc”, gan gyfyngu nifer y lleoliadau gwaith y gallai ADTRAC fanteisio arnynt. Pan oedd cyfleoedd yn brin, roedd teimlad bod cyfranogwyr ADTRAC, yr oedd nifer ohonynt heb brofiad gwaith na sgiliau cyflogadwyedd, yn gorfod cystadlu yn erbyn ymgeiswyr mwy profiadol.
- 4.47 Mae hwn yn faes y disgwylir iddo fynd yn faes mwy heriol o ganlyniad i bandemig COVID- 19, lle y gwelwyd niferoedd mawr o gyflogwyr yn gorfod rhoi gweithwyr ar ffyrlo neu derfynu contractau cyflogaeth. Rhagwelir y bydd economi y DU yn

wynebu 'dirwasgiad sylweddol' o ganlyniad i'r pandemig, a disgwylir gweld cynnydd yn nifer y rhai sy'n ddi-waith (Sefydliad Bevan, 2020). Eisoes, mae Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) a goladwyd gan GC yn dynodi bod penodiadau misol i swyddi yng Nghymru wedi gostwng o 55,756 ym mis Chwefror 2020 i 43,738 ym mis Ebrill 2020 (Gyrfa Cymru, 2020). Mae LMI a goladwyd gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn dangos mai nifer yr hawlwr yng Ngogledd Cymru ym mis Mai 2020 oedd 25,855, mwy na dwbl y nifer ym mis Mai 2019, gan gynnwys cynnydd o 10,000 o hawliadau ychwanegol ym mis Ebrill 2020 (Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, 2020). Mae tystiolaeth o ddirwasgiadau blaenorol yn dangos bod pobl ifanc mewn mwy o berygl o fod yn ddi-waith, a gwelwyd mai uchafswm y bobl ifanc 16-24 oed a oedd yn ddi-waith yn ystod y dirwasgiad diwethaf oedd 23.5% yn 2012, sydd dros bedair gwaith yn uwch na'r ganran a oedd yn ddi-waith ymhlith y rhai 25 oed neu'n hŷn (Gyrfa Cymru, 2020).

- 4.48 O ganlyniad, mae'n debygol y bydd y gweithrediad yn wynebu mwy o sialensiau wrth sicrhau bod cyfranogwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth yn ystod y cyfnod darparu sy'n weddill. O blith y cyfranogwyr hynny sydd wedi symud i gyflogaeth hyd yn hyn, mae'r mwyafrif wedi ymuno â'r sector Twristiaeth a Lletygarwch (22%) neu Fwyd a Diod (19%). Tra bod polisiau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau symud mewn grym o hyd, mae'r rhain yn debygol o fod ymhlith y sectorau a fydd yn dioddef y colledion mwyaf o ran swyddi o ganlyniad i'r pandemig.

## Sut mae'r Prosiect yn Cyfrannu at y Themâu Trawsbynciol (CCTs)?

4.49 Un o amodau sicrhau cyllid ESF yw'r gofyniad bod pob prosiect a ariannir yn dangos tystiolaeth eu bod wedi rhoi sylw i'r Themâu Trawsbynciol (CCTs) canlynol:

- cyfle cyfartal a phrif-ffrydio rhyw
- datblygu cynaliadwy
- trechu tlodi; a
- hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

4.50 Mae ADTRAC wedi cytuno ar y dangosyddion lefel achos canlynol ar gyfer y gweithrediadau.

**Tabl 4.3: Dangosyddion CCT lefel achos ADTRAC**

Themâu Trawsbynciol	Dangosyddion CCT lefel achos ADTRAC
Cyfle cyfartal a Phrif-ffrydio	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl Ifanc</li><li>• Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl BME<sup>21</sup></li><li>• Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl anabl</li><li>• Mesur gweithredu cadarnhaol – Arall (Cronfa rhwystr)</li><li>• Gweithgarwch sy'n cynorthwyo siaradwyr yr iaith Gymraeg</li><li>• Gweithgarwch gwahanu galwedigaethol</li><li>• Ymgysylltu â Grŵp Mynediad Anabledd</li></ul>
Datblygu Cynaliadwy	<ul style="list-style-type: none"><li>• Datblygu Cod Eco</li><li>• Gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth, addysg, a rhaglenni hyfforddiant<sup>22</sup></li></ul>
Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gweithgarwch meithrin sgiliau cymunedol</li><li>• Gweithgarwch mentora/eiriolaeth</li><li>• Cynlluniau gwirfoddoli</li></ul>
CCT Cyffredinol	<ul style="list-style-type: none"><li>• Hyrwyddwr CCT</li></ul>

<sup>21</sup> Mae'r dangosydd CCT lefel achos hwn yn berthnasol i weithrediad Dwyrain Cymru yn unig.

<sup>22</sup> Mae'r dangosydd CCT lefel achos hwn yn berthnasol i weithrediad Gorllewin Cymru yn unig.

4.51 Isod, trafodir pob un o'r CCTs hyn a sut y maent wedi cael sylw gan brosiect ADTRAC.

#### *Cyfle Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhyw*

4.52 Fel y mae'r tabl isod yn dangos, mae'r gweithrediad yn rhagori ar ei darged ynghylch cyfranogwyr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, ac mae'n perfformio'n dda yn erbyn ei darged ynghylch cyfranogwyr o gefndir BME/Mudwyr/Lleiafrifoedd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y gweithrediad yn wynebu mwy o sialensiau wrth gyflawni targedau ynghylch cynnwys cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu a chyfranogwyr benywaidd.<sup>23</sup>

**Tabl 4.4: Targedau cyfranogi a data perfformio, fesul grŵp demograffig**

Grŵp cyfranogi	Targed	Targed (%)	Nifer a gyflawnwyd	Canran o'r targed a gyflawnwyd
Cyfanswm y cyfranogwyr	1,451		893	62%
Cyfranogwyr sydd ag anabledd/cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	112	8%	263	235%
Cyfranogwr sy'n BME/Mudwyr/ Lleiafrifoedd	31	2%	21	68%
Cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu	121	8%	56	46%
Cyfranogwyr gwrywaidd	721	50%	509	71%
Cyfranogwyr benywaidd	730	50%	384	53%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

4.53 Pan ofynnwyd sut oeddent yn teimlo bod y CCTs wedi cael eu cynnwys o fewn ADTRAC, roedd 4/9 o'r staff a gyfwelwyd wedi trafod strategaethau a ddefnyddiwyd i roi sylw i gyfle cyfartal a phrif-ffrydio rhyw. Dywedodd un cyfweledig eu bod wedi bodloni hyn trwy fabwysiadu 'dull cynhwysol... [Ile y caiff] pawb eu trin fel rhywun sy'n gallu cyflawni' (Staff rheoli a darparu, cyfweledig).

<sup>23</sup> Fel y nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad, mae'n bosibl bod rhai o'r cyfranogwyr hyn wedi cael eu 'pigo i fyny' gan raglenni eraill megis prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) a ariannir gan Lywodraeth Cymru ac ESF, neu ddarpariaeth gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru, ac efallai oherwydd amodau'r Credyd Cynhwysol, bod pobl ifanc sydd â chyfrifoldebau gofal plant yn llai tebygol o fod yn ceisio cyflogaeth na'r rhai heb gyfrifoldebau gofal plant.



Ymhellach, nodwyd bod y prosesau a sefydlwyd gan GLLM yn rhai cadarnhaol yn y maes hwn, gan gynnwys y cofnod gweithgarwch a'r dudalen wrth ymadael.

4.54 Bu staff eraill yn trafod sut yr oeddent wedi ceisio annog a chynorthwyo unigolion a fynegodd diddordeb mewn archwilio rolau y gallent gael eu hystyried yn rhai “annhraddodiadol” ar gyfer eu rhyw. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys annog cyfranogwyr benywaidd a oedd wedi mynegi diddordeb ym maes adeiladu, yn ogystal â gwrywod a oedd wedi mynegi diddordeb mewn diwydiannau megis gofal. At hynny, bu un cyfweledig yn trafod sut yr oeddent wedi ceisio cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau wrth ddarparu, trwy ddatlu digwyddiadau megis Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Gwelir tystiolaeth o gefnogaeth ADTRAC ar gyfer gweithgareddau rhyw annhraddodiadol mewn astudiaethau achos ynghylch menywod ym maes chwaraeon yn yr awyr agored a chyfranogwr ADTRAC benywaidd a oedd wedi ymuno â'r gwasanaeth tân ar ôl cael cymorth gan y prosiect, yn ogystal â chynorthwyo cyfranogwyr benywaidd i astudio cyrsiau STEM.

4.55 Er gwaethaf y strategaethau hyn, cofnodwyd bod 1% o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch annhraddodiadol i'w rhyw,<sup>24</sup> a cheir bwlch clir o hyd o ran recriwtio cyfranogwyr benywaidd i'r prosiect. Mae hyn o bosibl yn adlewyrchu'r ffaith, er bod menywod yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar na gwrywod, eu bod yn llai tebygol o fod yn dymuno sicrhau cyflogaeth, fel y dangosir yn Nhabl 4.5 isod. Er bod cyfraddau anweithgarwch economaidd benywod lawer yn uwch na chyfraddau anweithgarwch economaidd gwrywod ym mhob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ac eithrio Sir y Fflint, ceir mwy o hawlwr gwrywaidd na hawlwr benywaidd yn yr awdurdodau lleol hyn. Mae hyn yn awgrymu, er bod llai o wrywod economaidd anweithgar na benywod economaidd anweithgar yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, mae gwrywod yn fwy tebygol o fod yn chwilio am waith ac yn ymgysylltu gyda rhaglenni cymorth cyflogaeth na benywod.

---

<sup>24</sup> Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893).

**Tabl 4.5: Cyfraddau anweithgarwch economaidd a niferoedd yr hawlwyry yng Ngogledd Cymru, wedi eu dadgyfuno yn ôl rhyw**

	Cyfraddau anweithgarwch economaidd (unigolion 16–24 oed) <sup>25</sup>	Cyfraddau anweithgarwch economaidd – Benywod (16-24)	Cyfraddau anweithgarwch economaidd – Gwrywod (16-24)	Nifer yr hawlwyry – Benwod (16–24) <sup>26</sup>	Nifer yr hawlwyry - Gwrywod (16-24)
Ynys Môn	23.1%	30.1%	16.7%	170	305
Conwy	44.3%	50.1%	39.1%	360	555
Sir Ddinbych	41.1%	43.0%	39.6%	285	545
Sir y Fflint	32.4%	31.5%	33.1%	405	645
Gwynedd	43.2%	56.0%	31.6%	345	555
Wrecsam	31.6%	35.9%	27.9%	365	675

Ffynhonnell: Setiau data arolwg poblogaeth blynyddol a chyfrif hawlwyry Nomis Web

4.56 Beth bynnag fo'r rhesymau dros yr anhawster wrth ymgysylltu cyfranogwry benywaidd, efallai y bydd angen i ADTRAC ystyried a oes unrhyw strategaethau ychwanegol y byddai modd eu defnyddio mewn gweithgareddau allgymorth a recriwtio er mwyn helpu i roi hwb i weithgarwch recriwtio benywod.

#### *Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg*

4.57 Roedd mwyafrif y staff rheoli a darparu a oedd wedi cymryd rhan mewn cyfweiliad manwl yn gallu nodi ffyrdd y llwyddwyd i fodloni'r gofyniad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y gweithrediad (7/9 cyfweledig). Nododd yr holl staff hyn bod cymorth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys ffurflenni wedi'u cyfieithu a'r ffaith bod staff a oedd yn siarad Cymraeg ar gael. Mae ymdrechion ADTRAC i gynhyrchu fersiynau Cymraeg o offerynnau safonol megis WEMWBS, GAD7 a PHQ9 a'u dilysu (gyda chymorth cyfieithwry proffesiynol, terminolegydd iaith, a gweithwry gofal iechyd proffesiynol), wedi arwain at offerynnau lles y gellir eu defnyddio i helpu pobl ifanc i fynegi eu lles trwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i

<sup>25</sup> Mae'r holl gyfraddau anweithgarwch economaidd yn y tabl hwn yn cyfeirio at y cyfnod rhwng Ionawr 2019 a Rhagfyr 2019 ac fe'u cymrwyd o Nomis Web.

<sup>26</sup> Mae'r holl ffigurau cyfrif hawlwyry yn y tabl hwn yn ffigurau mis Mai 2020 ac fe'u cymrwyd o Nomis Web. Sylwer. Nid oes niferoedd yr hawlwyry fel canran o gyfanswm y boblogaeth economaidd anweithgar a chyfanswm boblogaeth ar gael ar hyn o bryd.

gyd-destun prosiect ADTRAC. Yn ogystal, nododd ymatebwyr o Gonwy a Gwynedd bod mwyafrif eu staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl a bod holl staff awdurdod lleol Ynys Môn yn siaradwyr Cymraeg.

- 4.58 Yn yr arolwg a ddosbarthwyd i staff rheoli a darparu, cynhwyswyd cwestiynau er mwyn darganfod pa mor eang y defnyddir yr iaith Gymraeg wrth ddarparu. Nododd pum deg un y cant o ymatebwyr bod eu tîm yn darparu cymorth yn Gymraeg ar hyn o bryd. Er bod y ffigwr hwn yn ymddangos yn isel efallai, dylid nodi bod lefelau siarad Cymraeg yn amrywio'n eithaf sylweddol ar draws ardaloedd y Cyd-fuddiolwyr a bod cyfran y staff a ddywedodd bod eu tîm yn darparu cymorth yn Gymraeg yn llawer uwch mewn ardaloedd lle y ceir lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg, megis Gwynedd (lle y nododd 100% o ymatebwyr eu bod yn darparu cymorth yn Gymraeg), nag mewn ardaloedd lle y mae lefel y niferoedd sy'n siarad Cymraeg lawer yn is, megis Wrecsam a Sir y Fflint, lle y nododd mwyafrif y staff nad oeddent yn darparu cymorth yn Gymraeg.
- 4.59 Er mwyn egluro'r gwahaniaethau o ran y galw am ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, gofynnwyd i staff nodi hefyd a oeddent yn credu bod eu tîm yn gallu bodloni'r angen lleol. Gan ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd 82% o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod eu tîm yn gallu bodloni'r galw lleol. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno wedi'u lleoli yn Sir Ddinbych gan amlaf, ac roedd yn ymddangos bod y galw isel am ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal hon yn dylanwadu ar hyn. Mae Data Monitro Cyfranogwyr yn dynodi mai dim ond un cyfranogwr yn Sir Ddinbych a nododd mai'r iaith gyfathrebu yr oeddent yn ei ffafrio oedd y Gymraeg, a fyddai'n awgrymu bod y galw yn isel iawn am y Gymraeg yn yr ardal hon. Adroddodd y swyddog arweiniol yn Sir Ddinbych, er bod y galw wedi bod yn isel, bod tîm Sir Ddinbych yn gallu cydymffurfio'n llawn â'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.
- 4.60 Yn ogystal â darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, mae ADTRAC wedi gwneud rhywfaint o waith i gysylltu cyflogwyr gyda chyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg, gan gynyddu'r cyfleoedd i gyfranogwyr ADTRAC ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle o bosibl.

‘Gofynnir i gyflogwyr bob amser (e.e. adwerthu a lletygarwch) a oes angen siaradwyr Cymraeg arnynt, a throsglwyddir y wybodaeth hon i gyfranogwyr, nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i siarad Cymraeg, ond y maent yn ei deall.’ **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

### *Datblygu Cynaliadwy*

- 4.61 Yn unol â chanllawiau ESF ynghylch datblygu cynaliadwy, mae ADTRAC wedi datblygu Cod Eco sy'n ymrwymo'r prosiect i fabwysiadu'r dulliau canlynol:
- Lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu er mwyn lleihau gwastraff gymaint ag y bo modd
  - Annog mwy o ffyrdd cyfeillgar i'r amgylchedd o deithio (gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus, rhannu cerbydau, a lleihau'r angen i deithio)
  - Annog timau prosiect i fabwysiadu ffyrdd ymarferol o arbed ynni
  - Annog eraill i fabwysiadu mesurau tebyg.
- 4.62 Mae datblygu cynaliadwy yn cynnwys hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal hefyd, yn ogystal â chydabod a hyrwyddo iechyd a lles fel un o gonglfeini economi iach a ffyniannus (Llywodraeth Cymru, 2016).
- 4.63 Mae'r nodweddion hyn wedi'u hymwreiddio yng nghynllun a rhesymeg ADTRAC. Er enghraifft, gellir ystyried bod nod ADTRAC o leihau rhwystrau i bobl ifanc yn symud ymlaen i EET fod yn rhywbeth sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Cefnogir hyn gan dargedau'r prosiect hefyd mewn perthynas â grwpiau demograffig, y bwriedir iddynt sicrhau bod y cymorth yn sicrhau cyfle cyfartal ar draws grwpiau amrywiol.
- 4.64 Yn ogystal, mae hyrwyddo iechyd a lles yn rhan ganolog o gynllun ADTRAC, sy'n ymgorffori darpariaeth iechyd meddwl a lles yn fwriadol mewn prosiect sy'n ceisio dwyn unigolion yn agosach at EET. Mae hyn yn dangos cydnabyddiaeth o'r ffaith bod lles yn ganolog i allu pobl ifanc i fanteisio ar a sicrhau cynnydd yn EET.

### *Trechu Tlodi*

- 4.65 Mae trechu tlodi yn cynnwys 'mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth megis sgiliau gwael, diffyg gofal plant neu ddewisiadau trafndiaeth cyfyngedig, gan helpu mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth' (Llywodraeth Cymru, 2016).
- 4.66 Mae ADTRAC yn cynnwys sawl nodwedd sy'n helpu i roi sylw i'r rhwystrau hyn. Er enghraifft, mae ADTRAC yn rhoi sylw i sgiliau gwael trwy ddarparu cyrsiau a chyfleoedd i bobl ifanc er mwyn iddynt allu meithrin eu sgiliau a sicrhau cymwysterau. Hyd yn hyn, mae data monitro yn dynodi bod 200 o gyfranogwyr wedi sicrhau cymwysterau trwy gyfrwng ADTRAC, y mae 72 o'r rhain wedi sicrhau mwy nag un cymhwyster. Ymhellach, mae data monitro yn dynodi bod 109 o gyfranogwyr wedi sicrhau ardystiad sy'n berthnasol i fyd gwaith trwy ymgysylltu â'r rhaglen.
- 4.67 Yn ogystal, mae ADTRAC yn cynorthwyo pobl ifanc i fynd i'r afael â rhwystrau wrth sicrhau cyflogaeth megis trafndiaeth gyfyngedig trwy ddarparu cyllid i bobl ifanc er mwyn eu galluogi i fanteisio ar drafndiaeth.

### *Crynodeb*

- 4.68 Mae'n ymddangos bod y gweithrediad yn gwneud cyfraniad da i'r CCTs; fodd bynnag, mae modd sicrhau gwelliant o ran cynnwys cyfranogwyr benywaidd, yn ogystal â chyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- 4.69 Yn ogystal â chyfrannu at y CCTs, ceir ymdeimlad clir bod ADTRAC yn cyfrannu at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA). Ceir tystiolaeth bod y dull a fabwysiadwyd trwy ADTRAC yn cynnwys y bum ffordd o weithio sy'n creu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' WFGA. Yn benodol, mae'n dangos dull ataliol a ddarperir trwy gyfrwng cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus, gan integreiddio nifer o amcanion lles (sy'n ymwneud â nodau llesiant 'Cymru ffyniannus', 'Cymru iachach' a 'Chymru sy'n fwy cyfartal' yn bennaf), sy'n ystyried anghenion hirdymor Gogledd Cymru.

## Safbwyntiau Cyfranogwyr ynghylch y Cymorth a Ddarperir gan ADTRAC

4.70 Ystyrir effaith ADTRAC ar gyfranogwyr ym Mhennod 6; fodd bynnag, mae'r adran hon yn archwilio persbectifau cyfranogwyr o'r cymorth a ddarperir, a dynnwyd o gyfweiliadau manwl dros y ffôn gyda 30 o gyfranogwyr.

4.71 Nododd mwyafrif y cyfranogwyr eu bod yn teimlo fel pe bai'r cymorth a ddarparwyd gan ADTRAC yn 'dda' (29/30 cyfranogwr), a nododd yr holl gyfranogwyr y byddent yn argymhell y cymorth i ffrind.

'Mae wedi newid fy mywyd. Ni fyddwn wedi cael fy swydd heb ADTRAC. Mae'r cymorth gofalgwr a gefais ganddynt wedi bod yn help aruthrol.'  
(Cyfranogwr, ID 16)

4.72 Nodwedd y cymorth a drafodwyd amlaf oedd y dull cefnogol a fabwysiadwyd gan fentoriaid (trafodwyd gan 12/30 cyfranogwr). Yn aml, roedd y cyfranogwyr yn canmol y mentoriaid am fod yn 'gefnogol' ac am 'fynd allan o'u ffordd' i'w helpu.

'Maen nhw'n system gymorth wych. Pe byddai gennyf ymholiad neu pe byddwn yn teimlo'n ofidus neu'n ddryslyd, byddent wastad yn rhoi gwybodaeth o'r tu mewn i mi. Neu os na fyddwn yn deall rhywbeth yn iawn, byddent yn ei esbonio mewn ffordd wahanol er mwyn i mi ddeall. Maent yn gwrando ac yn gweld potensial.' (Cyfranogwr, ID 1)

4.72 Yn gysylltiedig â hyn, roedd nifer o gyfranogwyr (10/30) wedi canmol y cymorth gan ei fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Nododd cyfranogwyr bod y staff yn 'wirioneddol gwrando' ac yn siapio'r cymorth o'ch cwmpas 'chi fel unigolyn', gan ganiatáu i gyfranogwyr 'fynd ar eu cyflymder eu hunain'. Mae hyn yn adleisio persbectifau staff am nodweddion pwysicaf y cymorth.

'Mae'r cymorth gan ADTRAC yn dda iawn, gan bod popeth yn bersonol iawn. Bydd y staff yn mynd allan o'u ffordd i ddod i'ch adnabod ac maent wastad yn gofyn sut ydych chi. Byddant yn gadael i chi wneud pethau ar eich cyflymder eich hun ac maent yn gefnogol iawn. Heb ADTRAC, ni fyddwn yn gallu mynd i'r coleg na mynd y tu allan i gyfarfod fy ffrindiau.' (Cyfranogwr, ID 4)

4.73 Dim ond un cyfranogwr oedd yn llai cadarnhaol yn eu hymateb, ac roedd yn ymddangos bod hyn yn ymwneud â'r ffaith nad oedd digon o gyfleoedd profiad gwaith yr oedd modd manteisio arnynt heb brofiad blaenorol ar gael

yn eu barn nhw; fodd bynnag, roeddent yn gweld gwerth o hyd yn y cymorth a ddarperir gan ADTRAC.

'[Beth fydddech chi'n ei ddweud i ffrind a oedd yn ystyried cymryd rhan yn ADTRAC?] Byddwn yn gofyn iddynt pam eu bod yn dymuno cymryd rhan a phe byddent yn ateb oherwydd eu bod yn dymuno cael profiad gwaith, byddwn yn argymhell na ddylent gymryd rhan yn ADTRAC yn ôl pob tebyg, ond pe byddent yn dymuno meithrin eu hyder, cael CV gwell neu pe byddai ganddynt broblemau iechyd meddwl, byddwn yn dweud wrthynt i fynd amdani.' **(Cyfranogwr, ID 3)**

- 4.74 Adroddodd mwyafrif y cyfranogwyr (28/30) ei bod yn hawdd cymryd rhan yn ADTRAC. Disgrifiwyd y broses ymgeisio yn aml fel proses 'gyflym' a 'hawdd'. Fodd bynnag, nododd nifer fach o gyfranogwyr eu bod yn teimlo y byddai modd hysbysebu'r cymorth yn well er mwyn nodi'n glir pwy sy'n gallu cael y cymorth a pha mor eang yw'r cymorth a gynigir, fel y nodir yn y dyfyniad isod.

'Oedd, roedd hi'n hawdd cymryd rhan, ond os na fyddai fy mam yn adnabod neu wedi cyfarfod fy mentor, nid wyf yn siŵr a fyddwn i wedi clywed amdano. Roeddwn i'n credu mai rhaglen ar gyfer plant drwg ydoedd... mae angen ei hyrwyddo ychydig yn fwy. Mae angen iddynt roi gwybod i bobl bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cynnig i bobl sydd ag anghenion gwahanol.' **(Cyfranogwr, ID 16)**

- 4.75 Roedd amrywiaeth o resymau pam oedd cyfranogwyr wedi dewis cymryd rhan yn ADTRAC. Nododd mwyafrif y cyfranogwyr eu bod yn dymuno cael cymorth er mwyn cael swydd (17/30 cyfranogwr) neu gymorth er mwyn cael addysg (10/30 cyfranogwr).

*Pa Agweddau ar y Cymorth oedd y rhai Mwyaf neu Leiaf Defnyddiol ym Marn y Cyfranogwyr?*

- 4.77 Gofynnwyd i gyfranogwyr fyfyrion am ba agweddau ar y cymorth oedd y rhai mwyaf defnyddiol yn eu barn nhw. Y nodweddion y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd cymorth y mentoriaid a'r system gymorth (trafodwyd gan 9/30 cyfranogwr), argaeledd cyrsiau er mwyn helpu cyfranogwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u CVs (trafodwyd gan 9/30 cyfranogwr), natur un-i-un y cymorth (trafodwyd gan 8/30 cyfranogwr), ac argaeledd cymorth lles ac iechyd meddwl (trafodwyd gan 7/30 cyfranogwr). Bu nifer llai o gyfranogwyr yn trafod argaeledd cyllid hefyd (2/30 cyfranogwr), yn ogystal â 'chael rhywun i siarad gyda nhw' (2/30 cyfranogwr).
- 'Y sesiynau lles meddyliol oedd y rhai mwyaf defnyddiol, gan na allwn wneud unrhyw beth heb ddelio â'm gorbryder yn gyntaf. Roedd y cymorth iechyd meddwl wedi helpu i feithrin fy hyder a dysgu sut i ddelio gyda fy ngorbryder. Roedd gweddill y cymorth wedi fy helpu i fynd allan o'r tŷ a chyfarfod pobl, felly roedd popeth yn ddefnyddiol.' **(Cyfranogwr, ID 4)**
- 4.78 Pan ofynnwyd pa agweddau ar gymorth ADTRAC oedd yn llai defnyddiol ym marn y cyfranogwyr, nododd mwyafrif y cyfranogwyr (25/30 cyfranogwr) nad oedd unrhyw beth yn y cymorth nad oedd yn ddefnyddiol, a bod yr holl gymorth wedi helpu. Yn yr un modd, pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn teimlo y byddai modd gwneud unrhyw welliannau i'r ffordd y darperir ADTRAC, nododd mwyafrif y cyfranogwyr (22/30 cyfranogwr) nad oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau i'w gwneud ynghylch gwelliannau. Fodd bynnag, gwnaethpwyd yr awgrymiadau canlynol:
- Cynyddu hyd y cymorth, gan gynnwys hyd y cymorth iechyd meddwl er mwyn galluogi cyfranogwyr i feithrin perthnasoedd mwy effeithiol gyda'r bobl ar y cwrs.
  - Nododd un cyfranogwr ei fod yn dymuno cynnal y cyfarfodydd gyda'i fentor yn llai aml na bob wythnos, gan nad oedd yn teimlo bod pethau yn newid mor gyflym â hynny. Nododd un arall a oedd yn cael cyfarfodydd bob pythefnos y byddai'n well gamddo gael sesiynau un-i-un wythnosol. Mae'n debygol y bydd gan gyfranogwyr wahanol safbwyntiau ynghylch amllder y cyfarfodydd sy'n addas i'w hanghenion



nhw, ond gallai hyn ddynodi y byddai trefniant cyfarfod mwy hyblyg o fudd i rai cyfranogwyr.

- Gwell cyhoeddusrwydd, gan gynnwys trwy gyfrwng Canolfannau Gwaith, er mwyn nodi'n gliriach yr hyn a gynigir gan ADTRAC a sut y gall cyfranogwyr fanteisio arno.
- Cynyddu argaeledd cyrsiau gwaith, yn ogystal â chyfleoedd lleoliad.

#### *Sut mae'r Cymorth a Ddarperir gan ADTRAC yn Wahanol i'r Cymorth Arall a Gynigir?*

- 4.79 Mae'r adran hon yn cyd-fynd â'r adran gynharach ynghylch gwerth ychwanegol, a oedd yn archwilio persbectifau rhanddeiliaid strategol a staff rheoli a darparu ynghylch sut y mae ADTRAC wedi darparu gwerth ychwanegol i'r cymorth a gynigir yng Ngogledd Cymru. Isod, archwilir persbectifau cyfranogwyr ynghylch gwerth ychwanegol ADTRAC.
- 4.80 Nododd dau o bob tri chyfranogwr (20/30) eu bod wedi cael cymorth arall i'w helpu i sicrhau EET cyn manteisio ar gymorth trwy ADTRAC. Y lle mwyaf cyffredin yr oedd cyfranogwyr wedi cael cymorth oedd trwy Ganolfan Byd Gwaith (10/20 cyfranogwr) neu GC (4/20 cyfranogwr).
- 4.81 Roedd bron i bob un o'r cyfranogwyr (19/20) a oedd wedi cael cymorth arall yn nodi bod y cymorth a gawsant gan ADTRAC yn well na'r hyn yr oeddent wedi manteisio arno yn flaenorol.

'Roeddwn gyda darparwr hyfforddiant yn flaenorol, ond mae ADTRAC wedi bod yn llawer mwy cefnogol ac mae'r staff wir yn gwrandao arnoch ac yn fodlon mynd yn araf. Roedd ADTRAC wedi canolbwyntio ar feithrin fy hyder a delio gyda fy iselder a'm gorbryder, yn hytrach na'm cofrestru ar gwrs.'

**(Cyfranogwr, ID 2)**

4.82 Nododd cyfranogwyr a oedd wedi manteisio ar ddarparwyr eraill nad oedd y cymorth a gawsant wedi bod yn ddefnyddiol, gyda phrosesau araf a diffyg gweithredu dilynol. Mewn cymhariaeth, roedd cyfranogwyr wedi darganfod bod ADTRAC yn ymateb yn gyflym a'u bod wedi 'datrys pethau yn syth'. At hynny, nododd y cyfranogwyr sut yr oeddent wedi gweld bod mentoriaid ADTRAC yn 'llawer mwy cefnogol' na staff yr oeddent wedi dod ar eu traws mewn gwasanaethau eraill. Nododd llond llaw o gyfranogwyr eu bod yn teimlo bod ADTRAC yn ystyried eu hamgylchiadau personol a'u bod wedi eu helpu i weithio ar y rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu, ond mewn gwasanaethau eraill, eu bod wedi teimlo bod ymgais i symud pobl i swydd neu i gwrs yn unig, heb gymryd yr amser i roi sylw i'r rhwystrau hynny.

### Dyfodol ADTRAC

4.83 Disgwylir i'r cyllid ar gyfer ADTRAC ddod i ben ym mis Mai 2021. Mynegwyd pryderon gan nifer o randdeiliaid am yr hyn a fydd yn digwydd pan fydd y cyllid hwn yn dod i ben. Yn wir, mynegwyd pryderon yn annibynnol gan 4/9 o'r staff rheoli a darparu a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad am yr hyn a fyddai'n digwydd i'r cyfranogwyr pe na bai ADTRAC yn parhau neu'n cael ei ddisodli gan ddarpariaeth debyg.

'Mawr obeithiaf, er lles y cyfranogwyr, y bydd rhywbeth yn dod ar eu cyfer ar ôl ADTRAC, yn enwedig gyda Brexit. Mae'n rhywbeth sy'n fy mhryderu.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

4.84 Adlewyrchwyd hyn hefyd mewn cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid strategol, lle'r oedd dau o'r rhai a gyfwelwyd wedi mynegi pwysigrwydd sicrhau bod y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn barhaol ac yn parhau dros y tymor hir. Roedd hyn yn ymwneud ag anghenion cyfranogwyr, y teimlwyd eu bod yn wynebu rhwystrau sy'n gofyn am gymorth mwy hirdymor i'w goresgyn, ac o ran unrhyw brosiect olynol i gadw staff talentog a oedd wedi meithrin sgiliau da wrth ddarparu ADTRAC. Adleisiwyd y pwynt olaf hefyd gan aelod o staff a oedd yn teimlo bod staff darparu wedi dysgu cryn dipyn gan bod BIPBC wedi bod yn rhan o'r prosiect, a fyddai'n cael ei golli pe na bai ADTRAC yn parhau.

'Hon yw'r garfan anoddaf i'w chyrraedd. Ni chaiff ei ddatrys yng nghyd-destun prosiect ariannu dros gyfnod penodedig. Bydd angen cymorth ar rai o'r unigolion hyn dros gyfnod hir iawn.' **(Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)**

- 4.85 Codwyd y mater hwn gan un o gyfranogwyr ADTRAC hefyd, a oedd wedi cymryd rhan mewn cyfweiliad.

'Mae mor dda. Clywais y bydd yn dod i ben flwyddyn nesaf efallai oherwydd cyllid. Byddai hynny'n drueni mawr iawn. Hoffwn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gwyno os bydd hyn yn digwydd. Mae ADTRAC wastad yno i chi.'

**(Cyfranogwr, ID 13)**

- 4.86 Mae'r sylwadau hyn, yn ogystal â'r dystiolaeth gyfoethog gan gyfranogwyr, yr oeddent yn teimlo'n hynod o gadarnhaol am ADTRAC, yn awgrymu y ceir nifer o gynigwyr y cymorth y byddent yn teimlo'n drist iawn gweld y cymorth yn cael ei gollu.
- 4.87 Nid oedd gan rhanddeiliaid strategol na staff rheoli a darparu syniad clir am y cynlluniau er mwyn parhau neu ddisodli ADTRAC pan fydd cyllid ESF yn dod i ben, er y myfyriodd nifer fawr eu bod yn teimlo y byddai angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid er mwyn galluogi i'r cymorth barhau. Mynegwyd pryderon gan nifer fach o staff a rhanddeiliaid ynghylch sut y gallai'r ansicrwydd arwain at gollu staff medrus; o'r herwydd, awgrymir y bydd angen i ran allweddol o gam nesaf y gwaith ddarparu map trywydd clir er mwyn lleihau'r risg hon.

### Casgliadau

- 4.88 Mae safbwyntiau staff rheoli a darparu, rhanddeiliaid strategol a chyfranogwyr, a drafodir uchod, yn awgrymu y croesawyd ADTRAC mewn ffordd gadarnhaol. Bernir mai prif gryfderau'r cymorth yw ei ffocws ar ddarparu cymorth pwrpasol, yn ogystal ag argaeledd cymorth iechyd meddwl a lles. Y ffactorau hyn hefyd yw'r hyn y teimlir sy'n gwahaniaethu ADTRAC o'r cymorth arall sydd ar gael ar gyfer y garfan a dargedir.

- 4.89 Mae'n ymddangos bod y gweithrediad yn gweithio'n effeithiol ar draws nifer o agweddau ar y darparu. Yn wir, roedd rhanddeiliaid yn ymateb yn gadarnhaol am brosesau cyfeirio, prosesau er mwyn nodi anghenion cyfranogwyr, a'r cymorth a gynigir yn gyffredinol. Roedd mwyafrif y staff rheoli a darparu yn teimlo bod y cymorth yn briodol i anghenion y garfan yr oeddent yn darparu ar ei chyfer.
- 4.90 Roedd mwyafrif y staff rheoli a darparu yn teimlo bod y bartneriaeth yn gweithio'n dda, ac roedd staff yn teimlo'n gadarnhaol am gyswllt BIPBC gyda'r gwaith o ddarparu'r prosiect. Fodd bynnag, mynegwyd sawl her gan staff rheoli a darparu ynghylch materion gweithredol, megis anawsterau a oedd yn ymwneud â'r DPS a sialensiau capasiti mewn perthynas â bodloni anghenion iechedd meddwl cyfranogwyr. At hynny, mynegwyd sialensiau allweddol ynghylch cymhlethdod y rhwystrau y mae grŵp y cyfranogwyr yn eu hwynebu, a arweiniodd at anawsterau wrth ymgysylltu cyfranogwyr ac adborth gan rai rhanddeiliaid bod y targedau ar gyfer y gweithrediad yn afrealistig. Archwilir y mater hwn yn fanylach yn y bennod nesaf, sy'n cynnig trosolwg o berfformiad cyfredol y gweithrediad yn erbyn ei dargedau.

## 5. Cynnydd a Pherfformiad

- 5.0 Mae'r adran hon yn amlinellu perfformiad y gweithrediad mewn perthynas â'r targedau a nodwyd yn y Cynlluniau Busnes.

### Prif Bwyntiau:

- Mae'r gweithrediad yn tangyflawni yn erbyn ei dargedau ar gyfer cyfranogwyr ar hyn o bryd.
- Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn tanberfformio yn erbyn targedau mewn perthynas â chyfranogiad cyfranogwyr benywaidd, yn ogystal â chyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Ar hyn o bryd, mae'r gweithrediad yn tanberfformio yn erbyn ei darged ynghylch nifer y cyfranogwyr sy'n sicrhau cymwysterau, sy'n cychwyn cyflogaeth neu sy'n cychwyn ar addysg/hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'n gorberfformio yn erbyn y targed ar gyfer cyfranogwyr sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill.

- 5.1 Ar ôl ailbroffilio'r prosiect, pennwyd targed gan Gyd-fuddiolwyr i weithio gyda 1,451 o bobl ifanc a ddosbarthir yn unigolion NEET yn ystod cyfnod y gweithrediad. Isod, rhoddir crynodeb o'r targedau ynghylch cyfranogi a'r targedau ynghylch canlyniadau, law yn llaw â pherfformiad cyfredol y gweithrediad cyfan.

### Perfformiad yn erbyn Targedau Cyfranogi

- 5.2 Fel y nodir yn Nhabl 5.1, mae'r gweithrediad wedi llwyddo i gyflawni 62% o'i darged ynghylch ymgysylltu hyd yn hyn. Gallai hyn ddynodi bod y prosiect mewn perygl o fethu cyflawni ei dargedau cyfranogi, gan bod y gweithrediad newydd gwblhau trydedd blwyddyn ei amserlen pedair blynedd. Mae hyn yn rhywbeth y gallai gael ei effeithio ymhellach gan yr amhariad parhaus ar y prosiect o ganlyniad i COVID-19.
- 5.3 Ceir amrywiad sylweddol ym mherfformiad ADTRAC yn erbyn ei dargedu cyfranogi. Rhannwyd targedau cyfranogi fesul ardal awdurdod lleol yn Nhabl 5.1 isod.


**Tabl 5.1: Targedau cyfranogi, fesul Cyd-fuddiolwr**

Cyd-fuddiolwr	Targed cyfranogi	Cyfanswm a gyflawnwyd	Cyfran y targed a gyflawnwyd (%)
ADTRAC	1,451	893	62%
Ynys Môn	269	159	59%
Gwynedd	450	190	42%
Conwy	330	138	42%
Sir Ddinbych	307	156	51%
Wrecsam a Sir y Fflint	324	250	77%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.4 Fel y dangosir uchod, mae Wrecsam a Sir y Fflint yn agosach at gyflawni eu targedau cyfranogi ar hyn o bryd nag y mae Cyd-fuddiolwyr eraill. Gwelir mai Conwy a Gwynedd sydd yn y perygl mwyaf o fethu cyflawni eu targedau cyfranogi. Nid oedd hi'n glir o'r cyfweiliadau gyda staff rheoli a darparu pam bod cymaint o wahaniaeth o ran y graddau y mae Cyd-fuddiolwyr wedi llwyddo i gyflawni eu targedau cyfranogi. Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai hyn, yn rhannol, fod wedi deillio o'r cyfyngiadau a roddwyd ar ADTRAC ynghylch y sawl y gall y prosiect weithio gyda nhw, ac yn benodol mewn perthynas â recriwtio unigolion sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a'r gwahanol berthnasoedd gwaith rhwng ADTRAC a Chymunedau yn Gyntaf ar draws y rhanbarth. Fel y mae Ffigwr 5.1 yn dynodi isod, mae'n ymddangos bod cydberthyniad rhwng ardaloedd sydd agosaf at gyflawni eu targedau cyfranogi a'r rhai dydd wedi gallu recriwtio cyfranogwyr o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

**Ffigwr 5.1: Canran y buddiolwyr sy'n byw mewn codau post Cymunedau yn Gyntaf, fesul ardal**



Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.5 Mae gan y gweithrediad sawl targed ynghylch ymgysylltu cyfranogwyr ar draws gwahanol broffiliau demograffig. Isod, amlinellir y targedau a'r graddau y maent wedi cael eu cyflawni hyd yn hyn.

**Tabl 5.2: Targedau cyfranogi a data perfformiad, fesul grŵp demograffig**

Grŵp cyfranogi	Targed	Targed (%)	Nifer a gyflawnwyd	Canran y targed a gyflawnwyd
Cyfanswm y cyfranogwyr	1,451		893	62%
Cyfranogwyr sydd ag anabledd/cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	112	8%	263	235%
Cyfranogwyr sy'n BME/Mudwyr/Lleiafrifoedd	31	2%	21	68%
Cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu/gofal plant	121	8%	56	46%
Cyfranogwyr gwrywaidd	721	50%	509	71%
Cyfranogwyr benywaidd	730	50%	384	53%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.6 Fel y dangosir yn Nhabl 5.2, mae'r gweithrediad wedi rhagori ar ei darged ynghylch cynnwys cyfranogwyr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (WLHC). Hyd yn hyn, mae'r gweithrediad wedi ymgysylltu â 101 o gyfranogwyr sydd ag anabledd (11% o gyfanswm y cyfranogwyr) a 230 o gyfranogwyr a gofnododd WLHC (26% o gyfanswm y cyfranogwyr). Llwyddodd pob awdurdod lleol i ragori ar y targed ynghylch nifer y cyfranogwyr oedd ag anabledd neu WLHC. Roedd y gorberfformiad mwyaf yn erbyn y targed hwn i'w weld yn Wrecsam a Sir y Fflint, a oedd wedi recriwtio dros saith gwaith yn fwy o gyfranogwyr oedd ag anabledd neu WLHC nag y nodwyd yn ei darged. Nid oedd hi'n glir o'r gwaith ymgynghori gyda rhanddeiliaid pam yr oedd y gweithrediad yn gorberfformio gymaint mewn perthynas â'r grŵp demograffig hwn, er yn Wrecsam a Sir y Fflint, roedd cyfran uwch o'r cyfeiriadau wedi dod o BIPBC (10%, o'u cymharu â 7% ar draws y gweithrediad). Gallai'r gor-recriwtio cyfranogwyr o'r grwpiau hyn fod yn cyfrannu at yr anawsterau y mae'r gweithrediad yn eu hwynebu mewn perthynas â chymhlethdod grŵp y cyfranogwyr, oherwydd y bydd angen cymorth ychwanegol ar y grwpiau hyn efallai. Byddai o fudd archwilio'r mater hwn ymhellach efallai yn ystod cam nesaf y gwerthusiad, er mwyn deall a


yw'r lefel gor-recrwtio uchel hon wedi bod yn ddamweiniol neu a yw wedi bod o ganlyniad i arferion cyfeirio.

- 5.7 Mae'r gweithrediad yn agos i gyflawni ei dargedau cyfranogi mewn perthynas ag unigolion BME. Fodd bynnag, gwelwyd cryn amrywiaeth ymhlith awdurdodau lleol mewn perthynas â pha mor agos yr oeddent i gyflawni eu targed ar gyfer cyfranogwyr BME. Roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol yn debygol o gyflawni eu targed ynghylch cyfranogwyr BME; fodd bynnag, roedd Gwynedd mewn perygl o beidio â chyflawni eu targed, ar ôl cyflawni 21% yn unig o'r targed hyd yn hyn.
- 5.8 Mae'r gweithrediad yn tanberfformio yn erbyn ei darged o ymgysylltu unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu a/neu ofal plant. Bu'r mater hwn yn her i bob awdurdod lleol ac eithrio Wrecsam a Sir y Fflint, a lwyddodd i ragori ar eu targed dros bedair gwaith. Mae hwn yn grŵp arbennig o anodd i'w gyrraedd, gan bod unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu yn debygol o fod yn brin iawn o amser o'u cymharu ag unigolion heb gyfrifoldebau o'r fath. Yn ogystal, mae rhieni a gofalwyr yn debygol o wynebu mwy o rwystrau ariannol sy'n eu hatal rhag cyfranogi, oherwydd y gallai eu cyfranogiad yn y prosiect (ac mewn cyflogaeth yn fwy eang) ddibynnu ar eu gallu i geisio gofal ychwanegol y telir amdano, er mwyn eu galluogi i gymryd rhan (Aylward, et al., 2018). Ymhellach, awgrymwyd y gallai rhai o'r garfan hon fod wedi cael eu cyfeirio at brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac ESF neu i ddarpariaeth gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r rhesymau dros gyfraddau cyfranogi isel ymhlith y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu yn glir ar yr adeg hon, ac efallai bod hwn yn faes y byddai o fudd i'r tîm darparu ei archwilio ymhellach er mwyn nodi pa newidiadau fyddai modd eu gwneud er mwyn ymgysylltu rhieni a gofalwyr yn haws. O ystyried y gwahaniaeth yn y perfformiad yn Wrecsam a Sir y Fflint, efallai y byddai o fudd i awdurdodau lleol ymgysylltu â'r tîm hwn i nodi a oes unrhyw beth y maent yn ei wneud yn wahanol er mwyn cynorthwyo gweithgarwch recrwtio o'r grŵp hwn.



5.9 Ar y lefel weithredol, mae ADTRAC yn gorberfformio yn erbyn ei darged ynghylch cyfranogwyr gwrywaidd ac yn tanberfformio yn erbyn ei darged ynghylch cyfranogwyr benywaidd. Yn wir, mae 57% o gyfranogwyr wedi bod yn wrywod hyd yn hyn, ac mae 43% wedi bod yn fenywod. Gallai hyn, i ryw raddau, fod yn gysylltiedig â nifer uwch yr hawlwyr gwrywaidd na hawlwyr benywaidd ar draws Gogledd Cymru, fel y dangosir yn Ffigwr 5.2 isod.

**Ffigwr 5.2: Dadansoddiad fesul rhyw o'r hawlwyr yng Ngogledd Cymru, wedi'i ddadgyfuno fesul ardal awdurdod lleol**



Ffynhonnell: ONS<sup>27</sup>

5.10 Mae awgrymiadau eraill am y gwahaniaeth hwn yn cynnwys y sialensiau y mae'r prosiect wedi'u hwynebu wrth ymgysylltu unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan bod menywod yn y DU yn ymgymryd â mwy o ofal plant nag y mae dynion yn ymgymryd ag ef yn gyffredinol (ONS, 2016), ac mae menywod yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr di-dâl (Carers UK, 2016). Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod y ffigurau hyn yn cael eu dylanwadu gan dueddiadau o fewn awdurdodau lleol penodol. Er enghraifft, roedd pob awdurdod lleol, ac eithrio Wrecsam a Sir y Fflint

<sup>27</sup> Sylwer. Defnyddiwyd ffigurau ar draws Cymru gyfan yma gan bod ffigurau NEET sydd ar gael i'r cyhoedd ar lefel awdurdodau lleol yn annhebygol o fod yn ddigon cadarn er mwyn cynnig cymariaethau ystyrlon.

a Chonwy, ymhellach ar ei hôl hi mewn perthynas â'r targedau ynghylch cyfranogwyr benywaidd nag mewn perthynas â'r rhai ar gyfer cyfranogwyr gwrywaidd. Mewn cymhariaeth, bu Conwy a Wrecsam a Sir y Fflint yn fwy llwyddiannus wrth recriwtio cyfranogwyr benywaidd na chyfranogwyr gwrywaidd.

**Tabl 5.3: Cyfanswm y cyfranogwyr, fesul awdurdod lleol a rhyw**

	Cyfranogwyr gwrywaidd			Cyfranogwyr benywaidd		
	Targed cyfranogi	Cyfanswm a gyflawnwyd(n)	Cyfanswm a gyflawnwyd (%)	Targed cyfranogi	Cyfanswm a gyflawnwyd (n)	Cyfanswm a gyflawnwyd (%)
ADTRAC	721	509	71%	730	384	53%
Ynys Môn	135	98	73%	134	61	46%
Gwynedd	135	121	90%	166	69	42%
Conwy	167	83	50%	83	55	66%
Sir Ddinbych	139	105	76%	168	51	30%
Wrecsam a Sir y Fflint	146	102	70%	179	148	83%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

### Perfformiad yn erbyn Targedau Canlyniadau

- 5.11 Fel y dangosir yn Nhabl 5.4 isod, mae'r gweithrediad mewn perygl ar hyn o bryd mewn perthynas â chyflawni ei dargedau ynghylch nifer y bobl ifanc sy'n sicrhau cymwysterau ac sy'n symud i gyflogaeth, neu addysg a hyfforddiant. Mae'r risg hwn ar ei fwyaf aciwt mewn perthynas â'r targed ynghylch addysg/hyfforddiant, y mae'r ganran gyflawni yn 34% yn unig hyd yn hyn. Isod, ystyrir y rhesymau dros hyn ymhellach.

**Tabl 5.4: Targedau canlyniadau a data perfformiad**

	Nifer y cyfranogwyr a dargedwyd	Nifer y cyfranogwyr a dargedwyd (cyn y gwaith ailbroffilio)	Perfformiad hyd yn hyn	% y targed a gyflawnwyd hyd yn hyn
Cyfanswm y cyfranogwyr	1,451	1,651	893	62%
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn sicrhau cymwysterau erbyn iddynt adael	350	350	200	57%
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn symud ymlaen i addysg/hyfforddiant ar ôl gadael	270	280	92	34%
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn symud ymlaen i gyflogaeth ar ôl gadael	367	357	149	41%
Cyfranogwyr yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill <sup>28</sup>	290	330	337	116%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.12 Mewn cymhariaeth, mae'r gweithrediad yn rhagori ar ei darged ynghylch nifer y cyfranogwyr sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill. Roedd cyfanswm o 337 o gyfranogwyr wedi sicrhau o leiaf un canlyniad cadarnhaol o'r rhestr a gyflwynir yn Nhabl 5.5 isod. Y peth mwyaf cyffredin oedd gweld cyfranogwyr yn cofnodi gwelliannau mewn lles meddyliol/emosiynol a gwelliannau mewn canlyniadau meddal. Trafodir y canlyniadau meddal hyn yn fanylach yn y bennod sy'n dilyn.

<sup>28</sup> Gallai canlyniadau cadarnhaol eraill gynnwys y canlynol:

- Sicrhau mwy nag un cymhwyster/achrediad o ganlyniad i'r ymyriad
- Cyflawni rhan o gymhwyster/achrediad
- Cyflawni hyfforddiant heb fod yn achrededig
- Cyflawni ardystiad sy'n berthnasol i fyd gwaith erbyn gadael
- Cychwyn ar addysg rhan-amser (llai nag 16 awr)
- Cwblhau lleoliad profiad gwaith/cyfle gwirfoddoli
- Cychwyn cyflogaeth am lai nag 16 awr (gan gynnwys hunangyflogaeth)
- Cychwyn cyflogaeth ar gontract dim oriau
- Cychwyn hyfforddeiaeth
- Gwelliant mewn lles meddyliol
- Gwelliant mewn canlyniadau meddal

**Tabl 5.5: Nifer y cyfranogwyr sydd wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill, fesul canlyniad**

Canlyniadau cadarnhaol eraill	Nifer y cyfranogwyr	Canran o'r holl gyfranogwyr
Cyflawni rhan o gymhwyster	7	1%
Cyflawni hyfforddiant heb fod yn achrededig	61	7%
Addysg/hyfforddiant am lai nag 16 awr	13	1%
Cwblhau lleoliad profiad gwaith	36	4%
Cwblhau cyfle gwirfoddoli	47	5%
Cyflogaeth/hunangyflogaeth am llai nag 16 awr	13	1%
Cychwyn cyflogaeth ar gontract dim oriau	7	1%
Gwelliant mewn lles meddyliol/emosiynol	196	22%
Gwelliant mewn canlyniadau meddal	243	27%
Mwy nag un cymhwyster	72	8%
Wedi cychwyn hyfforddeiaeth	14	2%
Unrhyw ganlyniad cadarnhaol	337	38%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.13 Pan fynegir targedau fel canrannau o gyfanswm y cyfranogwyr, disgwylir i'r gweithrediadau arwain at 20% o gyfranogwyr yn sicrhau cymhwyster erbyn iddynt adael, 17% o gyfranogwyr yn gadael ac yn symud i addysg a hyfforddiant, a 28% o gyfranogwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth. Fel y mae Tabl 5.6 yn dangos isod, ar lefel rhaglen, mae ADTRAC yn rhagori ar ei thargedau ynghylch cyfranogwyr yn sicrhau cymhwyster, er ei fod ar ei hôl hi gyda'r ddau darged arall.

**Tabl 5.6: Math o ganlyniad caled fel canran o gyfanswm y cyfranogwyr**

Awdurdod lleol	Cyfranogwyr sy'n sicrhau cymhwyster	Cyfranogwyr sy'n symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ar ôl gadael	Cyfranogwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth ar ôl gadael
Ynys Môn	30%	6%	12%
Gwynedd	22%	12%	19%
Conwy	22%	9%	17%
Sir Ddinbych	12%	6%	25%
Wrecsam a Sir y Fflint	25%	15%	12%
ADTRAC (cyflawnwyd)	22%	10%	17%
Targedau prosiect (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)	20%	17%	20%
Targedau'r prosiect (Dwyrain Cymru)	20%	17%	28%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

### Gwahaniaethau mewn Canlyniadau Caled rhwng Awdurdodau Lleol

5.14 Yn yr un modd â pherfformiad yn erbyn y targedau recriwtio, ceir gwahaniaeth sylweddol yn y perfformiad yn erbyn y targedau canlyniadau rhwng awdurdodau lleol. Er y ceir risg sylweddol nas cyflawnir targedau canlyniadau ar draws yr holl awdurdodau lleol, fel y mae Tablau 5.7-5.9 yn dangos, ceir amrywiaeth sylweddol rhwng perfformiad awdurdodau lleol ar draws y gwahanol feysydd canlyniadau.

**Tabl 5.7: Cyfranogwyr NEET yn sicrhau cymwysterau erbyn iddynt adael – targedau a pherfformiad, fesul awdurdod lleol**

Awdurdod lleol	Targed	Cyfanswm	Cyfran o'r targed a gyflawnwyd %
Ynys Môn	54	48	89%
Gwynedd	84	41	49%
Conwy	66	31	47%
Sir Ddinbych	62	18	29%
Wrecsam a Sir y Fflint	84	62	74%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

**Tabl 5.8: Cyfranogwyr NEET yn symud ymlaen i addysg/hyfforddiant ar ôl gadael – targedau a pherfformiad, fesul awdurdod lleol**

Awdurdod lleol	Targed	Cyfanswm	Cyfran o'r targed a gyflawnwyd %
Ynys Môn	46	10	22%
Gwynedd	60	23	38%
Conwy	56	12	21%
Sir Ddinbych	53	9	17%
Wrecsam a Sir y Fflint	55	38	69%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

**Tabl 5.9: Cyfranogwyr NEET yn symud ymlaen i gyflogaeth ar ôl gadael – targedau a pherfformiad, fesul awdurdod lleol**

Awdurdod lleol	Targed	Cyfanswm	Cyfran o'r targed a gyflawnwyd %
Ynys Môn	54	19	35%
Gwynedd	94	37	39%
Conwy	66	23	35%
Sir Ddinbych	62	39	63%
Wrecsam a Sir y Fflint	91	31	34%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

- 5.15 Er enghraifft, mae Ynys Môn a Wrecsam a Sir y Fflint yn llawer mwy tebygol o gyflawni eu targedau mewn perthynas â nifer y cyfranogwyr sy'n sicrhau cymwysterau nag y mae awdurdodau lleol eraill, ac mae Sir Ddinbych lawer yn agosach i gyflawni'r targed canlyniadau ynghylch nifer y cyfranogwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth nag y mae awdurdodau lleol eraill. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu nifer o ffactorau, gan gynnwys yr amodau yn y farchnad lafur leol, pa mor agos yw sefydliadau AB a nifer yr unigolion EOTAS o fewn awdurdod lleol.
- 5.16 Gallai adlewyrchu gwahanol gryfderau gweithrediadau awdurdodau lleol gwahanol a'r elfennau penodol y maent yn canolbwyntio arnynt hefyd. Er

enghraifft, gallai nifer gymharol uchel y cyfranogwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth yn Sir Ddinbych, mewn perthynas â'i tharged (llwyddwyd i gyflawni 63% o'i tharged) adlewyrchu'r ffaith y lleolir ADTRAC yn Sir Ddinbych yn Gweithio, sy'n golygu ei fod yn canolbwyntio yn fwy ar ganlyniadau cyflogadwyedd nag eraill. Mae'n werth nodi bod Sir Ddinbych yn hyrwyddo lleoliadau gwirfoddoli a phrofiad gwaith ymhlith cyfranogwyr ADTRAC, rhywbeth sy'n debygol o gynorthwyo canlyniadau 'sicrhau cyflogaeth' yn gryf.

- 5.17 Mae canran cyfanswm y canlyniadau caled a gyflawnir gan bob awdurdod lleol, fel y dangosir yn Nhabl 5.10, yn dystiolaeth o'r gwahaniaeth mewn ffocws rhwng awdurdodau lleol.

**Tabl 5.10: Math o ganlyniad caled fel canran o gyfanswm y canlyniadau caled**

	Sicrhau cymhwyster	Addysg a hyfforddiant	Cyflogaeth
Ynys Môn	62%	13%	25%
Gwynedd	41%	23%	37%
Conwy	47%	18%	35%
Sir Ddinbych	27%	14%	59%
Wrecsam a Sir y Fflint	47%	29%	24%
ADTRAC	45%	21%	34%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

- 5.18 Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, mae gweithrediadau awdurdodau lleol yn gymharol gyson o ran canran y cyfranogwyr y maent wedi sicrhau canlyniadau caled ar eu cyfer. Fel y mae Tabl 5.11 yn dangos, mae gweithrediadau awdurdodau lleol wedi sicrhau canlyniadau caled ar gyfer rhwng 42% a 53% o gyfranogwyr.

**Tabl 5.11: Canlyniadau caled fel canran o gyfanswm y cyfranogwyr**

	Cyfanswm y cyfranogwyr	Cyfanswm y cyfranogwyr gyda chanlyniad caled	% y cyfranogwyr gyda chanlyniad caled
Ynys Môn	159	77	48%
Gwynedd	190	101	53%
Conwy	138	66	48%
Sir Ddinbych	156	66	42%
Wrecsam a Sir y Fflint	250	131	52%
ADTRAC	893	441	49%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

### Rhesymau Posibl dros Danberfformiad yn erbyn Canlyniadau Targedau

5.19 Mynegwyd pryderon gan staff rheoli a darparu bod rhai o'r targedau canlyniadau yn rhy uchelgeisiol ar gyfer y prosiect. Daeth dau safbwynt i'r amlwg ynghylch y rheswm dros hyn.

#### *Cyfranogwyr sy'n wynebu Rhwystrau Lluosog a Chymhleth*

5.20 Y safbwynt cyntaf oedd bod y targedau canlyniadau yn rhy uchel, o ystyried y rhwystrau lluosog a chymhleth y mae'r bobl ifanc y mae'r prosiect yn ceisio eu cynorthwyo yn eu hwynebu, y bydd gofyn i nifer ohonynt gael cymorth eithaf hirdymor a dwys efallai cyn y gellir eu symud yn agos at ganlyniad. Ymhlith nifer yn nhimau darparu yr awdurdodau lleol, roedd teimlad nad yw nifer o gyfranogwyr yn barod ar gyfer cyflogaeth, a bod cyfranogwyr wedi bod lawer yn bellach o'r farchnad lafur nag yr oedd Cyd-fuddiolwyr wedi ei ragweld ar ddechrau'r prosiect. Mae'n ymddangos bod y Data Monitro Cyfranogwyr yn cefnogi hyn, gan ddangos bod cyfran lawer yn uwch o gyfranogwyr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, yn cael eu cynorthwyo na'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r prosiect.

5.21 O ganlyniad i gymhlethdod y rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu, nododd mentoriaid bod angen neilltuo cryn amser i feithrin perthnasoedd gyda chyfranogwyr a datblygu sgiliau sylfaenol megis hyder. O ganlyniad, mewn rhai ardaloedd, myfyriodd staff rheoli a darparu bod llwythi achosion yn parhau i fod




yn gymharol uchel, gan nad ydynt yn gallu symud nifer o gyfranogwyr ymlaen i ganlyniad, ac yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar eu gallu i dynnu cyfranogwyr newydd i mewn. Gallai'r ffaith bod gan ADTRAC gyfnod aros cyn i gyfranogwyr allu manteisio ar gymorth, adlewyrchu hyn.

'Yn is o ran nifer y cofrestriadau – [fe'i] osodwyd yn rhy uchel. Disgwylir i ni gynnig cymorth dwys, un-i-un a dim ond gyda'r rhai sy'n wynebu dau rwystr yn fwy y gallwn weithio gyda nhw. Bydd pobl yn gadael yn llai aml, felly ceir llai o gapasiti.'

**(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

- 5.22 Mae dadansoddiad o Ddata Monitro Cyfranogwyr yn dynodi bod cyfranogwyr yn treulio 191 diwrnod (ychydig dros chwe mis) ar gyfartaledd yn cael cymorth gan ADTRAC cyn iddynt adael y prosiect, gydag amrediad o 15 i 658 diwrnod. O ganlyniad i'r amrediad uchel rhwng cyfranogwyr, efallai y byddai'n haws ystyried hyn yn nhermau faint o gyfranogwyr sy'n gadael y cymorth fesul cyfnod o amser. Darperir hyn yn Ffigwr 5.3.
- 5.23 Fel y dangosir yn Ffigwr 5.3, y sefyllfa fwyaf cyffredin oedd bod cyfranogwyr yn cael cymorth am rhwng tri a chwe mis (29% o gyfranogwyr). Fodd bynnag, cafodd cyfran sylweddol o gyfranogwyr gymorth am chwe mis neu fwy (44%), ac roedd 13% o gyfranogwyr wedi manteisio ar gymorth am dros flwyddyn.

**Ffigwr 5.3: Hyd y cyfnod y bydd cyfranogwyr yn manteisio ar gymorth trwy gyfrwng ADTRAC, fesul cyfnod o amser**



Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 387, yr holl gyfranogwyr a oedd wedi gadael)

5.24 Mae Tabl 5.12 yn dangos hyd y cyfnod y cynorthwywyd cyfranogwyr ar draws pob awdurdod lleol. Ym mwyafrif yr awdurdodau lleol, roedd dros 40% o gyfranogwyr yn cael eu cynorthwyo am dros chwe mis, ac eithrio Sir Ddinbych (lle y cynorthwywyd 32% o ymatebwyr am y cyfnod hwn).

**Tabl 5.12: Canran y cyfranogwyr a gynorthwywyd fesul cyfnod, fesul awdurdod lleol**

	Llai nag 1 mis	1-3 mis	3-6 mis	6-9 mis	9-12 mis	12-18 mis	18+ mis
Ynys Môn (n = 38)	5%	11%	39%	18%	8%	16%	3%
Gwynedd (n = 99)	5%	25%	26%	16%	16%	10%	1%
Conwy (n = 75)	3%	28%	20%	17%	17%	12%	3%
Sir Ddinbych (n = 92)	8%	29%	32%	18%	5%	8%	0%
Wrecsam a Sir y Fflint (n=83)	2%	18%	28%	20%	14%	13%	4%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 387, yr holl gyfranogwyr a oedd wedi gadael)

- 5.25 Mae'n ymddangos bod hyn yn cyfiawnhau pryderon rhai rhanddeiliaid bod y cymorth y mae gofyn i'r cyfranogwyr ei gael yn fwy hirdymor o ran ei natur nag a ragwelwyd pan bennwyd y targedau efallai.
- 5.26 Nodwyd pryderon arbennig gan staff rheoli a darparu ynghylch y targed addysg ar gyfer y gweithrediad, gan bod nifer o gyfranogwyr wedi cael profiadau niweidiol ym myd addysg yn flaenorol, a oedd yn golygu y gallent fod yn arbennig o amharod i ddychwelyd i'r lleoliad hwn. Yn wir, mae Data Monitro Cyfranogwyr yn dangos bod 43% o gyfranogwyr wedi cael profiad dysgu negyddol yn flaenorol, a bod 24% o gyfranogwyr yn meddu ar gymwysterau ar Lefel 1 CQFW neu'n is pan gychwynnont gydag ADTRAC.
- 5.27 Adleisiwyd y pryder hwn ynghylch targedau addysg gan un o'r rhanddeiliaid strategol hefyd.

'Credaf bod elfen o wahaniaeth rhwng targedau a chanlyniadau. Mae nifer o bobl yn dod trwyddo y maent yn llawer pellach i ffwrdd o'r farchnad lafur. Mae gwir angen i ni ystyried y canlyniadau meddal yr ydym yn eu cyflawni. Gall y gwaith i gael y bobl ifanc i'r man lle y gallwn eu cael fod yn enfawr, ond nid yw targedau WEFO wastad yn gwerthfawrogi hynny... Mae'r targed addysg yn un anodd. Mae nifer fawr o bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw wedi cael profiad gwael ym myd addysg. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddiddordeb mewn ysgol/ coleg. Ni fydd nifer o'r bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw hyd yn oed yn fodlon ymweld â choleg. Yna byddwn yn wynebu rhwystrau pan gynhelir pethau fel ffeiriau swyddi mewn colegau – ni fydd pobl yn mynychu am y rheswm hwnnw.' **(Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)**

- 5.28 Nododd staff rheoli a darparu hefyd y gallai targedau cyflogaeth fod yn afrealistig yng ngoleuni'r gwaith sydd ar gael yn lleol a'r diffiniadau rhy llym o waith. Mewn un ardal, er enghraifft, awgrymwyd bod y targed cyflogaeth o 16+ awr yr wythnos yn afrealistig; o'r herwydd, roedd contractau yn "brin" yn yr ardal leol. Roedd yn ymddangos bod natur wledig ardaloedd yn gwaethygu'r broblem hon yn rhannol, gan olygu nad oedd cyfleoedd am swydd wastad yn gyfleoedd hygyrch i gyfranogwyr.
- 5.29 Mae'r dyfyniad isod yn disgrifio pryderon ynghylch y targed cyflogaeth a'r targed addysg. Mae'r dyfyniad hwn yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd ar draws grwpiau rhanddeiliaid.
- 'O ran targedau, mae'r rhain yn rhy uchel. I ddechrau, mae'n anodd iawn ymgysylltu â'r bobl ifanc ac maent yn cael sawl camgychwyniad. Maent mor bell i ffwrdd o'r farchnad lafur fel bod peth bach hyd yn oed, megis cael cyfarfod gyda mentor, yn cymryd cryn ddewrder ac ymdrech weithiau. Rhaid i ni wneud gwaith aruthrol cyn iddynt hyd yn oed ystyried mynd i weithio. Mae mynd i fyd addysg yn fater arall. Nid yw'r rhai sydd wedi cael profiad gwael yn yr ysgol (rhan fwyaf o gyfranogwyr ADTRAC) yn dymuno mynychu unrhyw amgylchedd addysg fyth eto. Mae hwn yn un o'n targedau ac nid oes modd ei gyflawni.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 20)**
- 5.30 O ganlyniad, mynegwyd pryderon gan sawl aelod o staff bod targedau ar gyfer y gweithrediad yn canolbwyntio ormod ar "ganlyniadau caled", megis y targed cyflogaeth, a bod barnu llwyddiant y prosiect ar y sail hon yn peryglu taflu cysgod ar y gwaith gwerthfawr y mae'r prosiect yn ei wneud er mwyn sicrhau canlyniadau meddal i gyfranogwyr. Nododd yr unigolion hyn eu bod yn teimlo fel pe bai angen rhoi mwy o bwyslais ar y cynnydd a sicrhawyd gan gyfranogwyr, gan bod nifer o'r cyfranogwyr yr oeddent yn gweithio gyda nhw yn bell iawn o'r farchnad lafur. I'r cyfranogwyr hyn, teimlwyd bod y syniad y gallent sicrhau canlyniad caled wrth adael yn un afrealistig, ond bod y cymorth yn drawsnewidiol er hyn, ac yn eu helpu i gyflawni canlyniadau meddal megis mwy o hyder a lefelau lles uwch, a allai eu helpu i symud ymlaen i EET yn y dyfodol, er na fyddai hyn o fewn amserlen cymorth ADTRAC efallai.

'Fy safbwynt personol i yw y dylai fod llai o bwysau ar ganlyniadau a mwy o bwyslais ar daith yr unigolyn ifanc, gan ystyried y sialensiau y bu'n rhaid iddynt eu hwynebu, yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniad terfynol, e.e. cyflogaeth.'

**(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

'Teimlaf bod y prosiect wedi bod yn llwyddiant mawr. Byddwn, fodd bynnag, yn newid hyd cyfnod y prosiect – dim ond cipolwg ar gyfnod yw tair blynedd er mwyn gwella bywydau pobl ifanc sy'n NEET. Yn aml, mae'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu yn bethau na ellir eu datrys dros nos, a byddai'n braf gweld prosiect yn y dyfodol a fyddai'n gallu cynnig y cymorth mentora pwrpasol hwn.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ID 16)**

- 5.31 Gallai hyn awgrymu bod ychydig anghysondeb ar hyn o bryd rhwng grŵp y cyfranogwyr y mae ADTRAC yn gweithio gyda nhw, eu hanghenion cymorth, a'r targedau ar gyfer y gweithrediad.

*Cyfranogwyr sy'n wynebu Rhwystrau Lluosog a Chymhleth*

- 5.32 Yr ail safbwynt oedd bod ffocws yn cael ei roi ar y targedau cyfranogi. Awgrymwyd y gallai'r targedau cyfranogi fod wedi bod yn rhy uchelgeisiol ar ddechrau'r prosiect, a bod hyn yn rhywbeth sydd wedi effeithio ar allu y prosiect i gyflawni'r targedau canlyniadau. Effeithiwyd ar hyn yn arbennig gan y penderfyniad i wneud cyfranogwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn anghymwys i gael cymorth.
- 5.33 Cefnogir y farn hon gan ganran cyfanswm y cyfranogwyr a oedd yn llwyddo i sicrhau canlyniadau caled erbyn iddynt adael y rhaglen, fel y dangosir yn Ffigur 5.3 uchod. Mae hyn yn awgrymu bod y prosiect yn agosach at gyflawni ei dargedau na'r hyn y mae'r ffigurau amrwd yn ei awgrymu ar eu pen eu hunain.

## Casgliadau

- 5.34 Yn ystod y cam darparu hwn, mae'r gweithrediad mewn perygl o fethu cyflawni ei dargedau cyffredinol ynghylch niferoedd y cyfranogwyr a chanlyniadau cyfranogwyr, ac eithrio cyfran y cyfranogwyr sy'n gadael y cymorth ac sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill.<sup>29</sup> Roedd adborth gan randdeiliaid yn awgrymu bod hyn o ganlyniad i rwystrau cymhleth ymhlith grŵp y cyfranogwyr, sy'n golygu bod gofyn iddynt gael cymorth ychwanegol er mwyn paratoi ar gyfer gwaith, er bod rhai rhanddeiliaid eraill wedi awgrymu bod prif broblem y prosiect yn ymwneud â'r anhawster wrth recriwtio niferoedd digonol o gyfranogwyr. Yn y naill achos neu'r llall, awgrymir felly y dylai'r gweithrediad ystyried ailystyried targedau yng ngoleuni cymhlethdod carfan y cyfranogwyr.
- 5.35 Mae'r sefyllfa sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â COVID-19, sydd wedi esblygu yn ystod cyfnod y gwerthusiad hwn, yn awgrymu bod y gweithrediad yn debygol o wynebu sialensiau mwy fyth wrth gyflawni'r targedau hyn yn ystod y cyfnod sy'n weddill, o ganlyniad i leihad mewn cyfleoedd cyflogaeth o ganlyniad i'r pandemig. Disgwylir i hyn arwain at niferoedd uwch o bobl ifanc yn ddi-waith, a ysgogir yn rhannol gan ostyngiadau yn nifer y swyddi yn y sector lletygarwch a nifer y prentisiaethau – sef y ffordd y bydd nifer o bobl ifanc yn ymuno â'r farchnad lafur (Gyrfa Cymru, 2020). O'r herwydd, awgrymir y bydd angen diwygio targedau'r prosiect efallai er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun hwn sy'n newid.
- 5.36 Roedd pedwar awdurdod lleol yn wynebu sialensiau wrth recriwtio cyfranogwyr benywaidd, a oedd yn arwain at danberfformiad yn erbyn y targed hwn ar draws y gweithrediad. Yn ogystal, roedd rhan fwyaf yr awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd cyflawni targedau ynghylch cynnwys cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu. Gallai hyn awgrymu bod gofyn cael ymyriadau wedi'u targedu yn fwy er mwyn hwyluso mwy o gyfranogiad ymhlith y grwpiau demograffig hyn.

---

<sup>29</sup> Fel y diffiniwyd uchod.

## 6. Canlyniadau i Gyfranogwyr

- 6.0 Mae'r adran hon yn archwilio effaith y cymorth a ddarperir trwy gyfrwng ADTRAC ar gyfranogwyr, gan ddwyn gwybodaeth ynghyd o Ddata Monitro Cyfranogwyr, cyfweiliadau gyda sampl o gyfranogwyr, a safbwyntiau staff rheoli a darparu.

### Prif Bwyntiau:

- Mae ADTRAC wedi arwain at ystod eang o ganlyniadau i gyfranogwyr, gan gynnwys gwelliannau o ran lles, bod yn barod ar gyfer byd gwaith, a gostyngiadau mewn rhwystrau er mwyn ymgymryd ag EET.
- O blith y cyfranogwyr ADTRAC hynny a oedd wedi gadael y cymorth, roedd 57% wedi symud ymlaen i EET.

Isod, trafodir y canlyniadau caled y mae ADTRAC wedi arwain atynt, a ddilynrir gan drafodaeth am y canlyniadau eraill y mae ADTRAC wedi arwain atynt.

### Canlyniadau Caled

- 6.1 Fel y dangoswyd yn y bennod flaenorol, a oedd yn archwilio sut y mae'r gweithrediad wedi perfformio yn erbyn ei dargedau, mae'r gweithrediad wedi arwain at y canlyniadau caled canlynol i gyfranogwyr:
- Cyfranogwyr yn sicrhau cymwysterau erbyn iddynt adael: 200 cyfranogwr
  - Cyfranogwyr yn cychwyn ar gwrs addysg/hyfforddiant ar ôl gadael: 92 cyfranogwr
  - Cyfranogwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth ar ôl gadael: 149 cyfranogwr
  - Cyfranogwyr yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill<sup>30</sup>: 337 cyfranogwr.

---

<sup>30</sup> Gallai canlyniadau cadarnhaol eraill gynnwys y canlynol:

- Sicrhau mwy nag un cymhwyster/achrediad o ganlyniad i'r ymyriad
- Cyflawni rhan o gymhwyster/achrediad
- Cyflawni hyfforddiant heb fod yn achrededig
- Cyflawni ardystiad sy'n berthnasol i fyd gwaith erbyn gadael
- Cychwyn ar addysg rhan-amser (llai nag 16 awr)
- Cwblhau lleoliad profiad gwaith/cyfle gwirfoddoli

- 6.2 Hyd yn hyn, mae 422 o gyfranogwyr wedi gadael ADTRAC, sy'n golygu bod ADTRAC wedi gweld 35% o'r cyfranogwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth a 22% yn symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant. Mae hyn awgrymu bod ychydig dros hanner y cyfranogwyr (57%) sy'n gadael y gweithrediad yn symud ymlaen i EET o ganlyniad i'r cymorth.
- 6.3 Gallai hyn ddynodi bod ADTRAC yn ei chael hi'n anodd sicrhau canlyniadau caled ar gyfer cyfranogwyr. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod y prosiect yn llwyddo i sicrhau canlyniadau mwy meddal, a allai helpu i gynorthwyo cyfranogwyr i symud yn agosach at EET.
- 6.4 Er enghraifft, roedd bron i hanner y cyfranogwyr a oedd wedi gadael y prosiect wedi llwyddo i sicrhau cymhwyster (47%), ac roedd 80% o'r cyfranogwyr a adawodd y cymorth wedi llwyddo i sicrhau o leiaf un canlyniad cadarnhaol arall, gan gynnwys gwelliant mewn canlyniadau meddal a gwell iechyd a lles meddyliol.

### Effaith ar Les Cyfranogwyr

- 6.5 Mesurwyd lles cyfranogwyr gan ddefnyddio WEMWBS wrth iddynt ymuno â'r prosiect a gadael y prosiect.<sup>31</sup>
- 6.6 Sgôr lles gyfartalog y cyfranogwyr wrth ymuno oedd 41; fodd bynnag, roedd y ffigwr hwn ychydig yn uwch ar gyfer cyfranogwyr a oedd wedi gadael y prosiect, sef 43.<sup>32</sup> Roedd y sgôr hon erbyn gadael wedi codi 51.8. Roedd y gwahaniaeth hwn yn un arwyddocaol o ran yr ystadegau. Er mwyn rhoi hwn yn ei gyd-destun, y sgôr WEMWBS gyfartalog ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed ar draws Cymru, a gofnodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018- 2019, oedd 50.6 (StatsCymru, 2019). Mae hyn yn golygu bod sgoriau lles gyfartalog y rhai a oedd yn cychwyn lawer yn is ymhlith cyfranogwyr ADTRAC nag yr oeddent ymhlith pobl ifanc yng

- 
- Cychwyn cyflogaeth am lai nag 16 awr (gan gynnwys hunangyflogaeth)
  - Cychwyn cyflogaeth ar gontract dim oriau
  - Cychwyn hyfforddeiaeth
  - Gwelliant mewn lles meddyliol
  - Gwelliant mewn canlyniadau meddal

<sup>31</sup> Arweiniad ynghylch dehongli sgoriau WEMWBS: mae WEMWBS yn cynnwys 14 eitem sy'n ymwneud â lles cadarnhaol. Ar gyfer pob eitem, bydd yr unigolyn sy'n ymateb yn rhoi sgôr o rhwng 1-5, gan sicrhau cyfanswm rhwng 14 a 70 (Ysgol Feddygol Warwick, 2020). Ar y sgôr hon, roedd graddfa uwch yn dynodi lles uwch. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ynghylch sgorio a dehongli sgoriau WEMWBS [yma](#).

<sup>32</sup> Sylfaen: cyfranogwyr a oedd wedi darparu data wrth gychwyn a gadael (n = 277).



Nghymru. Fodd bynnag, roedd sgoriau cyfartalog cyfranogwyr ADTRAC erbyn iddynt adael ychydig yn uwch na'r ffigur cyfartalog yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn awgrymu bod ADTRAC yn cael effaith amlwg ar les cyfranogwyr.

- 6.7 At ei gilydd, gwelwyd cynnydd yn sgôr lles 87% o gyfranogwyr ADTRAC erbyn iddynt adael y cymorth, o'i chymharu â'u sgôr pan oeddent wedi cychwyn. Gwelwyd cydberthyniad cadarnhaol rhwng cynnydd yn lefelau lles cyfranogwyr a chyfranogwyr a oedd yn cychwyn ar EET.
- 6.8 Gwelliannau o ran lles oedd un o'r effeithiau mwyaf cyffredin a drafodwyd gan gyfranogwyr yn ystod cyfweiliadau am eu profiadau o'r cymorth hefyd. Nododd un ar hugain o'r 30 cyfranogwr a gyfwelwyd bod y cymorth wedi gwella eu hiechyd meddwl neu eu lles.
- 6.9 Nododd bron pob un a gyfwelwyd (27/30) eu bod wedi trafod eu hiechyd meddwl a'u lles gyda chynghorydd ADTRAC, a nododd y cyfweledigion a oedd yn weddill (3/30) na fu angen iddynt wneud hynny. Nododd yr holl gyfranogwyr a oedd wedi trafod eu hiechyd meddwl a'u lles gyda'u cynghorydd ADTRAC y bu hyn yn ddefnyddiol. Mewn rhai achosion, roedd cyfranogwyr wedi cael budd o gael cymorth ysgafn, ac roedd eraill wedi cael eu cyfeirio am gymorth ychwanegol o ganlyniad i weithgarwch ymgysylltu gyda'u mentor, gan gynnwys cyfeiriadau at therapyddion, gweithdai meithrin hyder, a chyfeiriadau at feddygon teulu er mwyn galluogi cyfranogwyr i fanteisio ar gymorth ychwanegol.

‘Heb os, mae wedi fy helpu i ddeall fy hun yn well fel unigolyn. Mae wedi rhoi gobaith i mi ac mae wedi dangos yr holl gymorth y gallaf ei gael, gan ddangos i mi nad wyf ar fy mhen fy hun.’ **(Cyfranogwr, ID 24)**

‘Cyn ADTRAC, roeddwn yn gofidio'n fawr ynghylch gadael y tŷ, ond mae fy mentor a'm hyfforddwr lles wedi dysgu strategaethau ymdopi i mi ac roedd gorfod mynychu cyrsiau bob wythnos wedi helpu i sefydlu patrwm er mwyn gadael y tŷ, gan roi hwb i'm hyder. Cychwynnais yn y coleg chwe mis yn ôl, a heb ADTRAC, ni fyddwn fyth wedi gallu gwneud hyn.’ **(Cyfranogwr, ID 27)**

6.10 Roedd cyfranogwyr yn aml yn trafod sut yr oedd y cymorth wedi helpu i feithrin eu hyder, ac mewn sawl achos, roedd wedi helpu cyfranogwyr i oresgyn eu gorbryder, wrth iddynt adrodd ei fod wedi eu galluogi i siarad gyda phobl a chymryd rhan mewn grwpiau. Nododd naw cyfranogwr bod ADTRAC wedi eu galluogi i oresgyn neu i reoli eu gorbryder. Nododd sawl cyfranogwr nad oeddent yn gallu 'gadael y tŷ' cyn ADTRAC. Mae'r dyfyniad canlynol yn enghraifft o'r thema hon.

'Mae fy iechyd meddwl wedi gwella'n fawr iawn. Cyn hyn, roeddwn yn teimlo'n rhy isel a gofidus i adael y tŷ, ac erbyn hyn, rydw i'n hapus i siarad ag unrhyw un. Rydw i'n llawer mwy hyderus nawr, a gallaf weithio fel rhan o dîm, diolch i'r gweithgareddau grŵp yr oedd ADTRAC wedi trefnu ar fy nghyfer.' **(Cyfranogwr, ID2)**

6.11 Nododd rhai cyfranogwyr (3/30) hefyd bod y cymorth yr oeddent wedi'i gael gan ADTRAC wedi eu helpu i leihau ymddygiad negyddol megis cam-drin alcohol neu gymryd cyffuriau, yn ogystal â hunan-niwed, a oedd yn gysylltiedig â'r iechyd meddwl gwael yr oeddent wedi ei brofi cyn cymryd rhan yn ADTRAC yn eu barn nhw.

### Newidiadau mewn Cyflogadwyedd a bod yn Barod ar gyfer Gwaith


6.12 Gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr lenwi Work Star wrth iddynt ymuno â'r prosiect ac wrth adael. Mae Work Star yn mesur gwahanol agweddau ar gyflogadwyedd a chyflogaeth, ac fe'i ddefnyddir i fesur cynnydd oedolion sydd heb waith neu sy'n dychwelyd i'r gweithle fel arfer.<sup>33</sup> Mae'r offeryn yn archwilio saith agwedd ar gyflogadwyedd, y rhoddir sgôr o 1-10 i bob un ohonynt. Wrth ymuno â'r cymorth, y sgôr gyfartalog a sicrhawyd ar draws y saith elfen oedd 5.91. Wrth adael, roedd y sgôr gyfartalog wedi codi i 7.59. Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol ar lefel ystadegol. At ei gilydd, roedd 71% o gyfranogwyr a oedd wedi gadael y cymorth wedi gweld cynnydd yn eu sgôr Work Star.

---

<sup>33</sup> Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Work Star ar gael [yma](#).

6.13 Fodd bynnag, roedd y sgôr Work Star gyfartalog ychydig yn uwch ymhlith cyfranogwyr a aeth ymlaen i adael y cymorth (6.06), a allai ddynodi bod yr ymatebwyr hyn ychydig yn fwy parod ar gyfer byd gwaith na'r rhai nad ydynt wedi gadael eto a symud ymlaen i ganlyniad. Yn wir, roedd y sgoriau cyfartalog ar gyfer pob elfen o Work Star yn uwch ymhlith cyfranogwyr a symudodd ymlaen i adael y cymorth nag yr oeddent ymhlith carfan gyfan y cyfranogwyr, fel y dangosir yn Ffigwr 6.1.

**Ffigwr 6.1: Sgoriau Work Star wrth gychwyn: cyfranogwyr sydd wedi gadael y cymorth o'u cymharu gyda'r holl gyfranogwyr**



Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)


6.14 Mae asesiad Work Star<sup>34</sup> yn gosod unigolion ar wahanol gyfnodau o'u taith, gan ddehongli eu sgoriau fel a ganlyn:

Sgôr	Safle ar y daith newid
1–2	Mewn rhigol
3–4	Yn Derbyn Help
5–6	Credu a Thrio
7–8	Dysgu
9–10	Hunan-ddibyniaeth

6.15 Mae sgoriau Work Star sy'n codi o 5.91 ar gyfartaledd wrth ymuno, i sgôr gyfartalog o 7.59 erbyn gadael ADTRAC yn awgrymu bod cyfranogwyr wedi symud ymlaen un cam ar y daith yn gyffredinol, h.y. o Credu a Thrio i Ddysgu.

6.16 Dangosir y sgoriau cychwyn a gadael cyfartalog ar gyfer pob elfen o asesiad Work Star yn Ffigwr 6.2 isod.

**Ffigwr 6.2: Ffigwr 6.2: Sgoriau Work Star cyfartalog wrth gychwyn a gadael**



Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 277, yr holl gyfranogwyr a oedd wedi darparu data cychwyn a gadael)

<sup>34</sup> Mae rhagor o wybodaeth am Work Star ar gael yma: <https://www.outcomesstar.org.uk/using-the-star/see-the-stars/work-star/>


- 6.17 Mae hyn yn awgrymu bod y cynnydd mwyaf a sicrhawyd wedi digwydd mewn perthynas ag uchelgais a chymhelliant cyfranogwyr, sgiliau chwilio am swydd, a sgiliau swydd a phrofiad.
- 6.18 Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag effaith y cymorth a ddisgrifiwyd gan gyfranogwyr yn ystod cyfweiliadau a gynhaliwyd fel rhan o'r cam hwn o'r gwerthusiad. Yn wir, myfyriodd cyfweledigion bod y cymorth wedi eu helpu i wella eu lles (21/30 cyfranogwr) a'i fod wedi newid eu huchelgais (15/30 cyfranogwr). Gan ddisgrifio'r olaf, myfyriodd cyfranogwyr bod ADTRAC wedi eu helpu i ystyried dewisiadau newydd, ei fod wedi 'agor eu llygaid' i swyddi y gallent fynd amdanynt, a'i fod wedi eu galluogi i nodi'r camau nesaf y byddent yn eu helpu i wireddu eu huchelgais, megis cyrsiau hyfforddiant priodol.
- 'Mae wedi rhoi syniad ehangach i mi o'r swyddi y gallaf eu cyflawni, a pha swyddi yr wyf yn addas ar eu cyfer. Mae wedi newid fy nodau rhyw ychydig... mae ADTRAC wedi fy helpu i ymgeisio am swyddi y byddwn yn addas ar eu cyfer ac maent wedi helpu i wella fy CV...' **(Cyfranogwr, ID 24)**
- 6.19 Bu rhai a gyfwelwyd yn myfyrio hefyd bod eu cyfranogiad yn ADTRAC wedi eu helpu i ddysgu sgiliau newydd a gwella eu cyflogadwyedd. Trafodwyd hyn gan 27/30 o'r cyfweledigion. Disgrifiodd cyfranogwyr sut yr oedd y cymorth wedi eu galluogi i feithrin sgiliau ymarferol newydd megis codi a chario, cymorth cyntaf, a sgiliau ym maes bwyd a lletygarwch, fel y myfyriwyd gan 109 o gyfranogwyr ADTRAC a sicrhodd ardystiad perthnasol i fyd gwaith o ganlyniad i'r ymyriad. Yn ogystal, myfyriodd wyth cyfranogwr bod y cymorth wedi eu helpu i ddatblygu a gwella eu CVs, a thrafododd pedwar sut yr oedd wedi eu helpu i wella eu sgiliau cyfweld a'u hyder.
- 6.20 O blith y cyfranogwyr a gyfwelwyd, roedd tri wedi symud ymlaen i gael gwaith o ganlyniad i'w cyswllt gydag ADTRAC, roedd tri wedi dechrau gwirfoddoli, roedd tri wedi cychwyn ar leoliad, ac roedd chwech wedi symud ymlaen i addysg. Fodd bynnag, mynegwyd rhwystredigaeth gan un cyfranogwr na fu modd iddo sicrhau profiad gwaith trwy gyfrwng ADTRAC, ac awgrymodd y dylai mwy o gyfleoedd fod ar gael. Nododd y cyfranogwr hwn bod eu diffyg profiad yn rhwystr parhaus er

mwyn sicrhau cyflogaeth, a'u bod wedi cael eu gwrthod sawl gwaith yn dilyn cyfweliadau o ganlyniad.

### Lleihad mewn Rhwystrau

- 6.21 Wrth gychwyn ar y prosiect, roedd cyfranogwyr yn wynebu 8.0 rhwystr ar gyfartaledd wrth geisio ymgymryd ag EET, a dynnwyd o restr o 26 o rwystrau cyffredin a brofir (rhoddir crynodeb yn Ffigurau 6.3 a 6.4 isod). Ymhlith y cyfranogwyr hynny sydd wedi gadael y cymorth, roedd nifer gyfartalog y rhwystrau a brofwyd ychydig yn is (profwyd 7.1 rhwystr ar gyfartaledd). Erbyn iddynt adael y cymorth, roedd nifer gyfartalog y rhwystrau y mae'r grŵp hwn yn eu hwynebu wedi gostwng i 3.2.
- 6.22 Mae Ffigwr 6.3 yn amlygu sut yr oedd y rhwystrau wrth gychwyn yn wahanol ymhlith yr holl gyfranogwyr a'r rhai sydd wedi gadael. Efallai ei bod yn peri syndod bod cyfran yr unigolion sy'n profi pob rhwystr wrth gychwyn yn uwch ymhlith unigolion sydd wedi gadael y cymorth o'i chymharu â'r holl gyfranogwyr ar draws mwyafrif y rhwystrau. Gallai hyn ddynodi bod y prosiect yn llwyddo i gynorthwyo cyfranogwyr sy'n wynebu nifer uchel o rwystrau. Fodd bynnag, mae'r gymhariaeth yn dangos bod cyfran lai o'r rhai sydd wedi gadael y cymorth yn blant a oedd yn derbyn gofal/wedi gadael gofal, yn gyn droseddwy neu mewn perygl o fod yn ddigartref, a allai ddynodi bod y prosiect yn cael llai o lwyddiant wrth symud y cyfranogwyr hyn i sicrhau canlyniad.

**Ffigwr 6.3: Cyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn profi pob rhwystr wrth gychwyn gydag ADTRAC: cymhariaeth rhwng cyfranogwyr sydd wedi gadael y cymorth a'r holl gyfranogwyr.**



6.23 Mae Ffigwr 6.4 yn dangos sut yr oedd pob rhwystr wedi lleihau ymhlith cyfranogwyr a oedd wedi gadael y cymorth, wrth gymharu cyfran y cyfranogwyr a

oedd wedi profi pob rhwystr wrth gychwyn gyda'r gyfran a oedd wedi eu profi wrth adael y cymorth. Mae hyn yn dynodi bod y prosiect wedi cael effaith arbennig o fawr wrth leihau'r rhwystrau canlynol:

- Anhawster wrth ymgysylltu ag EET: cofnododd 9% bod hwn yn rhwystr wrth iddynt adael, o'i gymharu â 53% wrth gychwyn.
- Diffyg profiad/cyflogadwyedd: cofnododd 29% o gyfranogwyr bod hwn yn rhwystr wrth iddynt adael, o'i gymharu â 68% wrth gychwyn.
- Diffyg sgiliau a chymwysterau: cofnododd 25% o gyfranogwyr bod hwn yn rhwystr wrth iddynt adael, o'i gymharu â 69% wrth gychwyn.

6.24 Mae hyn yn awgrymu bod ADTRAC yn helpu i symud unigolion yn agosach i'r farchnad lafur.

6.25 Mae'r data hwn yn awgrymu bod y cymorth yn helpu i wella canlyniadau meddal, wrth i lai o gyfranogwyr gofnodi materion megis hyder, arwahanrwydd cymdeithasol a sgiliau cyfathrebu fel rhwystrau wrth adael y cymorth. Roedd hyn ar ei amlycaf mewn perthynas â hyder, wrth i 46% yn llai o gyfranogwyr gofnodi bod hyder yn rhwystr wrth adael o'u cymharu â phan ddechreuont gael cymorth. Roedd y rhwystr hwn wedi gweld y newid mwyaf o ran cyfran y cyfranogwyr a'i gofnododd wrth adael o'i gymharu ag wrth gychwyn cael cymorth.


6.26 Mae hyn yn adleisio'r canfyddiadau o gyfweiliadau gyda chyfranogwyr, lle'r oedd yr holl gyfranogwyr wedi myfyrio bod y cymorth wedi gwella eu hyder. Roedd hyn yn ymwneud â hyder yn yr ymdeimlad o hunan-gred cyfranogwyr a'u hyder cymdeithasol a'u gallu i ryngweithio gyda phobl arall.

'[Pa effaith oedd ADTRAC wedi ei chael arnaf i?] Hyder yn bennaf: Gallaf siarad â phobl nawr. Rydw i'n teimlo'n gyffyrddus mewn amgylchedd grŵp a byddaf yn gadael y tŷ yn fwy heb deimlo paranoia. Rydw i wedi dysgu llawer o ganlyniad iddyn nhw. Mae fy nodau wedi newid. Cyn ADTRAC, fy swydd oedd casglu sbwriel. Nid oeddwn yn credu y byddwn yn dymuno gwneud unrhyw beth – nawr, rydw i'n dymuno gweithio gydag anifeiliaid, gwneud gwaith fferm neu goedwigaeth.'

**(Cyfranogwr, ID 15)**




**Ffigwr 6.4: Cyfran y cyfranogwyr sy'n wynebu pob rhwystr wrth gychwyn a gadael ADTRAC**



Sylfaen: Cyfranogwyr sydd wedi gadael cymorth (n = 277)

6.27 Gofynnwyd i gyfranogwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn cyfweiliadau i fyfyrio hefyd am y rhwystrau yr oeddent wedi eu hatal rhag ymgymryd ag EET cyn ymuno ag ADTRAC. Codiwyd eu hymatebion ansoddol gan yr ymchwilyr er mwyn nodi rhwystrau cyffredin, a rhoddir crynodeb o'r rhain yn Ffigwr 6.5.

**Ffigwr 6.5: Nifer y cyfranogwyr a oedd wedi wynebu pob rhwystr i ymgymryd â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant cyn cychwyn ADTRAC**



Ffynhonnell: Cyfweiliadau Cyfranogwyr (sylfaen = 30)

6.28 Y rhwystr mwyaf cyffredin ymhlith cyfranogwyr yn y cyfweiliadau oedd materion iechyd meddwl, a nodwyd fel rhwystr i'w gallu i ymgymryd ag EET gan 17/30 cyfranogwr.

6.29 Myfyriodd mwyafrif y cyfranogwyr (27/30) bod y cymorth a gawsant trwy ADTRAC wedi eu helpu i oresgyn y rhwystrau yr oeddent wedi'u profi. Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, bu cyfranogwyr yn trafod amlaf sut yr oedd y cymorth wedi eu helpu i oresgyn neu reoli eu hiechyd meddwl a'u lles, yn enwedig sialensiau mewn perthynas â gorbryder a hyder cymdeithasol isel, yr oedd yn ymddangos yn rhywbeth arbennig o gyffredin ymhlith cyfranogwyr.

6.30 Bu cyfranogwyr yn myfyrio hefyd ynghylch sut yr oedd y gallu i fanteisio ar gyrsiau trwy gyfrwng ADTRAC wedi eu galluogi i feithrin eu sgiliau yn y gweithle (megis cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch, a chodi a chario), sicrhau cymwysterau ac ychwanegu i'w CVs. Mewn sawl achos, roedd hyn wedi arwain at gyfranogwyr yn symud ymlaen i waith neu leoliadau. At hynny, nododd llond llaw o gyfranogwyr bod ADTRAC wedi eu helpu i oresgyn rhwystrau mewn perthynas â chyllid trwy ddarparu cyllid iddynt deithio i'r gwaith ac er mwyn talu am iwniffformau.

'Mae'r cymorth gan y grŵp lles a chan fy hyfforddwr lles wedi helpu fy hyder yn fawr ac erbyn hyn, nid yw gadael y tŷ na chyfarfod neu siarad gyda phobl newydd yn broblem i mi. Mae ADTRAC wedi trefnu sawl cwrs ar fy nghyfer... felly mae gennyf gymwysterau nawr. Yn ogystal, mae ADTRAC wedi fy helpu i gael lleoliad gwaith ac rydw i'n mynd i gychwyn ar brentisiaeth.' **(Cyfranogwr, ID 23)**

### Goblygiadau COVID-19

6.31 Nid oedd COVID-19 yn ffocws amlwg y cam hwn o'r gwaith ymchwil, gan bod pandemig y coronafeirws wedi lledaenu i'r DU ar ôl cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith maes. Fodd bynnag, cynhaliwyd y cyfweiliadau ar yr adeg pan gychwynwyd cyfnod clo y DU, a gwneir llond llaw o gyfeiriadau at y pandemig sy'n dechrau rhoi awgrym o rai o'r effeithiau y gallai'r pandemig eu cael ar gyfranogwyr.

6.32 Er enghraifft, nid oedd un cyfranogwr a oedd wedi dechrau gweithio yn gweithio mwyach o ganlyniad i'r pandemig, ac roedd dyddiad cychwyn lleoliad un arall wedi cael ei oedi tan ddiwedd y cyfnod clo. Er na all y gwerthusiad hwn sôn am effaith COVID-19 ar ddarpariaeth ADTRAC na'i effaith ar gyfranogwyr, mae'r sylwadau hyn gan gyfranogwyr yn arwydd o'r ffaith y gallai dilyniant cyfranogwyr i EET gael ei atal neu ei ddadwneud o ganlyniad i oblygiadau COVID-19.

6.33 O ystyried hyn, efallai y bydd angen i'r gweithrediad ystyried sut y gall sicrhau na fydd unigolion a oedd wedi gadael yn gadael y trywydd y maent arno, a bod cymorth ar gael er mwyn helpu'r unigolion hyn i ailgydio ym mhethau os bydd yr argyfwng diweddar yn golygu eu bod yn NEET unwaith eto.


## Effaith ar Gyfranogwyr: Safbwynt y Staff

- 6.34 Mae cyfranogwyr yn ADTRAC yn wynebu nifer o rwystrau cyffredin sy'n eu hatal rhag ymgymryd ag EET. Fel rhan o arolwg, gofynnwyd i staff rheoli a darparu fyfyrion am y rhwystrau cyffredin yr oeddent wedi dod ar eu traws ymhlith cyfranogwyr, yr oeddent wedi effeithio ar eu cynnydd wrth symud ymlaen i EET. Mae'r rhwystrau a nodwyd ganddynt yn cynnwys y materion canlynol:
- Iechyd a lles gwael
  - Bywyd teuluol neu fywyd cartref cymhleth
  - Problemau tai
  - Camddefnyddio sylweddau
  - Diffyg cyfleoedd
  - Problemau ariannol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r hawl i gael budd-daliadau
  - Diffyg uchelgais
  - Hyder isel
  - Problemau trafndiaeth
  - Diffyg profiad
  - Diweithdra cenedliadol yn yr ardal leol
  - Diffyg sgiliau/cymwysterau
- 6.35 Mae'r rhwystrau a nodwyd yn adleisio'r rhai a nodwyd yn ystod cyfweiliadau gyda chyfranogwyr ac a gasglwyd trwy'r Data Monitro Cyfranogwyr ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd staff rheoli a darparu wedi cyfeirio at faterion ynghylch diweithdra cenedliadol yn yr ardal leol hefyd.
- 6.36 Gofynnwyd i staff rheoli a darparu i ba raddau yr oeddent yn credu bod y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn briodol er mwyn goresgyn y rhwystrau uchod. Nododd yr holl staff eu bod yn teimlo bod y cymorth yn briodol i ryw raddau, a nododd

89% o'r staff ei fod yn briodol iawn. Wrth esbonio eu hymatebion, nododd mwyafrif y staff eu bod yn teimlo bod y cymorth yn briodol o ganlyniad i'r cymorth iechyd meddwl a gynigir, yn ogystal â'r cynnig cymorth pwrpasol (a oedd yn golygu bod staff yn gallu gweithio gyda chyfranogwyr i nodi eu hanghenion cymorth a darparu cymorth pwrpasol a oedd yn rhoi sylw i'w rhwystrau penodol, yn hytrach na darparu'r un cymorth i bawb). Mae hyn yn cyd-fynd â safbwyntiau cyfranogwyr ADTRAC a gasglwyd yn ystod cyfweiliadau. Yn wir, roedd cyfranogwyr yn aml yn nodi eu bod yn teimlo bod y cymorth yn ddefnyddiol, ac yn aml, roeddent yn canmol natur 'bersonoledig' y cymorth a gynigir.

6.37 Gofynnwyd i staff rheoli a darparu nodi pa agweddau ar y cymorth a gynigir sydd fwyaf llwyddiannus yn eu barn nhw wrth oresgyn y rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu. Dangosir yr agweddau mwyaf cyffredin a drafodwyd ganddynt yn Ffigwr 6.6.

**Ffigwr 6.6: Themâu mwyaf cyffredin wrth ymateb i'r cwestiwn: "Pa agweddau ar y cymorth a ddarperir gan ADTRAC sydd fwyaf llwyddiannus wrth oresgyn y rhwystrau a nodwyd gennych uchod yn eich barn chi?"**




Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 48)

6.38 Fel y dangosir yn Ffigwr 6.6 uchod, y nodwedd fwyaf gyffredin a nodwyd gan staff oedd y bartneriaeth gyda BIPBC a'r ffaith bod Ymarferwyr Iechyd Meddwl ar gael.

- 6.39 'Mae cael y nyrs iechyd meddwl wedi bod yn werthfawr iawn ar adegau er mwyn eu cychwyn ar eu taith ADTRAC weithiau. Ar ôl i ni feithrin eu hyder a'u hymwreiddio yn y prosiect, manteisio ar help iechyd meddwl, hefyd, mae'n haws meithrin eu hyder a'u cymhelliant.' (Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ID 1)
- 6.40 Yn ogystal, bu staff yn trafod materion megis pwysigrwydd cael cyllid ar gael er mwyn manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion cyfranogwyr, yn ogystal ag er mwyn cynorthwyo cyfranogwyr gyda rhwystrau ariannol megis costau trafndiaeth.
- 6.41 Roedd naw deg tri y cant o'r staff rheoli a darparu yn cytuno bod ADTRAC yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol parhaus i gyfranogwyr unigol. Nodir amrediad y canlyniadau yr oedd y staff yn teimlo fel pe bai ADTRAC yn helpu i'w sicrhau yn Ffigwr 6.7.

**Ffigwr 6.7: Cyfran y staff rheoli a darparu oedd yn cytuno bod y prosiect yn sicrhau'r canlyniadau canlynol i gyfranogwyr**



Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 48)

6.42 Mae Ffigwr 6.7 yn dangos bod staff rheoli a darparu yn teimlo ran amlaf o lawer bod y prosiect yn cyfrannu at symud pobl ifanc yn agosach at y farchnad lafur, gyda chyfrannau uchel iawn o staff yn cytuno bod y prosiect yn helpu i wella sgiliau cyflogadwyedd cyfranogwyr (96% yn cytuno), yn ogystal â symud cyfranogwyr i EET (91% yn cytuno). Fodd bynnag, pan ofynnwyd i staff beth oeddent yn teimlo oedd *prif* effeithiau'r prosiect ar gyfranogwyr, yr effeithiau mwyaf cyffredin a drafodwyd oedd lles gwell (trafodwyd gan 48% o'r ymatebwyr i'r arolwg) a meithrin hyder (trafodwyd gan 46%). Mewn cymhariaeth, trafododd 29% o'r ymatebwyr gyflogadwyedd gwell. Mae hyn yn adleisio rhai o'r sylwadau a wnaethpwyd gan staff rheoli a darparu a wnaethpwyd ynghylch targedau'r prosiect, lle y nododd rhai staff eu bod yn teimlo fel pe bai'r canlyniadau meddal oedd yr agwedd bwysicaf ar y prosiect.

6.43 Mewn cyfweiliadau gyda staff rheoli a darparu, roeddent wedi disgrifio'r effeithiau canlynol ar gyfranogwyr:

- 6.44 **Iechyd meddwl a lles gwell**, a drafodwyd gan 8/9 cyfranogwr. Roedd hyn yn cynnwys helpu cyfranogwyr i reoli problemau iechyd meddwl megis gorbryder ac iselder, helpu cyfranogwyr i oresgyn hyder isel, a helpu i symud cyfranogwyr o arwahanrwydd cymdeithasol. I rai cyfranogwyr, roedd y trawsnewidiad yn arbennig o fawr.
- 6.45 'Ar y cyfan, mae'n caniatáu i bobl ifanc ddeall eu cyflyrau – mae'n eu helpu i fyw eu bywyd gyda'r cyflyrau iechyd meddwl hynny... Mae rhai wedi mynd o sefyllfa lle nad oeddent yn gadael y tŷ, i gael swydd a bod yn llwyddiannus yn eu cyflogaeth.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**
- 6.46 **Datblygu sgiliau gwaith a phrofiad**, a drafodwyd gan 6/9 cyfweledig. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc yn datblygu cymwysterau sylfaenol megis llythrennedd a rhifedd, mynychu cyrsiau neu leoliadau, a datblygu eu CVs neu eu sgiliau cyfweld.
- 6.47 **Datblygu uchelgais**, a drafodwyd gan 2/9 cyfweledig. Roeddent yn myfyrio nad yw cyfranogwyr weithiau 'yn gwybod yr hyn y maent yn dymuno ei wneud' neu nad oes ganddynt yr hunan-gred er mwyn teimlo y gallant wireddu eu huchelgais, ond roedd ADTRAC wedi eu helpu i ddeall pa swyddi oedd ar gael ac i osod nodau.
- 6.48 **Gwelliant mewn canlyniadau meddal**, a drafodwyd gan chwech o'r rhai a gyfwelwyd. Roedd y canlyniadau meddal yn cynnwys hyder, cymhelliant, a sgiliau trosglwyddadwy. Barnwyd bod y rhain yn sylfaenol wrth helpu cyfranogwyr i fanteisio ar gyfleoedd eraill ac i ymgysylltu'n llawn gyda'r agwedd cyflogadwyedd ar waith ADTRAC.
- 6.49 **Gwell sefydlogrwydd** – disgrifiodd wyth o blith naw aelod o staff bod y cymorth wedi helpu i wella sefydlogrwydd cyfranogwyr. Wrth ddechrau cael cymorth, bydd bywydau cartref rhai unigolion yn ansefydlog neu byddant yn wynebu problemau eraill sy'n cyfyngu ar eu sefydlogrwydd. Bu staff yn myfyrio bod ADTRAC yn werthfawr wrth helpu'r cyfranogwyr hyn i fanteisio ar ffynhonnell sefydlogrwydd, cymorth a phatrwm. Ystyriwyd bod cymorth ADTRAC wedi helpu cyfranogwyr i ddatblygu strategaethau ymdopi sy'n eu helpu i reoli problemau y gallent fod yn achosi ansefydlogrwydd.



- 6.50 Sgiliau newydd, gan gynnwys sgiliau cyflogadwyedd megis gwasanaeth cwsmeriaid a chymorth cyntaf, a sgiliau meddal megis sgiliau cymdeithasol a sgiliau cyfathrebu gwell – trafodwyd y rhain gan ddau gyfweledig.

### Casgliadau

- 6.51 Mae ADTRAC yn arwain at ystod eang o ganlyniadau i gyfranogwyr, gan gynnwys:
- Canlyniadau caled megis cyfranogwyr yn symud ymlaen i EET.
  - Canlyniadau mwy meddal megis:
  - Gwelliannau yn lles cyfranogwyr.
  - Symud cyfranogwyr yn agosach at EET trwy ddatblygu sgiliau newydd a thrwy roi help ymarferol megis rhoi cymorth wrth baratoi CV.
  - Lleihad o ran y rhwystrau i EET y bydd cyfranogwyr yn eu hwynebu erbyn iddynt adael o'i chymharu â'r adeg pan ddechreuont gael cymorth, gan gynnwys:
  - Gostyngiad mewn rhwystrau caled megis diffyg cymwysterau neu sgiliau priodol; a
  - Gostyngiad mewn rhwystrau meddal, er bod y rhain yn rhai sylfaenol, megis hyder isel, diffyg cymhelliant, arwahanrwydd cymdeithasol, a sialensiau cyfathrebu.
- 6.52 Mae'n ymddangos bod llwyddiant y cymorth wrth sicrhau bod cyfranogwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth, yn fwy cyfyngedig, gan mai dim ond 35% o'r cyfranogwyr oedd wedi symud ymlaen i gyflogaeth. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y cymorth yn llwyddiannus iawn wrth leihau'r rhwystrau i EET ymhlith y garfan a dargedwyd, yn ogystal ag wrth arwain at ganlyniadau meddal megis lefelau hyder a lles gwell. Er enghraifft, er bod 57% o gyfranogwyr ADTRAC a oedd wedi gadael y cymorth wedi symud ymlaen i EET, cofnododd 87% o'r

cyfranogwyr gynnydd yn eu lefelau lles ac roedd 71% wedi gweld cynnydd o ran pa mor barod oeddent ar gyfer byd gwaith.<sup>35</sup>

- 6.53 Mae'n bosibl y bydd y canlyniadau hyn yn helpu i symud unigolion yn agosach i'r farchnad lafur, ond efallai eu bod yn rhy uchelgeisiol o fewn yr amserlenni y mae'n rhaid i'r prosiect gyflawni ynddynt. Fodd bynnag, nid yw hi'n glir i ba raddau y mae'r cyfranogwyr yn llwyddo i gynnal y canlyniadau meddal hyn ar ôl iddynt adael y cymorth, ac efallai y bydd angen cynnal ymchwiliadau pellach er mwyn deall a yw'r rhain yn cael eu cadw, yn enwedig pan na fydd cyfranogwyr yn symud ymlaen i EET, er mwyn sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn arwain at ganlyniadau parhaus.

---

<sup>35</sup> Fel y mesurwyd gan Work Star.

## 7. Canlyniadau i Sefydliadau Darparu

7.0 Mae'r bennod hon yn archwilio effaith y dull amlasiantaethol ar sefydliadau darparu.


### Prif Bwyntiau:

- Mae cyswllt BIPBC wedi helpu i wella'r ddealltwriaeth o anghenion lles ymhlith staff darparu.

### Rôl BIPBC

- 7.1 Roedd cynnwys BIPBC a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn nhîm y prosiect yn helpu i uwchsgilio staff mewn sefydliadau eraill wrth ddeall iechyd meddwl a lles. Yn wir, roedd 80% o staff rheoli a darparu yn cytuno bod cynnwys Ymarferwr Iechyd Meddwl hyfforddedig yn y prosiect wedi eu helpu i feithrin dealltwriaeth well o anghenion lles y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw.
- 7.2 Yn ogystal, roedd 82% o staff yn cytuno bod cynnwys Ymarferwyr Iechyd Meddwl hyfforddedig wedi eu helpu i ymgorffori gweithgarwch lles, megis Pum Ffordd i sicrhau lles, yn eu gwaith.

**Ffigwr 7.1: Safbwyntiau staff rheoli a darparu ynghylch sut y mae cynnwys gweithwyr iechedd meddwl hyfforddedig yn y prosiect wedi effeithio ar y gweithrediad**



Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 46)

7.3 Adroddodd staff rheoli a darparu bod hyfforddiant yr oeddent wedi'i gael gan BIPBC wedi bod o gymorth, a bod eu cyfraniad wedi eu helpu i feithrin eu gwybodaeth o iechedd meddwl, a bod hyn, yn ei dro, wedi eu helpu i gynorthwyo cyfranogwyr yn well yn eu rolau.

'[Mae cynnwys BIPBC wedi] helpu fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o iechedd meddwl a'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu a sut i'w cynorthwyo.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

### Ymgorffori'r Bum Ffordd i sicrhau Lles

7.4 Fel rhan o'r ddarpariaeth cymorth, disgwylir i dimau darparu lleol ymgorffori'r Bum Ffordd i sicrhau Lles wrth iddynt ddarparu cymorth ADTRAC. Mae'r [Bum Ffordd i sicrhau Lles](#) yn set o strategaethau a ddefnyddir yn eang ac sy'n cael eu hyrwyddo gan GIG a sefydliadau iechedd meddwl er mwyn helpu unigolion i gynorthwyo eu hiechedd a'u lles eu hunain. Tra bod cyfranogwyr y mae gofyn iddynt gael cymorth iechedd meddwl arbenigol yn cael eu cyfeirio at y cymorth priodol, caiff y Bum Ffordd i sicrhau Lles eu hymgorffori mewn trefniadau darparu lleol er mwyn sicrhau bod ADTRAC yn cydymffurfio gydag arfer gorau ar gyfer lles meddyliol, yn ogystal â chynorthwyo'r rhai sydd â phryderon iechedd ysgafn i gymedrol.

- 7.5 Mae'r data o'r cyfweiliadau yn awgrymu bod y Bum Ffordd i sicrhau Lles yn cael eu hymgorffori i raddau amrywiol ar draws Cyd-fuddiolwyr. Er enghraifft, adroddodd rhai aelodau o staff bod y Bum Ffordd i Sicrhau Lles yn cael eu hymgorffori ym “mhopeth a wnânt”; nododd eraill bod eu dull yn un mwy ad hoc neu nad ydynt wedi cael eu hymgorffori ddigon. Nid oedd hi'n glir i ba raddau yr oedd hyn oherwydd gwahanol ddulliau gan Gyd-fuddiolwyr neu wahanol ddulliau ymhlith aelodau unigol o staff. Fodd bynnag, myfyriodd rhan fwyaf y staff rheoli a darparu a oedd wedi cymryd rhan mewn cyfweiliadau manwl (7/9) eu bod yn ymgorffori'r Bum Ffordd i sicrhau Lles yn sylweddol.
- 7.6 Nododd mwyafrif y staff darparu (82%) bod cynnwys Ymarferwyr Iechyd Meddwl sydd wedi cael hyfforddiant clinigol yn y prosiect yn eu helpu i gynnwys gweithgarwch lles, gan gynnwys y Bum Ffordd i sicrhau Lles, yn eu gwaith.<sup>36</sup> Dim ond 2% o staff darparu oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn.

### Casgliadau

- 7.7 Mae'n ymddangos bod cynnwys BIPBC yn ADTRAC yn helpu i uwchsgilio staff mewn sefydliadau eraill wrth ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar les a gweithredu'r Bum Ffordd i sicrhau Lles.

---

<sup>36</sup> Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 46).

## 8. Conclusions

- 8.0 Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o brif gasgliadau'r cam hwn o'r gwerthusiad. Dilynr hyn gan gyfres o argymhellion y rhoddir crynodeb ohonynt ym Mhennod 9.

### Casgliadau Cyffredinol

- 8.1 Mae'r gwerthusiad interim hwn yn dod i'r casgliad bod ADTRAC yn brosiect llwyddiannus ac y mae pobl yn ei barchu'n fawr. Mae'r gweithrediad, fodd bynnag, yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r targedau canlyniadau a nodwyd yn y Cynlluniau Busnes, ac mae'n amlwg bod hyn yn rhywbeth pwysig i'w nodi ac yn fater pwysig y mae gofyn rhoi sylw iddo.
- 8.2 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad interim yn dynodi y caiff ADTRAC ei ystyried mewn ffordd gadarnhaol iawn ar draws y grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys cyfranogwyr, staff sy'n darparu'r cymorth, a rhanddeiliaid ehangach. Gwelir bod y gweithrediad yn ychwanegu gwerth ac yn llenwi bwlch yn y cymorth lleol, gan ddarparu cymorth dwys ac wedi'i deilwra ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau cymhleth a lluosog wrth geisio ymuno â'r farchnad lafur. Ceir argraff gref ymhlith rhanddeiliaid bod angen gwneud gwaith i nodi ffyrdd y gellir cynnal y cymorth hwn ar ôl i gyllid ESF ddod i ben.
- 8.3 Nododd yr holl rhanddeiliaid a gyfwelwyd bod ffocws y prosiect ar y rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, ei ddull o ganolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn cynorthwyo pobl ifanc sy'n NEET, a chyswllt BIPBC a – lle y maent ar gael – Ymarferwyr lechyd Meddwl hyfforddedig wrth ddarparu'r prosiect, ymhlith prif gryfderau'r prosiect, gan gynnig 'gwerth ychwanegol' y tu hwnt i'r cymorth sydd ar gael trwy brosiectau cyflogadwyedd eraill. Yn ogystal â chynorthwyo cyfranogwyr i wella eu lles, mae cynnwys BIPBC wedi helpu i uwchsgilio mentoriaid ADTRAC, gan eu galluogi i ddarparu pob agwedd ar y gweithrediad mewn ffordd sy'n cynorthwyo lles cyfranogwyr yn y ffordd orau. Fodd bynnag, mae'n debygol hefyd o fod yn un o'r prif resymau pam bod y prosiect yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r targedau ar gyfer canlyniadau a osodwyd ar ei gyfer yn y Cynllun Busnes (fel y trafodir isod).

## Canlyniadau i Gyfranogwyr

- 8.4 Mae'n ymddangos bod ADTRAC yn perfformio'n dda mewn perthynas â chanlyniadau meddal, ond ei fod wedi bod yn llai llwyddiannus wrth sicrhau canlyniadau caled, yn enwedig mewn perthynas â nifer y bobl ifanc y mae'r cymorth wedi eu symud ymlaen i addysg ar ôl iddynt adael.
- 8.5 Mae'n ymddangos bod y cymorth yn arbennig o lwyddiannus wrth ysgogi gwelliannau mewn sgiliau cyflogadwyedd a lles cyfranogwyr. Mae'r cynnydd yn sgoriau WEMWBS cyfartalog cyfranogwyr erbyn iddynt adael y rhaglen yn dystiolaeth o hyn. O blith yr holl rai sydd wedi gadael y rhaglen, y sgôr gyfartalog pan wnaethant gychwyn oedd 41, ac roedd y sgôr hon wedi codi i 51.8 erbyn iddynt adael. Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol ar lefel ystadegol. Wrth eu cymharu gyda'r sgoriau WEMWBS cyfartalog ar gyfer y garfan hon a gasglwyd trwy Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy'n dangos mai'r sgôr WEMWBS gyfartalog ar gyfer y grŵp oedran hwn yng Ngogledd Cymru yw 50.6, mae hyn yn awgrymu bod cyfranogwyr yn cychwyn ar y rhaglen gyda lefelau lles sydd lawer yn is na'r lefel gyfartalog, ac yn gadael y rhaglen gyda lefelau lles ychydig yn uwch na'r lefel gyfartalog.
- 8.6 Yn yr un modd, ceir tystiolaeth o wahaniaeth arwyddocaol ar lefel ystadegol rhwng sgiliau a chyflogadwyedd cyfranogwyr erbyn iddynt adael y rhaglen, fel y cofnodir gan Work Star. Wrth gychwyn gydag ADTRAC, y sgôr gyfartalog a sicrhawyd ar draws y saith elfen oedd 5.91. Roedd y sgôr gyfartalog erbyn gadael wedi codi i 7.59. At ei gilydd, roedd 71% o gyfranogwyr a oedd wedi gadael y cymorth wedi gweld cynnydd yn eu sgôr Work Star. Pan gaiff mesurau unigol eu dadgyfuno, mae'n ymddangos bod y cynnydd mwyaf wedi cael ei sicrhau mewn perthynas ag uchelgais a chymhelliant cyfranogwyr, eu sgiliau chwilio am swydd a'u sgiliau swydd a'u profiad.

- 8.7 Mae ADTRAC wedi llwyddo i ostwng nifer y rhwystrau i EET y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu hefyd. Mae data monitro yn dynodi, rhwng cychwyn a gadael, bod nifer gyfartalog y rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu yn gostwng 4 (o 7 rhwystr cyfartalog i 3). Gwelwyd tystiolaeth ansoddol o hyn hefyd, wrth i sawl cyfranogwr a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad interim nodi “na allent hyd yn oed adael y tŷ” cyn iddynt fanteisio ar ADTRAC, ond bod ADTRAC wedi eu galluogi i fynychu sesiynau a rhyngweithio gyda phobl arall. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi arwain at y cyfranogwr yn symud ymlaen i EET.
- 8.8 Er gwaethaf y canlyniadau meddal hyn a gyflawnwyd yn llwyddiannus, fodd bynnag, mae gan y gweithrediad ychydig o waith i'w wneud i gyflawni ei dargedau a'i ganlyniadau caled mewn perthynas â chanlyniadau perfformiad a thargedau cyfranogi. Ar hyn o bryd, caiff benywod ac unigolion sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu eu tangynrychioli. Yn ogystal, mae'r gweithrediad mewn perygl o beidio cyflawni ei dargedau ymgysylltu a'i dargedau canlyniadau ar hyn o bryd, yn enwedig mewn perthynas â chyfran y cyfranogwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth ac sy'n symud ymlaen i addysg/hyfforddiant.
- 8.9 Amlygodd cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid strategol a staff darparu bryderon ynghylch a yw targedau'r prosiect yn realistig, o ystyried y rhwystrau lluosog a chymhleth a wynebir gan y bobl ifanc y mae ADTRAC yn ymgysylltu â nhw. Mae ADTRAC yn ceisio ymgysylltu gydag unigolion sy'n bell iawn i ffwrdd o'r farchnad lafur ar ddechrau'r prosiect, ac mae lefelau uchel o'r cyfranogwyr yn cael problemau gyda hyder isel, arwahanrwydd cymdeithasol, a phryderon iechyd meddwl megis gorbryder ac iselder.
- 8.10 Mynegwyd pryderon gan sawl aelod o staff a rhanddeiliaid strategol bod y dull ar gyfer y targedau yn canolbwyntio ormod ar ganlyniadau caled, a'i fod yn peryglu colli pwysigrwydd canlyniadau mwy meddal i rai cyfranogwyr. Gallai hyn beryglu taflu cysgod ar y ffordd y gallai camau graddol arwain at EET yn y diwedd, er na fydd hyn o fewn amserlen y cymorth efallai. Gallai hyn awgrymu y gallai'r prosiect gael budd o roi mwy o ffocws ar dargedau canlyniadau mwy meddal, gan alluogi'r gweithrediad i ddangos ei werth yn hyn o beth. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun pandemig COVID-19 sy'n parhau, sy'n debygol o achosi dirwasgiad



yng Nghymru, gan wneud y targedau hyn yn anos fyth i'w cyflawni. Dylid nodi, fodd bynnag, bod rhanddeiliaid eraill o'r farn bod y targedau canlyniadau caled o fewn cyrraedd.

- 8.11 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cam hwn o'r gwerthusiad yn awgrymu bod rhywfaint o ddiffyg cyswllt rhwng y targedau ar gyfer ADTRAC a'r garfan y mae'n darparu ar eu cyfer. Nid oedd hi'n glir o'r cam hwn o'r gwerthusiad a oedd y diffyg cysylltiad hwn o reidrwydd yn deillio o'r ffaith bod y targedau'n amhriodol neu a oedd cyfranogwyr yn cael eu recriwtio yr oedd ganddynt rwystrau sy'n fwy cymhleth nag y bwriadwyd i'r cymorth eu cynorthwyo. Mae nifer anghymesur o uchel y cyfranogwyr a recriwtiwyd i'r prosiect yr oeddent yn anabl neu wedi cofnodi cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, yn dynodi bod y prosiect yn ymgysylltu gyda nifer uwch o gyfranogwyr sy'n wynebu'r rhwystrau hyn nag a ragwelwyd yn ystod y cam o gynllunio'r prosiect. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod gweithgarwch ymgysylltu gyda rhanddeiliaid yn dynodi mai bwriad ADTRAC oedd cynorthwyo cyfranogwyr sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, a bod hyn yn rhan o werth ychwanegol y dull.
- 8.12 Mae'n fwy tebygol y bydd cyfranogwyr sy'n wynebu rhwystrau lluosog a chymhleth yn gorfod cael cymorth o natur hirdymor er mwyn eu galluogi i feithrin ymddiriedaeth gyda chynghorwyr a datblygu sgiliau sylfaenol megis hyder. Gall y rhain, yn eu tro, helpu i baratoi unigolion ar gyfer EET, ond ar gyfer y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf, gall gymryd amser hir i gynghorwyr ddatblygu'r sylfeini hyn. Gallai hyn ddynodi bod angen i'r prosiect adolygu ei dargedau, o ystyried y rhwystrau lluosog a chymhleth y mae'r garfan y mae'r gweithrediad yn ei chynorthwyo yn eu hwynebu.
- 8.13 Mater cysylltiedig y gallai fod yn effeithio ar allu ADTRAC i gyflawni ei dargedau canlyniadau a chyfranogi presennol yw hyd y cyfnod y bydd cyfranogwyr yn cael cymorth gan y gweithrediad, a allai fod yn tanseilio ei allu i symud rhagor o gyfranogwyr i'r prosiect. Fel y trafodwyd ym Mhennod 5 (Cynnydd a Pherfformiad), roedd 44% o gyfranogwyr a oedd wedi gadael y cymorth wedi cael cymorth am dros chwe mis, ac roedd 14% wedi cael cymorth am gyfnod hirach na blwyddyn. Yng ngoleuni hyn, efallai y bydd angen i'r gweithrediad ystyried ai ei

flaenoriaeth yw darparu cymorth hirdymor i bobl ifanc NEET neu gyflawni targedau canlyniadau, gan bod y blaenoriaethau hyn yn addas i wahanol ddulliau (gan gynnwys a ddylid cyflwyno cyfyngiadau ar hyd y cyfnod y gall y gweithrediad gynorthwyo cyfranogwyr neu a ddylid lleihau'r targedau er mwyn galluogi'r prosiect i ddarparu mwy o gymorth dros y tymor hir).

- 8.14 Er y gallai'r dull cyntaf fod yn fwy addas ar gyfer “enillion cyflym” a byddai'n galluogi'r gweithrediad i gyflawni ei dargedau cyfranogi, gallai'r dull hwn fod ar draul llwyddiant y gweithrediad wrth leihau'r rhwystrau i EET y bydd cyfranogwyr yn eu profi, a byddai'n gwaredu nodwedd arbenigol ADTRAC sef cynorthwyo pobl ifanc sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

### Darparu'r Prosiect

- 8.15 Roedd yr adborth ynghylch sut y darperir y prosiect ar hyn o bryd yn gadarnhaol ar y cyfan mewn tystiolaeth gan yr holl randdeiliaid. Myfyriodd staff eu bod yn teimlo fel pe bai'r cymorth a ddarperir yn briodol er mwyn bodloni'r rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu, ac roedd staff a rhanddeiliaid ehangach yn teimlo'n gadarnhaol am y dull darparu un-i-un, a ystyriwyd yn nodwedd arbennig ADTRAC, a oedd yn golygu ei fod yn addas er mwyn cynorthwyo cyfranogwyr yr oeddent bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.
- 8.16 Fodd bynnag, roedd sialensiau o hyd wrth geisio bodloni anghenion iechyd meddwl a lles cyfranogwyr o ganlyniad i sialensiau wrth recriwtio i rolau Ymarferwyr Iechyd Meddwl mewn rhai ardaloedd Cyd-fuddiolwyr. Barnwyd bod hyn o ganlyniad i brosesau recriwtio araf BIPBC. Yn ogystal, adroddodd rhai aelodau o staff ddryswch ynghylch y gwaith o gydlynu'r rolau hyn, ac nid oeddent yn siŵr ble oedd y cyfrifoldebau a'r gwaith rheoli yn perthyn rhwng Cyd-fuddiolwyr a BIPBC.
- 8.17 Yn ogystal, roedd staff darparu wedi mynegi pryderon yn gyson ynghylch effeithiolrwydd y DPS, ac roedd rhai yn barnu 'nad oedd yn addas i'r diben'. Nododd staff sut y gallai prosesau 'araf' wrth ddefnyddio'r DPS arwain at gyfranogwyr yn ymddieithrio. Mae hwn yn faes y byddai o fudd ei wella efallai.

- 8.18 Roedd cyfranogwyr yn teimlo'n arbennig o gadarnhaol am y cymorth a ddarperir. Fodd bynnag, dylid nodi nas defnyddiwyd sampl haenedig er mwyn adnabod cyfweledigion. O ganlyniad, gallai'r cyfweiliadau a gynhaliwyd fod yn gynrychioladol o safbwyntiau'r holl gyfranogwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi ymddieithrio o'r cymorth. O ganlyniad, dylai gwaith gwerthuso pellach geisio archwilio tybiaeth carfan ehangach o gyfranogwyr er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau yn gynrychioladol o'r grŵp cyfranogwyr ehangach.

### Goblygiadau COVID-19

- 8.19 Roedd gweithgarwch ymgysylltu gyda chyfranogwyr wedi cynnig rhai arwyddion cynnar o sut y gallai COVID-19 arwain at ganlyniadau'n cael eu dadwneud o ganlyniad i gyfleoedd swyddi yn cael eu gohirio. Gallai hyn arwain at sefyllfa lle y bydd cyfranogwyr sydd wedi gadael yn ddi-waith unwaith eto. Yn ogystal, yng nghyd-destun dirwasgiad posibl, gallai niferoedd y cyfleoedd cyflogaeth fod yn llai, ac fe allai hyn gael effaith niweidiol ar allu y gweithrediad i sicrhau canlyniad cyflogaeth i bobl ifanc sy'n gadael.
- 8.20 Er bod y mater hwn y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad presennol, mae'n debygol hefyd y bydd y pandemig a mesurau cysylltiedig y cyfnod clo wedi cael effaith niweidiol ar iechyd meddwl a lles cyfranogwyr cyfredol/darpar gyfranogwyr. Yn wir, canfu arolwg o 2,111 o bobl ifanc a gynhaliwyd gan YoungMinds bod 83% wedi adrodd am iechyd meddwl yn gwaethygu o ganlyniad i bandemig COVID-19 (YoungMinds, 2020). O ganlyniad, gallai cyfran y cyfranogwyr sy'n dioddef iechyd meddwl a lles gwael fel rhwystr er mwyn symud ymlaen i EET, gynyddu o ganlyniad i'r pandemig, ac fe allai hyn gynyddu cyfran y cyfranogwyr y mae gofyn iddynt gael cymorth mwy dwys gan dîm ADTRAC er mwyn eu symud tuag at y farchnad lafur.

### Dyfodol ADTRAC

- 8.21 Gwelwyd cryn gefnogaeth ar gyfer ADTRAC, a mynegwyd pryderon gan sawl rhanddeiliad ynghylch y bwloch mawr yn y ddarpariaeth cymorth lleol a fyddai heb y cymorth yn ei le.

8.22 Yn ogystal, mynegwyd pryderon mewn perthynas â gallu Cyd-fuddiolwyr i ddal gafael ar staff cymwys a medrus – estyniad neu ddarpariaeth amgen i staff – os na fydd staff yn siŵr a gaiff y prosiect ei ymestyn neu ei ddisodli mewn rhyw ffordd. O'r herwydd, dylai archwilio cyfleoedd i gynnal y ddarpariaeth neu ddarparu map trywydd ar gyfer dewis amgen fod yn flaenoriaeth ar gyfer cam nesaf y gwaith.

## 9. Argymhellion

- 9.0 Isod, nodir manylion argymhellion ynghylch sut y byddai modd gwella'r gweithrediad. Fodd bynnag, nodir y gallai cyd-destun COVID-19 olygu ei bod yn anodd cyflawni rhai o'r rhain.

### Targedau'r Prosiect

- 9.1 **Argymhelliad Un:** Dylai'r gweithrediad ystyried y targedau canlyniadau a chyfranogi arfaethedig yng nghyd-destun y grŵp cyfranogwyr a'r amserlenni ar gyfer cymorth, gan ystyried diwygio targedau yng nghyd-destun dirwasgiad posibl. Dylai'r gweithrediad ystyried ddiwygio targedau i lawr yng nghyd-destun yr effaith y mae COVID-19 yn debygol o'i chael ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sydd ar gael, a bydd angen ystyried yr ardaloedd sy'n gwahardd ADTRAC, megis Cymunedau yn Gyntaf.
- 9.2 **Argymhelliad Dau:** Dylai'r gweithrediad archwilio strategaethau er mwyn cynyddu cyfranogiad gan fenywod, yn ogystal ag unigolion sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill. Fodd bynnag, os nodir bod darpariaeth briodol eisoes ar gael trwy gyfrwng rhaglenni eraill megis PaCE, ni ddylai ADTRAC ddyblygu'r ddarpariaeth hon.

### Darparu'r Prosiect

- 9.3 **Argymhelliad Tri:** Dylai BIPBC gyflymu'r broses o recriwtio Ymarferwyr Lles Cynorthwyol er mwyn sicrhau y gellir bodloni anghenion cyfranogwyr.
- 9.4 **Argymhelliad Pedwar:** Gallai'r gweithrediad weithio law yn llaw â GC a Gweithio dros Gymru er mwyn archwilio cyfleoedd i ddarparu cymorth cyffyrddiad ysgafn i gyfranogwyr a adawodd yn ddiweddar, ac y gallent fod mewn perygl o fod yn NEET unwaith eto o ganlyniad i COVID-19, gyda'r nod o leihau'r effaith.

### Anghenion Ymchwil yn y Dyfodol

- 9.5 **Argymhelliad Pump:** Gallai ymchwil pellach geisio archwilio effaith hydredol y cymorth er mwyn nodi a yw'r cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn helpu cyfranogwyr i symud yn agosach at EET yn y tymor hir, hyd yn oed os na all

cyfranogwyr gyflawni canlyniad yn ystod amserlenni y gweithrediad. Ymhellach, gallai archwilio'r graddau y mae canlyniadau caled llwyddiannus a gyflawnwyd erbyn gadael ADTRAC wedi cael eu cynnal yn y tymor hir.

- 9.6 **Argymhelliad Chwech:** Dylai gwaith gwerthuso yn y dyfodol geisio archwilio tybiaethau carfan ehangach o gyfranogwyr er mwyn sicrhau bod safbwyntiau yn gynrychioladol o grŵp cyfan y cyfranogwyr. Dylai hyn gynnwys – os oes modd – ymgysylltu ag unigolion sydd wedi ymddieithrio o'r cymorth, er mwyn deall meysydd posibl ar gyfer gwelliant.

### Dyfodol ADTRAC

- 9.7 **Argymhelliad Saith:** Ceir achos dros awdurdodau lleol yn gweithio gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn ogystal â BIPBC, er mwyn nodi cyfleoedd i ymestyn ADTRAC neu ei ddisodli gyda darpariaeth debyg pan fydd cylch cyllido cyfredol ESF yn dod i ben.
- 9.8 **Argymhelliad Wyth:** Gan adlewyrchu llwyddiannau ADTRAC wrth sicrhau canlyniadau meddal, ond hefyd, ei drafferthion wrth gyflawni targedau canlyniadau caletach, mae'n ymddangos bod ADTRAC yn llwyddiannus wrth symud cyfranogwyr yn agosach at EET, ond efallai nad yw'n llwyddiannus wrth gyflawni canlyniadau cyflogaeth ar ei ben ei hun. Os cynllunnir rhaglen i olynu ADTRAC, gellid ystyried rhoi mwy o bwyslais ar ddarpariaeth ar gyfer pobl sy'n agosach i'r farchnad lafur, megis lleoliadau profiad gwaith a gwirfoddoli. Byddai'r ddarpariaeth hon yn datblygu'r canlyniadau meddal a gyflawnwyd, a byddai'n cynorthwyo cyfranogwyr i sicrhau gwaith, gan sicrhau bod cyfranogwyr yn parhau i gael cymorth mentora wrth iddynt symud i brofiad gwaith. Neu, gellid ystyried cyfeiriadau i ddarpariaeth arall ar gyfer unigolion sy'n agosach i'r farchnad lafur yn ganlyniad llwyddiannus ar gyfer y ddarpariaeth ar gyfer unigolion sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

## Cyfeiriadau

Allen, M., 2014. *Reducing the number of young people not in employment, education or training (NEET)*, Llundain: Public Health England.

Comisiwn Archwilio, 2010. *Against the odds: re-engaging young people in education, employment or training: local government*, Llundain: Comisiwn Archwilio.

Aylward, N., Klenk, H., Robey-Turner, C. a Wolkind, R., 2018. *Barriers to employment for young adult carers*, Caerlŷr: Sefydliad Dysgu a Gwaith.

BBC, 2020. *Coronavirus: Chancellor Rishi Sunak warns of 'significant recession'*. [Ar-lein] Ar gael trwy droi at: <https://www.bbc.co.uk/news/business-52641807> [Cyrchwyd 15 Mai 2020].

BBC, 2020. *Coronavirus: One million under-25s face unemployment, study warns*. [Ar-lein] Ar gael trwy droi at: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-52555978> [Cyrchwyd 21 Mai 2020].

Bentall, R. et al., 2020. *Covid-19 Psychological Research Consortium: Initial Research Findings on COVID-19 and Mental Health in the UK*, Sheffield: Prifysgol Sheffield.

Sefydliad Bevan, 2020. *Where next for the Welsh economy?*, Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan.

Boyatzis, R. E., 1998. *Transforming qualitative information: Thematic analysis and code development*, Thousand Oaks, CA: Sage.

Braun, V. a Clarke, V., 2013. *Successful qualitative research: A practical guide*, Llundain: SAGE.

Gyrfa Cymru, 2020. *Bwletin GML Gyrfa Cymru: Effaith pandemig COVID-19 ar y farchnad lafur yng Nghymru*, s.l.: s.n.

Carers UK, 2016. *10 facts about women and caring in the UK on International Women's Day - based on analysis from Valuing Carers 2015*. [Ar-lein] Ar gael trwy droi at: <https://www.carersuk.org/news-and-campaigns/features/10-facts-about-women-and-caring-in-the-uk-on-international-women-s-day> [Cyrchwyd 4 Mai 2020].

Coles, B. et al., 2010. *Estimating the life-time cost of NEET: 16-18 year olds not in Education, Employment and Training. Research Undertaken for the Audit Commission*, Efrog: Prifysgol Efrog.

Crawford, C., Duckworth, K., Vinales, A. a Wyness, G., 2011. *Young people's education and labour market choices aged 16/17 to 18/19*, Llundain: Adran Addysg.

Edwards, K., 2016. *Mapio'r Ddarpariaeth a'r Cymorth ar gyfer Pobl Ifanc 16-24 yng Ngogledd Cymru: Adroddiad Prosiect*, s.l.: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Friedli, L. a Parsonage, M., 2009. *Promoting mental health and preventing mental illness: the economic case for investment in Wales*, s.l.: Rhwydwaith Hyrwyddo Iechyd Meddwl.

Goldman-Mellor, S. et al., 2015. Committed to work but vulnerable: self-perceptions and mental health in NEET 18-year olds from a contemporary British cohort. *The Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 57(2), pp. 196-203.

Groundwork Gogledd Cymru, n.d. *TRAC*. [Ar-lein]

Ar gael trwy droi at: <https://www.groundworknorthwales.org.uk/latest/projects/trac/> [Cyrchwyd 21 Awst 2019].

Groundwork, n.d. *Mental health support available for NEET young people in Warwickshire*. [Ar-lein]

Ar gael trwy droi at: <https://www.groundwork.org.uk/mental-health-support-available-for-neet-young-people-in-warwickshire> [Cyrchwyd 21 Awst 2019].

Guest, G., MacQueen, K. M. a Namey, E. E., 2012. *Applied Thematic Analysis*, Los Angeles: SAGE.

Arolwg Iechyd Lloegr, 2016. *Wellbeing and Mental Health*. [Ar-lein]

Ar gael trwy droi at: <http://healthsurvey.hscic.gov.uk/support-guidance/public-health/health-survey-for-england-2016/well-being-and-mental-health.aspx> [Cyrchwyd 3 Ebrill 2020].

Kessler, R. C. et al., 2005. Lifetime Prevalence and Age-of-Onset Distributions of DSM-IV Disorders in the National Comorbidity Survey Replication. *Archives of General Psychiatry*, 62(6), pp. 593-602.

Coleg Kings Llundain, 2015. *Unemployment takes its toll on young people's mental health*. [Ar-lein]

Ar gael trwy droi at:

<https://www.kcl.ac.uk/ioppn/news/records/2015/september/unemployment-takes-its-toll-on-young-peoples-mental-health>

[Cyrchwyd 21 Awst 2019].

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, 2017. *Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru*, s.l.: NWEAB.

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, 2020. *COVID-19 Labour Market Insights: North Wales, Mehefin 2020*, s.l.: s.n.



Swyddfa Ystadegau Gwladol ONS, 2019. *Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), DU: Mai 2019*. [Ar-lein]

Ar gael trwy droi at:

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/unemployment/bulletins/youngpeoplenotineducationemploymentortrainingneet/may2019>

[Cyrchwyd 22 Awst 2019].

Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019. *Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), y Flwyddyn tan 31 Mawrth 2019*. [Ar-lein]

Ar gael trwy droi at: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/young-people-not-in-education-employment-or-training-neet-2018-to-2019-649.pdf>

[Cyrchwyd 22 Awst 2019].

ONS, 2016. *Women shoulder the responsibility of 'unpaid work'*. [Ar-lein]

Ar gael trwy droi at:

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/articles/womenshouldtheresponsibilityofunpaidwork/2016-11-10>

[Cyrchwyd 4 Mai 2020].

Powell, A., 2018. *NEET: Young People Not*, Llundain: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

Powell, R., Bashir, N., Crisp, R. a Parr, S., 2015. *Talent Match Case Study Theme Report: Mental Health & Wellbeing*, Sheffield: Prifysgol Sheffield Hallam.

Ymddiriedolaeth y Tywysog, 2015. *The Prince's Trust Macquarie Youth Index 2015*, s.l.: Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Robertson, P. J., 2018. The casualties of transition: the health impact of NEET status and some approaches to managing it. *British Journal of Guidance & Counselling*, 47(3), pp. 390-402.

Siegriest, J. et al., 2010. *Employment arrangements, work conditions and health inequalities*, s.l.: s.n.

Singh, S. P. et al., 2010. *Transition from CAMHS to Adult Mental Health Services (TRACK): A Study of Service Organisation, Policies, Process and User and Carer Perspectives*, s.l.: s.n.

StatsCymru, 2019. *Graddfa Lles Meddwl Warwick-Edinburgh (WEMWBS) fesul grŵp oedran a rhyw*. [Ar-lein]

Ar gael trwy droi at: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Population-Health/Mental-Health-and-Wellbeing/wemwbsscore-by-age-gender>

[Cyrchwyd 29 Ebrill 2020].

Ysgol Feddygol Warwick, 2020. *Collect, score, analyse and interpret WEMWBS*. [Ar-lein]

Ar gael trwy droi at:

<https://warwick.ac.uk/fac/sci/med/research/platform/wemwbs/using/howto/>

[Cyrchwyd 29 Ebrill 2020].

Llywodraeth Cymru, 2013. *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid. Cynllun Gweithredu. Crynodeb Gweithredol*, s.l.: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2016. *Dogfennau Allweddol Themâu Trawsbynciol – Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Integreiddio'r Themâu Trawsbynciol ar draws Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020*, s.l.: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2018. *Cynllun Cyflogadwyedd*, s.l.: Llywodraeth Cymru.

YoungMinds, 2020. *Coronavirus having major impact on young people with mental health needs – new survey*. [Ar-lein]

Ar gael trwy droi at: <https://youngminds.org.uk/about-us/media-centre/press-releases/coronavirus-having-major-impact-on-young-people-with-mental-health-needs-new-survey/>

[Cyrchwyd 15 Mai 2020].

## 11. Atodiad A: Offerynnau Ymchwil

### Cyfweliadau Manwl dros y Ffôn gyda Staff Rheoli a Darparu: Canllaw Trafod

#### Cyflwyniad

1. A fydddech gystal ag amlinellu eich rôl yn fyr, ynghyd â'ch cyswllt gydag ADTRAC.
  - a. A ydych chi'n cyflawni rôl rheoli neu ddarparu uniongyrchol?

#### Prosesau Recriwtio a Chyfeirio

*Fel rhan o'r cyfweiliad hwn, hoffem feithrin ein dealltwriaeth o daith y cyfranogwr er mwyn cael ymdeimlad gwell o sut y mae cyfranogwyr yn ymgysylltu ag ADTRAC.*

2. Beth yw'r llwybrau cyfeirio arferol sy'n arwain atoch yn ymgysylltu gyda chyfranogwyr?
  - a. A ydych chi'n teimlo bod hwn yn ddull priodol i'w fabwysiadu?
  - b. A oes unrhyw sialensiau penodol yr ydych chi'n eu hwynebu wrth nodi neu ymgysylltu gyda chyfranogwyr?
  - c. Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y byddai modd gwella llwybrau cyfeirio?
3. Pa ddulliau a ddefnyddir i ymgysylltu gyda chyfranogwyr cyn cofrestru (cyn-ymgysylltu)?
  - a. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r prosesau hyn? A oes unrhyw ffyrdd y byddai modd gwella gweithgarwch cyn-ymgysylltu?
4. Yn eich ardal chi, pa mor effeithiol y bu'r prosiect wrth gyflawni ei dargedau recriwtio?
  - a. A oes unrhyw grwpiau penodol y mae'r prosiect wedi ei chael hi'n anodd ymgysylltu â nhw? Os oes, pa strategaethau y byddai modd eu gweithredu er mwyn goresgyn y sialensiau hyn?

#### Darparu Cymorth i Gyfranogwyr

5. Rydym yn deall bod y prosiect yn defnyddio WEMWBS (Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Edinburgh) a Work Star er mwyn nodi anghenion cyfranogwyr. Yn eich barn chi, a yw'r prosesau hyn yn effeithiol?
  - a. A oes unrhyw ffyrdd y byddai modd gwella hyn?
6. Pa fath o gynllunio gweithredu yr ydych chi'n ei wneud gyda chyfranogwyr?
  - a. A ydych chi'n dychwelyd i'r cynlluniau gweithredu hyn gyda chyfranogwyr?
7. Pa fath o gymorth yr ydych chi'n ei ddarparu i gyfranogwyr?
  - a. Pa ddulliau a ffurfiau cymorth/gweithgareddau y mae'n ymddangos eu bod yn gweithio yn arbennig o dda ar gyfer cyfranogwyr?

- b. A oes mathau penodol o gyfranogwyr y mae'r cymorth yn gweithio'n well ar eu cyfer nag eraill?
- c. Yn eich barn chi, a yw amrediad yr ymyriadau a gynigir gan ADTRAC yn addas i anghenion y cyfranogwyr? A oes unrhyw beth y byddech chi'n ei newid?

### **Cyflawni Canlyniadau**

- 8. Yn gyffredinol, sut ydych chi'n teimlo yr ydych yn cyflawni yn erbyn targedau canlyniadau allweddol ar gyfer prosiect ADTRAC?
- 9. Beth fyddech chi'n dweud fu prif effeithiau y cymorth a gynigir trwy ADTRAC ar y bobl ifanc sy'n cael cymorth? A ydych chi'n gallu darparu unrhyw enghreifftiau penodol o'r rhain?

Mae gennym ddiddordeb penodol yn:

- a. A yw'r prosiect wedi cynorthwyo unigolion i feithrin eu sgiliau swydd a'u profiad?
  - b. I ba raddau y mae'r prosiect wedi cynorthwyo unigolion i ddatblygu eu huchelgais?
  - c. I ba raddau y mae'r prosiect wedi cyfrannu at unigolion yn meithrin sgiliau meddwl megis hyder neu gymhelliant?
  - d. I ba raddau y mae'r ymyriad wedi gwella sefydlogrwydd ar gyfer cyfranogwyr?
  - e. I ba raddau y mae'r prosiect wedi cynorthwyo cyfranogwyr i feithrin sgiliau newydd?
10. Yn arbennig, a yw'r prosiect wedi cyfrannu at iechyd meddwl a lles gwell cyfranogwyr? A ydych chi'n gallu rhoi enghreifftiau?
- a. A oes unrhyw enghreifftiau neu ddulliau penodol sydd wedi bod yn effeithiol wrth helpu i gyflawni canlyniadau lles y cyfranogwyr hyn yn eich barn chi?

### **Gweithio mewn Partneriaeth**

*Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y mae'r dull amlasiantaethol wrth ddarparu ADTRAC wedi effeithio ar arferion gwaith sefydliadau a fu'n cymryd rhan a'r cynnig sydd ar gael i'r garfan a dargedir.*

- 11. Mae ADTRAC yn ffrwyth cydweithio rhwng sefydliadau lluosog. A yw'r model hwn wedi helpu i gryfhau perthnasoedd rhwng eich sefydliad chi a phartneriaid eraill a fu'n ymwneud â'r prosiect? Os ydy, sut?
  - a. A yw'r dull gweithredu amlasiantaethol wedi helpu i wella'r cydweithio rhwng y sefydliadau partner sy'n darparu ADTRAC? Os felly, sut?
  - b. A oes unrhyw ffyrdd y byddai modd gwella'r cydweithio rhwng y sefydliadau partner?

12. A yw cynnwys y sefydliadau partner eraill wedi newid arfer gweithio yn eich sefydliad chi? Ym mha ffyrdd?

*Un o'r agweddau unigryw ar ADTRAC, o'i gymharu â chymorth arall er mwyn symud pobl ifanc i'r farchnad lafur, fu'r ffaith ei fod wedi cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol hyfforddedig.*

13. Pa effaith – os o gwbl – y mae cyswllt BIPBC wedi'i gael ar ddarparu'r prosiect a chanlyniadau ADTRAC?
14. A yw cyswllt Betsi Cadwaladr wedi helpu i ychwanegu capasiti neu uwchsgilio unigolion yn eich sefydliad? Os felly, sut?
15. I ba raddau yr ydych chi – a'ch tîm – wedi ymgorffori'r Bum Ffordd i sicrhau Lles yn eich gwaith?
- A oes gofyn i chi gael unrhyw gymorth ychwanegol yn y maes hwn?
  - A yw'r Bum Ffordd i sicrhau Lles wedi bod yn offeryn defnyddiol er mwyn cynorthwyo ac ymgysylltu â'r garfan? Esboniwch eich ateb.
16. I ba raddau yr ydych chi'n teimlo bod ADTRAC yn cyflawni yn unol ag amcanion y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid? Esboniwch eich ateb.

### **Themâu Trawsbynciol**

*Gan bod ADTRAC yn cael arian gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, mae gofyn iddo fodloni'r Themâu Trawsbynciol. Y rhain yw datblygu cynaliadwy a chydaddoldeb rhyw a chyfle cyfartal.*

17. A ydych chi'n gallu darparu unrhyw enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r Themâu Trawsbynciol hyn wedi cael eu hyrwyddo o fewn ADTRAC (gan gynnwys hyrwyddo'r iaith Gymraeg)?

### **Myfyrdodau Olaf**

18. Pa newidiadau, os o gwbl, y byddech chi'n eu gwneud er mwyn gwella ADTRAC?
19. Gan edrych at y dyfodol, beth yw'r prif risgiau y gallent effeithio ar lwyddiant ADTRAC yn eich barn chi? A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y byddai modd goresgyn y risgiau hyn?
20. A oes gennych chi unrhyw beth i'w ychwanegu neu a hoffech chi godi mater nad ydym wedi ei drafod?

## Cyfweliadau Manwl gyda Chyfranogwyr y Prosiect: Canllaw Trafod

1. Pa weithgareddau yr ydych chi wedi'u gwneud gydag ADTRAC?
2. Sut ddechreuodd eich cyswllt gydag ADTRAC?
  - a. A fu dechrau cymryd rhan yn broses syml? Unrhyw awgrymiadau am welliannau?
3. Beth ydych chi'n gobeithio ei sicrhau trwy eich cyswllt gydag ADTRAC?
4. A oddech chi'n teimlo bod unrhyw rwystrau a oedd yn eich atal chi rhag sicrhau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant cyn dechrau gydag ADTRAC? Os oedd, beth oedd y rhain?
5. A yw'r cymorth yr ydych chi wedi'i gael trwy ADTRAC wedi helpu i roi sylw i'r rhwystrau hyn neu eu goresgyn?
6. Cyn ymuno ag ADTRAC, a oeddech chi wedi cael unrhyw gymorth arall i'ch helpu i sicrhau cyflogaeth neu addysg? Sut mae ADTRAC yn wahanol i'r cymorth hwn?
7. Pa effaith y mae'r cymorth yr ydych chi wedi'i gael gan ADTRAC wedi ei gael arnoch chi?
  - a. A ydych chi wedi dysgu unrhyw sgiliau newydd neu wella'ch cyflogadwyedd?
  - b. A yw'ch uchelgais neu'ch nodau wedi newid?
  - c. A ydych chi wedi profi unrhyw newid i'ch lles neu'ch iechyd meddwl?
  - d. A ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newid yn eich hyder neu'ch perthnasoedd cymdeithasol?
  - e. A yw ADTRAC wedi cael unrhyw effeithiau eraill arnoch chi?
8. A ydych chi wedi trafod eich lles gyda chynghorwyr ADTRAC? Os felly, a fu hyn yn ddefnyddiol?
9. Beth yw eich barn chi am y cymorth a ddarparwyd gan ADTRAC?
  - a. Beth fu'r agweddau mwyaf llwyddiannus ar y cymorth yr ydych chi wedi'i gael/gweithgareddau yr ydych chi wedi'u cyflawni? Pam?
  - b. Beth fu'r agweddau lleiaf defnyddiol ar y cymorth yr ydych chi wedi'i gael/gweithgareddau yr ydych chi wedi'u cyflawni? Pam?
10. Yn eich barn chi, a fyddai modd gwneud unrhyw welliannau i ADTRAC?
11. Pe byddai ffrind yn gofyn i chi a ddylen nhw gymryd rhan yn ADTRAC, beth fydddech chi'n ei ddweud wrthynt?
12. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei rannu am eich profiad o ADTRAC?

## Arolwg ar gyfer Staff Rheoli a Darparu: Holiadur

Mae Wavehill yn cynnal gwerthusiad o ADTRAC ar ran Grŵp Llandrillo Menai. Defnyddir y wybodaeth a gesglir er mwyn helpu Grŵp Llandrillo Menai a phartneriaid eraill y prosiect i ddeall y gwahaniaeth y mae'r rhaglen yn ei wneud, ac i ddysgu o'r profiad o ddarparu'r rhaglen. Dewiswyd unigolion y cysylltwyd â nhw fel rhan o'r arolwg oherwydd eu bod yn ymwneud â darpariaeth ADTRAC. Mae'r penderfyniad i gymryd rhan yn yr arolwg, fodd bynnag, yn un gwirfoddol. Gallwch chi benderfynu peidio ateb cwestiynau penodol os ydych yn dymuno. Caiff unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir fel rhan o'r arolwg ei thynnu allan cyn gwneud y gwaith dadansoddi. Ni chyhoeddir eich atebion i'r arolwg mewn ffordd a allai olygu bod partneriaid darparu ADTRAC neu unrhyw un arall yn eich adnabod. Cedwir y wybodaeth ddiennw mewn ffordd ddiogel ac fe'i defnyddir at ddibenion ymchwil anfasnachol yn unig, er mwyn gwerthuso ADTRAC yn benodol. Caiff eich data personol ei ddileu chwe mis ar ôl cwblhau'r gwerthusiad. Ar hyn o bryd, rhagwelir mai ym mis Chwefror 2021 fydd hyn. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu os hoffech drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'r gwerthusiad hwn, gallwch gysylltu â Tom Marshall, sy'n arwain y tîm sy'n cynnal y gwerthusiad yn Wavehill ([tom.marshall@wavehill.com](mailto:tom.marshall@wavehill.com) | 01545 571711), neu gallwch gysylltu â Sara Williams yng Ngrŵp Llandrillo Menai ([willia16s@gllm.ac.uk](mailto:willia16s@gllm.ac.uk)). Gellir gweld copi o'n hysbysiad preifatrwydd [yma](#).

C2 A ydych chi'n hapus i barhau gyda'r holiadur?

*Sylwer y gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod yr holiadur*

- Ydw
- Nac ydw

*Dangoswch y cwestiwn hwn:*

*Os A ydych chi'n hapus i barhau gyda'r holiadur? Sylwer y gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl... = Nac ydw*

C3 **Diolch am eich amser.** Er mwyn gadael yr arolwg hwn, gallwch gau y tab hwn yn eich porwr.

C4 Nodwch pa sefydliad yr ydych chi'n gysylltiedig ag ef.

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Sir y Fflint
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

C5 Beth yw teitl eich swydd?

---

C6 A yw'ch rôl yn cynnwys...?

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- Rheoli staff sy'n darparu ADTRAC
- Ymgysylltu mewn ffordd uniongyrchol gyda chyfranogwyr y prosiect

C7 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol?



	Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
Mae ADTRAC wedi cael ei farchnata a'i hyrwyddo mewn ffordd effeithiol i sefydliadau partner	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae ADTRAC wedi cael ei farchnata a'i hyrwyddo mewn ffordd effeithiol i sefydliadau sy'n cyfeirio	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae ADTRAC wedi cael ei farchnata a'i hyrwyddo mewn ffordd effeithiol i ddarpar gyfranogwyr	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ceir lefelau ymwybyddiaeth da o'r cymorth a gynigir gan ADTRAC ymhlith sefydliadau sy'n cyfeirio	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ceir lefelau ymwybyddiaeth da o'r cymorth a gynigir gan ADTRAC ymhlith pobl ifanc a dargedir	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae prosesau cyfeirio yn glir ac yn hawdd i'w deall	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae targedau cyfranogwyr yn realistig ac o fewn cyrraedd	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

C8 Esboniwch eich atebion i'r cwestiynau uchod yma.

C9 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol?

	Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
Ceir prosesau da i nodi anghenion cyfranogwyr (gan gynnwys anghenion iechyd meddwl)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae prosesau cynllunio gweithredu yn briodol ac yn addas i'r diben	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ailystyri'r nodau cyfranogwyr a chynllunio gweithredu yn ddigon rheolaidd	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae ADTRAC yn cynnig gweithgareddau priodol er mwyn bodloni anghenion cyflogadwyedd a diddordebau cyfranogwyr	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae ADTRAC yn cynnig gweithgareddau priodol er mwyn bodloni anghenion iechyd meddwl a lles cyfranogwyr	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

C10 Esboniwch eich atebion i'r cwestiynau uchod yma.

---

C11 Yn eich barn chi, beth yw'r agweddau mwyaf llwyddiannus ar ddarpariaeth cymorth ADTRAC?

---

C12 Beth fu'r prif sialensiau yr ydych chi wedi'u profi wrth ddarparu cymorth ADTRAC hyd yn hyn?

*Nodwch gymaint o fanylion ag y bo modd*

---

C13 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol?

	Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
Mae'r cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol parhaus ar gyfer cyfranogwyr unigol	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Caiff ADTRAC ei integreiddio yn dda ymhlith cymorth arall sy'n ceisio sicrhau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc yng Ngogledd Cymru	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Bu cyfranogwyr a'u teuluoedd yn fodlon ymgysylltu â'r cymorth a ddarperir gan ADTRAC	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

C14 Hyd eithaf eich gwybodaeth, a oes unrhyw rwystrau cyffredin y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu sy'n eu hatal rhag sicrhau cyflogaeth neu ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant?

Dewiswch y tri rhwystr mwyaf arwyddocaol yn eich barn chi

- Iechyd meddwl a lles gwael
- Bywyd teuluol neu gartref cymhleth
- Problemau tai
- Camddefnyddio sylweddau
- Diffyg cyfleoedd
- Problemau ariannol, gan gynnwys problemau sy'n ymwneud â bod yn gymwys i gael budd-daliadau
- Diffyg uchelgais
- Hyder isel
- Problemau trafniadaeth
- Diffyg profiad
- Diweithdra cenedliadol yn yr ardal leol
- Diffyg sgiliau/cymwysterau
- Arall [Nodwch]

Dangoswch y cwestiwn hwn:

*Os Hyd eithaf eich gwybodaeth, a oes unrhyw rwystrau cyffredin y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu sy'n eu hatal... = Arall [Nodwch]*

C15 Os Arall, nodwch.

---

C16 I ba raddau yr ydych chi'n credu bod y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn briodol er mwyn goresgyn y rhwystrau yr ydych chi wedi'u nodi uchod?

- Ddim o gwbl
- I ryw raddau
- Mae'n dda er mwyn eu goresgyn
- Mae'n dda iawn er mwyn eu goresgyn

C17 Esboniwch eich ateb.

---

C18 Pa agweddau ar y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yw'r rhai mwyaf llwyddiannus er mwyn goresgyn y rhwystrau a nodwyd gennych chi uchod yn eich barn chi?

*§{C14/GrŵpDewis/Dewisiadau a Ddewiswyd}*

---

C19 Hyd eithaf eich gwybodaeth, a yw hi wedi bod yn gyffredin i unrhyw rai o'r rhwystrau canlynol atal cyfranogwyr rhag ymgysylltu ag ADTRAC (naill ai yn ystod y cam cychwynnol neu dan drefniant parhaus)?

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- Mae gofyn cael tystiolaeth i ddangos cymhwystra (megis y ffaith nad oes ganddynt ddogfennau adnabod priodol)
- Iechyd meddwl a lles gwael
- Diffyg cyfleoedd sy'n berthnasol i'w diddordeb neu
- Problemau ariannol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â bod yn gymwys i gael budd-daliadau
- Ymrwymiad amser
- Problemau trafndiaeth neu leoliad y cymorth
- Arall [Nodwch]
- Dim un o'r uchod

*Dangoswch y cwestiwn hwn:*

*Os Hyd eithaf eich gwybodaeth, a yw hi wedi bod yn gyffredin i unrhyw rai o'r rhwystrau canlynol atal cyfranogwyr... = Arall [Nodwch]*

C20 Os Arall, nodwch.

---

C21 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno bod ADTRAC yn sicrhau'r canlyniadau canlynol ar gyfer cyfranogwyr

	Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
Gwelliant mewn hyder cymdeithasol a pherthnasoedd cymdeithasol	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mwy o hyder yn eu gallu a'u gallu sy'n gysylltiedig â gwaith	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Iechyd meddwl a/neu les gwell	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Gwelliannau ymddygiadol	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mwy o gymhelliant neu uchelgais sy'n ymwneud â chyflogaeth, addysg a/neu hyfforddiant	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mwy o gymhelliant neu uchelgais yn eu bywyd dyddiol	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Sefydlogrwydd, gan gynnwys sefydlogrwydd ariannol neu ym mywyd y cartref	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Sgiliau sylfaenol fel rheoli amser, bod yn brydlon, a chyfathrebu	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Sgiliau swydd neu sgiliau cyflogadwyedd	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Sgiliau chwilio am swydd	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Sgiliau allweddol neu gymwysterau a sicrhawyd	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Sicrhau addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

C22 Yn eich barn chi, beth fu prif effeithiau y cymorth a gynigiwyd trwy ADTRAC ar y bobl ifanc sy'n cael cymorth? A ydych chi'n gallu cynnig unrhyw enghreifftiau penodol o'r rhain?

---

C23 A yw'ch tîm yn darparu cymorth i unrhyw gyfranogwyr trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd?

- Ydy
- Nac ydy

C24 A yw'ch tîm yn gallu bodloni'r angen lleol i ddarpariaeth gael ei darparu trwy gyfrwng y Gymraeg?

- Ydy
- Nac ydy

*Dangoswch y cwestiwn hwn:*

*Os A yw'ch tîm yn gallu bodloni'r angen lleol i ddarpariaeth gael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg = Nac ydy*

C25 Esboniwch pa sialensiau yr ydych chi'n eu hwynebu.

---

C26 Agwedd unigryw ar ADTRAC yw'r ffaith bod y prosiect yn cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl sydd wedi cael hyfforddiant clinigol. Yn eich barn chi, pa fanteision y mae hyn wedi ei ddwyn i'r prosiect?

---

C27 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol?

	Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
Mae cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl hyfforddedig wedi ein galluogi i fodloni anghenion y bobl ifanc yr ymgysylltwyd â nhw trwy ADTRAC	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl hyfforddedig wedi ein helpu i leihau'r rhwystrau er mwyn i bobl ifanc ymgysylltu gyda chymorth er mwyn ymgymryd â chyflogaeth, hyfforddiant neu addysg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl hyfforddedig yn y prosiect wedi fy helpu i feithrin dealltwriaeth well o anghenion lles ymhlith y bobl ifanc yr ydym yn gweithio gyda nhw	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl hyfforddedig yn y prosiect wedi fy helpu i ymgorffori gweithgarwch lles, megis y Bum Ffordd i sicrhau Lles, yn fy ngwaith	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>



C28 Pa newidiadau, os o gwbl, y byddech chi'n eu gwneud er mwyn gwella ADTRAC?

*A fyddech gystal â darparu cymaint o fanylion ag y bo modd*

---

C29 Diolch am neilltuo'r amser i gwblhau'r arolwg hwn!

Cliciwch fotwm 'cyflwyno' i gofnodi eich ymatebion.

Mae Adtrac yn cael ei arwain gan:



Mae Adtrac yn cael ei ddarparu gan y partneriaid a ganlyn:



[gllm.ac.uk/adtrac](http://gllm.ac.uk/adtrac)

# wavehill™

social and economic research  
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

---

## Gwerthuso effeithiau TRAC ac ADTRAC ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Ngwynedd

Medi 2020



## Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Alban Square, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2-4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Rhif Ffôn: 01545 571711

E-bost: [wavehill@wavehill.com](mailto:wavehill@wavehill.com)

Twitter: @wavehilltweets

Rhagor o wybodaeth:

[www.wavehill.com](http://www.wavehill.com)

<https://twitter.com/wavehilltweets>

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod yr awduron (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at gynnwys yr adroddiad.

Awduron yr adroddiad:

Chloe Maughan, Ioan Teifi, Endaf Griffiths, Marc Roberts

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at Endaf Griffiths ([endaf.griffiths@wavehill.com](mailto:endaf.griffiths@wavehill.com))

Dyddiad y ddogfen: Medi 2020

Fersiwn: Terfynol

Cyswllt â'r Cleient:

Bethan Jones, Cyngor Gwynedd | [bethanelunedjones@gwynedd.llyw.cymru](mailto:bethanelunedjones@gwynedd.llyw.cymru)

## Rhestr o dalfyriadau

Talfyriad	Diffiniad
ADTRAC	Mae ADTRAC yn brosiect sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 24 mlwydd oed sydd ar hyn o bryd yn NEET
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
DWP	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
EET	Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant ( <i>Employment, Education &amp; Training</i> )
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
GISDA	Elusen sy'n cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref
GLLM	Grŵp Llandrillo Menai - Sefydliad Addysg Bellach yng Ngogledd Cymru, sy'n rhan o gyflwyno ADTRAC. Mae GLLM hefyd yn bartner yn TRAC
LPT	Teclyn Proffil Dysgwr ( <i>Learner Profile Tool</i> )
NEET	Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant ( <i>Not in Employment, Education &amp; Training</i> )
TRAC	Mae TRAC yn brosiect sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 11 ac 16 mlwydd oed sydd mewn perygl o fynd yn NEET
WEMWBS	Graddfa Llesiant Meddwl Warwick–Caeredin
YEPF (Y Fframwaith)	Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ( <i>Youth Engagement &amp; Progression Framework</i> )

# Cynnwys

## Cynnwys

- 3 Cyflwyniad3
- 4 Methodoleg a chyfyngiadau6
- 5 Prif ganfyddiadau8
  - 5.1 Trosolwg a chyfraniad TRAC ac ADTRAC at y Fframwaith 8
  - 5.2 Adnabod yn gynnar10
  - 5.3 Broceriaeth14
  - 5.4 Tracio cynnydd17
  - 5.5 Darpariaeth21
  - 5.6 Cyflogadwyedd31
  - 5.7 Atebolrwydd33
  - 5.8 Etifeddiaeth34
- 6 Casgliadau36
- 7. Deunydd Cyfeiriol38
- Atodiad 1: Teclynnau ymchwil39

# Crynodeb gweithredol

Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF – Y Fframwaith) yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru o leihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET). Mae amrediad o gefnogaeth ar gael yng Ngwynedd sy'n tanategu'r Fframwaith ac yn darparu cefnogaeth i helpu pobl ifanc i barhau mewn neu ail-ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant (EET). Mae TRAC ac ADTRAC yn ddau brosiect sy'n cyfrannu at y ddarpariaeth hon yng Ngwynedd.

Mae TRAC ac ADTRAC yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), a daw'r cyllid i ben ym mis Mai 2021 ar gyfer ADTRAC a mis Gorffennaf 2022 ar gyfer TRAC. Mae'r gwerthusiad hwn yn ystyried cyfraniad ac effaith TRAC ac ADTRAC ar ddatblygiad y Fframwaith yng Ngwynedd ac yn adnabod y risgiau a'r goblygiadau ar y Fframwaith Ymgysylltu yng Ngwynedd pan fydd y cyllid ar gyfer y rhaglenni hyn yn dod i ben.

Mae **TRAC** yn cefnogi pobl ifanc rhwng 11 ac 16 mlwydd oed sydd mewn perygl o fynd yn NEET. Nod y rhaglen yw gweithio gyda'r unigolion hyn i liniaru'r risg hon a'u cefnogi i ail-ymgysylltu â'u haddysg, bwrw ymlaen i addysg bellach neu i gyflogaeth. Mae TRAC wedi bod yn weithredol yng Ngwynedd ers mis Mawrth 2016.

Mae **ADTRAC** yn cefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 24 mlwydd oed sydd ar hyn o bryd yn NEET. Diben y rhaglen yw cefnogi pobl ifanc i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth; datblygu sgiliau cyflogadwyedd a pharodrwydd at waith. Mae ADTRAC wedi bod yn weithredol ers mis Mehefin 2017.

Roedd rhan-ddeiliaid yn bositif gan mwyaf ynghylch y cyfraniad y mae TRAC ac ADTRAC wedi'i wneud yng Ngwynedd. Teimlwyd bod y ddau brosiect yn llenwi bwlch yn y ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o ymddieithrio.

Gweler isod y prif ganfyddiadau o'r gwerthusiad hwn:

1. Hefyd, mae'n ymddangos bod TRAC yn cael peth dylanwad ar leihau'r risg o bobl ifanc yn mynd yn NEET. Hyd yma, mae 338 o gyfranogwyr wedi gadael TRAC, ac o'r rhain, cofnodwyd bod 48 y cant ohonynt mewn llai o risg o ddod yn NEET.
2. Mae ADTRAC yn cael effaith gadarnhaol ar leihau cyfraddau NEET ymysg cyfranogwyr sy'n gadael y gefnogaeth. Yn wir, mae 77 y cant o gyfranogwyr wedi gadael ac wedi mynd i Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (EET). Fodd bynnag, mae nifer y bobl ifanc sydd wedi gadael y prosiect yn parhau i fod yn gymharol isel, er fe allai'r ffigyrau hyn wella wrth i'r prosiect fwrw ymlaen at gael ei gwblhau.

3. Mae TRAC ac ADTRAC wedi dod â chapasiti ychwanegol i Wynedd i gefnogi ymdrechion i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Yn benodol, mae'r ddarpariaeth o 'weithwyr arweiniol' ledled y prosiectau wedi cynorthwyo i gyfrannu at well broceriaeth a chydlyniant cefnogaeth i bobl ifanc. Fel y cyfryw, mae pryderon ynghylch sut y bydd yr ardaloedd hyn o'r Fframwaith yn cael eu heffeithio heb gynlluniau TRAC ac ADTRAC, gan na theimlwyd y byddai modd i'r adnodd gael ei ategu gan wasanaethau presennol eraill.
4. Cafodd darpariaeth cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant a chefnogaeth bwrpasol / wedi'i theilwra yn narpariaeth TRAC ac ADTRAC ei chanmol yn rheolaidd gan ran-ddeiliaid. Gwelwyd bod yr agweddau hyn o'r ddarpariaeth yn unigryw i TRAC ac ADTRAC a dyma beth oedd yn gwahaniaethu'r prosiectau hyn oddi wrth y gefnogaeth arall a gyflwynwyd yng Ngwynedd. Roedd rhan-ddeiliaid yn bryderus y byddai tynnu'r rhaglenni hyn yn ôl yn gadael bwlch mewn cefnogaeth leol mewn perthynas â chefnogaeth bwrpasol, a allai, yn ei dro, adael bwlch yn y gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf o ran cael mynediad at EET.

Felly, mae tynnu'r cynlluniau TRAC ac ADTRAC yn ôl yn codi pryderon ynghylch y bylchau fydd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â'r ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc yng Ngwynedd, lle nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni gan y ddarpariaeth prif lif ar hyn o bryd. Heb drefniadau amgen, mae addasrwydd y broses ar gyfer ymyrraeth gynnar, broceriaeth ac olrhain cynnydd sydd wedi cael hwb gan TRAC ac ADTRAC o bosib yn y fantol, ac mae hyn yn rhoi gallu pobl Gwynedd i gyflawni'r Fframwaith mewn perygl, i gydlynu'r gefnogaeth ac i sicrhau nad yw pobl ifanc yn syrthio i'r bwlch rhwng asiantaethau a'r ddarpariaeth. Fel y cyfryw, mae'n hanfodol bod Gwynedd yn dechrau ystyried etifeddiaeth y prosiectau hyn a sut ellir cydlynu'r gefnogaeth yn eu habsenoldeb.

Mae'n ymddangos mai'r hyn sydd wedi bod yn allweddol i lwyddiant canfyddedig TRAC ac ADTRAC yw'r dull o weithio yn amlasiantaethol, ac mae hyn wedi gweld prosiectau'n dwyn asiantaethau ynghyd i gyflwyno cefnogaeth i bobl ifanc sy'n NEET, neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Felly, byddem yn awgrymu mai un o'r argymhellion allweddol wrth symud ymlaen yw bod sefydliadau dan y Fframwaith yn parhau i weithio'n amlasiantaethol ac yn adnabod adnoddau i gydlynu cefnogaeth wrth symud ymlaen.



## 3 Cyflwyniad

Ym mis Chwefror 2020, cafodd Wavehill, sefydliad ymchwil cymdeithasol annibynnol, ei gomisiynu gan y Grŵp Rheoli Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid (Grŵp Rheoli'r Fframwaith) yng Nghyngor Gwynedd i werthuso cyfraniad TRAC ac ADTRAC at y Fframwaith.

Datblygwyd y Fframwaith gan Lywodraeth Cymru ac mae'n amlinellu dull Llywodraeth Cymru o leihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET). Ar lefel leol, mae Grŵp Rheoli'r Fframwaith yn gyfrifol am fodloni gofynion y Fframwaith yng Ngwynedd. Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar chwe phrif amcan:

- Adnabod y bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio a dod yn NEET
- Gwellu broceriaeth a chydlynu'r gefnogaeth i bobl ifanc
- Tracio a throsglwyddo pobl ifanc drwy'r system mewn ffordd gryfach
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc
- Cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd am waith
- Mwy o atebolrwydd ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae amrediad o gefnogaeth ar gael yng Ngwynedd sy'n tanatgu'r Fframwaith ac yn darparu cefnogaeth i helpu pobl ifanc i barhau mewn neu ail-ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant (EET). Mae TRAC ac ADTRAC, sef pwnc y gwerthusiad hwn, **yn ddau brosiect** sy'n cyfrannu at y ddarpariaeth hon yng Ngwynedd. Mae'r ddau brosiect yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), a daw'r cyllid i ben ym mis Mai 2021 ar gyfer ADTRAC a mis Gorffennaf 2022 ar gyfer TRAC.

Mae TRAC yn cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 11 ac 16 mlwydd oed sydd mewn perygl o fynd yn NEET. Nod y rhaglen yw gweithio gyda'r unigolion hyn i liniaru'r risg hon a'u cefnogi i ail-ymgysylltu â'u haddysg, bwrw ymlaen i addysg bellach neu i gyflogaeth. Mae TRAC wedi bod yn weithredol yng Ngwynedd ers mis Mawrth 2016.

Mae ADTRAC yn cefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 24 mlwydd oed sydd ar hyn o bryd yn NEET. Diben y rhaglen yw cefnogi pobl ifanc i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth; datblygu sgiliau cyflogadwyedd a pharodrwydd at waith. Mae ADTRAC wedi bod yn weithredol ers mis Mehefin 2017.

Mae'r gwerthusiad hwn yn ystyried cyfraniad ac effaith TRAC ac ADTRAC ar ddatblygiad y Fframwaith yng Ngwynedd ac adnabod y risgiau a'r goblygiadau ar y Fframwaith Ymgysylltu yng Ngwynedd pan fydd y cyllid ar gyfer y rhaglenni hyn yn dod i ben.

## 1.1 Cefndir a chyd-destun polisi

Yn 2018, bu i'r Statistical First Release (SFR), ynghylch [cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur](#), ganfod bod 10.3 y cant o bobl ifanc 16-18 mlwydd oed ac 16.1 y cant o bobl ifanc 19-24 mlwydd oed ledled Cymru yn NEET (Ystadegau Cymru, 2019). Nid yw'r SFR yn darparu data ar sail Awdurdod Lleol, fodd bynnag, mae peth data yn cael ei gasglu mewn perthynas ag ardaloedd lleol gan [arolwg hynt disgyblion Gyrfa Cymru](#). Yn 2018, bu i Arolwg Hynt Gyrfa Cymru o ymadawyr ysgol ganfod bod 2.53 y cant o ymadawyr Blwyddyn 13 ledled Cymru yn wybyddus fel NEET (Careers Wales, 2019). Yng Ngwynedd, roedd y ffigwr hwn yn sefyll ar 1.97 y cant. Yn ychwanegol, roedd 1.6 y cant o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn wybyddus fel NEET (ibid). Yng Ngwynedd, roedd y ffigwr hwn yn sefyll ar 1.3 y cant. (Ystadegau Cymru, 2019)(Careers Wales, 2019)

Mae amrediad o ffactorau risg i bobl ifanc sy'n dod yn NEET, sydd bellach yn cynnwys cyrhaeddiad addysgiadol isel ar lefel TGAU, problemau iechyd, cyfrifoldebau gofalu ac amgylchiadau teuluol heriol (Powell A. , 2018).

Mae'r amser a dreulir fel NEET yn cael effaith economaidd arwyddocaol. Er enghraifft, amcangyfrifir bod pob person ifanc 16-18 mlwydd oed sy'n NEET yn costio £56,000 ar gyfartaledd i'r pwrs cyhoeddus dros eu hoes hyd at oedran ymddeol, drwy gostau i wasanaethau, darparu budd-daliadau a cholli refeniw treth (Crawford, Duckworth, Vinales, & Wyness, 2011). Ar lefel unigol, mae ymchwil wedi tynnu sylw bod yr amser a dreulir fel NEET yn gallu cael effaith andwyol ar ddeilliannau iechyd corfforol a meddyliol (Powell, 2018). Yn ogystal, gall yr amser a dreulir fel NEET gynyddu'r tebygolrwydd o ddiweithdra yn y dyfodol i'r unigolyn (ibid). (Crawford, Duckworth, Vinales, & Wyness, 2011)(Powell, 2018)

Mae amrediad o fentrau ledled Cymru sydd wedi ceisio gostwng cyfraddau NEET ymysg pobl ifanc. Er enghraifft, bu i *Gynllun Gweithredu Taclo Tlodi 2012-2016* Llywodraeth Cymru osod amcan i leihau cyfraddau NEET ymysg pobl ifanc 16-18 mlwydd oed i 9 y cant erbyn 2017. Cyflwynwyd y Fframwaith yn 2013, fel fframwaith sy'n gosod strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau cyfraddau NEET ymysg pobl ifanc 11-25 mlwydd oed.

Mae amrediad o raglenni yn eu lle ledled Gwynedd sy'n ceisio lleihau'r cyfraddau NEET.

### TRAC

Mae TRAC yn cael ei gyflwyno yng Ngwynedd, ac yn y pum Awdurdod Lleol arall yng Ngogledd Cymru. Mae'r rhaglen yn rhoi cefnogaeth i bobl ifanc 11-16 mlwydd oed sydd mewn perygl o fynd yn NEET. Mae'r rhaglen yn cael ei harwain gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae'n cynnwys dull amlasiantaethol, sy'n gweithio â Gyrfa Cymru a'r rhaglen Activate ymhob ysgol uwchradd. Yng Ngwynedd, **mae'r rhaglen yn canolbwyntio'n bennaf ar bobl ifanc ym mlynnyddoedd 6-11 sy'n cael eu gweld fel petaent mewn perygl o ymddieithrio o addysg, i'w cefnogi i ail-ymgysylltu a rhoi iddynt sgiliau i lwyddo mewn EET.** Mae'r gefnogaeth yn darparu ymyraethau wedi'u teilwra i'r bobl ifanc hyn. Gobeithir y bydd hyn felly'n cael effaith ar leihau nifer y bobl ifanc fyddai'n mynd yn NEET fel arall. Roedd y rhaglen yn ceisio cyfrannu at y targedau a ganlyn yn y Fframwaith:

- Lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET rhwng 16 ac 18 mlwydd oed i 9 y cant erbyn 2017.
- Lleihau cyfran y bobl ifanc rhwng 19 a 24 mlwydd oed sy'n NEET yng Nghymru, o gymharu â chyfartaledd y DU erbyn 2017.

## ADTRAC

Yn wahanol i TRAC, sy'n cefnogi pobl ifanc cyn iddynt fynd yn NEET, mae ADTRAC yn cefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd wedi mynd yn NEET yn barod.

Mae ADTRAC yn cael ei gyflwyno yng Ngwynedd ac yn y pum Awdurdod Lleol sy'n weddill yng ngogledd Cymru, drwy ddull amlasiantaethol, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai (GLIM). Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), sy'n rhan o gyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant, drwy Ymarferwyr Iechyd Meddwl hyfforddedig. Ystyrir bod hwn yn ddull arloesol o ddarparu cefnogaeth i leihau cyfraddau NEET, gan ei fod yn dod â chefnogaeth iechyd meddwl a llesiant a chefnogaeth cyflogadwyedd ynghyd, yn y gobaith o leihau pryderon iechyd meddwl a llesiant y credir sy'n un o'r prif rwystrau i bobl ifanc rhag bwrw ymlaen i EET.

Mae TRAC ac ADTRAC yn brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), a daw'r cyllid i ben ym mis Mai 2021 ar gyfer ADTRAC a mis Gorffennaf 2022 ar gyfer TRAC. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio deall pa effaith a gafodd yr ymyraethau hyn yng Ngwynedd, gyda'r nod o ddeall y goblygiadau ar gyfer y Fframwaith yng Ngwynedd ar ôl i'r cyllid ar gyfer y rhaglenni hyn ddod i ben.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro o amgylch pob un o'r amcanion sy'n tanategu'r Fframwaith, i asesu cyfraniad TRAC ac ADTRAC ar y Fframwaith.

## 4 Methodoleg a chyfyngiadau

Mae'r adran hon yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer y gwaith gwerthuso hwn, ar y cyd â'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â'r dull.

### 1.1 Amcanion y gwerthusiad

Ffocws y gwerthusiad hwn yw deall a gwerthuso cyfraniad ac effaith TRAC ac ADTRAC ar y Fframwaith yng Ngwynedd. Mae hyn yn cynnwys archwilio cyfraniad ac effaith y ddwy raglen sydd wedi'u hariannu ar y chwe nod sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith, sef:

1. Adnabod y bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio
2. Darparu gwell broceriaeth a chyswllt mewn perthynas â chefnogaeth
3. Prosesau olrhain a phontio cryfach drwy'r system ar gyfer pobl ifanc
4. Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc
5. Atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfluoedd am waith
6. Gwell atebolrwydd er mwyn cyflawni deilliannau gwell i bobl ifanc.

Bydd y gwerthusiad hefyd yn ystyried safbwyntiau rhan-ddeiliaid ynghylch y gefnogaeth a geir drwy TRAC ac ADTRAC, a goblygiadau'r gefnogaeth sy'n cael ei thynnu yn ôl ar allu Gwynedd i gyflawni'r Fframwaith.

### 4.6 Methodoleg

Bu i'r tîm ymchwil gynnal cyfres o gyfweiliadau manwl gyda 19 o ran-ddeiliaid, dros y ffôn neu drwy fideo. Roedd hyn yn cynnwys 15 o gyfweiliadau un-i-un, a dau gyfweiliad grŵp.<sup>1</sup> Ymysg y rhan-ddeiliaid a gyfwelewyd oedd:

- Aelodau Grŵp Rheoli'r Fframwaith
- Aelodau staff Cyngor Gwynedd
- Staff sy'n rhan o reoli a chyflwyno TRAC
- Staff sy'n rhan o reoli a chyflwyno ADTRAC
- Rhan-ddeiliaid sy'n rhan o gyflwyno cefnogaeth a gwasanaethau cyflogadwyedd eraill ar gyfer pobl ifanc yng Ngwynedd, megis staff o Gyrfa Cymru, Canolfannau Gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Rhan-ddeiliaid sy'n rhan o gyflwyno gwasanaethau cefnogi eraill ar gyfer pobl ifanc yng Ngwynedd, gan gynnwys staff o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a GISDA<sup>2</sup>.

---

<sup>1</sup> Er mwyn sicrhau nad oedd modd adnabod y rhai oedd yn cael eu gweld yn seiliedig ar p'un a oeddynt wedi'u cynnwys mewn cyfweiliad grŵp neu gyfweiliad unigolyn, mae'r cofnodion Adnabod yn seiliedig ar nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd.

<sup>2</sup> Elusen sy'n cefnogi pobl ifanc digartref.

Bu'r tîm ymchwil hefyd yn adolygu data monitro yn ymwneud â TRAC ac ADTRAC, gan gynnwys:

- Data Monitro Cyfranogwyr ar gyfer ADTRAC (hyd at 1 Mawrth 2020)
- Data Ôl-16 Gyrfa Cymru
- Data Monitro Cyfranogwyr ar gyfer TRAC (hyd at 28 Mai 2020)
- Dadansoddiad o leoliadau unigolion Haen 1 a Haen 2 a gyfeiriwyd at y Panel Ôl-16 gan Gyrfa Cymru.

## 4.7 Cyfyngiadau

Er bod cyfweiliadau manwl yn golygu bod modd i ymchwilwyr ddatblygu dealltwriaeth fanwl o faterion, efallai bod hynny'n ddibynnol ar beth yn union y mae'r cyfranogwyr yn dewis ei rannu. Yn ôl eu natur, mae cyfweiliadau yn llai anhysbys na dulliau ymchwil eraill, megis arolygon ar-lein, ac felly fe all y rhai sy'n ymateb ddewis a dethol beth yn union y maent yn ei rannu, a pheidio â rhannu gwybodaeth benodol. Mae hyn yn benodol debygol o fod yn risg lle mae cyfranogwyr yn trafod materion sy'n ymwneud â'u gwaith, lle gallant fod yn bryderus am y goblygiadau posib os ydynt yn rhannu adborth negyddol. Ceisiodd y tîm ymchwil liniaru'r risg hon drwy sicrhau bod cyfranogwyr yn cael cyfrinachedd, sy'n sicrhau na fydd unrhyw wybodaeth fyddai'n tynnu sylw at bwy yw'r cyfranogwyr, yn cael ei rhannu o ran y cyfranogwyr na'u sefydliad. Bu i'r tîm ymchwil gynnal cyfweiliadau oedd hefyd yn cynnwys staff sy'n annibynnol o Gyngor Gwynedd, Grŵp Rheoli'r Fframwaith ac unrhyw sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chyflwyno a rheoli gwasanaethau sy'n ymwneud â TRAC, ADTRAC a'r Fframwaith.

## 5 Prif Ganfyddiadau

### 1.1 Trosolwg a chyfraniad TRAC ac ADTRAC at y Fframwaith

Mae'r Fframwaith yn ceisio lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET) yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys adnabod pobl ifanc sy'n debygol o ymddieithrio, ac sydd felly mewn perygl o fynd yn NEET, a darparu cefnogaeth briodol i helpu i liniaru yn erbyn y risg honno, ynghyd â darparu cefnogaeth i bobl ifanc sydd eisoes yn NEET er mwyn eu cynorthwyo i ail-ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (EET).

#### Y Fframwaith yng Ngwynedd

Yng Ngwynedd, mae Grŵp Rheoli'r Fframwaith yn gyfrifol am gymryd trosolwg o weithrediad y Fframwaith. Bu i'r grŵp gyfarfod ar sail chwarterol, a dod ag asiantaethau a sefydliadau gwahanol sy'n syrthio o fewn y Fframwaith ynghyd. Mae hyn yn cynnwys staff o addysg, gwasanaethau plant, cyfiawnder, gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol a Gyrfa Cymru.

#### Pa effaith y mae TRAC ac ADTRAC wedi'i gael ar allu Gwynedd i gyflawni yn erbyn y Fframwaith?

Cyn gweithrediad TRAC ac ADTRAC, nododd aelodau Grŵp Rheoli'r Fframwaith nad oedd llawer o ddarpariaeth yn ei lle i gyflawni'r Fframwaith. Er bod rhai paneli wedi bodoli, megis y rhwydwaith 14-19, mae'r gwaith wedi mynd yn fwy sylweddol gyda chyflwyniad TRAC ac ADTRAC.

**Roedd yr holl rai a gyfwelwyd wedi nodi eu bod yn teimlo bod TRAC ac ADTRAC wedi cael effaith gadarnhaol ar allu Gwynedd i gyflawni yn erbyn y Fframwaith. Wrth egluro'r rhesymeg dros hyn, nododd y mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd (9/16) bod TRAC ac ADTRAC wedi darparu adnodd ychwanegol nad oedd ar gael yn flaenorol. Er enghraifft, roedd ADTRAC wedi darparu pum Gweithiwr Arweiniol ychwanegol i gefnogi pobl ifanc ar lawr gwlad. Darparodd hyn adnodd ychwanegol ar gyfer 'cnocio ar ddrysau' er mwyn helpu i adnabod pobl ifanc nad oedd mewn cyswllt ag unrhyw wasanaethau eraill yn flaenorol. Teimlwyd nad oedd y math hwn o adnodd ar gael mewn gwasanaethau eraill megis Gyrfa Cymru a Chanolfannau Gwaith. Yn yr un modd, adroddodd yr ymatebwyr bod TRAC wedi darparu adnodd ychwanegol i gefnogi pobl ifanc oedd wedi helpu i leihau'r pwysau ar ysgolion a thimau eraill. Nododd y rhai a ymatebodd bod yr adnodd ychwanegol hwn wedi helpu i gydlynu'r ddarpariaeth ledled Gwynedd, a'i fod wedi galluogi buddiolwyr i gael mynediad at gefnogaeth wedi'i theilwra oedd yn canolbwyntio ar eu hanghenion unigol.**

Yn ogystal, adroddodd y rhai a gyfwelwyd bod TRAC ac ADTRAC wedi'u helpu i gyrraedd cyfranogwyr newydd. Roedd hyn yn cynnwys medru cael mynediad at gyfranogwyr oedd ag amrediad ehangach o anghenion, lle'r oedd yn bosib na fyddai cefnogaeth arall wedi bod mor briodol ar eu cyfer, ynghyd â chael yr adnodd i gyrraedd cyfranogwyr newydd nad oedd yn

hysbys i wasanaethau eraill, fel y trafodwyd uchod. Trafodwyd hyn gan 6/16 o'r rhai a gyfwelwyd.

*'Os na fyddai'n nhw [TRAC ac ADTRAC] yna, byddai llawer mwy o bobl ifanc wedi'u dadleoli, na fyddai modd i ni fod wedi cysylltu â hwy. Maent wedi medru gwneud llawer mwy o'r gwaith dilyniant a chychwynnol na ni. Byddai llawer mwy o bobl ifanc 16-18 oed nad fyddai'n gwybod beth oeddynt yn ei wneud, yn enwedig y rhai nad oeddynt wedi cofrestru â'r Ganolfan Waith, gan eu bod yn syrthio oddi ar y rhestr, yn enwedig os nad oeddynt yn rhan o TRAC yn yr ysgol, gan bod y rheiny yn cael eu pasio ymlaen.'*

**(Cyfwelai, Rhif Adnabod 12)**

Gofynnwyd i aelodau Grŵp Rheoli'r Fframwaith i adlewyrchu ar ba wahaniaeth fyddai wedi bod ar eu gallu i gyflawni'r Fframwaith os na fyddai'r ddwy raglen yn bodoli. Nododd pob cyfwelai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn y byddai mwy o anawsterau wedi bod o ran cyflawni'r Fframwaith heb TRAC ac ADTRAC. O'r rhain, nododd 2/5 na fyddant wedi medru cyflawni i'r un safon. Yn ôl yr ymatebwyr, heb TRAC ac ADTRAC, byddai llai o weithwyr arweiniol ar gael i ddarparu'r gefnogaeth ddwys sydd ei hangen ar gyfer rhai o'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi. Nododd y 3/5 cyfwelai oedd yn weddill na fyddant wedi medru cyflawni unrhyw beth o sylwedd yn erbyn y Fframwaith heb TRAC ac ADTRAC.

Gofynnwyd i bob cyfwelai arall adlewyrchu ar ba wahaniaeth fyddai wedi bod yn eu gallu i gefnogi pobl ifanc 11-16 oed i aros mewn addysg, neu bobl ifanc 16-24 oed i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, os na fyddai TRAC ac ADTRAC yn bodoli. O'r ymatebwyr hyn, adroddodd 9/11 y byddai wedi bod yn anoddach, neu na fyddant wedi medru gwneud cymaint ag y bu modd iddynt ei gyflawni gyda TRAC neu ADTRAC.

### [Sut mae TRAC ac ADTRAC yn cymharu yn erbyn cefnogaeth arall yng Ngwynedd o ran eu cyfraniad a'u heffaith ar y Fframwaith?](#)

Adroddodd sawl cyfwelai (7/13) bod y gefnogaeth a gyflwynwyd drwy TRAC ac ADTRAC yng Ngwynedd yn unigryw, ac yn rhagori ar y ddarpariaeth arall oedd ar gael. Mewn perthynas ag ADTRAC, un o'r prif bethau a drafodwyd yma oedd y bartneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), a olygai bod modd i ADTRAC ddarparu cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant fel rhan o'r prosiect. Gwelwyd bod hwn yn nodwedd unigryw o'r gefnogaeth.

O ran TRAC, tynnodd rhai a gyfwelwyd sylw at y ffaith eu bod yn teimlo bod y gwaith y gallai ei gyflwyno i adnabod pwy oedd mewn perygl o fynd yn NEET, yn unigryw. Yn ogystal, nododd un cyfwelai eu bod yn teimlo budd penodol o ran y gefnogaeth a ddarparwyd gan ei fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn:

*'Mae TRAC yn rhoi'r unigolyn yn ganolog – gweld beth allant ei wneud i'r disgybl, gweithio gyda'r ysgol – ysgol yn dweud y byddai'r ddarpariaeth hon yn dda, yna byddai modd i TRAC ddefnyddio rhwydwaith i ganfod darpariaeth berthnasol. Maent yn gwybod beth sydd ar gael, mae o ganddyn nhw. Fedra i ddim meddwl am unrhyw asiantaeth arall sy'n gwneud yr un math o beth. Mae Gyrfa Cymru a gwasanaethau cymdeithasol yn bodoli – ond nid ydyn nhw'n medru buddsoddi'r*

*un faint o amser a gwneud hynny drwy roi'r person yn ganolog. O ran TRAC... [mae'n rhoi] cysondeb iddyn nhw, un person i weithio â nhw, amser i'w dreulio, y cyswllt efo ni, ynghyd â'r arbenigedd. Nid oes yr un gwasanaeth arall yn medru cynnig hynny.'* (Rhif Adnabod Cyfweiliad - 17)

Mae'r adrannau a ganlyn yn ystyried yr effaith y mae TRAC ac ADTRAC wedi'i chael ar bob un o'r amcanion yn y Fframwaith.

## 5.6 Adnabod yn gynnar

Un o amcanion allweddol y Fframwaith yw adnabod yn gynnar y bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Fel rhan o Gynllun Gweithredu'r Fframwaith, nododd Llywodraeth Cymru y dylai Awdurdodau Lleol ymgorffori systemau adnabod yn gynnar sy'n eu galluogi i adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio, ac y gallir eu defnyddio i adnabod anghenion cefnogi (Llywodraeth Cymru, 2013). Mae Cynllun Gweithredu'r Fframwaith (Llywodraeth Cymru, 2013) yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol ddatblygu systemau adnabod cynnar effeithiol cyn-16 a systemau gweithredu parhaus ôl-16, i'w integreiddio â Model Haen Pump Ôl-16 Gyrfa Cymru ar gyfer unigolion 16-18 oed. (Llywodraeth Cymru, 2013)

**Mae gweithrediad TRAC 11-24 yn darparu gyrrwr ar gyfer chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru i gyd-ddatblygu un Teclyn Adnabod Cynnar ar gyfer y rhanbarth gan ddefnyddio matrices o ddata i gefnogi'r gwaith o adnabod. Mae hyn yn cael ei adnabod fel y teclyn proffil Dysgwr (LPT). Mae'r LPT yn adnabod pobl ifanc sy'n gymwys ar gyfer y prosiect ac sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg. Mae'r LPT wedi'i integreiddio â data ysgolion, ac yn defnyddio cyfuniad o ffynonellau data, gan gynnwys data a gasglwyd ar ymddygiad, cyrhaeddiad, presenoldeb a gwaharddiadau i gynhyrchu sgôr ar gyfer yr unigolyn sy'n cael ei ddefnyddio gan weithwyr TRAC i adnabod p'un a yw person ifanc yn gymwys i dderbyn cefnogaeth gan y tîm TRAC.**

Mae ADTRAC yn defnyddio Model ymgysylltu Pum Haen Gyrfa Cymru i adnabod pobl ifanc 16-17 oed fyddai'n addas am gefnogaeth. Pennir bod pobl ifanc yn gymwys ar gyfer y prosiect pan maent yn syrthio o fewn haen 1, 2 neu 3. Gweler Model Pum Haen Gyrfa Cymru yn y tabl isod. Er mwyn adnabod pobl ifanc 18-24 oed, mae ADTRAC yn dibynnu'n bennaf ar gyfranogwyr yn cael eu hadnabod drwy gyfeiriadau gan y Ganolfan Byd Gwaith ar sail eu cymhwyster am fudd-daliadau diweithdra, yn ogystal ag asiantaethau a gwasanaethau eraill sy'n cefnogi pobl ifanc. Mae data Haen 1 a 2 Gyrfa Cymru yn cael ei rannu â Phaneli Ôl-16, sydd yna'n adnabod yn briodol pa gefnogaeth y maent yn ei deimlo y dylid cyfeirio'r person ifanc ati.



Tabl 3.1: Model ymgysylltu Pum Haen Gyrfa Cymru

Haen	Disgrifiad	Grŵp Cleient
5	Pobl ifanc mewn Addysg Bellach, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (EET)	Yn parhau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET) Yn gweithio neu yn astudio yn rhan amser dros 16 awr Gwaith Gwirfoddol
4	Pobl ifanc mewn perygl o ymddieithrio o EET	Cymryd rhan mewn llai na 16 awr o EET Wedi'i adnabod mewn perygl o ymddieithrio o EET
3	Pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n ddi-waith ac yn hysbys i Gyrfa Cymru	Ymgysylltu gyda Gyrfa Cymru a/neu yn gwybod eu bod yn weithredol geisio EET; un ai yn barod i fynd i EET neu wedi asesu i fod angen rheoli gyrfa neu gymorth sgiliau cyflogadwyedd i fynd i EET
2	Pobl ifanc 16 ac 17 oed, sy'n hysbys i Gyrfa Cymru ac nad ydynt ar gael ar gyfer EET	Pobl ifanc nad ydynt ar gael ar gyfer EET Pobl ifanc sy'n methu â cheisio EET Pobl ifanc sydd â rhwystrau sy'n gofyn am gefnogaeth bersonol ddwys
1	Statws anhysbys wrth adael gwasanaethau Gyrfa Cymru	Pobl Ifanc anhysbys i Gyrfa Cymru

Pa mor effeithiol yw systemau adnabod yn gynnar presennol y rhaglenni TRAC ac ADTRAC?

Roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd oedd yn rhan o TRAC yn adrodd bod yr LPT yn effeithiol (7/9). Teimlai staff cyflwyno bod yr LPT yn gywir ac yn adnabod y disgyblion oedd angen cefnogaeth ac mewn perygl uchel o fynd yn NEET, yn gywir. Fodd bynnag, teimlwyd bod rhai ardaloedd lle'r oedd yn bosib na fyddai'r teclyn yn canfod unigolion. Teimlwyd hyn mewn lleiafswm o achosion, er enghraifft, pan allai presenoldeb cyfranogwr fod yn dda gan y gallai eu hamgylchiadau personol olygu ei bod yn well ganddynt fod yn yr ysgol na bod adref. Teimlai rhai rhan-ddeiliaid bod TRAC wedi cynorthwyo i atal gwaharddiadau drwy ddal achosion yn gynnar.

Yn bennaf, roedd rhan-ddeiliaid yn ymateb i gwestiynau yn ymwneud ag adnabod yn gynnar mewn perthynas â TRAC. Gallai hyn ymwneud ag adeg benodol yn y cyfnod pan fo'r rhaglenni ar waith. Er enghraifft, mae TRAC yn ceisio adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o EET, ac felly gallant fod yn chwilio am gyfleoedd i'w hadnabod yn gynnar; ond mae ADTRAC ar y llaw arall yn cefnogi pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio'n barod, ac felly efallai nad ydynt yn cael eu gweld fel rhai sy'n adnabod yn gynnar gan eu bod yn adnabod pobl ifanc mewn cam adweithiol o'u siwrne. Fodd bynnag, bu i un rhan-ddeiliad (dyfyniad isod) ganmol y paneli ôl-16 fel teclyn adnabod yn ADTRAC, a'i fod yn golygu y gallai gweithwyr adnabod anghenion cefnogi yn gynnar ac adnabod p'un a ddylent geisio ymgysylltu â chyfranogwyr penodol. Dylid nodi bod paneli ôl-16 yn eu lle cyn ADTRAC, fodd bynnag, teimlai'r rhan-ddeiliad hwn bod ADTRAC wedi cyfoethogi'r paneli.



*'Dwi'n meddwl bod y ffordd y maen nhw'n cael eu hadnabod drwy'r paneli 16+ yn effeithiol iawn...Gan bod pawb yn dod o wahanol asiantaethau, y rhan fwyaf o'r amser mae rhywun yn debygol o adnabod y person neu'r teulu, ac felly mae'n helpu os ydym yn rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o ran p'un a ddylai ADTRAC fynd i gnocio ar ddrysau...Mae pobl yn hynod o barod i rannu gwybodaeth a darparu cymorth. Mae'r panel yn ffordd wych o gael pawb yn cydweithio a chefnogi ei gilydd...Os oes gan y person nifer o rwystrau, gallwch ymestyn allan at asiantaethau eraill a allai helpu i gefnogi. Rydych yn gwybod pwy y gallwch gysylltu â nhw am help gyda gwahanol rwystrau a sicrhau bod hyn yn cael ei wneud cyn i ni gysylltu â'r bobl ifanc. Mae'r prosesau hyn wedi digwydd oherwydd ADTRAC, a chyn hynny, doedd dim byd o'r fath yn bodoli. Mae'r ffordd yma o adnabod pobl ifanc yn hynod fuddiol, gan ei fod yn dod ag asiantaethau at ei gilydd...Mae'n cael gwared ar y rhwystrau i'r gweithiwr.'*

**(Cyfwelai, Rhif Adnabod 13)**

Ystyriwyd bod TRAC yn bwysig iawn o ran cyfrannu at amcan y Fframwaith i adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o fynd yn NEET. Teimlwyd bod y systemau yn TRAC wedi adeiladu ar y dull o adnabod yn gynnar dan y Fframwaith yng Ngwynedd.

Teimlwyd bod TRAC yn hanfodol yn y gwaith o adnabod pobl ifanc NEET, a chodwyd pryderon, yn absenoldeb TRAC yn cydlynu'r gwaith hwn, y byddai dyblygiad wrth i eraill geisio mynd ati i wneud hynny eu hunain, heb system wedi'i chydlynu'n glir. Teimlai rhai rhan-ddeiliaid bod TRAC wedi helpu i hybu gwaith o amgylch Ymyrraeth Gynnar, er enghraifft, roedd rhai rhan-ddeiliaid yn nodi nad oedd cyfarfodydd yn digwydd i'r un graddau cyn TRAC, ac na fyddant wedi adnabod cynifer o bobl ifanc cyn TRAC (4/11).

Teimlai rhai rhan-ddeiliaid bod TRAC wedi cynorthwyo i adnabod pobl ifanc ychwanegol, na fyddai wedi cael eu hadnabod yn flaenorol (3/11). Er hynny, roedd lleiafswm o ran-ddeiliaid (2/11) yn teimlo mai ychydig iawn o newid fyddai beth bynnag, gan bod eu gwasanaethau'n gweithio'n agos â phobl ifanc eisoes. Adroddodd rhan-ddeiliaid eraill (3/10), er eu bod wedi parhau i adnabod rhai o'r un bobl ifanc heb TRAC, yn ei hanfod, ni fyddai'r adnodd wedi bod ganddynt i fodloni eu hanghenion heb adnodd gan TRAC. Teimlai rhai o'r rhan-ddeiliaid hyn bod yr unigolion yn hysbys i ysgolion eisoes, ond nid oedd capasiti i gyflawni rhywbeth o sylwedd i'w cefnogi.

*'Mae'r ysgolion yn deall pwy yw pwy, ac mae Gyrfa Cymru'n coladu'r wybodaeth, Ond, dim ond efo TRAC y gallwn ni wneud unrhyw beth o sylwedd.'* **(Cyfwelai, Rhif Adnabod 6)**

Yn ogystal, nododd rhai rhan-ddeiliaid (2/11) nad oedd cyfarfodydd ymgysylltu ieuencid yn digwydd i'r un graddau heb ADTRAC, a bod hyn wedi hybu cydweithio. Yn ogystal, teimlwyd bod ADTRAC wedi bod yn allweddol o ran cael mynediad at gyfranogwyr:

*'Mae ADTRAC wedi bod yn hanfodol o ran gwneud cyswllt â'r cleientiaid. Nid oedd gan Gyrfa Cymru'r adnoddau i wneud hyn.'* **(Cyfwelai, Rhif Adnabod 12)**

Felly, mae'n ymddangos bod TRAC yn cyfrannu at y nod o adnabod yn gynnar yn y Fframwaith, ac mae risg o fylchau'n dod i'r amlwg mewn perthynas â chydlynu adnodd i adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg os nad yw'r gefnogaeth hon ar gael. Mae ADTRAC hefyd yn ymddangos i chwarae rhan arwyddocaol wrth adnabod a chael mynediad at bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o EET, ac mae pryderon ynghylch nifer y bobl ifanc na fydd yn cael eu hadnabod heb ADTRAC yn ei le i gefnogi cydlyniant a darparu adnoddau i fodloni'r bobl ifanc, yn sgil capasiti cyfyngedig sefydliadau eraill.


## 5.7 Broceriaeth

Cyflwynodd y Fframwaith amcan am well broceriaeth o gefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET, drwy gydnabod y gall 'gwasanaethau a chefnogaeth fod yn ddryslyd i'w negodi ar gyfer pobl ifanc ac yna aml mae diffyg cydlyniant effeithiol [rhwng gwasanaethau]' (Llywodraeth Cymru, 2013). Dyhead yr amcan hwn oedd sicrhau bod pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, neu sydd mewn perygl o ymddieithrio, o EET yn cael mynediad at unigolion a all ddarparu cefnogaeth a chydlynu cefnogaeth arall y gallant fod ei hangen i leihau'r risg fod pobl ifanc yn llithro drwy fylchau mewn cefnogaeth ac yn ymddieithrio. Cyflwynodd y Fframwaith swyddogaeth 'gweithiwr arweiniol' fyddai'n cyflawni'r swyddogaeth hon. Mae disgwyl i'r gweithiwr arweiniol weithio gyda'r person ifanc i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol ac/neu gydlynu cefnogaeth gan wasanaethau cefnogi eraill. (Llywodraeth Cymru, 2013)

### [Beth yw'r anghenion cefnogi sy'n cael eu cyflwyno gan bobl ifanc i TRAC ac ADTRAC?](#)

Mae pobl ifanc sy'n cael mynediad at gefnogaeth drwy ADTRAC yn profi amrediad eang o rwystrau rhag cael mynediad i EET, fel y gwelir yn Ffigwr 3.1. Y rhwystrau mwyaf cyffredin rhag cael mynediad i EET, a brofwyd gan dros 50 y cant o gyfranogwyr, oedd diffyg hyder, problemau cludiant, a diffyg profiad/cyflogadwyedd. Yn ogystal, roedd gan 47 y cant o gyfranogwyr bryderon iechyd meddwl, a chafodd 43 y cant o gyfranogwyr ADTRAC eu cyfeirio at BIPBC am gefnogaeth iechyd meddwl neu lesiant.

**Ffigwr 5.3 Cyfran y cyfranogwyr ADTRAC a brofodd bob rhwystr i EET wrth ymuno â'r rhaglen (Holl gyfranogwyr)**



Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr ar gyfer ADTRAC (Sail=190, Holl gyfranogwyr)

Mae TRAC yn casglu data meintiol llai cynhwysfawr ar yr anghenion cefnogi sydd gan gyfranogwyr; fodd bynnag, mae data monitro cydraddoldeb yn datgelu bod:

- Saith y cant o gyfranogwyr TRAC yn blant sy'n derbyn gofal
- Pump y cant o gyfranogwyr TRAC â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith, ac mae gan bedwar y cant anabledd
- Dau y cant o'r cyfranogwyr yn cael eu heffeithio gan ddiweithdra neu waharddiad tai.

Mae iechyd meddwl hefyd yn bryder allweddol ymysg y garfan TRAC, ac mae 18 y cant o gyfranogwyr wedi derbyn ymyrraeth Iechyd Meddwl neu gwnsela o ganlyniad i TRAC.

## Beth yw cyfraniad TRAC ac ADTRAC at y trefniadau broceriaeth a chefnogi cyswllt dan y Fframwaith?

Gofynnwyd i aelodau Grŵp Rheoli'r Fframwaith adlewyrchu ar sut y cyfrannodd TRAC ac ADTRAC at y trefniadau broceriaeth a chefnogi cyswllt dan y Fframwaith. Bu i fwyafrif y rhai a gyfwelwyd (5/7) drafod sut y bu i TRAC ac ADTRAC fwydo i mewn i'r cydlyniad ar draws asiantaethau a disgrifio sut y gweithiodd gwasanaethau ar y cyd o amgylch y Fframwaith i ddeall anghenion cefnogaeth yr unigolion a chydlynu'r gefnogaeth honno. Roedd yr ymatebion gan rai rhan-ddeiliaid bod y prosesau hyn wedi cael eu gweithredu o fewn cyflwyniad TRAC ac ADTRAC. Er enghraifft, roedd cyfwelai wedi nodi mai TRAC oedd wedi 'sefydlu'r broses' ar gyfer broceriaeth, a bod ADTRAC wedi cael ei gydnabod am gyflwyno 'trefn a strwythur'. O dan y ddau brosiect, roedd staff o TRAC/ADTRAC yn cyfarfod ar y cyd â sefydliadau eraill oedd yn rhan o gyflwyno cefnogaeth i bobl ifanc. Cafodd hyn ei gydnabod am helpu sefydliadau i dorri allan o seilos a chaniatáu staff i weithio ar ran yr unigolyn, yn hytrach nag ar ran eu sefydliadau eu hunain'.

Hefyd, bu i un cyfwelai adrodd sut oedd TRAC ac ADTRAC wedi cefnogi broceriaeth drwy weithredu'r swyddogaeth 'gweithiwr arweiniol'. Mae'r ddau brosiect yn cynnwys mentoriaid sy'n cyflawni swyddogaeth y gweithiwr arweiniol, ac yn gweithio gyda chyfranogwyr i ddarparu cefnogaeth i fodloni eu hanghenion; fodd bynnag, bu i'r cyfwelai hwn hefyd fanlyu ar sut oedd y gweithwyr hyn yn cefnogi broceriaeth drwy gefnogi pobl ifanc i gael mynediad at gefnogaeth arall, a helpu i frocra eu mynediad at y gefnogaeth honno.

*'Mae'r ddau brosiect wedi dod â rhagor o weithwyr i mewn – felly mae modd cefnogi mwy o bobl ifanc. Agwedd allweddol – cymryd rôl gweithwyr arweiniol sydd wedi'u disgrifio yn y fframwaith – felly gan arwain anghenion y bobl ifanc o amgylch, gan ddwyn arbenigedd ynghyd, helpu i drosglwyddo – nid cyfeirio ymlaen yn unig, ond yn aml eu hebrwng am gefnogaeth...Mae'r gweithwyr yn eu helpu i gael mynediad at bethau sylfaenol megis apwyntiad Meddyg Teulu ac ati, gyda Chredyd Cynhwysol ac ati... (Rhif Adnabod Cyfweliad - 8)*

## Pa mor gynaliadwy yw'r trefniadau broceriaeth a chyswllt i gynnal y Fframwaith yn y dyfodol?

Bu i aelodau Grŵp Rheoli'r Fframwaith fynegi pryderon ynghylch p'un a fyddai modd iddynt gynnal y trefniadau broceriaeth pan fydd y cyllid ar gyfer TRAC/ADTRAC yn dod i ben. Roedd y rhai a ymatebodd yn cwstyfnu pwy fyddai'n cymryd y cyfrifoldeb am gydlynu cefnogaeth rhwng asiantaethau, ac roeddynt yn codi pryderon ynghylch colli gweithwyr arweiniol. Codwyd pryderon ynghylch lefel yr adnodd fyddai wedi bod ar gael heb y cyllid gan TRAC ac ADTRAC, a chododd rhai rhan-ddeiliaid bryderon na fyddai asiantaethau eraill yn medru llenwi'r bwlch o ran y cydlyniad a adawyd yn sgil colli TRAC ac ADTRAC. Codwyd pryder penodol ynghylch colli gweithwyr arweiniol i gydlynu cefnogaeth yn absenoldeb ADTRAC. Adroddodd un cyfwelai, heb ADTRAC, y byddai angen i sefydliadau trydydd sector, gwasanaethau statudol a Gyrfa Cymru wneud mwy o waith ar weithgarwch estyn allan i gynorthwyo i frocra cefnogaeth, ond roeddynt yn pryderu y byddai bwlch sgiliau yma gan bod staff ADTRAC wedi datblygu rhwydweithiau ac yn arbenigo mewn cyflwyno yn unol ag anghenion y bobl ifanc.

Mae'r uchod yn dangos bod pryderon ynghylch pa mor gynaliadwy yw'r trefniadau broceriaeth, heb TRAC ac ADTRAC.

## 5.8 Orlhain cynnydd

Mae'r Fframwaith yn cynnwys amcan i gryfhau olrhain, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, ac i werthuso effaith y gefnogaeth sy'n cael ei darparu i bobl ifanc [CITATION Wel13 \l 2057 ]. (Llywodraeth Cymru, 2013)

### [Beth yw cyfraniad TRAC ac ADTRAC at y trefniadau olrhain a phontio drwy systemau ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 24 oed?](#)

Adroddodd staff cyflawni TRAC eu bod yn defnyddio cyfuniad o'r prosesau a ganlyn i olrhain cynnydd:

- Gosod targedau a chymharu canlyniadau
- Adolygiadau ac adroddiadau rheolaidd
- Monitro sgoriau LPT cyfranogwyr yn barhaus
- Dull llwytho achosion
- Adborth gan ysgolion.

O fewn y data monitro, mae TRAC hefyd yn casglu'r hyn a ganlyn:

- Hanes ymyrraeth llawn ar gyfer pob cyfranogwr, sy'n manylu ar fath yr ymyrraeth a dderbyniwyd, y darparwr a'r dyddiad mynychu
- Hefyd, gofynnir i gyfranogwyr gwblhau'r asesiad Youth Star yn rheolaidd er mwyn olrhain eu cynnydd mewn perthynas â chwe agwedd o'u bywydau <sup>3</sup>
- Data deilliannau, gan gynnwys nifer y cyfranogwyr sy'n bwrw ymlaen mewn addysg, mynd i gyflogaeth ac yn ennill cymwysterau neu ddeilliannau cadarnhaol eraill.

Mae ADTRAC yn casglu'r data a ganlyn er mwyn olrhain cynnydd cyfranogwyr:

- Newidiadau mewn llesiant cyfranogwyr, wedi'i fesur gan ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddwl Warwick–Caeredin (WEMWBS)
- Newidiadau yn nata cyflogadwyedd a pharodrwydd am waith y cyfranogwyr, wedi'i fesur drwy Work Star<sup>4</sup>, yn ogystal â data deilliannau megis nifer y cyfranogwyr sy'n mynd i mewn i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant, ac sy'n ennill cymwysterau neu ddeilliannau cadarnhaol eraill.

---

<sup>3</sup> Mae Youth Star yn edrych ar gynnydd pobl ifanc mewn perthynas â chwe agwedd o'u bywydau (gwneud gwahaniaeth, gobeithion a breuddwydion, llesiant, addysg a gwaith, cyfathrebu, a dewisiadau ac ymddygiad). Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

<sup>4</sup> Mae Work Star yn mesur gwahanol agweddau o gyflogadwyedd a chyflogaeth ac mae'n cael ei ddefnyddio fel arfer i fesur siwrne oedolion sy'n ddi-waith neu sy'n dychwelyd i'r gweithle. Mae rhagor o wybodaeth am Work Star ar gael [yma](#).

- Rhwystrau i EET sy'n cael eu profi gan gyfranogwyr wrth iddynt fynd i mewn ac ymadael â'r gefnogaeth
- Cofnodion o hyfforddiant a chysiau a ddilynwyd gan y cyfranogwyr
- Cofnodion o gyfeiriadau gan BIPBC am gefnogaeth llesiant, a math y gefnogaeth a ddarparwyd.

Yn ogystal â'r prosesau ffurfiol hyn ar gyfer olrhain cynnydd, tynnodd rhan-ddeiliaid sylw at y ffaith bod olrhain cynnydd hefyd yn cael ei wneud drwy strwythurau cyfarfodydd. O ran ADTRAC, mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd leuenctid a Datblygiad, lle bydd y tîm ADTRAC yn rhannu gwybodaeth yn ôl ar gynnydd cyfranogwyr a gafodd eu cyfeirio. O fewn TRAC, mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng sefydliadau hefyd yn cael eu defnyddio fel teclyn ar gyfer olrhain cynnydd. Bu i rai rhan-ddeiliaid o fewn sefydliadau cyfeirio hefyd dynnu sylw at sut y bu iddynt dderbyn cyswllt rhagweithiol gan Fentoriaid yn ADTRAC er mwyn rhoi gwybod iddynt beth oedd wedi digwydd gyda chleient a oedd wedi'i gyfeirio (o fewn ffiniau rhannu data). Roedd y prosesau hyn yn fwy ad-hoc ac yn dibynnu ar aelodau staff unigol.

Bu i ran-ddeiliaid hefyd nodi bod prosesau olrhain yn eu lle rhwng TRAC ac ADTRAC er mwyn trosglwyddo achosion rhwng y prosiectau wrth i bobl ifanc gyrraedd y trothwy oedran lle maent yn rhoi'r gorau i fod yn gymwys am TRAC ac yn dod yn gymwys am ADTRAC. Mae hyn hefyd yn cynnwys pobl ifanc nad ydynt efallai wedi derbyn cefnogaeth TRAC yn yr ysgol, ond y pennir eu bod mewn perygl o fynd yn NEET.

Gofynnwyd i ran-ddeiliaid ystyried p'un a oeddynt yn teimlo bod y systemau ar gyfer olrhain cynnydd yn TRAC ac ADTRAC yn effeithiol. O'r ymatebwyr hyn, adroddodd 6/16 bod y prosesau yn effeithiol, cafwyd ymateb cymysg gan 7/16, a dywedodd 3/16 o'r ymatebwyr nad oeddynt yn gwybod. Cyfeiriodd ymatebwyr oedd yn teimlo bod y prosesau'n effeithiol at gyfarfodydd rheolaidd a chyswllt parhaus rhwng sefydliadau, a theimlwyd eu bod yn llyfnhau'r prosesau o adnabod anghenion cyfranogwyr.

*'Wedi bod yn effeithiol. Dyna oedd pwynt TRAC. Roedd yn gwneud yn siŵr bod y bobl ifanc yn cael eu hystyried yn fwy cyson ac yn rheolaidd (Nid unwaith bob dau fis yn unig). Mae cydweithio â phawb yn golygu bod modd dweud yn well lle mae person ifanc o fewn y system. Mewnbwn ansoddol gan bob sefydliad.'* **(Cyfwelai, Rhif Adnabod 3)**

Roedd y rhai oedd yn cyflwyno barn fwy cymysg yn trafod materion megis prosesau o fewn ADTRAC i gadw mewn cysylltiad â chyfeirwyr yn ddibynnol ar y gweithiwr unigol; ac yn cwestiynu p'un a oedd y pethau cywir yn cael eu mesur. Er enghraifft, o ran ADTRAC, cododd un rhan-ddeiliad bryderon ynghylch p'un a oeddynt yn medru mesur camau llai mewn cynnydd ar gyfer cyfranogwyr, a allai fod yn benodol ystyrion os oes gan y cyfranogwr rwystrau hynod o gymhleth. Yn ogystal, cododd un rhan-ddeiliad heriau o amgylch y prosesau ar gyfer symud pobl ifanc tuag at gefnogaeth llesiant fel rhan o ADTRAC:



*'Yn fy marn i, os oes gweithiwr ADTRAC yn rhan o bethau, maen nhw'n cario ymlaen i weithio efo'r gweithiwr allweddol. Mae hynny'n digwydd. Yr unig her yr wyf wedi'i chanfod fy hun yw bod gan y bobl ifanc nifer o heriau, ac o bryd i'w gilydd mae'n anodd cael y person ifanc i gytuno i gael ei gyfeirio a phan maent yn cael eu cyfeirio, mae'n anodd eu cyflwyno i'r gweithiwr ADTRAC weithiau. Yr hyn sy'n dda yw bod y gweithwyr ADTRAC yn deall y gall gymryd un neu ddau o weithiau i gael y bobl ifanc i ymddiried ynddynt a dod i'w cyfarfod. Roedd yn rhaid i'r person ifanc ddod i gwrdd â'r gweithiwr ADTRAC gyda'r cyfeiriwr, ac o hynny maent yn cwrdd â'r gweithiwr CAMHS, felly mae'n rhaid iddynt gwrdd â dau berson newydd. Ond pan fyddaf wedi dweud bod y person yn hynod o bryderus, a'i fod yn fwy o achos CAMHS, maent wedi cael gwared ar y person yn y canol er mwyn lleihau'r rhwystr hwnnw...Mae'n drueni na allwn ni gael mynediad mwy rhwydd at y gweithwyr CAMHS, gan ein bod yn adnabod y bobl ifanc ac yn gwybod beth yw eu problemau. Mae'r broses ADTRAC hon yn ychwanegu person dieithr arall yn y canol.'* **(Cyfwelai, Rhif Adnabod 10)**

### Pa mor addas yw'r prosesau olrhain a phontio er dibenion y Fframwaith yn y dyfodol?

Pan gawsant eu holi ynghylch addasrwydd y prosesau olrhain a phontio gan TRAC ac ADTRAC er dibenion y Fframwaith, adroddodd mwyafrif y rhan-ddeiliaid eu bod yn addas (8/9). Dim ond un rhan-ddeiliad oedd yn anghytuno. Bu i'r rhan-ddeiliad dynnu sylw at bryderon ynghylch p'un a oedd y ffynonellau data cywir yn cael eu defnyddio i olrhain cynnydd a phryderon ynghylch yr Adran Gwaith a Phensiynau ddim yn rhannu gwybodaeth. Cafodd y mater o rannu gwybodaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ei godi gan ran-ddeiliad arall hefyd, mewn perthynas ag effeithiolrwydd y prosesau. Roeddynt wedi canfod bod hyn yn golygu nad oedd modd integreiddio'r prosesau olrhain â'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Roedd y rhan-ddeiliaid oedd yn teimlo bod y prosesau'n addas yn canmol y dull amlasiantaethol oedd yn dod â holl aelodau'r Fframwaith ynghyd.

### Pa effaith mae'r prosesau olrhain a phontio wedi'u cael ar bobl ifanc?

Holwyd rhan-ddeiliaid pa effaith oedd y prosesau olrhain a phontio wedi'i chael ar y bobl ifanc oedd yn cael eu cefnogi gan TRAC ac ADTRAC. Yn gyffredinol, nid oedd llawer o fanylder yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac ni ymatebodd nifer o ran-ddeiliaid, ac efallai bod hyn yn awgrymu bod hwn yn un o'r meysydd yr oedd ymatebwyr yn llai ymwybodol ohono.

O'r rhai a ymatebodd, adroddodd 6/9 o ran-ddeiliaid bod y prosesau olrhain a phontio wedi cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc. Yn gyffredinol, roedd rhan-ddeiliaid yn cyfeirio at y prosesau ar gyfer olrhain cynnydd yn TRAC ac ADTRAC, megis gosod nodau ac ailymweld â theclynnau asesu megis Work Star neu WEMWBS. Cafodd y rhain eu disgrifio fel elfennau defnyddiol oedd yn cynorthwyo cyfranogwyr i 'feincnodi eu cynnydd'. Wrth drafod olrhain cynnydd, trafododd un rhan-ddeiliaid y cynnydd rhwng gwasanaethau, a nododd ei fod o'r farn ei bod yn fuddiol i bobl ifanc bod ADTRAC yn medru symud pobl ifanc ar draws gwasanaethau drwy eu helpu i wneud cyflwyniadau, ac felly lyfnhau eu datblygiad ymlaen at wasanaethau eraill.



## Pa mor gynaliadwy yw'r trefniant olrhain a phontio pan mae'r cyllid TRAC ac ADTRAC yn cael ei dynnu'n ôl?

Roedd rhan-ddeiliaid yn ansicr yn gyffredinol ynghylch p'un a fyddai unrhyw rai o'r prosesau o TRAC ac ADTRAC yn cael eu cynnal pan fo'r cyllid yn cael ei dynnu yn ôl, er y bu i nifer o ran-ddeiliaid fynegi diddordeb mewn cadw'r prosesau. Codwyd pryderon ynghylch y capasiti a'r cyllid i gyflawni ar y prosesau hyn heb TRAC ac ADTRAC.

*'Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw nad oes gan y gwasanaeth ieuenctid yr un capasiti i gario ymlaen â'r gwaith hwn. Bydd Gyrfa Cymru yn dal o gwmpas ond maent yn gweithio â llawer o fyfyrwyr. Bydd rhai elfennau yn cario ymlaen, ond bydd eraill yn cael eu colli ac efallai na fyddant yn cael eu cydlynu na'u targedu cystal tuag at y bobl ifanc.'* **(Cyfwelai, Rhif Adnabod 11)**

Adroddodd cyfwelai arall pe byddai systemau'n cael eu cadw er dibenion olrhain, eu bod yn annhebygol o fod mewn 'un lle penodol', a'u bod yn fwy tebygol o fod yn 'cael eu llywio'n sefydliadol' yn hytrach na'n cylchdroi o amgylch yr unigolyn fel yr oeddynt gyda TRAC ac ADTRAC.

## 5.9 Darpariaeth

Roedd Cynllun Gweithredu'r Fframwaith yn galw am fapio'r ddarpariaeth bresennol yn fwy grymus, ac am ddarpariaeth newydd sy'n targedu anghenion heb eu bodloni er mwyn osgoi dyblygu'r gefnogaeth [CITATION Wel13 \l 2057 ]. (Llywodraeth Cymru, 2013)

## Beth yw cyfraniad TRAC at y Fframwaith i leihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg?

Mae TRAC yn darparu mynediad at y ddarpariaeth a ganlyn:

- Cefnogaeth o ran llesiant a phresenoldeb
- Cwnsela a chefnogaeth iechyd meddwl
- Cyrsiau a lleoliadau gwaith
- Sesiynau wedi'u cyflwyno gan Gyrfa Cymru.

Fel y trafodwyd yn flaenorol yn y rhan ar Froceriaeth, mae hyn yn cynnwys dull gweithiwr arweiniol lle mae gan gyfranogwyr fynediad at fentor enwebedig yn y tîm TRAC sy'n gweithio â nhw i adnabod darpariaeth briodol a chydlynu'r gefnogaeth honno.

Hyd yma, mae 383 o gyfranogwyr wedi ymadael â TRAC. O'r rhain, cafodd 48 y cant eu cofnodi fel rhai sydd mewn risg is o fynd yn NEET. Roedd 22 y cant o gyfranogwyr wedi ennill cymwysterau.

Er y gallai hyn awgrymu nad oedd mwyafrif y cyfranogwyr oedd wedi ymadael wedi cael eu cofnodi fel rhai oedd mewn risg is o fynd yn NEET (52 y cant), gallai hyn ymwneud yn rhannol â bylchau yn y data sydd ar gael. Yn wir, ni ellir cofnodi unigolyn fel un sydd mewn risg lai o fynd yn NEET os oes gostyngiad o 10 y cant yn eu sgôr LPT, ac fel y cyfryw nid yw'r LPT yn rhoi ystyriaeth i'r holl unigolion a allai fod wedi gweld eu risg o fynd yn NEET yn gostwng i ryw raddau. Yn ychwanegol, mae TRAC yn perfformio'n dda yn erbyn ei darged o 49 y cant o bobl ifanc sy'n ymadael o'r prosiect sydd mewn risg is o fynd yn NEET.

Roedd rhan-ddeiliaid yn gadarnhaol ynghylch y swyddogaeth yr oedd TRAC wedi'i chwarae o ran lleihau nifer y bobl ifanc sy'n ymddieithrio o addysg. Nid oedd yr holl ran-ddeiliaid mewn sefyllfa i ymateb i'r cwestiwn hwn, fodd bynnag, o'r rhai a ymatebodd, adroddodd 9/12 bod TRAC wedi cyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc sy'n ymddieithrio o addysg, ac fe nododd y tri cyfwelai oedd yn weddill nad oeddynt yn gwybod digon ynghylch y mater hwn. Adroddodd dau ran-ddeiliad bod TRAC yn helpu i wella ymgysylltiad ag addysg a phresenoldeb pobl ifanc, ac adroddodd un rhan-ddeiliad eu bod yn teimlo ei fod yn arwain at ostyngiad mewn gwaharddiadau. Adroddodd y rhan-ddeiliaid eraill (3/12) bod TRAC yn darparu cefnogaeth ychwanegol i helpu i leihau'r rhwystrau neu'r materion y gallai pobl ifanc fod yn eu wynebu er mwyn cynorthwyo i'w cadw yn yr ysgol.

### [Beth yw cyfraniad ADTRAC at y Fframwaith i leihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth?](#)

Mae ADTRAC yn darparu cefnogaeth holistaidd sydd wedi'i deilwra i bob unigolyn mae'n ei gefnogi. Mae ADTRAC yn cyflwyno'r ddarpariaeth a ganlyn i gefnogi cyfranogwyr i ymgysylltu mewn EET:

- Cefnogaeth cyflogadwyedd traddodiadol, megis cynorthwyo unigolion i ddatblygu eu CVs a'u sgiliau cyfweld
- Caffael cyrsiau a hyfforddiant pwrpasol i gefnogi cyfranogwyr i ddatblygu eu sgiliau neu oresgyn eu rhwystrau i fynd i EET
- Helpu cyfranogwyr i gael mynediad ac ennill cymwysterau newydd a thystysgrifau hyfforddi
- Cefnogi cyfranogwyr i gael mynediad at gyngor ac arweiniad arbenigol i helpu i oresgyn rhwystrau
- Cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant arbenigol, gan gynnwys datblygu cyfleoedd i gyfranogwyr gael mynediad at weithgareddau sy'n hybu'r Pum Ffordd at Lesiant.

Hyd at fis Mawrth 2020, roedd 190 o bobl ifanc yng Ngwynedd wedi cymryd rhan yn ADTRAC.<sup>5</sup> Hyd yma, mae 78 o gyfranogwyr (41 y cant) wedi ymadael â chefnogaeth.

O'r 78 oedd wedi ymadael â chefnogaeth, bu i 77 y cant ymadael i EET. Mae Tabl 3.2 dros y dudalen yn darparu trawstoriad o'r deilliannau a lleoliad cyfranogwyr sydd wedi ymadael â chefnogaeth.

---

<sup>5</sup> Mae'r ffigur hwn yn cynnwys unigolion nad oedd wedi'u rhestru dan "ddim yn hawlio" o fewn data monitro rhanbarthol yn unig.

Tabl 3.2: Deilliannau a gyflawnwyd hyd at fis Mawrth 2020

Targed Deilliannau	Cyfanswm a Gyflawnwyd (hyd at fis Mawrth 2020)
Cyfanswm y Cyfranogwyr	190
Cyfranogwyr NEET (16-24 mlwydd oed) wedi ennill cymwysterau wrth ymadael	41
Cyfranogwyr NEET (16-24 mlwydd oed), mewn addysg/hyfforddiant wrth ymadael	23
Cyfranogwyr NEET (16-24 mlwydd oed) yn mynd i gyflogaeth wrth ymadael	37
Cyfranogwyr yn ennyn deilliannau cadarnhaol eraill	796 <sup>6</sup>

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr ar gyfer ADTRAC (Sail=190)

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r deilliannau cadarnhaol eraill sydd wedi'u cyflawni gan gyfranogwyr.

Tabl 3.3: Deilliannau cadarnhaol eraill a gyflawnwyd hyd at fis Mawrth 2020

Deilliannau Cadarnhaol Eraill	Cyfanswm a Gyflawnwyd
<b>Unrhyw Ddeiliant Cadarnhaol</b>	<b>79</b>
Cyflawni cymhwyster yn rhannol	1
Cyflawni hyfforddiant heb ei achredu	8
Addysg/hyfforddiant llai na 16 awr	5
Cwblhau lleoliad profiad gwaith	11
Cwblhau cyfle i wirfoddoli	8
Cyflogaeth/hunangyflogaeth llai na 16 awr	4
Mynd i gyflogaeth ar gytundeb dim oriau	1
Gwelliant mewn llesiant emosiynol/meddyliol	59
Gwelliant mewn deilliannau meddal	67
Mwy nag un cymhwyster	12
Mynd i gynllun hyfforddeion	2

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr ar gyfer ADTRAC (Sail=190)

Mae'r data hwn yn awgrymu bod ADTRAC yn cael effaith gadarnhaol ar leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Ngwynedd. Fodd bynnag, dylid nodi er bod cyfran uchel o bobl ifanc sydd wedi ymadael ag ADTRAC wedi mynd i EET, rywsut, mae Gwynedd dipyn ar ei hôl hi o ran cyflawni ei dargedau ar gyfer nifer o bobl ifanc sydd wedi mynd i gyflogaeth ac addysg a hyfforddiant o ganlyniad i ADTRAC. Fodd bynnag, efallai y dylanwadir ar hyn i raddau yn sgil y ffaith bod y prosiect yn dal i fynd rhagddo ac fel y cyfryw, mae'n bosib y bydd rhagor o ddeilliannau yn cael eu cynhyrchu ac fe ellid cofnodi rhagor o ddeilliannau wrth i'r prosiect

<sup>6</sup> Mae'r ffigur hwn yn uwch na nifer yr unigolion oedd wedi ymadael, gan bod deilliannau cadarnhaol eraill wedi'u cofnodi yn erbyn cyfranogwyr sydd heb ymadael y gefnogaeth hyd yma.

agosáu at gael ei gwblhau. Mae'r targedau a'r perfformiad cyfredol ar gyfer Gwynedd wedi'u hamlinellu yn Nhabl 3.4 dros y dudalen.

**Tabl 3.4: Cyfranogwyr NEET yn mynd i EET - Targedau a Pherfformiad**

Deilliannau	Targed	Cyfanswm a Gyflawnwyd	Cyfradd y targed a gyflawnwyd %
Cyfranogwyr NEET mewn addysg/hyfforddiant wrth ymadael	60	23	38%
Cyfranogwyr NEET yn mynd i mewn i gyflogaeth wrth ymadael	94	37	39%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr ar gyfer ADTRAC i Wynedd (Sail=190)

Gallai hyn awgrymu, er bod ADTRAC yn cyfrannu at leihad yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Ngwynedd, nid yw'n cael effaith mor dda â'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r prosiect, ac mae'n cyrraedd cyfran gymharol fechan o gyfranogwyr. Dylid nodi bod y patrwm hwn yn gyson â'r heriau sydd wedi'u hwynebu ar lefel weithredol ar draws ADTRAC, ac nid yw'n unigryw i Wynedd (Maughan, et al., 2020).


Yn ogystal â'r deilliannau caled a drafodwyd uchod, mae'n ymddangos bod ADTRAC hefyd yn cael effaith ar leihau'r rhwystrau sy'n atal datblygiad cyfranogwyr i EET. Wrth ymuno ac ymadael â'r prosiect, gofynnwyd i gyfranogwyr adrodd am y rhwystrau i fynd i EET yr oeddynt yn eu profi. Wrth ymuno ag ADTRAC, roedd cyfranogwyr, ar gyfartaledd, yn profi chwe rhwystr oedd yn cyfyngu ar eu datblygiad i EET. Wrth ymadael â'r gefnogaeth, mae'r cyfartaledd hwn wedi'i ostwng i dri.

Dengys Ffigwr 3.2 dros y dudalen, y gyfran o gyfranogwyr oedd yn profi rhwystrau cyffredin i fynd i EET wrth ymuno ac ymadael â'r prosiect. Wrth ymuno, hyder oedd un o'r prif rwystrau i gyfranogwyr yn mynd i EET, a adroddwyd gan 68 y cant o gyfranogwyr. Wrth ymadael, roedd y rhwystr hwn yn cael ei adrodd gan 28 y cant o gyfranogwyr.

Roedd cyfran y cyfranogwyr oedd yn adrodd am ddiffyg profiad/cyflogadwyedd a diffyg sgiliau a chymwysterau fel rhwystrau i fynd i EET, hefyd wedi gostwng yn sylweddol ymysg cyfranogwyr oedd wedi ymadael â chefnogaeth. Yn ogystal, roedd cyfradd y cyfranogwyr oedd yn adrodd eu bod yn cael anhawster ymgysylltu mewn EET wedi lleihau o 42 y cant i 4 y cant.

Er mai deilliannau meddalach eu natur yw'r rhain, mae'r cwmp mewn rhwystrau'n debygol o symud cyfranogwyr yn agosach at EET, ac fel y cyfryw, gellir ystyried y deilliannau hyn yn dystiolaeth o gyfraniad ADTRAC o ran lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Ngwynedd.

**Ffigwr 3.2: Cyfran y cyfranogwyr ADTRAC a brofodd bob rhwystr i EET wrth ymuno ac ymadael â'r prosiect**



Sail: Cyfranogwyr sydd wedi ymadael â chefnogaeth (n=69)



Adroddodd mwyafrif y rhan-ddeiliaid bod ADTRAC wedi cyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc oedd yn NEET yng Ngwynedd (10/11). Yr unig eithriad yma oedd bod un rhan-ddeiliad yn adrodd eu bod yn teimlo bod y data cyfredol a gasglwyd ar gyfer ADTRAC yn rhoi 'sicrwydd ffug', a theimlai bod angen ei roi mewn cyd-destun yn erbyn cyfraddau llwyddiant rhaglenni eraill er mwyn deall faint o gyfraniad y mae ADTRAC yn ei wneud mewn gwirionedd, o gymharu â chefnogaeth bosib arall. O'r rhan-ddeiliaid a adroddodd bod ADTRAC wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol, cyfeiriai'r mwyafrif at ran ADTRAC o ran darparu cefnogaeth ychwanegol a lleihau'r rhwystrau i EET a brofwyd gan gyfranogwyr. Mae hyn yn cynnwys darparu cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant, a ystyriwyd ei fod yn cynorthwyo cyfranogwyr i symud yn agosach at EET.

Nododd un cyfwelai, er ei fod yn teimlo bod ADTRAC yn cyfrannu at leihau'r cyfraddau NEET, nad oedd o reidrwydd yn arwain at gyfranogwyr yn symud yn uniongyrchol i EET, ond er hynny, roedd y gefnogaeth yn eu helpu i symud pobl ifanc tuag at EET, hyd yn oed os nad oedd y gefnogaeth yn arwain at ddeilliant yn syth:

*'Dwi'n meddwl ei fod [ADTRAC] wedi gwneud cyfraniad da iawn, iawn. Yn fy marn i mae wedi cyfrannu, ond mae nifer y bobl sy'n NEET yn andros o uchel, rydym wedi medru eu symud fymryn yn agosach, ond nid yw pob person ifanc wedi ymgysylltu ac mae gan eraill bethau eraill yn mynd ymlaen. Mae nifer o bobl sydd angen llawer mwy o ymyrraeth sydd ymhellach i ffwrdd o EET – efallai na fydd modd iddyn nhw symud ymlaen i unrhyw beth. Mae'n [ADTRAC] effeithiol o ran adeiladu ymddiriedaeth a chydberthynas, hyd yn oed os nad ydynt yn barod i fynd ymlaen i EET.'* (Cyfwelai, Rhif Adnabod 13)

Adroddodd tri chyfranogwr bod ADTRAC yn medru darparu cefnogaeth bwrpasol a rhywun i siarad â hwy, a ystyriwyd eu bod yn bwysig o ran lleihau rhwystrau i EET ymysg pobl ifanc. Adroddodd dau gyfranogwr bod hyn wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cyfraddau NEET drwy alluogi cyfranogwyr i gael mynediad at hyfforddiant a chymwysterau, na fyddant wedi medru cael mynediad ato fel arall, o bosib.

### [Pa mor effeithiol yw ddarpariaeth TRAC ac ADTRAC o ran cwrdd ag anghenion cefnogaeth pobl ifanc?](#)

Roedd rhan-ddeiliaid yn gadarnhaol ynghylch y ddarpariaeth a gyflwynwyd drwy TRAC ac ADTRAC, ac adroddodd mwyafrif y rhan-ddeiliaid (16/17) eu bod yn teimlo bod y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno'n effeithiol ac yn briodol at anghenion y carfannau targed. Fodd bynnag, cododd un cyfwelai heriau o ran nifer y bobl y gellid eu gweld gan ADTRAC, gan nodi bod cyfeiriadau wedi cael eu hatal dros dro yn sgil nifer y bobl sy'n cael mynediad at y gwasanaeth.

*'Anhygoel. Dwi wedi bod yn gwneud y swydd hon am saith mlynedd ac ADTRAC yw'r ddarpariaeth gefnogaeth fwyaf effeithiol o bob un. Mae'n aml-ffasedaidd, byddai'r ddarpariaeth flaenorol wedi canolbwyntio ar un broses benodol, ond mae ADTRAC yn edrych ar ddatblygiad drwy addysg neu lesiant, neu gyflogaeth. Mae'n ymdrin â bron popeth sydd ei angen.'* (Cyfwelai, Rhif Adnabod 16)

Yn ogystal, mae data monitro yn awgrymu bod ADTRAC yn cael trafferth ymgysylltu â chyfranogwyr heb unrhyw gymwysterau. Cyfranogwyr heb unrhyw gymwysterau presennol yw un o'r grwpiau mwyaf i gael eu cyfeirio i ADTRAC, gan gyfrif am 35 y cant o gyfeiriadau. Fodd bynnag, o'r rhain, ni wnaeth dros eu hanner gofrestru ag ADTRAC, neu bu iddynt ymddieithrio'n fuan ar ôl cofrestru. Ni wnaeth 47 y cant gofrestru, a bu i saith y cant pellach ymddieithrio. Mae hyn yn awgrymu bod ADTRAC yn cael trafferth i fodloni anghenion y bobl ifanc hyn.

Cafodd y ddarpariaeth o gefnogaeth iechyd meddwl a llesiant a chefnogaeth bwrpasol / wedi'i theilwra yn narpariaeth ADTRAC a TRAC ei chanmol yn rheolaidd gan ran-ddeiliaid. Gwelwyd bod yr agweddau hyn o'r ddarpariaeth yn unigryw i TRAC ac ADTRAC a dyma beth oedd yn gwahaniaethu'r prosiectau hyn oddi wrth y gefnogaeth arall a gyflwynwyd yng Ngwynedd. Er ei bod yn bosib y bu peth dyblygu gyda gwasanaethau eraill o ran y gefnogaeth cyflogadwyedd mwy traddodiadol a gyflwynwyd gan y prosiectau, megis cefnogaeth CV a chysiau hyfforddi, ystyriwyd y gefnogaeth wedi'i theilwra fel elfen unigryw i'r ddarpariaeth a gyflwynwyd drwy TRAC ac ADTRAC. Roedd y System Brynu Dynamig a adeiladwyd i mewn i'r ddau brosiect, er enghraifft, yn galluogi mentoriaid i gaffael cysiau a hyfforddiant oedd yn unigryw i anghenion yr unigolyn yr oeddynt yn eu cefnogi, lle gwelwyd bod cefnogaeth cyflogadwyedd o sefydliadau eraill yn cael eu hystyried fel rhai oedd yn defnyddio dull "blanced".

*'Y prif wahaniaeth gydag ADTRAC yw'r ymyrraeth llesiant, lle na all gwasanaethau eraill ei gynnig ar yr un pryd. Ac o ran yr hyfforddiant DPS lle y gallwn wneud cais am hyfforddiant unigol i ddatblygu pecyn ar gyfer yr unigolyn – dydw i ddim yn meddwl y gall darpariaethau eraill gynnig y gefnogaeth hon sydd wedi'i theilwra. Ond mae peth dyblygu gyda pheth o'r hyfforddiant a geir gan gefnogaeth arall, megis y Ganolfan Waith, o ran cynnig chwilio am swyddi a chefnogaeth a CV.'*  
**(Cyfwelai, Rhif Adnabod 13)**

Roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd (11/13) yn dweud eu bod yn teimlo bod TRAC ac ADTRAC wedi alinio'n effeithiol â'r ddarpariaeth arall oedd yn ceisio lleihau cyfraddau NEET yng Ngwynedd. Teimlwyd bod y gefnogaeth a gyflwynwyd yn unigryw, o ran y ddarpariaeth llesiant, ac felly'n helpu i leihau dyblygiad gyda'r ddarpariaeth arall drwy dargedu angen nad oedd yn cael ei chyflawni gan gefnogaeth arall. Yn ogystal, adroddodd rhan-ddeiliaid bod y ddarpariaeth wedi alinio'n dda gan bod dulliau TRAC ac ADTRAC yn annog cydweithio â'r asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn cael eu cyfeirio ymlaen at ddarpariaethau eraill os byddai hynny'n fwy priodol ar eu cyfer. Disgrifiai un rhan-ddeiliad ADTRAC fel rhywbeth oedd yn gweithio fel math o 'frysbenneu cyn unrhyw ddarpariaeth arall', oedd yn helpu i gael gwared ar ddyblygu, gan ei fod yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cyfeirio at ddarpariaeth arall os oedd hynny'n briodol. Adroddodd chwe rhan-ddeiliad bod y ddau brosiect yn ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth o gefnogaeth oedd ar gael.

Fodd bynnag, nododd lleiafswm o ran-ddeiliaid (2/13) eu bod yn teimlo bod peth dyblygu rhwng TRAC ac ADTRAC a chefnogaeth arall yng Ngwynedd. Roedd hyn yn cynnwys dyblygu'r gefnogaeth cyflogadwyedd mwy traddodiadol megis cefnogaeth CV, a theimlwyd ei fod yn cael ei ddyblygu mewn darpariaeth arall. Yn ogystal, adroddodd un rhan-ddeiliad bod dyblygu rhwng yr hyn y mae rhai o'r ysgolion, TRAC a gwasanaethau ieuencid eraill yn ei gefnogi. Fodd

bynag, teimlwyd nad oedd hyn yn sgil diffyg cynllunio TRAC, ond o ganlyniad i ysgolion yn chwilio am 'bob cefnogaeth bosib'.

Gofynnwyd i ran-ddeiliaid nodi p'un a oedd unrhyw fylchau yn parhau i fod yn y ddarpariaeth, gyda TRAC ac ADTRAC yn ei le. Adroddodd rhai rhan-ddeiliaid (4/15) nad oedd unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, ac adroddodd mwyafrif yr ymatebwyr (9/15) bod rhai bylchau yn parhau yn y ddarpariaeth sydd ar gael yng Ngwynedd. Yn fwyaf cyffredin, bu i ran-ddeiliaid adnabod bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau 'anodd eu cyrraedd' gan gynnwys unigolion nad ydynt wedi'u cofrestru ag ysgol na fyddai'n gymwys am TRAC, ac unigolion 16+ oed a oedd wedi colli llawer o addysg, ac nad oedd yn medru cael mynediad at goleg yn 19+ oed. Roedd bylchau eraill a nodwyd yn cynnwys mynediad at gefnogaeth mwy hirdymor ar gyfer pobl ifanc gyda rhwystrau cymhleth o ran EET, cludiant a chanfyddiad bod diffyg cyflogaeth addas ar gael yn lleol er mwyn i gyfranogwyr ymadael iddo.

### Beth yw'r risgiau a'r goblygiadau i'r Fframwaith pan fo cyfnod cyllid TRAC ac ADTRAC yn dod i ben?

Ar hyn o bryd, mae'r paneli Ôl-16 yn cyfeirio mwyafrif y bobl ifanc yn Haen 2 at ADTRAC am gefnogaeth. Yn ôl dadansoddiad y data Haen 1 a 2 (2017-2020) a drosglwyddwyd o Gyrfa Cymru i Baneli Ôl-16, mae cyfeiriadau i ADTRAC yn cael eu gwneud yn 62 y cant o gyfeiriadau Haen 2. Mae oddeutu 25 y cant o'r bobl ifanc hyn cael eu cyfeirio i ADTRAC am gefnogaeth llesiant. Er hynny, nid yw 39 y cant o'r bobl ifanc hyn yn cofrestru gydag ADTRAC, mae 61 y cant yn cofrestru. O'r rhai sydd wedi ymadael, bu i'r mwyafrif (13/14) ymadael i EET. Mae hyn yn awgrymu bod bwlch mawr o ran lle bydd cyfranogwyr Haen 2, sy'n cael eu cefnogi gan ADTRAC ar hyn o bryd, yn cael eu cefnogi yn absenoldeb y ddarpariaeth hon.

Yn ogystal, roedd rhan-ddeiliaid yn bryderus y byddai bylchau yn dod i'r amlwg mewn darpariaeth leol pan fydd y cyllid ar gyfer TRAC ac ADTRAC yn dod i ben. Yn wir, adroddodd 13/15 o'r rhai a gyfwelwyd y byddai bylchau yn y ddarpariaeth yn dod i'r amlwg pan fyddai'r cyllid ar gyfer y ddau brosiect yn dod i ben. Adroddodd rhan-ddeiliaid y byddai TRAC ac ADTRAC yn gadael 'bylchau anferthol' yn y ddarpariaeth ac fe fynegodd bryderon ynghylch pa effaith y byddai hyn yn ei gael ar y gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc a chyfraddau NEET yn yr ardal, yr oeddynt yn ofni fyddai'n cynyddu o ganlyniad. Roedd nifer o ran-ddeiliaid (4/15) yn bryderus y byddai colli'r cyllid ar gyfer TRAC ac ADTRAC yn arwain at golli cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant, fyddai'n gadael bwlch o ran cefnogi pobl ifanc lle mae eu cynnydd i EET yn cael ei gyfyngu gan iechyd meddwl a llesiant gwael. Hefyd, bu i ran-ddeiliaid fynegi pryder ynghylch colli'r adnodd yr oedd TRAC yn ei ddarparu.

*'Ni fydd mynediad at y Fframwaith TRAC cyfan. Ni fydd hynny yn ei le mwyach. Ni fydd y gefnogaeth mewn ysgolion yno mwyach. Bydd yn rhaid i ysgolion geisio darparu eu hunain ac ni allaf weld y byddant yn gwneud hynny i'r un ansawdd [ag y byddai TRAC yn ei gyflwyno]...' (Cyfwelai, Rhif Adnabod 11)*

Codwyd pryderon hefyd ynghylch colli'r gefnogaeth un-i-un bwrpasol oedd, fel y trafodwyd yn flaenorol, yn cael ei ystyried yn un o nodweddion mwyaf unigryw'r gefnogaeth a gyflwynwyd drwy TRAC ac ADTRAC. Mae'r dyfyniadau isod yn tynnu sylw at rai o'r prif fylchau

yr oedd rhan-ddeiliaid yn pryderu fyddai'n dod i'r amlwg pe bai TRAC ac ADTRAC yn cael ei dynnu yn ôl.

*'Y gallu i greu cydberthynas bwrpasol â'r bobl ifanc. Bydd llawer o bobl ifanc ymhell iawn o ymgysylltu ag unrhyw beth yn cael eu gadael ar ôl, a dydw i ddim yn gwybod pa ddarpariaeth fydd ar gael ar y pryd i fynd i gnocio ar ddrysau a dod i'w hadnabod. Bydd llawer o'r cymorth llesiant yn diflannu, ac mae llawer o bobl ifanc â phroblemau yma. Bydd hynny'n anferthol. Medru cynnig yr hyfforddiant pwrpasol drwy DPS. Bydd bwlch anferthol.'* **(Cyfwelai, Rhif Adnabod 13)**

*'[Bydd] bwlch mawr – yn enwedig o ran cynnig profiadau amgen, a chwricwlwm amgen. Ymhle allwn ni gael y ddarpariaeth honno, at bwy fyddwn ni'n troi?'* **(Cyfwelai, Rhif Adnabod 17)**

## 5.10 Cyflogadwyedd

Beth yw cyfraniad ac effaith TRAC ac ADTRAC o ran atgyfnerthu sgiliau a chyfleoedd cyflogadwyedd er mwyn i bobl ifanc ennill cyflogaeth?

Roedd 20 y cant o'r bobl ifanc oedd wedi ymadael â TRAC wedi cyflawni deiliant yn ymwneud â gwell cyflogadwyedd, megis ennill cymwysterau newydd, cwblhau profiad gwaith neu wirfoddoli neu fynd i gyflogaeth. Mae'r deilliannau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 3.5.

Tabl 3.5: Nifer a chyfran y cyfranogwyr TRAC sydd wedi cyflawni deiliant sy'n ymwneud â gwell cyflogadwyedd

Deiliant Cyflogadwyedd	N	%
Cyfranogwr wedi cyflawni cymwysterau rhan-amser	36	9%
Cyfranogwr wedi cwblhau profiad gwaith	31	8%
Cyfranogwr wedi cwblhau cyfleoedd i wirfoddoli	16	4%
Cyfranogwr wedi mynd i gyflogaeth llawn-amser (gan gynnwys hunan-gyflogaeth)	9	2%
Cyfranogwr wedi mynd i gyflogaeth rhan-amser (gan gynnwys hunan-gyflogaeth)	3	1%
Cyfranogwr a gyflawnodd o leiaf un o'r deilliannau uchod	78	20%


Ffynhonnell: Data TRAC: Deilliannau Cadarnhaol (Sail=383)

Fel y bu i ni ei ystyried yn y rhan uchod, aeth 77 y cant o'r cyfranogwyr a ymadawodd ag ADTRAC i EET. Yn ogystal, enillodd 53 y cant o'r cyfranogwyr gymhwyster erbyn iddynt ymadael â'r prosiect.

Gofynnwyd i gyfranogwyr ADTRAC gwblhau Work Star, sy'n cael ei ddefnyddio i fesur gwahanol agweddau o gyflogadwyedd a chyflogaeth. Ar adeg cofrestru â'r prosiect, sgôr gyfartalog Work Star y cyfranogwyr oedd 6.43; wrth ymadael, roedd hyn wedi cynyddu i 7.83. Mae'r ffigyrau ar gyfer pob elfen wedi'u darparu yn Ffigwr 3.3. Roedd y cynnydd mwyaf mewn perthynas â dyheadau a symbyliad a sgiliau gwaith a phrofiad. Hefyd, roedd cynnydd yn y sgôr gyfartalog ar gyfer sgiliau chwilio am waith. Mae hyn yn awgrymu bod ADTRAC yn cael effaith gadarnhaol ar gyflogadwyedd cyfranogwyr.

I ategu data Work Star, roedd cyfran y cyfranogwyr ADTRAC a adroddodd eu hunain bod ganddynt ddiffyg profiad neu gyflogadwyedd fel rhwystr i'w datblygiad yn EET wedi lleihau o 46 y cant i 29 y cant rhwng ymuno ac ymadael â'r gefnogaeth.

**Ffigwr 5.3: Sgoriau Work Star wrth ymuno ac ymadael â'r prosiect**



Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr ar gyfer ADTRAC (Sail=70, cyfranogwyr wedi ymadael gyda data cyflawn)

Adroddodd rhan-ddeiliaid bod y ddau brosiect wedi cyfrannu at y cyfleoedd i bobl ifanc ennill cyflogaeth a datblygu sgiliau cyflogadwyedd. Adroddodd rhan-ddeiliaid bod TRAC wedi cyfrannu at sgiliau cyflogadwyedd drwy ddarparu cyrsiau galwedigaethol a phrofiad gwaith. Roedd ADTRAC wedi darparu cefnogaeth ymarferol i bobl ifanc megis datblygiad CVs, cymwysterau, a hyfforddiant pwrpasol.

### [Beth yw'r risgiau/goblygiadau i'r Fframwaith pan fo cyfnod cyllid TRAC ac ADTRAC yn dod i ben?](#)

Er bod sawl agwedd o'r darpariaethau hyn yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau eraill, adroddodd mwyafrif y rhan-ddeiliaid (10/12) y byddai bylchau yn y cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i symud tuag at gyflogaeth neu wella eu cyflogadwyedd, yn absenoldeb TRAC ac ADTRAC. Bu i nifer o'r rhan-ddeiliaid hyn (4/10) adnabod y byddai bylchau yn dod i'r amlwg mewn perthynas â'r gefnogaeth sydd fwy wedi'i theilwra na'r hyn sy'n cael ei gyflwyno drwy'r rhaglenni hyn. Er enghraifft, roedd ADTRAC yn golygu y gellid caffael cyrsiau ar gyfer yr unigolyn drwy System Brynu Deinamig (DPS) - teimlwyd bod hyn yn rhywbeth fyddai ar goll o gefnogaeth leol heb ADTRAC. Yn yr un modd, roedd modd i ymgynghorwyr TRAC adnabod cefnogaeth profiad gwaith oedd wedi'i theilwra. Teimlwyd y gallai peth o'r gwaith

galwedigaethol hwn barhau i gael ei gyflawni gan asiantaethau eraill, gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau ieuencid, mewn rhai ffyrdd, ond codwyd pryderon bod hyn yn debygol o fod yn ddarpariaeth "blanced" na fyddai, o bosib, yn bodloni anghenion y bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan TRAC, yn ddigonol.

Yn ogystal, roedd rhan-ddeiliaid yn bryderus ynghylch colli'r gefnogaeth fanwl, un-i-un, a fyddai'n cael ei cholli heb TRAC ac ADTRAC.

*'A oes unrhyw fylchau penodol yn y ddarpariaeth cyflogadwyedd yr ydych yn rhagweld fydd yn dod i'r amlwg pan ddaw'r cyllid ar gyfer TRAC ac/neu ADTRAC i ben? Dod yn rhan weithredol â phobl ifanc mewn ffordd na all gwasanaethau eraill. Mae'n waith ymarferol iawn ac yn gyfarwyddol iawn. Yn aml, mae'r bobl ifanc hyn yn sownd ac yn ynysig yn gymdeithasol, nid oes ganddynt gymhelliant, ac fe all ADTRAC roi iddynt y teclynnau i oresgyn hyn. Yr ymgysylltiad wyneb-yn-wyneb ar lefel mwy hirdymor, na all gwasanaeth fel CAMHS ei gynnig, fydd yn cael ei gollu.'* (Cyfwelai, Rhif Adnabod 9)

Mae'r data monitro a'r adborth gan ran-ddeiliaid yn awgrymu bod y ddau brosiect yn cyfrannu at y ddarpariaeth cyflogadwyedd sydd ar gael yng Ngwynedd, er bod effaith hyn yn ymddangos yn fwy mewn perthynas ag ADTRAC. Felly, mae pryderon ynghylch colli'r ddarpariaeth cyflogadwyedd fydd yn digwydd pan fydd cyllid TRAC ac ADTRAC yn cael ei dynnu'n ôl.

## 5.11 Atebolrwydd

Mae'r Fframwaith yn cynnwys amcan o ran atebolrwydd. Cyflwynwyd yr amcan hwn i leihau gwendidau posib ynghylch pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r Fframwaith. Mae'r amcan atebolrwydd yn cynnwys:

- Dal awdurdodau lleol a phartneriaid yn atebol yn rheolaidd am weithrediad y Fframwaith
- Cyhoeddi data perfformiad cymharus yn ôl awdurdod lleol ar gyfer lleoliadau pobl ifanc 16, 17 ac 18 mlwydd oed
- Datblygu mesurau cyrchfan lefel darparwr.

Gofynnwyd i aelodau Grŵp Rheoli'r Fframwaith pa mor effeithiol yr oeddynt yn teimlo oedd trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd TRAC ac ADTRAC fel rhan o'r trefniadau a disgwyliadau atebolrwydd y Fframwaith. Roedd yr ymatebion gan y rhai a gyfwelwyd yn awgrymu bod hon yn ardal fyddai'n elwa o welliannau pellach. Adroddodd tri chyfwelai bod atebolrwydd clir yng Ngwynedd; er y teimlai dau o'r rhai a gyfwelwyd bod yr atebolrwydd ar lefel ranbarthol yn llawer llai clir. Adroddodd un arall a gyfwelwyd am bryderon o ran gwendidau yn y dull - roedd yn adrodd, er bod adroddiadau'n mynd gerbron y Grŵp Rheoli, nid oeddynt yn bwydo i mewn i strwythur uwch yn y Cyngor, a chododd bryderon ynghylch y ffaith nad oedd yr hyn oedd yn cael ei ddysgu yn cael ei ddwyn ymlaen wrth gomisiynu â chyllid EFS.

## 5.12 Etifeddiaeth

Mae TRAC ac ADTRAC yn cael eu hariannu gan ESF. Disgwylir i'r cyllid ar gyfer ADTRAC ddod i ben ym mis Mai 2021, ac y bydd cyllid TRAC yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2022. Gofynnwyd i ran-ddeiliaid roi eu safbwyntiau nhw ynghylch goblygiadau diwedd y cyllid ar allu Gwynedd i gyflawni'r Fframwaith. Nododd mwyafrif y rhan-ddeiliaid (14/17) y byddai colli'r cyllid yn creu bylchau. Roedd y prif feysydd lle y bu i ran-ddeiliaid nodi y byddai bylchau'n cael eu creu yn ymwneud â brocera cefnogaeth a'r ddarpariaeth.

O ran broceriaeth, adroddodd nifer o ran-ddeiliaid (3/17) bod TRAC ac ADTRAC yn chwarae rhan hanfodol o ran cydlynu cefnogaeth a 'chysylltu popeth ynghyd yn y Fframwaith'. Roedd hyn yn cynnwys cydlynu gwaith ar draws asiantaethau sy'n cefnogi pobl ifanc, a chymryd y rôl o ddal i fyny â phobl ifanc lle roedd canfyddiad nad oedd gan asiantaethau eraill y capasiti i wneud hynny. Teimlwyd na fyddai gan yr un asiantaeth arall y capasiti i gyflawni hyn heb TRAC ac ADTRAC, ac y gallai colli'r darpariaethau hyn effeithio ar lwyth gwaith y gwasanaethau eraill.

*'Dwi'n meddwl ei fod am achosi nifer o oblygiadau, o ran gallu sefydliadau i ganfod cefnogaeth addas. Dydw i ddim yn gwybod lle fydd y bobl ifanc yn mynd. Mae ADTRAC yn cydlynu llawer ac yn cymryd cyfrifoldeb am lawer o'r gwaith o ddal i fyny â'r bobl ifanc. Dydw i ddim yn meddwl y bydda gan asiantaethau eraill gapasiti i fwrw ymlaen â hyn a chydlynu pob bwriad. Bydd bwllch anferthol oni bai bod darpariaeth arall yn dod yn ei le.'* **(Cyfwelai, Rhif Adnabod 13)**

O ran darpariaeth, adroddodd rhan-ddeiliaid y byddai bylchau'n cael eu creu o ran cefnogi'r carfannau penodol o bobl ifanc y mae TRAC ac ADTRAC yn eu cefnogi. Adroddodd nifer o ran-ddeiliaid nad oeddynt yn gwybod lle y byddai'r garfan o bobl ifanc oedd yn cael eu cefnogi gan TRAC ac ADTRAC fel arfer yn cael eu cyfeirio yn absenoldeb y rhaglenni hyn. Mewn perthynas â TRAC, teimlwyd y byddai bwllch mewn cefnogaeth ysgol, yn enwedig o ran pobl ifanc nad oeddynt o bosib yn gyfforddus mewn lleoliad addysg, a allai elwa o ddarpariaeth amgen yn TRAC. Teimlwyd bod y bwllch hwn yn creu risg uchel y byddai mwy o bobl ifanc yn gadael addysg heb unrhyw le i fynd, a allai arwain at gynydd mewn cyfraddau NEET ymysg y garfan 16-18 oed. Mewn perthynas ag ADTRAC, teimlwyd y byddai bwllch o ran y gefnogaeth ddwys a gyflwynwyd drwy'r ddarpariaeth hon, ac y byddai hynny'n gadael bwllch yn y gefnogaeth ar gyfer unigolion gyda rhwystrau mwy cymhleth. Roedd pryderon y gallai hyn arwain at gynydd mewn cyfraddau NEET ymysg y garfan hon, yn ogystal â chostau ychwanegol posib i wasanaethau iechyd, gan na fyddai ADTRAC yn darparu cefnogaeth i rai unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl mwyach.

*'Bydd yn golled fawr o ran gweithio â'r plant a'r bobl ifanc hyn mewn ffyrdd na all systemau eraill. Ni allant fuddsoddi'r amser a'r gofod, a dyna yw un o'r pethau hanfodol fydd yn cael ei gollu. Byddai'n drasiedi, gan bod digon o bobl ifanc yn myned ar goll yn y system rŵan.'* **(Cyfwelai, Rhif Adnabod 9)**

*'Dwi'n meddwl y bydd y Fframwaith yn dal yno ac y bydd pobl eraill yn gweithio tuag ato...ni fydd y gwasanaeth ieuencid yn diflannu...ond bydd y dull sydd gennym [yn TRAC] yn diflannu ac mae'r sefyllfa Covid yn mynd i gael effaith fawr*



*– mae'n debyg bod TRAC yn bwysicach nag erioed, gan bod anghenion y bobl ifanc hyn yn mynd i fod yn fwy fyth ar ôl Covid-19. Os na fydd unrhyw gynllun yn ei le, mae'n bryderus iawn.'* **(Cyfwelai, Rhif Adnabod 11)**

Nododd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd (9/17) y gallai llai o gynnydd fod wedi'i wneud yn erbyn y Fframwaith os na fyddai TRAC ac ADTRAC wedi bodoli, ac adroddodd pedwar cyfwelai arall y byddai wedi bod yn anoddach i gyflwyno'r Fframwaith.

*'Ni fyddai cymaint wedi cael ei gyflwyno i leihau cyfraddau NEET. Mae gwaith arall yn digwydd sy'n cynnig cefnogaeth, ond dydw i ddim or farn bod llawer o'r bobl ifanc sy'n NEET ac angen cefnogaeth ychwanegol wedi cael mynediad at y gwasanaethau heb ADTRAC. Byddant wedi parhau i fod yn NEET. I'r rhai â nifer o rwystrau, byddant wedi bod yn llai tebygol o ymgysylltu â chefnogaeth i fynd i EET. Mae ADTRAC wedi rhoi iddynt berson sy'n credu ynddynt. Mae'n wirfoddol ac nid ydynt dan unrhyw bwysau, ac mae hynny wedi gwneud pethau'n haws i'r bobl ifanc. Mae'n eu helpu i fynd gam yn nes at EET. Mae gan lawer o ddarpariaethau eraill lwybrau clir iawn. Heb ADTRAC, nid oes cefnogaeth i bobl ifanc nad ydynt yn gwybod i ba gyfeiriad y maent yn dymuno mynd.'* **(Cyfwelai, Rhif Adnabod 13)**

Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd p'un a oedd unrhyw gamau wedi cael eu cymryd i liniaru'n erbyn y goblygiadau yr oeddynt wedi'u trafod, fel yr ystyriwyd uchod. Nododd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd (9/17) nad oeddynt yn ymwybodol o unrhyw gamau oedd wedi cael eu cymryd, er bod nifer ohonynt yn pwysleisio na fyddant, o reidrwydd, wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hyn o fewn swyddogaeth eu swydd. Bu i 7/17 arall ymysg y rhai a gyfwelwyd adrodd bod trafodaethau wedi bod yn cael eu cynnal ynghylch y dyfodol, gan gynnwys archwilio gwahanol fodelau a chyfleoedd ariannu i fidio amdanynt, ond nad oedd unrhyw beth cadarn yn ei le.

## 6 Casgliadau

Ar y cyfan, roedd rhan-ddeiliaid yn bositif ynghylch y cyfraniad y mae TRAC ac ADTRAC wedi'i wneud yng Ngwynedd. Teimlwyd bod TRAC ac ADTRAC yn llenwi bwlch yn y ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o ymddieithrio.

Ystyriwyd bod y prosiectau wedi dod â chapasiti ychwanegol i Wynedd i gefnogi ymdrechion i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET.<sup>7</sup> Yn wir, gellir ystyried bod TRAC ac ADTRAC yn ychwanegu at bethau mewn sawl ffordd. Er enghraifft, mae'r ddau brosiect yn darparu adnodd ychwanegol, ar ffurf 'gweithwyr arweiniol' sy'n cyfrannu at well broceriaeth a chydlynu'r gefnogaeth. Mae hyn yn bodloni angen lle nad oedd gan wasanaethau a chefnogaeth flaenorol gapasiti i wneud y gwaith rhagweithiol hwn. O ganlyniad, mae'r prosiectau wedi cynorthwyo i ymestyn y gafael ac adnabod pobl ifanc nad oeddynt mewn cyswllt blaenorol ag unrhyw wasanaethau neu gefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET.

O ran TRAC, ceir elfen ychwanegol drwy ei ffocws ataliol, sy'n ceisio dal achosion yn gynnar, a cheisio gyrru pobl ifanc yn ôl i ymgysylltu ag addysg, cyn iddynt fynd yn NEET.

Yn ogystal, mae rhan BIPBC yng nghyflwyniad ADTRAC, sydd wedi golygu bod cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant wedi cael ei chyflwyno fel rhan o'r prosiect, wedi dod ag elfen ychwanegol, a hynny drwy ddarparu cefnogaeth i fodloni anghenion pobl ifanc lle mae'n bosib bod materion iechyd meddwl neu lesiant yn eu hatal rhag ymgysylltu â EET.

Fodd bynnag, mewn perthynas â mesurau deilliant, ar y cam hwn o gyflwyno'r rhaglenni, mae'r dystiolaeth o gyfraniad y prosiect o ran lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET, yn gyfyngedig. Yn wir, er bod cyfran uchel o gyfranogwyr sydd wedi cael eu rhyddhau o ADTRAC wedi mynd i EET, mae nifer y bobl ifanc sydd wedi cael eu rhyddhau yn parhau i fod yn isel, ac mae cyfran uchel o bobl ifanc sydd wedi cael cefnogaeth gan TRAC yn parhau i fod mewn perygl o ymddieithrio.

Er y cyfyngiadau hyn, yn absenoldeb TRAC ac ADTRAC ceir pryder y bydd bylchau'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc yng Ngwynedd, lle nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni gan ddarpariaeth prif lif ar hyn o bryd. Heb drefniadau amgen, mae addasrwydd y broses ar gyfer ymyrraeth gynnar, broceriaeth ac olrhain cynnydd sydd wedi cael hwb gan TRAC ac ADTRAC yn y fantol, ac mae hyn yn rhoi gallu pobl Gwynedd i gyflawni'r Fframwaith mewn perygl, i gydlynu'r gefnogaeth ac i sicrhau nad yw pobl ifanc yn syrthio i'r bwlch rhwng asiantaethau a'r ddarpariaeth. Mae'r ddibyniaeth ar TRAC ac ADTRAC i gydlynu'r gefnogaeth yn benodol yn rhoi cynnydd Gwynedd yn erbyn y Fframwaith yn y fantol pan fydd y cyllid ar gyfer y prosiectau hyn yn cael ei dynnu yn ôl, ac fel y cyfryw, mae'n hanfodol bod Gwynedd yn dechrau ystyried etifeddiaeth y prosiectau hyn a sut y gellir cydlynu'r gefnogaeth yn eu habsenoldeb.

---

<sup>7</sup> Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel a ganlyn: *'The extent to which activity takes place at all, on a larger scale, earlier or within a specific designated area or target group as a result of the intervention'* (Dancer, 2014).

Mae hyn yn codi pryder ehangach ynghylch sefydliad prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy ESF, sy'n gallu gwneud Awdurdodau Lleol yn ddibynnol ar brosesau sydd wedi cael eu gwreiddio drwy adnodd prosiect cyfnod penodol, ac absenoldeb cynllun ymadael clir o ran sut ellir cynnal adnoddau a phrosesau pan fydd y cyllid yn cael ei dynnu'n ôl.

Mae'n ymddangos mai'r dull amlasiantaethol sy'n sefyll wrth wraidd llwyddiant canfyddedig TRAC ac ADTRAC ymysg rhan-ddeiliaid, gan bod y prosiectau wedi bod yn dwyn ynghyd asiantaethau sy'n rhan o gyflwyno cefnogaeth i bobl ifanc sy'n NEET, neu mewn perygl o fynd yn NEET. Felly, byddem yn awgrymu mai un o'r argymhellion allweddol wrth symud ymlaen yw i sefydliadau dan y Fframwaith barhau i weithio'n amlasiantaethol ac adnabod adnoddau i gydlynu cefnogaeth wrth symud ymlaen.

Byddem yn annog pob sefydliad sydd ynghlwm â chyflwyno cefnogaeth i leihau nifer y bobl ifanc sydd neu sydd mewn perygl o fynd yn NEET, i gydweithio i adnabod agweddau craidd TRAC ac ADTRAC sydd wedi arwain at lwyddiant, er mwyn adnabod y meysydd blaenoriaeth o ran cynllunio etifeddiaeth.

## 7 Deunydd Cyfeiriol

Gyrfa Cymru, 2019. *Lleoliadau 2018: Prif Ganfyddiadau - Arolwg 2018*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://cyrchfannau.gyrfacymru.com/keyFindings.html> [Cyrchwyd ar 7 Mai 2020].

Crawford, C., Duckworth, K., Vinales, A. & Wyness, G., 2011. *Young people's education and labour market choices aged 16/17 to 18/19*, Llundain: Department for Education.

Dancer, S., 2014. *Additionality Guide: Fourth Edition 2014*, London: Homes & Communities Agency.

Maughan, C., Marshall, T., Griffiths, E. & Wavehill, 2020. *ADTRAC Evaluation: Interim Report (Publication Pending)*, s.l.: GLLM.

Powell, A., 2018. *NEET: Young People Not*, Llundain: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

Ystadegau Cymru, 2019. *Datganiad Ystadegol Cyntaf: Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur 2017 a 2018 (dros dro)*, s.l.: Llywodraeth Cymru.

StatsWales, 2019. *Graddfa Llesiant Meddwl Warwick–Caeredin (WEMWBS) yn ôl grŵp oedran a rhywedd*. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Population-Health/Mental-Health-and-Wellbeing/wemwbsscore-by-age-gender> [Cyrchwyd ar 29 Ebrill 2020].

Warwick Medical School, 2020. *Collect, score, analyse and interpret WEMWBS*. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://warwick.ac.uk/fac/sci/med/research/platform/wemwbs/using/howto/>

Llywodraeth Cymru, 2013. *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Cynllun Gweithredu*, s.l.: Llywodraeth Cymru.

# Atodiad 1: Teclynnau ymchwil

Gwerthuso effeithiau TRAC ac ADTRAC ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Ngwynedd: Canllaw trafod i ran-ddeiliaid

## Cyflwyniad

1. Allwch chi amlinellu eich swyddogaeth a sut mae'n ymwneud â TRAC, ADTRAC a/neu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF – Y Fframwaith)?
  - a. A ydych chi'n aelod o Grŵp Rheoli'r Fframwaith neu a yw eich swyddogaeth yn gysylltiedig â chyflwyno cefnogaeth uniongyrchol i gyfranogwyr?

## Trosolwg o gyfraniad TRAC ac ADTRAC tuag at y Fframwaith

2. **Dim ond aelodau Grŵp Rheoli'r Fframwaith:** Allwch chi ddarparu trosolwg o'r Fframwaith yng Ngwynedd?
  - a. Beth yw'r rhesymeg am hyn?
  - b. Sut mae'n gweithio, e.e. pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd?
  - c. Sawl asiantaeth sy'n rhan o'r Fframwaith?
  - d. Pa mor bwysig yw'r Fframwaith o ran lleihau nifer y bobl ifanc NEET yng Ngwynedd?
  - e. Pa ddarpariaeth oedd yn ei lle i gyflawni'r Fframwaith cyn TRAC ac ADTRAC?
3. Pa effaith yr ydych chi'n ei gredu y mae TRAC ac ADTRAC wedi'i gael ar allu Gwynedd i gyflawni yn erbyn y Fframwaith?
4. **Dim ond aelodau Grŵp Rheoli'r Fframwaith:** Os na fyddai'r ddwy raglen yn bodoli, pa wahaniaeth fyddai hynny'n ei wneud i'ch gallu i gyflwyno'r Fframwaith yng Ngwynedd?
5. **Pob cyfwelai arall, ond nid aelodau Grŵp Rheoli'r Fframwaith:** Os na fyddai'r ddwy raglen yn bodoli, pa wahaniaeth fyddai hynny'n ei wneud i'ch gallu i gefnogi pobl ifanc 11-16 oed i aros mewn addysg; gallu i gefnogi pobl ifanc 16-24 oed i ymgysylltu'n ôl ag addysg, hyfforddiant, cyflogaeth?
6. Sut mae TRAC ac ADTRAC yn cymharu yn erbyn cefnogaeth arall yng Ngwynedd o ran eu cyfraniad a'u heffaith ar y Fframwaith?

### **Adnabod yn gynnar**

7. **Cwestiwn ar gyfer yr aelodau sy'n rhan o TRAC yn unig:** Pa mor effeithiol yw systemau adnabod yn gynnar presennol y rhaglen TRAC (h.y. y Teclyn Proffilio Dysgwr (LPT))?
8. **Cwestiwn ar gyfer yr aelodau sy'n rhan o TRAC yn unig:** Sut mae TRAC yn cyfrannu at ddull y Fframwaith o adnabod y bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio a dod yn NEET?
  - a. I ba raddau y mae TRAC yn eich galluogi i adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio a dod yn NEET?
  - b. Sut mae'r broses o fewn TRAC yn cyd-fynd â dull Gwynedd o adnabod yn gynnar o dan y Fframwaith? A yw wedi adeiladu ar y dull mewn unrhyw ffordd?
9. I ba raddau y mae'r prosesau ar gyfer adnabod yn gynnar sydd wedi'u hadeiladu i mewn i TRAC ac ADTRAC yn galluogi Gwynedd i gyflwyno ymateb cydlynol, gwybyddus?
10. Pa wahaniaeth fyddai'n ei wneud i'ch gallu i adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio a dod yn NEET yng Ngwynedd os na fyddai'r rhaglenni hyn yn bodoli?

### **Broceriaeth [Cwestiynau i Aelodau Grŵp Rheoli'r Fframwaith yn unig]**

11. Sut mae TRAC ac ADTRAC wedi cyfrannu at y trefniadau broceriaeth a chefnogi cyswllt dan y Fframwaith, h.y. sut mae'n cydlynu cefnogaeth / dod ag arbenigedd i mewn o asiantaethau eraill / cysylltu ac eirioli ar ran pobl ifanc gydag asiantaethau a phartneriaid, ac ati?
  - a. Pa mor effeithiol yw'r broses honno?
12. A fydd y trefniadau broceriaeth hyn yn gynaliadwy pan fydd y cyllid yn dod i ben ar gyfer TRAC/ADTRAC?
13. Pa wahaniaeth fyddai'n cael ei wneud i'ch gallu i sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei darparu ar y lefel iawn ac ar yr adeg iawn yng Ngwynedd, os na fyddai'r ddwy raglen hon yn bodoli?

### **Olrhain cynnydd**

14. Pa mor effeithiol yw'r systemau ar gyfer olrhain cynnydd yn TRAC ac ADTRAC?
15. Pa gyfraniad, os o gwbl, y mae TRAC/ADTRAC wedi'i wneud at y trefniadau olrhain a phontio drwy systemau ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 24 oed?
16. Pa effaith mae'r prosesau olrhain a phontio wedi'u cael ar bobl ifanc?
17. Yn eich barn chi, pa mor addas yw'r prosesau olrhain a phontio o TRAC/ADTRAC er dibenion y Fframwaith?

18. A fydd unrhyw un o'r rhain yn cael eu cadw ar ôl i TRAC/ADTRAC ddod i ben?
19. Pa wahaniaeth fyddai'n ei wneud i'ch gallu i olrhain cynnydd yng Ngwynedd os na fyddai'r ddwy raglen hon wedi bodoli?

### **Darpariaeth**

20. Pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth o gefnogaeth sy'n cael ei chyflwyno yn TRAC ac ADTRAC?
21. Sut mae TRAC wedi cyfrannu at y nod o leihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg?
22. Sut mae ADTRAC wedi cyfrannu at y nod o leihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth?
23. Ydych chi'n teimlo bod y ddarpariaeth o TRAC ac ADTRAC yn briodol i anghenion y garfan y mae'n ceisio rhoi budd iddi?
  - a. Pam? Pam ddim?
24. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod TRAC/ADTRAC wedi'i alinio'n effeithiol â darpariaethau eraill sy'n ceisio lleihau cyfraddau NEET yng Ngwynedd? Eglurwch eich ymateb.
  - a. A oes unrhyw feysydd lle mae'n ychwanegu gwerth?
  - b. A oes unrhyw feysydd o drawsgroesi neu ddyblygu gyda chefnogaeth arall?
25. A oes unrhyw fylchau yn parhau yn y ddarpariaeth leol?
26. A oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth yr ydych yn ei rhagweld fydd yn dod i'r amlwg pan ddaw'r cyllid ar gyfer TRAC/ADTRAC i ben?

### **Cyflogadwyedd**

27. Pa gyfraniad mae TRAC/ADTRAC wedi'i wneud i'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc ennill cyflogaeth a datblygu eu sgiliau cyflogadwyedd?
28. A oes unrhyw fylchau penodol yn y ddarpariaeth hon yr ydych yn rhagweld fydd yn dod i'r amlwg pan ddaw'r cyllid ar gyfer TRAC a/neu ADTRAC i ben?

### **Atebolrwydd**

29. **Aelodau Grŵp Rheoli'r Fframwaith yn unig:** Pa mor effeithiol oedd trefniadau llywodraethu/atebolrwydd TRAC/ADTRAC fel rhan o'r trefniadau a disgwyliadau atebolrwydd y Fframwaith?





**Etifeddiaeth**

30. Fel y gwyddoch, mae ADTRAC a TRAC yn cael eu hariannu gan ESF, ac mae disgwyl i'r cyllid ddod i ben ym mis Mai 2021 a Gorffennaf 2022 yn ôl eu trefn. Beth yw goblygiadau diwedd y cyllid hwn ar allu Gwynedd i gyflawni'r Fframwaith?
31. A oes unrhyw gamau wedi cael eu cymryd i liniaru yn erbyn effaith y goblygiadau hyn? Os felly, pa gamau?
32. Sut fyddai'r cynnydd yn erbyn y Fframwaith yng Ngwynedd wedi bod yn wahanol os na fyddai TRAC/ADTRAC wedi bodoli?

wavehill™

social and economic research  
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711  
wavehill@wavehill.com  
wavehill.com



Tud. 306



# Eitem 6

Dyddiad y cyfarfod :	15/4/2021
Aelod Cabinet :	Y Cyng. Gareth Thomas
Swyddog Cyswllt :	Nia Gruffydd
E-bost a Ffôn Cyswllt :	NiaGruffydd@gwynedd.llyw.cymru 01286 679461
Adran / Gwasanaeth :	Economi a Chymuned

## Teitl yr Eitem: Adolygu'r Gwasanaeth Teithiol Llyfrgelloedd

### Pam bod angen Arweiniad?

Yn ystod yr argyfwng Covid-19, dechreuwyd ar drefn newydd sbon o gyflenwi Gwasanaeth Teithiol i'r Cartref (ymweliadau misol gyda phhecyn llyfrau i ddefnyddwyr bregus fel arfer) a chychwyn gwasanaeth cludo llyfrau i'r cartref ar gais.

Yn lle'r cerbydau arferol, llogwyd cerbydau llai gan alluogi'r gyrwyr i gyrraedd pob lleoliad yn hwylus o fewn y sir. Nid ydym eto wedi adfer y Gwasanaeth Teithiol sydd yn caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar y cerbydau i ddewis llyfrau, am resymau galw gan ddefnyddwyr a diogelwch.

Cyn adfer gwasanaeth Llyfrgell, cysylltodd gyrwyr y Gwasanaeth Llyfrgell Teithiol i'r Cartref gyda phob un defnyddiwr, i weld a oeddynt eisiau ail-gychwyn derbyn gwasanaeth llyfrgell ai peidio. Mae pawb oedd eisiau gwasanaeth Cartref, ar hyn o bryd yn derbyn gwasanaeth.

### Beth yw'r arweiniad a geisir?

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cael arweiniad ar y Gwasanaeth Teithiol i'r Cartref yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol a hanesyddol o fewn y Gwasanaeth Llyfrgell.

Rydym wedi cynnig nifer o opsiynau yn seiliedig ar ein canfyddiadau ni o'r galw a'r defnydd presennol ar y gwasanaeth, ac arbedion y gellir eu gwneud o adolygu'r patrwm darpariaeth.

Rydym yn grediniol bod ffordd amgen i ddarparu'r gwasanaeth yn dilyn cyfnod o brofi'r galw yn ystod yr argyfwng Covid-19, ac rydym yn cynnig model newydd o weithio a fydd yn fwy effeithlon o ran adnoddau, ac yn gallu cwrdd â'r angen a'r galw newidiol oddi wrth ddefnyddwyr, gan ein galluogi i ymateb yn fwy hyblyg ac ystwyth i anghenion ein defnyddwyr.

### Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?

1. Ar hyn o bryd, darperir Gwasanaeth Teithiol i'r Cartref gan 3 cerbyd yn gwasanaethu 3 ardal, sef
  - Gwasanaeth Teithiol a Chartref Arfon
  - Gwasanaeth Teithiol a Chartref Dwyfor
  - Gwasanaeth Teithiol a Chartref Meirionnydd
2. Cyflogir 3 gyrrwr yn llawn amser a lleolir 2 gerbyd yng Nghanolfan Llyfrgell Caernarfon ac un cerbyd yn Llyfrgell Dolgellau.
3. Yn ystod y cyfnod pandemig (ers adfer gwas yn Gorffennaf 2020) rydym wedi gallu darparu'r gwasanaeth Teithiol trwy gyfrwng 3 gyrrwr a thri cherbyd llai, a chynnig:
  - 3.1. Gwasanaeth misol i ddefnyddwyr Llyfrgell i'r Cartref
  - 3.2. Gwasanaeth cludo llyfrau ar gais i'r cartref i unrhyw un sy'n byw yng Ngwynedd. Gall hyn fod yn becynnau darllen sy'n cael eu paratoi gan aelodau staff neu geisiadau am lyfrau penodol.

3.3. Gwnaed Asesiad Effaith ar y gwasanaeth newydd hwn - Gwasanaeth Cludo i'r Cartref Llyfrgelloedd Gwynedd – Gwedd 1 Adfer Gwasanaeth yn sgil Covid-19 (gw. Linc isod)

4. Yn ymgynghoriad cyhoeddus Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd a gynhaliwyd yn Ionawr 2019, cyflwynwyd cynnig Lleihau'r gwasanaeth llyfrgell deithiol - ymweld â llai o aros fannau ac yn llai aml. Derbyniwyd sawl sylwad oedd yn poeni am effaith negyddol ar blant/pobl anabl neu fregus os bydd y gwasanaeth llyfrgell teithiol yn stopio. (5)
5. Yn Adroddiad Safbwynt y Defnyddiwr Gwasanaeth - y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-18 - Cyngor Gwynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru, (Gorffennaf 2018) nodir yr argymhellion canlynol-
  - Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng staff mewn llyfrgelloedd a rheolwyr canolog y gwasanaeth llyfrgell.
  - Cyfleu canlyniadau ymgynghoriadau yn y dyfodol fel bod defnyddwyr gwasanaethau yn deall y materion a godwyd a'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud mewn ymateb iddynt.
  - Gwella lefel y cymorth a roddir i ddefnyddwyr y gwasanaeth llyfrgell deithiol. Yn benodol
    - lle y bo'n bosibl, darparu cyfarpar TGCh a mynediad i'r rhyngwrwyd mewn llyfrgelloedd teithiol er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr llyfrgelloedd
    - ystyried sut y gellid defnyddio'r gwasanaeth i alluogi trigolion mewn ardaloedd gwledig gael gafael ar wasanaethau eraill y Cyngor
6. Mae tua 21,000 o boblogaeth Gwynedd (17%) yn byw o fewn 0.25 milltir at arosfan llyfrgell Deithiol. Rydym wedi gallu cwrdd â'r targed Dangosydd Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, '*% yr aelwydydd o fewn 3 milltir i fan gwasanaeth sefydlog neu o fewn 0.25 milltir i arosfan llyfrgell deithiol*', sef 80% o boblogaeth Gwynedd. O adolygu'r Gwasanaeth Teithiol a Chartref a pheidio ag ymweld ag arosfannau teithiol, byddai'r ffigwr hwn yn gostwng i 63% ac ni fyddwn yn cyrraedd y targed presennol. Wedi nodi hynny, mae'r seithfed fframwaith safonau ansawdd ar gyfre llyfrgelloedd Cymru yn cael eu trafod ar gyfer 2021-2024, ac mae'n bosib y bydd y targed hwn dan adolygiad.
7. Mae ffigyrau defnyddwyr presennol y Gwasanaeth Teithiol fel a ganlyn (defnyddwyr y gwasanaeth misol, nid y gwasanaeth cludo).

	Arfon	Dwyfor	Meirionnydd	Cyfanswm
Oedolion	24	82	68	174
Plant/Pobl Ifanc	1	0	3	4
Caeth i'r Tŷ	91	71	139	301
	116	153	210	479

8. Mewn ymgynghoriad staff a gynhaliwyd yn Tachwedd 2020, (cyfradd ymateb 66%), nododd 90% o staff llyfrgelloedd Gwynedd eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai llyfrgelloedd Gwynedd fod yn cynnig gwasanaeth cludo ar gais i unrhyw un sy'n dymuno hynny. Yn nhrefn nodi blaenoriaeth gwasanaeth, dyma nodwyd:  
Gwasanaeth i'r Cartref misol  
Gwasanaeth Cludo ar gais  
Gwasanaeth Teithiol gyda fan lyfrau
9. Mewn Ymgynghoriad Defnyddwyr a gynhaliwyd yn Rhagfyr-Ionawr 2021, holwyd y cwestiwn A hoffech i'r gwasanaeth Cludo Llyfrau fod ar gael yn y dyfodol – hyd yn oed ar ôl i lyfrgelloedd ail-agor? Allan o 134 o ymatebion, atebodd 83% yr hoffent i'r gwasanaeth barhau i fod ar gael. (87% os ystyrir ymatebion ar-lein yn unig).
10. **Opsiynau darparu'r Gwasanaeth Llyfrgell Teithiol a Chartref a goblygiadau ariannol**  
Gweler yr atodiad sy'n cynnwys asesiad o fanteision ac anfanteision yr opsiynau.

**Opsiwn 1**

Gwasanaeth Cartref (misol) a Chludo Eitemau i'r Cartref yn cael ei darparu gan 2\*\* Gerbyd llai\* a gyrrwr yr un:-

1- Arfon/ Dwyfor

2 – Meirionnydd

\*faniau trydan/hybrid

\*\*Yn dilyn ymddeoliad gyrrwr yn y 1-2 flynedd nesaf. Byddai un gyrrwr a cherbyd yr un i Arfon a Dwyfor yn ystod y cyfnod cyn hyn.

Opsiwn 1 – Cam 1-2	Arbed costau rhedeg 1 cerbyd Arbedion cyflogaeth 1 gyrrwr llawn amser Costau rhedeg is i gerbydau llai (x 2)  Arbedion pwrcasu cerbydau mawr yn y tymor hir (x3). Cost cerbyd presennol tua £100k yr un.	£4K  £25K  £3-4K  Arbedion adnewyddu cerbydau yn y dyfodol (£20-40K+ i adnewyddu yn 2021 a pheidio a phrynu cerbyd mawr)
-----------------------	--	--

**Opsiwn 2**

Gwasanaeth Cartref (misol) a Chludo Eitemau i'r Cartref yn cael ei darparu gan 2 Gerbyd llai\* a gyrrwr yr un:-

1- Arfon/Dwyfor

1 Meirionnydd

Yn ogystal â Gwasanaeth Teithiol (misol) yn cael ei ddarparu gan 1 cerbyd ac 1 gyrrwr i'r sir.

1 - Teithiol

\*faniau trydan/hybrid

Opsiwn 2	Arbedion costau rhedeg 2 gerbyd llai yn cael eu gwrth-wneud gyda chostau rhedeg cerbyd Teithiol sirol Arbedion pwrcasu cerbydau mawr (x 2) yn y tymor hir	£0  Arbedion adnewyddu cerbydau yn y dyfodol (£20-40K+ i adnewyddu yn 2021 drwy beidio adnewyddu cerbyd mawr a phwrcasu cerbydau llai)
----------	--	--

**Opsiwn 3**

Cadw'r status quo, sef 3 cerbyd Teithiol gyda gyrrwr yr un yn cyflenwi Gwasanaeth Cartref (misol) a Teithiol (misol)

1 – Arfon

1 – Dwyfor

1 - Meirionnydd

Opsiwn 3	Dim arbedion	£0
----------	--------------	----

O dderbyn arweiniad y Tîm Arweinyddiaeth ar yr egwyddorion hyn, yr amserlen fyddai:

Chwefror 2021	Derbyn arweiniad ar yr opsiwn a ffefrir
Chwefror 2021	Datblygu model gweithredu
Mawrth 2021	Ymgynghori gyda defnyddwyr
Ebrill 2021	Adroddiad i'r Cabinet i gytuno ar y ffordd ymlaen
Mai 2021	Gweithredu'r model newydd

### Casgliad

O ystyried y dystiolaeth yn yr adroddiad a'r ymgysylltu sydd wedi ei wneud hyd yma, mae'r Gwasanaeth yn ffafrio mabwysiadu Opsiwn 1 fel y model darparu a gweithredu gorau i'r dyfodol.

Yn amlwg, mae'r cyfnod clo wedi amlygu beth sy'n bwysig i drigolion Gwynedd o ran gwasanaethau Llyfrgell, ac mae gallu archebu a derbyn llyfrau i'r cartref ar gais yn un o'r anghenion hynny. Yn ystod y cyfnod hwn, nid ydym wedi derbyn yr un sylw am y diffyg argaeledd cerbyd Llyfrgell Deithiol mewn pentref neu stad dai. Yn ystod y cyfnod clo felly, ceir mynediad at eitemau llyfrgell mewn modd gwahanol sy'n cwrdd a'r galw gan bobl Gwynedd, ac efallai fod presenoldeb cerbyd llyfrgell fel man ymgynnull mewn cymunedau gwledig bellach ddim yn cymaint o ffactor wrth ddarparu a chyflenwi gwasanaeth ag y bu.

Croesewir arweiniad gan Aelodau ar gynnwys yr adroddiad a'r cyfeiriad y dylid ei ddilyn ar gyfer y Gwasanaeth Teithiol Llyfrgelloedd i'r dyfodol.

### Aseiad Effaith Cydraddoldeb

[https://timau/safle/llyfrgelloedd/GwasLlyfr/Adfer%20Gwasanaeth%20%20Covid19/GwasCludo\\_Aseiad%20effaith%20cydraddoldeb.doc](https://timau/safle/llyfrgelloedd/GwasLlyfr/Adfer%20Gwasanaeth%20%20Covid19/GwasCludo_Aseiad%20effaith%20cydraddoldeb.doc)

### ATODIAD 1

	Manteision	Anfanteision
<p><b>Opsiwn 1 – Cam 1</b> Gwasanaeth Cartref (misol) a Chludo Eitemau i'r Cartref yn cael ei darparu gan 3 Cerbyd llai* a gyrrwr yr un:- 1– Arfon 2. Dwyfor 3. Meirionnydd</p> <p>*faniau trydan/hybrid</p>	<p>Gallu rhoi gwasanaeth i bawb sydd yn gymwys i dderbyn gwasanaeth misol ar hyn o bryd trwy fynd a pheccynau darllen i'r cartref a hefyd gallu cynnig gwasanaeth cludo ar ofyn.</p> <p>Arbediad rhedeg 1 cerbyd a chyflogi 1 gyrrwr yn y tymor canol</p> <p>Gallu cynnig gwasanaeth cludo ar gais yn ychwanegol gan ddileu rhwystrau presennol i ddefnydd llyfrgell e.e. prysurdeb defnyddwyr/oriau agor anghyfleus/problemau trafndiaeth</p>	<p>Methu'r targed WPLS/SLICC</p> <p>Gwyro oddi wrth argymhellion y Swyddfa Archwilio gan fod y gwasanaeth yn newid</p> <p>Ddim yn gallu cynnig cyfle i ddefnyddwyr ddod ar y fan i ddewis llyfrau/gweld defnyddwyr eraill</p> <p>Cael ei weld efallai fel toriad gwasanaeth – er bod pawb sydd eisiau gwasanaeth yn gallu parhau i dderbyn gwasanaeth fel arfer.</p>
<p><b>Opsiwn 1 – Cam 2</b> Gwasanaeth Cartref (misol) a Chludo Eitemau i'r Cartref yn cael ei darparu gan 2** Gerbyd llai* a gyrrwr yr un:-</p>		

<p>1– Arfon/ Dwyfor 2 - Meirionnydd</p> <p>**Yn dilyn ymddeoliad gyrrwr yn y 1-2 flynedd nesaf</p>	<p>Gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r gwasanaeth Llyfrgell.</p> <p>Gyrrwr yn hoffi'r dull newydd o weithio.</p> <p>Lleihau ol-troed carbon oherwydd defnydd tanwydd is i gerbydau llai a fydd yn gerbydau trydan/hybrid.</p>	
<p><b>Opsiwn 2</b></p> <p>Gwasanaeth Cartref (misol) a Chludo Eitemau i'r Cartref yn cael ei darparu gan 2 Gerbyd llai* a gyrrwr yr un:- 1– Arfon/Dwyfor 1 Meirionnydd</p> <p>Yn ogystal â Gwasanaeth Teithiol (misol) yn cael ei ddarparu gan 1 cerbyd ac 1 gyrrwr i'r sir. 1 - Teithiol</p> <p>*faniau trydan/hybrid</p>	<p>Cyrraedd targed presennol WPLS/SLICC</p> <p>Mewn lle gwell i gyflawni argymhellion y Swyddfa Archwilio</p> <p>Gallu cynnig cyfle i ddefnyddwyr ddod ar y fan i ddewis llyfrau/gweld defnyddwyr eraill</p> <p>Gallu cyflenwi gwasanaeth i'r Cartref a gwasanaeth cludo ar gais</p>	<p>Dim arbedion</p> <p>Defnydd isel yn cael ei ragweld i'r Gwasanaeth Teithiol, felly cost uchel o ran defnydd.</p> <p>Rhai arosfannau yn denu 0 defnyddwyr dros gyfnodau hir o amser.</p> <p>Angen hyrwyddo parhaus.</p> <p>Arbediad carbon is.</p> <p>Bodlondeb swydd is i'r gyrrwr Teithiol, a hefyd oblygiadau cartrefu'r cerbyd mewn lleoliad canolog i'r sir e.e. Porthmadog - os yw hyn yn bosib. Pellter teithio mawr o'r 'depot' felly y cerbyd ar y lon am amser hir iawn. Mwy gwastrafflyd o adnoddau.</p>
<p><b>Opsiwn 3</b></p> <p>Cadw'r status quo, sef 3 cerbyd Teithiol gyda gyrrwr yr un yn cyflenwi Gwasanaeth Cartref (misol) a Teithiol (misol) 1 – Arfon 1 – Dwyfor 1 - Meirionnydd</p>	<p>Cyrraedd targed presennol WPLS/SLICC</p> <p>Mewn lle gwell i gyflawni argymhellion y Swyddfa Archwilio</p> <p>Gallu cynnig cyfle i ddefnyddwyr ddod ar y fan i ddewis llyfrau/gweld defnyddwyr eraill</p>	<p>Dim arbedion</p> <p>Defnydd isel yn cael ei ragweld i'r Gwasanaeth Teithiol, felly ddim y defnydd gorau o adnoddau'r gwasanaeth.</p> <p>Dileu'r gwasanaeth Cludo presennol - ddim yn gallu cynnig gwasanaeth Cludo oherwydd maint y cerbydau (problem a nodwyd gan gyrrwr Llyfrgell Meirionnydd) ac oblygiadau hygyrchedd ac amser</p> <p>Cael ei weld fel cam yn ôl o wasanaeth sydd wedi profi'n llwyddiannus a phoblogaidd. Symud am yn ôl nid ymlaen.</p> <p>Dim arbedion carbon</p>

		Mynd yn groes i deimladau a blaenoriaethau staff.
--	--	---